# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 9 Mai 2012
Wednesday, 9 May 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

22 Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

44 Cynnig i Ddirymu Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012
Motion to Annul the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012

49 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog Rhif 11.21(iv): Colli Golwg
Debate by Individual Members under Standing Order No. 11.21(iv): Sight Loss

68 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Dyfodol y GIG yng Nghymru
Welsh Conservatives Debate: The Future of the Welsh NHS

93 Dadl Plaid Cymru: Diweithdra
Plaid Cymru Debate: Unemployment

122 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
## Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

### Gonestrwydd Ariannol

### Financial Probity

***1. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog egluro sut y sicrheir gonestrwydd ariannol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0108(FIN)*

***1. Eluned Parrott:*** *Will the Minister explain how the financial probity of Welsh Government Sponsored Bodies is ensured. OAQ(4)0108(FIN)*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Each Welsh Government sponsored body has a designated accounting officer who has responsibility for the regularity and propriety of their organisation's finances and ensuring that value for money is achieved. The framework and control documents issued to each WGSB set out the Welsh Government's expectations on the management of public funds.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gan bob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru swyddog cyfrifyddu penodedig sy'n gyfrifol am reoleidd-dra a phriodoldeb materion ariannol eu sefydliad ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni. Mae'r dogfennau fframwaith a rheolaeth a roddir i bob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli arian cyhoeddus.

**Eluned Parrott:** You may be aware that, at the Public Accounts Committee on 24 April, Dame Gillian Morgan explained to us that no central list of grants was kept by the Welsh Government as funds were channelled through what she described as a series of third-party proxies. Was the All Wales Ethnic Minority Association once such proxy?

**Eluned Parrott:** Efallai eich bod yn ymwybodol i'r Fonesig Gillian Morgan, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 24 Ebrill, egluro wrthym nad oedd rhestr ganolog o grantiau'n cael ei chadw gan Lywodraeth Cymru gan fod arian yn cael ei sianelu drwy'r hyn a gâi ei ddisgrifio ganddi fel cyfres o ddirprwyon trydydd parti. A oedd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn ddirprwy o'r fath ar un adeg?

**Jane Hutt:** The grants management project, as you know, has been set up to improve grants management across the Welsh Government. I am glad that the Public Accounts Committee is looking at this carefully. In due course, the Public Accounts Committee will receive the Wales Audit Office's report on AWEMA.

**Jane Hutt:** Mae'r prosiect rheoli grantiau, fel y gwyddoch, wedi cael ei sefydlu er mwyn gwella'r broses o reoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Rwyf yn falch bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar y mater yn ofalus. Maes o law, bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cael adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar AWEMA.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** It is important that the probity of funded bodies can be scrutinised by members of the public so that they can ensure and have

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Mae'n bwysig bod modd i aelodau'r cyhoedd graffu ar onestrwydd cyrff a ariennir, er mwyn iddynt allu sicrhau

the confidence that money is being spent wisely. The Public Accounts Committee and other bodies have highlighted anomalies in the funding process—AWEMA being one of them. The Welsh Government seems to have been slow to react when observations are made and concerns are expressed. What confidence do you have that the safeguards that you have highlighted this afternoon are sufficiently robust for the public to have confidence that where public money is placed, it is spent with the right intentions?

bod arian yn cael ei wario'n ddoeth a theimlo'n hyderus bod hynny'n digwydd. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a chyrff eraill wedi tynnu sylw at anghysonderau yn y broses gyllido—ac mae AWEMA yn un ohonynt. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn araf i ymateb pan gaiff sylwadau eu gwneud a phan gaiff pryderon eu mynegi. I ba raddau yr ydych yn hyderus bod y trefniadau diogelu yr ydych wedi tynnu sylw atynt y prynhawn yma'n ddigon cadarn i alluogi'r cyhoedd i fod yn hyderus bod arian cyhoeddus, lle y caiff ei roi, yn cael ei wario gyda'r bwriadau cywir?

**Jane Hutt:** I thank the leader of the opposition for that question. The financial and operational integrity of the bodies that we fund is considered through a number of mechanisms that the grants management project is implementing. Just one example is that it has benchmarked over 450 grant funding schemes in all sectors against a set of minimum standards, and those standards are based on good practice approaches to determine who the Government funds. Conditions attached to the funding include promoting more rigour in the monitoring of bodies' claims for payment and their progress towards achieving agreed objectives.

**Jane Hutt:** Hoffwn ddiolch i arweinydd yr wrthblaid am y cwestiwn hwnnw. Caiff cywirdeb ariannol a gweithredol y cyrff a ariennir gennym ei ystyried drwy nifer o systemau y mae'r prosiect rheoli grantiau'n eu gweithredu. Un enghraifft yn unig yw ei fod wedi meincnodi dros 450 o gynlluniau cyllid grant ym mhob sector yn erbyn cyfres o safonau gofynnol, ac mae'r safonau hynny wedi eu seilio ar agweddau ar arfer da i benderfynu pwy y mae'r Llywodraeth yn ei ariannu. Mae amodau sydd ynghlwm wrth y cyllid yn cynnwys hyrwyddo mwy o drylwyredd wrth fonitro ceisiadau cyrff am daliadau a monitro eu cynnydd tuag at gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n cymryd bod eich ateb i gwestiwn atodol Eluned Parrott yn gydnabyddiaeth fod AWEMA yn y sefyllfa hon o ran ariannu. A allwch chi roi sicrwydd y prynhawn yma y bydd tryloywder llwyr ynghylch sefyllfa ariannol AWEMA a'r berthynas â Llywodraeth Cymru pan fydd yr ymchwiliad yn cyhoeddi ei gasgliadau? A ydych chi bellach mewn sefyllfa i ddweud pryd bydd yr ymchwiliad yn dod i ben a phryd bydd cyhoeddiad ar y mater hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** I assume that your answer to Eluned Parrott's supplementary question is an acknowledgement that AWEMA is in this position from the point of view of funding. Can you give us an assurance this afternoon that there will be complete transparency regarding the financial position of AWEMA and the relationship with the Welsh Government when the inquiry publishes its conclusions? Are you now in a position to tell us when the inquiry will be completed and when the announcement on this matter will be made?

**Jane Hutt:** As I have already said, the Welsh audit review is being undertaken and a report will be delivered to the Public Accounts Committee. It is now making contact with key individuals. It would be inappropriate at this stage to comment on the detail of the Wales Audit Office's report, but I assure Members that I will ensure that the findings, through the

**Jane Hutt:** Fel yr wyf wedi dweud eisoes, mae adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gynnal, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae bellach yn cysylltu ag unigolion allweddol. Ni fyddai'n briodol ar hyn o bryd gwneud sylwadau ar fanylion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ond

Public Accounts Committee, are fully considered and implemented.

hoffwn roi sicrwydd i'r Aelodau y byddaf yn gwneud yn siŵr bod y canfyddiadau, drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith yn llawn.

**Y Portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth**

**The Housing, Regeneration and Heritage Portfolio**

***2. Mark Isherwood:*** *Beth oedd blaenoriaethau'r Gweinidog wrth ddyrannu'r gyllideb ar gyfer y portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth. OAQ(4)0110(FIN)*

***2. Mark Isherwood:*** *What were the Minister's priorities when allocating the budget for the Housing, Regeneration and Heritage portfolio. OAQ(4)0110(FIN)*

**Jane Hutt:** Our priorities were set out in the budget for growth and jobs approved in December. These spending plans outline how we will deliver our commitments in the programme for government, including within the housing, regeneration and heritage portfolio.

**Jane Hutt:** Cafodd ein blaenoriaethau eu nodi yn y gyllideb ar gyfer twf a swyddi a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr. Mae'r cynlluniau gwariant hyn yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiadau yn y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys yn y portffolio tai, adfywio a threftadaeth.

**Mark Isherwood:** What consideration have you and your colleague, the Minister for housing, Huw Lewis, given to proposals by the College of Occupational Therapists in relation to housing adaptations, where they say that a single tenure blind funding system, meeting people's varying needs in the home, could be simple to explain, have clear expectations, but, most importantly, be more efficient and cost-effective for you as the Welsh Government delivering this support?

**Mark Isherwood:** Pa ystyriaeth yr ydych chi a'ch cydweithiwr, y Gweinidog Tai, Huw Lewis, wedi'i rhoi i gynigion gan Goleg y Therapyddion Galwedigaethol yng nghyswllt addasiadau i dai, lle y maent yn dweud y gallai un system gyllido nad yw'n ystyried deiliadaeth ac sy'n diwallu anghenion amrywiol pobl yn y cartref, fod yn syml i'w hegluro, bod â disgwyliadau clir, ond, yn bwysicaf oll, bod yn fwy effeithlon a chost-effeithiol i chi fel Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cymorth hwn?

**Jane Hutt:** I am aware that the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, cross-linking with the Minister for Health and Social Services, are aware of those proposals. The physical adaptation scheme helps to achieve those objectives.

**Jane Hutt:** Rwyf yn ymwybodol bod y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, drwy groesgysylltu â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ymwybodol o'r cynigion hynny. Mae'r cynllun addasiadau ffisegol yn helpu i gyflawni'r amcanion hynny.

**Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf**

**Capital Investment Plans**

***3. Elin Jones:*** *Beth yw cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Llywodraeth am y 6 mis nesaf. OAQ(4)0113(FIN)*

***3. Elin Jones:*** *What are the Government's capital investment plans for the next 6 months. (OAQ(4)0113(FIN)*

**Jane Hutt:** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru flaengynlluniau manwl ar wariant ar gyfer 2012-13 yn y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr.

**Jane Hutt:** The Welsh Government published detailed forward spending plans for 2012-13 in the final budget in December.

**Elin Jones:** Minister, local health boards will

**Elin Jones:** Weinidog, bydd byrddau iechyd

be submitting capital bids in line with their local priorities over the next six months and beyond. Some will be large projects and some will be smaller projects. How will you ensure, as Finance Minister, with a tight capital budget, that national priorities are funded, rather than it being a case of first come, first served from local health boards?

lleol yn cyflwyno ceisiadau cyfalaf yn unol â'u blaenoriaethau lleol dros y chwe mis nesaf ac wedi hynny. Bydd rhai'n brosiectau mawr a bydd eraill yn brosiectau llai. Sut y byddwch yn sicrhau, fel y Gweinidog Cyllid, gyda chyllideb gyfalaf dynn, bod blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu cyllido, yn hytrach na bod cyllido'n digwydd ar sail y cyntaf i'r felin o safbwynt byrddau iechyd lleol?

**Jane Hutt:** It is very important that our Wales infrastructure investment plan, which I will be launching and bringing to the Chamber in the next couple of weeks, will identify key strategic investment priorities for Wales, and that will include a detailed project pipeline for the next two to three years, as well as the direction of travel for the longer term, including the health and social services portfolio.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig iawn bod ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, y byddaf yn ei lansio ac yn ei gyflwyno i'r Siambr yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, yn nodi blaenoriaethau buddsoddi strategol allweddol ar gyfer Cymru, a bydd yn cynnwys rhestr fanwl o brosiectau arfaethedig ar gyfer y ddwy i'r tair blynedd nesaf, yn ogystal â'r cyfeiriad y bwriedir mynd iddo yn y tymor hwy, gan gynnwys yng nghyswllt y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Kenneth Skates:** Today, as we know, is the day that our colleagues on the blue benches look forward to for 364 days a year; it is, of course, Europe Day. The Welsh Government has in recent years helped provide important funding to support the European Centre for Training and Regional Co-operation in Llangollen, which enables young people from across Wales to participate in language study and work experience and exchange programmes across the EU. Minister, will you examine how the Welsh Government can support such vital pan-European exchange programmes in the future, and ensure that Wales actively fosters important economic and cultural links with other EU countries?

**Kenneth Skates:** Heddiw, fel y gwyddom, yw'r diwrnod y mae ein cydweithwyr ar y meinciau glas yn edrych ymlaen ato am 364 diwrnod o'r flwyddyn; heddiw, wrth gwrs, yw Diwrnod Ewrop. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i ddarparu cyllid pwysig i gefnogi'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithrediad Rhanbarthol yn Llangollen, sy'n galluogi pobl ifanc o bob cwr o Gymru i astudio ieithoedd a chymryd rhan mewn profiad gwaith a rhaglenni cyfnewid ar draws yr UE. Weinidog, a wnewch chi archwilio sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi rhaglenni cyfnewid hanfodol o'r fath ledled Ewrop yn y dyfodol, a sicrhau bod Cymru yn mynd ati'n weithredol i feithrin cysylltiadau economaidd a diwylliannol pwysig â gwledydd eraill yr UE?

**Jane Hutt:** I thank Ken Skates for that question. The Welsh Government continues to be supportive of mobility programmes, such as those run by ECTARC, to help to improve the employability of young people in Wales.

**Jane Hutt:** Diolch i Ken Skates am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n gefnogol i raglenni symudedd, megis y rhai a gaiff eu gweithredu gan y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithrediad Rhanbarthol, er mwyn helpu i wella cyflogadwyedd pobl ifanc yng Nghymru.

**Paul Davies:** I am sure that one of the Welsh

**Paul Davies:** Rwyf yn siŵr mai un o brif

Government's main priorities when considering capital investment projects in the next six months is to achieve value for money, especially during this particularly difficult financial climate. However, figures revealed recently showed that more than £14 million was spent on furniture and repairs on the Welsh Government estate last year, which represents a 50% increase on the previous financial year. Can the Minister tell us why there was a 50% increase in spending last year, given the tight financial circumstances we find ourselves in?

flaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ystyried prosiectau buddsoddi cyfalaf yn ystod y chwe mis nesaf fydd sicrhau gwerth am arian, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol arbennig o anodd sydd ohoni. Fodd bynnag, dangosodd ffigurau a ddatgelwyd yn ddiweddar fod dros £14 miliwn wedi'i wario ar ddodrefn a gwaith atgyweirio ar ystâd Llywodraeth Cymru y llynedd, sy'n gynnydd o 50% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. A all y Gweinidog ddweud wrthym pam y bu cynnydd o 50% mewn gwariant y llynedd, o gofio ein hamgylchiadau ariannol tynn?

**Jane Hutt:** In response to the question by the finance spokesperson for the Welsh Conservatives, we aim to be as efficient as possible, particularly in terms of spend on our own estate, and I will write to him on this point. However, this relates to relocation, which will save millions of pounds in terms of the Welsh estate.

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i'r cwestiwn gan lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig ar gyllid, ein nod yw bod mor effeithlon ag sy'n bosibl, yn enwedig o ran gwariant ar ein hystâd ein hunain, a byddaf yn ysgrifennu ato ynghylch y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, mae a wnelo hyn ag adleoli, a fydd yn arbed miliynau o bunnoedd o ran yr ystâd yng Nghymru.

**Paul Davies:** It is essential that your Government ensures efficiency and value for money, and that objective should be at the top of your agenda. Given the huge increase in spending on the Welsh Government estate last year, will you today commit to reviewing the maintenance and repair contracts to ensure that every pound spent is being spent effectively?

**Paul Davies:** Mae'n hanfodol bod eich Llywodraeth yn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, a dylai'r amcan hwnnw fod ar frig eich agenda. O ystyried y cynnydd enfawr mewn gwariant ar ystâd Llywodraeth Cymru y llynedd, a wnewch chi ymrwymo heddiw i adolygu'r contractau cynnal a chadw ac atgyweirio i sicrhau bod pob punt a gaiff ei gwario'n cael ei gwario'n effeithiol?

**Jane Hutt:** I certainly have no quibble with the finance spokesperson on this matter. Clearly, efficiency and effectiveness in terms of the spend on our estate is a key priority.

**Jane Hutt:** Nid wyf yn anghytuno o gwbl â'r llefarydd ar gyllid ar y mater hwn. Mae'n amlwg bod effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran gwariant ar ein hystâd yn flaenoriaeth allweddol.

**Peter Black:** You know, as I do, that the key to ensuring that we maximise our capital spend is utilising alternative sources of finance. Will you therefore give us an update as to where the Welsh Government is with regard to the housing bond issue, which is being put together by the Welsh housing sector?

**Peter Black:** Rydych chithau, fel finnau, yn gwybod mai'r allwedd i sicrhau ein bod yn gwneud yn fawr o'n gwariant cyfalaf yw defnyddio ffynonellau cyllid amgen. Felly, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch ble y mae Llywodraeth Cymru arni o ran y mater sy'n ymwneud â'r bond tai, sy'n cael ei roi at ei gilydd gan y sector tai yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I am very glad to update you on this matter. We are working very closely with the Minister for Housing, Regeneration and

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch iawn o allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y mater hwn. Rydym yn gweithio'n agos iawn

Heritage on innovative sources of finance, not only building on our Welsh housing partnership, but working with our registered social landlords on the opportunities for a Welsh bond.

gyda'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar ffynonellau cyllid arloesol, nid yn unig gan adeiladu ar ein partneriaeth â'r sector tai yng Nghymru, ond gan weithio gyda'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar y cyfleoedd i gael bond Cymreig.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. What sort of timescale are we looking at before you will be in a position to make an announcement on that bond?

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Faint o amser y bydd arnoch ei angen cyn y byddwch mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad am y bond hwnnw?

**Jane Hutt:** I will certainly report on it when I make my statement on the Wales infrastructure investment plan on 22 May.

**Jane Hutt:** Byddaf yn sicr yn adrodd yn ei gylch pan fyddaf yn cyflwyno fy natganiad ar y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru ar 22 Mai.

**Blaenoriaethau ar gyfer Llanelli**

**Priorities for Llanelli**

***4. Keith Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaeth ar gyfer Llanelli dros y tymor Cynulliad hwn. OAQ(4)0121(FIN)*

***4. Keith Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for Llanelli for this Assembly term. OAQ(4)0121(FIN)*

**Jane Hutt:** Cafodd ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru gyfan eu nodi yn y gyllideb twf a swyddi.

**Jane Hutt:** Our priorities for the whole of Wales were set out in the budget for growth and jobs.

**Keith Davies:** Diolch yn fawr am yr ateb. Gan ein bod ni'n genedl â thraddodiadau cymunedol, croesawaf bolisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi pwyslais ar fanteision cymunedol. Mae cwmnïau sy'n ennill cytundebau bellach yn gallu darparu mantais leol, megis prentisiaethau. A ydych yn cytuno â mi fod hyn yn cyd-fynd â nod Llywodraeth Cymru i hybu'r economi, yn enwedig yn sgîl y toriadau a wnaed gan Lywodraeth San Steffan?

**Keith Davies:** Thank you very much for that response. As we are a nation with community traditions, I welcome the public procurement policy of the Welsh Government, which places an emphasis on community interests. It is now possible for companies that win contracts to provide local benefit, such as apprenticeships. Do you agree that this goes hand in hand with the Welsh Government's objective of promoting the economy, particularly given the cuts made by the Westminster Government?

**Jane Hutt:** I certainly agree with you. We are proving that; the community benefits approach has been applied to more than £3.4 billion-worth of contracts to date, and Value Wales officials are currently supporting some 50 projects across Wales. Where the tool has been applied effectively, Welsh contractors are winning up to 90% of the overall contract value through subcontracting opportunities.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr yn cytuno â chi. Rydym yn profi hynny; mae'r dull gweithredu sy'n ymwneud â manteision cymunedol wedi'i roi ar waith yng nghyswllt contractau sy'n werth dros £3.4 biliwn hyd yn hyn, ac mae swyddogion Gwerth Cymru yn cynorthwyo tua 50 o brosiectau ledled Cymru ar hyn o bryd. Mewn achosion lle y mae'r adnodd wedi'i roi ar waith yn effeithiol, mae contractwyr Cymru yn ennill hyd at 90% o werth cyffredinol y contract, drwy gyfleoedd is-gontractio.

**Simon Thomas:** A priority of the people of the Llanelli is to keep their health services in good working order, not to see ward closures and discharges from hospital at midnight, as has happened recently. You have allowed other health boards in Wales to overspend. Have you been robbing the people of Llanelli and the Hywel Dda health board in order to allow that overspend elsewhere in Wales?

**Simon Thomas:** Un o flaenoriaethau pobl Llanelli yw cadw eu gwasanaethau iechyd mewn cyflwr da, a pheidio â gweld wardiau'n cau a gweld cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty am hanner nos, fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Rydych wedi caniatáu i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru orwario. A ydych wedi bod yn dwyn oddi ar bobl Llanelli a bwrdd iechyd Hywel Dda er mwyn caniatáu gorwariant mewn mannau eraill yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I refute that, as I know would the Minister for Health and Social Services. Clearly, we are seeking to support local health boards through the changes they are making to modernise the health service. That is what we have done through investment in Hywel Dda LHB.

**Jane Hutt:** Rwyf yn gwrthod hynny, a gwn y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrthod hynny hefyd. Mae'n amlwg ein bod yn ceisio cefnogi byrddau iechyd lleol drwy'r newidiadau y maent yn eu gwneud i foderneiddio'r gwasanaeth iechyd. Dyna'r ydym wedi'i wneud drwy fuddsoddi ym mwrdd iechyd lleol Hywel Dda.

**The Presiding Officer:** Question 5, OAQ(4)0112(FIN), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(4)0112(FIN), yn ôl.

**Comisiwn Silk**

**The Silk Commission**

***6. Simon Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynglŷn â Chomisiwn Silk. OAQ(4)0119(FIN)*

***6. Simon Thomas:*** *What recent discussions has the Minister had regarding the Silk Commission. OAQ(4)0119(FIN)*

**Jane Hutt:** Trafodais gomisiwn Silk gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys pan wnaethon ni gyfarfod y mis diwethaf.

**Jane Hutt:** I discussed the Silk commission with the Chief Secretary to the Treasury when we met last month.

**Simon Thomas:** Fel y gwyddoch, penderfyniad eich Llywodraeth chi, ar y cyd â Llywodraeth San Steffan, oedd trafod comisiwn Silk yn hollol ar wahân i Holtham, llawr Barnett a phwerau benthyca. Serch hynny, rydych chi a'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir fod pwerau benthyca yn hollbwysig i ddatrys y dirwasgiad yng Nghymru. A ydych chi wedi gwneud camgymeriad drwy beidio â thrafod hyn gyda Silk? A ydych chi'n ffyddiog y byddwch yn setlo'r mater hwn cyn bod rhan gyntaf comisiwn Silk yn adrodd?

**Simon Thomas:** As you know, your Government's decision jointly with the Westminster Government was to discuss the Silk commission completely separately from Holtham, the Barnett floor and borrowing powers. However, you and your First Minister have made it clear that borrowing powers are crucial in getting to grips with the recession in Wales. Therefore, have you made a mistake by not discussing this with Silk? Are you confident that you will be able to settle this matter before part 1 of the Silk commission reports?

**Jane Hutt:** Simon Thomas makes an important point about the pre-eminence of the intergovernmental talks taking place between the Welsh Government and the UK coalition Government. When I met the Chief Secretary

**Jane Hutt:** Mae Simon Thomas yn gwneud pwynt pwysig am arwyddocâd y trafodaethau rhynglywodraethol sy'n digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth glymblaid y DU. Pan gyfarfûm

to the Treasury last month, I reiterated the Welsh Government's commitment to constructive engagement with the commission and emphasised the need for a comprehensive set of reforms to secure fair and accountable funding for Wales. The commission's work is running in parallel with our ongoing talks with the Treasury. A fairer funding formula and access to existing borrowing powers are essential to help the Silk commission with its deliberations.

â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys fis diwethaf, bu imi ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i waith ymgysylltu adeiladol gyda'r comisiwn, a phwysleisiais yr angen am gyfres gynhwysfawr o ddiwygiadau i sicrhau cyllid teg ac atebol i Gymru. Mae gwaith y comisiwn yn digwydd ochr yn ochr â'n trafodaethau parhaus â'r Trysorlys. Mae fformiwla ariannu decach a mynediad i bwerau benthyca sy'n bodoli eisoes yn hanfodol i helpu comisiwn Silk gyda'i drafodaethau.

**Suzy Davies:** Minister, the Welsh Government has spent around £8 million on conducting surveys. What have you asked in any of those surveys that will inform your response to the Silk commission?

**Suzy Davies:** Weinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario tua £8 miliwn ar gynnal arolygon. Beth yr ydych wedi ei ofyn, yn unrhyw un o'r arolygon hynny, a fydd yn llywio eich ymateb i gomisiwn Silk?

**Jane Hutt:** Clearly, surveys provide us with the information and evidence we need to ensure that we have the appropriate policies in place and to underpin and inform our legislative programme.

**Jane Hutt:** Yn amlwg, mae arolygon yn rhoi'r wybodaeth a'r dystiolaeth y mae arnom eu hangen er mwyn sicrhau bod y polisïau priodol gennym ar waith ac er mwyn ategu a llywio ein rhaglen ddeddfwriaethol.

**Pwerau Benthyca**

**Borrowing Powers**

***7. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0109(FIN)*

***7. Mike Hedges:*** *Will the Minister provide an update on any progress that has been made in securing borrowing powers for the Welsh Government. OAQ(4)0109(FIN)*

**Jane Hutt:** Discussions with the Treasury on enabling the Welsh Government to use its existing borrowing powers are continuing and should finish by the summer. In parallel, the Silk commission is looking at devolving additional fiscal powers to Wales. Its report is due to be published by the end of the year.

**Jane Hutt:** Mae trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch galluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau benthyca presennol yn parhau, a dylent orffen erbyn yr haf. Ar yr un pryd, mae comisiwn Silk yn ystyried datganoli pwerau ariannol ychwanegol i Gymru. Disgwylir i'w adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

**Mike Hedges:** Thank you for your response, Minister. Every single local authority in Wales, from newly Labour Cardiff to smaller authorities, such as newly Labour Blaenau Gwent and newly Labour Merthyr, have the ability to borrow. Does the Minister agree that, when it comes to capital expenditure and borrowing, the Welsh Government should have at least the same borrowing powers of local authorities and other devolved nations in the United Kingdom so that we can invest adequately in Welsh infrastructure projects and get people back to work?

**Mike Hedges:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Mae gan bob awdurdod lleol unigol yng Nghymru, o awdurdod lleol Caerdydd sydd newydd droi'n Llafur i awdurdodau llai, megis Blaenau Gwent sydd newydd droi'n Llafur a Merthyr sydd newydd droi'n Llafur, y gallu i fenthyca. A yw'r Gweinidog yn cytuno, pan ddaw'n fater o wariant cyfalaf a benthyca, y dylai Llywodraeth Cymru fod â'r un pwerau benthyca ag awdurdodau lleol a gwledydd datganoledig eraill y Deyrnas Unedig, o leiaf, fel y gallwn fuddsoddi'n ddigonol

mewn prosiectau seilwaith yng Nghymru a chael pobl i ailddechrau gweithio?

**Jane Hutt:** In agreeing with that, I wish to say that the Welsh budget for capital expenditure has been cut by more than 40% in real terms over five years. It puts a major constraint on our ability to invest in Wales's infrastructure and support the Welsh economy. Early acquisition of borrowing powers would help us to offset the damaging impact of these cuts.

**Jane Hutt:** Wrth gytuno â hynny, hoffwn ddweud bod cyllideb Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf wedi cael ei thorri dros 40% mewn termau real dros bum mlynedd. Mae'n cyfyngu'n fawr ar ein gallu i fuddsoddi yn seilwaith Cymru a chefnogi economi Cymru. Byddai cael pwerau benthyca'n gynnar yn ein helpu i wrthbwyso effaith niweidiol y toriadau hyn.

1.45 p.m.

**Angela Burns:** I quite agree with Mike Hedges that we need to look at borrowing powers. Indeed, Minister, you will remember that it was a recommendation from the Finance Committee in 2008. Will you agree with me that it is something that we should have? Are you not pleased that this Government, unlike the previous Labour Government, is seriously considering giving us further prudential borrowing powers so that we can raise money for our infrastructure projects? It is a step forward that we never got under the last Labour Government.

**Angela Burns:** Rwyf yn cytuno'n llwyr â Mike Hedges pan ddywed fod angen inni edrych ar bwerau benthyca. Yn wir, Weinidog, fe gofiwch fod hynny'n un o argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn 2008. A wnewch chi gytuno â mi bod y pwerau hynny'n rhywbeth y dylem ei gael? Onid ydych yn falch bod y Llywodraeth hon, yn wahanol i'r Llywodraeth Lafur flaenorol, yn ystyried o ddifrif rhoi rhagor o bwerau benthyca darbodus inni fel y gallwn godi arian ar gyfer ein prosiectau seilwaith? Mae'n gam ymlaen na chawsom erioed mohono dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf.

**Jane Hutt:** I am glad to welcome your contribution this afternoon, because it is vital that the message goes from the Welsh Conservatives to the UK coalition Government that we now need a response on borrowing powers and on the fairer funding settlement. We agree cross-party in the Senedd that we should have those in order for us to progress with the Silk commission's deliberations.

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch o groesawu eich cyfraniad y prynhawn yma, oherwydd mae'n hanfodol bod y Ceidwadwyr Cymreig yn mynd â'r neges i Lywodraeth glymblaid y DU bod arnom angen ymateb yn awr ynghylch pwerau benthyca ac ynghylch y setliad ariannu tecach. Ceir cytundeb trawsbleidiol yn y Senedd y dylem gael y pethau hynny er mwyn inni symud trafodaethau comisiwn Silk yn eu blaen.

**Ieuan Wyn Jones:** Y disgwyl yw y bydd y Trysorlys yn rhoi i Gymru bwerau benthyg sy'n debyg i rai'r Alban, ond ar sail pro rata. Byddai hynny'n rhoi tua £1 biliwn i Gymru fel cyfanswm, gyda chap blynyddol o ryw £120 miliwn. Ai dyna'r rhagdybiaeth rydych chi fel Llywodraeth yn gweithio arni?

**Ieuan Wyn Jones:** It is anticipated that the Treasury will give Wales borrowing powers similar to those given to Scotland, but on a pro rata basis. That would give Wales a total of some £1 billion, with an annual cap of some £120 million. Is that the assumption upon which you as a Government are working?

**Jane Hutt:** Those are the assumptions that we are working on and that we have been building on. As I will be saying in my statement on infrastructure in the next couple of weeks, we need to be clear as to what our infrastructure

**Jane Hutt:** Dyna'r rhagdybiaethau yr ydym yn gweithio arnynt ac yr ydym wedi bod yn adeiladu arnynt. Fel y byddaf yn dweud yn fy natganiad am seilwaith yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, mae angen inni

needs are in terms of our borrowing requirements. As we already have borrowing powers, it is a matter of the UK Government enabling us to use those powers to invest in our infrastructure.

fod yn glir ynghylch yr hyn y mae ar ein seilwaith ei angen o ran ein gofynion benthyca. Gan fod gennym bwerau benthyca eisoes, mae'n fater o gael Llywodraeth y DU i'n galluogi i ddefnyddio'r pwerau hynny i fuddsoddi yn ein seilwaith.

**Ieuan Wyn Jones:** Given that that is your working assumption, that the current value of the capital resources is reducing by £770 million, that borrowing powers will not be given to Scotland until 2015 and that Wales will not have any before then, one would have expected that, if you are going to have that level of borrowing powers, they would be used to meet current commitments rather than new prestige projects. However, the First Minister has been talking about grand new major road schemes rather than meeting the backlog of schools, hospitals and existing transport commitments. What will your Government's priority be in terms of the use of those new borrowing powers?

**Ieuan Wyn Jones:** O ystyried mai dyna yw eich rhagdybiaeth weithredol, bod gwerth presennol yr adnoddau cyfalaf yn gostwng £770 miliwn, na fydd pwerau benthyca'n cael eu rhoi i'r Alban tan 2015 ac na fydd Cymru yn cael pwerau benthyca cyn hynny, byddem wedi disgwyl, os byddwch yn cael y lefel honno o bwerau benthyca, y byddent yn cael eu defnyddio i fodloni ymrwymiadau presennol yn hytrach na chyflawni prosiectau newydd o fri. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog wedi bod yn sôn am gynlluniau ffyrdd mawr newydd a chrand yn hytrach na bodloni ymrwymiadau sydd wedi ôl-gronni yng nghyswllt ysgolion ac ysbytai ac ymrwymiadau presennol o ran trafnidiaeth. Beth fydd blaenoriaeth eich Llywodraeth o ran defnyddio'r pwerau benthyca newydd hynny?

**Jane Hutt:** There is an issue about what we do until we gain access to our existing borrowing powers as a result of the conclusion of our intergovernmental talks and what we do in order to lever in that essential finance for the current capital programme and infrastructure needs, as you mentioned. We are doing that through looking at innovative ways to factor in funding through the borrowing powers of local government and registered social landlords. Through local government, we have the local government borrowing initiative, which is financing our highway improvement schemes across Wales.

**Jane Hutt:** Mae cwestiwn yn codi ynghylch beth y dylem ei wneud nes byddwn yn cael yr hawl i arfer ein pwerau benthyca presennol ar ôl gorffen ein trafodaethau rhynglywodraethol, a beth y dylem ei wneud er mwyn denu'r cyllid hanfodol hwnnw ar gyfer y rhaglen gyfalaf bresennol ac anghenion o ran seilwaith, fel y bu ichi grybwyll. Rydym yn gwneud hynny drwy edrych ar ffyrdd arloesol o ddenu cyllid trwy bwerau benthyca llywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Drwy lywodraeth leol, mae gennym y fenter fenthyca llywodraeth leol, sy'n ariannu ein cynlluniau ar gyfer gwella priffyrdd ar draws Cymru.

### Y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### The Health and Social Services Portfolio

***8. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. OAQ(4)0115(FIN)*

***8. Nick Ramsay:*** *Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Health and Social Services portfolio. OAQ(4)0115(FIN)*

**Jane Hutt:** I published the Government's spending plans for 2012-13 in the final budget that was approved on 6 December 2011. The

**Jane Hutt:** Cyhoeddais gynlluniau gwariant y Llywodraeth ar gyfer 2012-13 yn y gyllideb derfynol a gymeradwywyd ar 6

total departmental expenditure limit budget for health and social services is £6.469 billion, consisting of just over £6 billion in revenue funding and £241 million in capital funding.

Rhagfyr 2011. Cyfanswm y gyllideb terfyn gwariant adrannol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw £6.469 biliwn, sy'n cynnwys ychydig dros £6 biliwn o gyllid refeniw a £241 miliwn o gyllid cyfalaf.

**Nick Ramsay:** Thank you, Minister, for that answer. It was Tony Blair who once coined the phrase 'New Labour' and today Mike Hedges has coined the phrase 'newly Labour'. Given the budget issues that we have had with the local health boards and your need to bail them out to the tune of some £12 million, as alluded to in Simon Thomas's question, and the obvious pressures that the health service in Wales is increasingly under, do you now regret the 8.4% cut that the Welsh Labour Government is making in real terms to the health budget in Wales over the next three years?

**Nick Ramsay:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Tony Blair oedd yr un a fathodd yr ymadrodd 'Llafur Newydd' unwaith, a heddiw mae Mike Hedges wedi bathu'r ymadrodd 'sydd newydd droi'n Llafur'. O ystyried y problemau cyllidebol yr ydym wedi'u cael gyda'r byrddau iechyd lleol, a'r angen ichi achub eu croen ag oddeutu £12 miliwn, fel yr awgrymwyd yng nghwestiwn Simon Thomas, a'r pwysau amlwg cynyddol sydd ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a ydych yn awr yn gresynu at y toriad o 8.4% y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ei wneud mewn termau real i'r gyllideb iechyd yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf?

**Jane Hutt:** I reject that analysis. We increased our funding for the health and social services budget in the final budget that was approved in December. In terms of the opportunity that we have to support our health boards, we welcome the news that the Minister for Health and Social Services issued last week in her written statement confirming that all NHS organisations had met their statutory financial targets for 2011-12.

**Jane Hutt:** Rwyf yn gwrthod y dadansoddiad hwnnw. Bu inni gynyddu ein cyllid ar gyfer y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y gyllideb derfynol a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr. O ran y cyfle sydd gennym i gefnogi ein byrddau iechyd, rydym yn croesawu'r newyddion a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf yn ei datganiad ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau bod holl sefydliadau'r GIG wedi cyrraedd eu targedau ariannol statudol ar gyfer 2011-12.

**Elin Jones:** The First Minister told us yesterday that, in his view, £12 million was a comparatively small sum to bail out the local health boards at the end of the last financial year. It is around 0.2% of the total health budget. As Minister for Finance, how much local health board overspend will you be prepared to bail out at the end of this financial year?

**Elin Jones:** Dywedodd y Prif Weinidog wrthym ddoe ei fod o'r farn bod £12 miliwn yn swm cymharol fach i achub croen y byrddau iechyd lleol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'n cyfateb i oddeutu 0.2% o gyfanswm y gyllideb iechyd. Fel y Gweinidog Cyllid, faint o arian y byddwch yn fodlon ei roi i achub croen byrddau iechyd lleol, wedi iddynt orwario, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon?

**Jane Hutt:** This is not a bailout. No additional money is being given to local health boards. Three have been allowed to draw down a small amount, as you said, from their allocation for the next financial year, which I have managed within the overall NHS budget.

**Jane Hutt:** Nid ydym yn achub eu croen. Nid oes arian ychwanegol yn cael ei roi i fyrddau iechyd lleol. Mae tri wedi cael caniatâd i dynnu swm bach o arian, fel y bu ichi sôn, o'u dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac rwyf wedi llwyddo i

As the Minister said last week, in answer to an urgent question, her officials have commissioned an external review of these organisations to give assurance that this limited flexibility will not adversely affect the financial plans for 2012-13. That is the action of a responsible and effective Minister for Health and Social Services.

wneud hynny o fewn cyllideb gyffredinol y GIG. Fel y dywedodd y Gweinidog yr wythnos diwethaf, wrth ateb cwestiwn brys, mae ei swyddogion wedi comisiynu adolygiad allanol o'r sefydliadau hynny i roi sicrwydd na fydd yr hyblygrwydd cyfyngedig hwn yn effeithio'n andwyol ar y cynlluniau ariannol ar gyfer 2012-13. Dyma gamau gweithredu gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyfrifol ac effeithiol.

**De-ddwyrain Cymru**

**South-east Wales**

***9. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer de-ddwyrain Cymru dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0118(FIN)*

***9. Lynne Neagle:*** *Will the Minister outline her priorities for south east Wales for the next 12 months. OAQ(4)0118(FIN)*

**Jane Hutt:** As in all parts of Wales, our priorities continue to be supporting the economic recovery, safeguarding and improving front-line public services and protecting the most vulnerable.

**Jane Hutt:** Fel ym mhob rhan o Gymru, ein blaenoriaethau o hyd yw cefnogi'r adferiad economaidd, diogelu a gwella gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac amddiffyn y sawl sydd fwyaf agored i niwed.

**Lynne Neagle:** Political change in the elections at home and in Europe last week clearly demonstrated a growing groundswell of opinion that rejects the dogma of austerity being pushed by the Tories and Liberal Democrats. Nick Clegg and David Cameron may have no reverse gear, but, across the country and beyond, people are recognising that austerity is hurting, not working, and that cuts are damaging, not stimulating, growth in the economy. Do you agree that this shows that the Welsh Government is taking the right course in continuing to invest in economic stimulus, despite the shoddy hand that we have been dealt by the Tories and Lib Dems at Westminster?

**Lynne Neagle:** Dangosodd newid gwleidyddol yn yr etholiadau gartref ac yn Ewrop yr wythnos diwethaf yn glir fod ymchwydd cynyddol yn nifer y bobl sy'n ymwrthod â'r dogma ynghylch gweithredu mesurau caledi, a gaiff ei wthio gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Efallai fod Nick Clegg a David Cameron yn benderfynol o fwrw ymlaen, ond, ar draws y wlad a thu hwnt, mae pobl yn sylweddoli bod gweithredu mesurau cynilo yn brifo yn lle gweithio, a bod toriadau'n niweidio yn lle ysgogi twf yn yr economi. A ydych yn cytuno bod hynny'n dangos bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd cywir wrth barhau i fuddsoddi mewn camau i ysgogi'r economi, er gwaethaf y fargen wael yr ydym wedi'i chael gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan?

**Jane Hutt:** I agree with Member for Torfaen. I was fascinated to watch a news item last night during which the Prime Minister failed to use the word 'austerity' when he was asked about it. He used the word 'efficiency', which is another concept altogether. Of course we seek to be efficient, but austerity is now being challenged by our political agenda, which is an agenda for growth and jobs. That is why we have funded Jobs Growth Wales for 4,000

**Jane Hutt:** Rwyf yn cytuno â'r Aelod dros Dorfaen. Roeddwn yn rhyfeddu o wylio'r eitem newyddion neithiwr lle y methodd y Prif Weinidog â defnyddio'r geiriau 'mesurau cynilo' pan ofynnwyd iddo amdanynt. Defnyddiodd y gair 'effeithlonrwydd', sy'n gysyniad hollol wahanol. Rydym yn ceisio bod yn effeithlon, wrth gwrs, ond yn awr, mae mesurau cynilo yn cael eu herio gan ein

young people this year, why we were right to use the council tax consequential for an economic stimulus and why we are right to oppose regional pay, which is bad for the economy and for our communities.

hagenda wleidyddol, sef agenda ar gyfer twf a swyddi. Dyna pam yr ydym wedi cyllido Twf Swyddi Cymru ar gyfer 4,000 o bobl ifanc eleni, dyna pam yr oeddem yn iawn i ddefnyddio swm canlyniadol y dreth gyngor i ysgogi'r economi, a dyna pam yr ydym yn iawn i wrthwynebu cyflogau rhanbarthol, sy'n niweidiol i'r economi a'n cymunedau.

**Mohammad Asghar:** Domestic abuse is a problem faced by too many people in South Wales East. Employers have a key role to play in recognising the signs of domestic abuse—victims are often absent from work or late, or perform their duties poorly, which can lead to disciplinary action. What is the Welsh Government doing to increase awareness of domestic abuse among employers in Wales and will the Minister provide an update on the national good practice conference for employers set out in the Government's violence against women and domestic abuse implementation plan?

**Mohammad Asghar:** Mae cam-drin domestig yn broblem y mae gormod o bobl yn Nwyrain De Cymru yn ei hwynebu. Mae gan gyflogwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran adnabod arwyddion o gam-drin domestig—bydd dioddefwyr yn aml yn absennol o'r gwaith neu'n hwyr, neu byddant yn cyflawni eu dyletswyddau'n wael, a all arwain at gamau disgyblu. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith cyflogwyr yng Nghymru, ac a fydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gynhadledd genedlaethol ar arfer da i gyflogwyr, a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Llywodraeth ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig?

**Jane Hutt:** 'The Right to Be Safe' strategy, which was launched and is being implemented by the Minister for Local Government and Communities, is critical to addressing your issue. Raising awareness among employers and in the workplace is a major facet of that. I am sure that you will have welcomed the stand that was taken by Welsh rugby players last week. I was pleased to be at the meeting hosted by Julie Morgan, where men in those prominent positions stood up against violence against women.

**Jane Hutt:** Mae'r strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel', a lansiwyd ac a weithredir gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â'r mater a godwyd gennych. Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ac yn y gweithle yn agwedd bwysig ar hynny. Rwyf yn siŵr y byddwch wedi croesawu'r safbwynt a gymerodd chwaraewyr rygbi Cymru yr wythnos diwethaf. Roeddwn yn falch o fod yn y cyfarfod a gynhaliwyd gan Julie Morgan, lle'r oedd dynion yn y mannau amlwg hynny'n gwrthwynebu trais yn erbyn menywod.

### Caffael Lleol gan y Sector Cyhoeddus

### Local Public Sector Procurement

***10. Simon Thomas:*** *Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau rhagor o gaffael lleol gan y sector cyhoeddus. OAQ(4)0123(FIN)*

***10. Simon Thomas:*** *What steps are the Government taking to ensure more local public sector procurement. OAQ(4)0123(FIN)*

**Jane Hutt:** 'Opening Doors: the Charter for SME Friendly Procurement', launched by the Welsh Government in 2006, outlines principles to open up public procurement to smaller, local suppliers. All major public

**Jane Hutt:** Mae 'Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig', a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2006, yn amlinellu egwyddorion ar gyfer cynnig cyfleoedd o ran caffael

bodies have committed to these principles. Sourcing from Wales-based suppliers has increased from 35% in 2004 to 52% currently.

cyhoeddus i gyflenwyr lleol, llai o faint. Mae pob corff cyhoeddus mawr wedi ymrwymo i'r egwyddorion hyn. Mae defnyddio cyflenwyr o Gymru at ddibenion cyrchu wedi cynyddu o 35% yn 2004 i 52% ar hyn o bryd.

**Simon Thomas:** Yn y datganiad a wnaethoch yn ôl ym mis Chwefror, roeddech yn sôn yn benodol am ddilyn chwe phrosiect a bod y rheini wedi esgor ar 85% o gaffael lleol. Rydych wedi dweud y byddwch yn edrych ar 50 prosiect pellach i weld pa effaith a geir. A allwch roi diweddariad i'r Cynulliad ar effaith hynny? A ydym wedi gweld cynnydd pellach yn y 52% hynny? A fyddwch yn gosod targed i'ch cyd-Weinidogion ynglŷn â chaffael lleol yn eu portffolios?

**Simon Thomas:** In the statement that you made back in February, you specifically mentioned following six projects and that they had secured 85% local procurement. You have said that you will look at 50 further projects to see what impact they would have. Can you give the Assembly an update on the impact of that? Have we seen further progress in that 52%? Will you set a target for your fellow Ministers on local procurement in their portfolios?

**Jane Hutt:** That is a very important question about the cross-cutting nature of procurement. As I said in my statement, I am taking forward schemes in addition to the companies and projects that I have charted. We are initially looking beyond the 50 projects—and this is where the community benefits approach is so important—applying to over £3.4 billion of contracts. So, this work is being carried out in partnership and in consultation with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, and also with the Ministers for local government and health and the Minister for Housing, Regeneration and Heritage. I would just say that John McClelland's review of our procurement policy will inform us further.

**Jane Hutt:** Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig iawn am natur drawsbynciol gwaith caffael. Fel y dywedais yn fy natganiad, rwyf yn rhoi sylw i gynlluniau sy'n ychwanegol at y cwmnïau a'r prosiectau yr wyf wedi bod yn dilyn eu hynt. Rydym yn edrych i ddechrau y tu hwnt i'r 50 o brosiectau—a dyma lle y mae'r dull gweithredu sy'n ymwneud â manteision cymunedol mor bwysig—sy'n berthnasol i gontractau sy'n werth dros £3.4 biliwn. Felly, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth ac mewn ymgynghoriad â'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ac ar y cyd hefyd â'r Gweinidogion Llywodraeth Leol ac Iechyd a'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Hoffwn ddweud y bydd adolygiad John McClelland o'n polisi caffael yn rhoi gwybodaeth bellach inni.

**Darren Millar:** Minister, I have received representations from the north Wales construction group about its concerns over public sector procurement practices. It referred to the issue of bundled procurement, which we have discussed many times in the Chamber. The group considers it a major barrier to the success of its businesses. One of the other issues that the group raised is the increasing number of UK firms based in England, Scotland or Northern Ireland that set up a very small satellite base or office in Wales in order to claim that they are indigenous companies. Do you recognise that as something that needs to be addressed so that we can ensure that Welsh firms gain the benefit of Welsh

**Darren Millar:** Weinidog, rwyf wedi cael sylwadau gan grŵp adeiladu'r gogledd am ei bryderon ynghylch arferion caffael y sector cyhoeddus. Mae'n cyfeirio at y mater sy'n ymwneud â gwaith caffael wedi'i fwndelu, yr ydym wedi'i drafod droeon yn y Siambr. Mae'r grŵp o'r farn ei fod yn rhwystr mawr i lwyddiant ei fusnesau. Un o'r materion eraill a godwyd gan y grŵp yw'r nifer gynyddol o gwmnïau'r DU, sydd â'u canolfan yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, sy'n sefydlu swyddfa neu is-ganolfan fach iawn yng Nghymru er mwyn honni eu bod yn gwmnïau cynhenid. A ydych yn cydnabod bod hynny'n rhywbeth y mae angen rhoi sylw iddo fel y

procurement?

gallwn sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn cael budd o waith caffael yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I was very pleased to meet with four major construction companies last week—I think that Antoinette Sandbach suggested that I should meet with them. I was delighted to meet with them and we had a very constructive discussion. We agreed to meet and work in north Wales to tackle some of the particular issues that relate to north Wales. They recognised the work that we have done to learn lessons from the use of framework agreements, and they also recognised the fact that there are further joint working opportunities.

**Jane Hutt:** Roeddwn yn falch iawn o gyfarfod â phedwar cwmni adeiladu mawr yr wythnos diwethaf—rwyf yn credu mai Antoinette Sandbach a awgrymodd y dylwn gyfarfod â hwy. Roeddwn wrth fy modd o gyfarfod â hwy, a chawsom drafodaeth adeiladol iawn. Bu inni gytuno i gyfarfod a gweithio yn y gogledd i fynd i'r afael â rhai o'r materion penodol sy'n ymwneud â'r gogledd. Roeddent yn cydnabod y gwaith yr ydym wedi'i wneud i ddysgu gwersi o ddefnyddio cytundebau fframwaith, ac roeddent hefyd yn cydnabod y ffaith bod rhagor o gyfleoedd i weithio ar y cyd.

On the issue of companies having what they would call offices, rather than satellites, in Wales, they are playing their part in terms of contract delivery, and we must recognise that they, too, are using local supply chains for delivery.

O ran y mater sy'n ymwneud â chwmnïau'n sefydlu'r hyn y byddent yn ei alw'n swyddfa yn hytrach nag yn is-ganolfan yng Nghymru, maent yn chwarae eu rhan o ran cyflawni contractau, a rhaid inni gydnabod eu bod hwythau'n defnyddio cadwyni cyflenwi lleol i gyflawni contractau.

**Aled Roberts:** Weinidog, a oes gennych bryderon am y ffaith bod pwrcasu yn awr yn symud i lefel ranbarthol ac y bydd llai o gaffael lleol wrth i hynny ddigwydd?

**Aled Roberts:** Minister, do you have any concerns about the fact that purchasing is now moving to a regional level and that there will less local procurement as a result?

**Jane Hutt:** The work that we have done to look at framework agreements demonstrated that there had been real opportunities and positive benefits in a twenty-first century schools contract in south-east Wales. It has been more disappointing in terms of local firms in north Wales. The lessons learned have to impact on regional procurement and proper practice.

**Jane Hutt:** Dangosodd y gwaith yr ydym wedi'i wneud i edrych ar gytundebau fframwaith fod cyfleoedd go iawn a manteision cadarnhaol wedi codi mewn contract ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn y de-ddwyrain. Mae'r sefyllfa wedi bod yn fwy siomedig o ran cwmnïau lleol yn y gogledd. Rhaid i'r gwersi a ddysgwyd effeithio ar waith caffael rhanbarthol ac arferion priodol.

**Buddsoddiad gan y Sector Preifat**

**Private Sector Investment**

***11. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat ar gyfer prosiectau cyfalaf yng Nghymru. OAQ(4)0117(FIN)*

***11. William Graham:*** *Will the Minister outline the Welsh Government's policies to secure private sector investment for capital projects in Wales. OAQ(4)0117(FIN)*

**Jane Hutt:** In the programme for government, we committed to examine innovative means of funding public sector infrastructure. We have made good progress, securing public and private investment for our strategic infrastructure priorities. Further details will be

**Jane Hutt:** Yn y rhaglen lywodraethu, bu inni ymrwymo i archwilio ffyrdd arloesol o ariannu seilwaith y sector cyhoeddus. Rydym wedi gwneud cynnydd da, gan sicrhau buddsoddiad cyhoeddus a phreifat ar gyfer ein blaenoriaethau strategol o ran

set out in the Wales infrastructure and investment plan on 22 May.

seilwaith. Bydd manylion pellach yn cael eu nodi yng nghynllun seilwaith a buddsoddi Cymru ar 22 Mai.

**William Graham:** I thank the Minister for her reply. The Minister will know of my devotion to the M4 relief road. I call her attention to the reply given by the Chancellor of the Exchequer to the parliamentary leader of Plaid Cymru regarding the use of pension funds and similar investment funds to do just this. Has the Minister made any progress in the matter?

**William Graham:** Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Bydd y Gweinidog yn gwybod am fy ymroddiad i ffordd liniaru'r M4. Hoffwn dynnu ei sylw at yr ateb a gafwyd gan Ganghellor y Trysorlys i arweinydd seneddol Plaid Cymru ynghylch defnyddio cronfeydd pensiwn a chronfeydd buddsoddi tebyg i wneud yr union beth hwn. A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran y mater?

**Jane Hutt:** It is important to note that consultation on the M4 corridor enhancement project is ongoing. Clearly, we are looking at all of our opportunities and having constructive discussions about financing future opportunities with the UK coalition Government and our officials across transport and finance.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig nodi bod gwaith ymgynghori ynghylch prosiect gwella coridor yr M4 yn mynd rhagddo. Yn amlwg, rydym yn edrych ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael inni ac rydym yn cael trafodaethau adeiladol ynghylch ariannu cyfleoedd yn y dyfodol â Llywodraeth glymblaid y DU a'n swyddogion ym maes trafnidiaeth a chyllid.

**Alun Ffred Jones:** O ran prosiectau cyfalaf, rydych wedi sôn cryn dipyn y prynhawn yma am y trafodaethau rhwng y Llywodraeth yng Nghaerdydd a Llywodraeth Llundain. Nid wyf fawr cliriach ynglŷn ag union sefyllfa'r trafodaethau hyn. A fyddech yn fodlon cyhoeddi llythyrau, e-byst a nodiadau o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd er mwyn i bobl Cymru gael gweld pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud yn y maes hwn?

**Alun Ffred Jones:** On capital projects, you have talked quite a bit this afternoon about discussions between the Government in Cardiff and the London Government. I am not much the wiser about the situation with those discussions. Would you be willing to publish letters, e-mails and notes from the meetings that have been held so that the people of Wales see what progress is being made in this field?

2.00 p.m.

**Jane Hutt:** I produced a written statement on 23 April, following my last meeting with the Chief Secretary to the Treasury. What was important about that was the fact that there was an agreement about a shared analysis of the impact of convergence. The steps that we need to take forward are clear in terms of our call for a funding floor. Discussions are ongoing and my next meeting with him will be held next month.

**Jane Hutt:** Cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig ar 23 Ebrill, yn dilyn fy nghyfarfod diwethaf â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Yr hyn a oedd yn bwysig am y cyfarfod hwnnw oedd y ffaith y cafwyd cytundeb ynghylch gweithio ar y cyd i ddadansoddi effaith cydgyfeirio. Mae'r camau y mae angen inni fwrw ymlaen â hwy'n glir o ran ein galwad am derfyn isaf ariannol. Mae trafodaethau'n parhau, a bydd fy nghyfarfod nesaf ag ef yn cael ei gynnal fis nesaf.

**The Presiding Officer:** Question 12, OAQ(4)0120(FIN), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(4)0120(FIN), yn ôl.

### Gwerth am y 'Bunt Gymreig'

### Value for the 'Welsh Pound'

***13. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog*

***13. David Melding:*** *Will the Minister make*

*ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cael y gwerth mwyaf posibl am "y bunt Gymreig". OAQ(4)0107(FIN)*

*a statement on how the Welsh Government gets maximum value for the "Welsh pound". OAQ(4)0107(FIN)*

**Jane Hutt:** With reducing budgets, it is more important than ever that we get value for money from every pound that we spend. That is why we are maximising efficiency in public service delivery, exploring innovative funding models and maximising the value that we derive from the procurement process.

**Jane Hutt:** Gyda chyllidebau sy'n lleihau, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cael gwerth am arian am bob punt a wariwn. Dyna pam yr ydym yn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan archwilio modelau ariannu arloesol a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'r broses gaffael.

**David Melding:** I am glad that the Minister mentioned procurement. It comes down to thorough processes and practical strategies, like improving procurement training for the many hundreds of procurement officers that are out there, because if they are not making good purchasing decisions, we will reduce the amount of public spending that gets re-circulated into the local economy. It seems that some European countries do this a bit better than we do in Wales and the rest of Britain.

**David Melding:** Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi crybwyll gwaith caffael. Mae'n fater o gael prosesau trylwyr a strategaethau ymarferol, megis gwella hyfforddiant ar gaffael ar gyfer y cannoedd lawer o swyddogion caffael sydd yn y wlad, oherwydd os nad ydynt yn gwneud penderfyniadau prynu da, byddwn yn lleihau'r gwariant cyhoeddus sy'n cael ei ailgylchu yn yr economi leol. Ymddengys fod rhai gwledydd Ewropeaidd yn gwneud hynny ychydig yn well nag yr ydym ni'n ei wneud yng Nghymru a gweddill Prydain.

**Jane Hutt:** I am delighted to inform David Melding that we are funding a home-grown procurement talent force, which is being partly funded by the European social fund. I met some of the second cohort of trainees, who were drawn from across the public sector, including universities, the health service and local government. Their training opportunities are a key development in our procurement policy and will improve the procurement process. I am sure that the Member will welcome the fact that the Welsh procurement policy was recently regarded positively by the *File on 4* programme on Radio 4, which recognised that Wales is prioritising job creation over costs when awarding Government contracts.

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch iawn o allu dweud wrth David Melding ein bod yn ariannu gweithlu caffael medrus a gaiff ei feithrin yma yng Nghymru, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan gronfa gymdeithasol Ewrop. Cyfarfûm â rhai o'r ail garfan o hyfforddeion, a oedd yn dod o bob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys prifysgolion, y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol. Mae eu cyfleoedd hyfforddi'n ddatblygiad allweddol yn ein polisi caffael, a byddant yn gwella'r broses gaffael. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn croesawu'r ffaith bod polisi caffael Cymru wedi cael sylw cadarnhaol yn ddiweddar gan y rhaglen *File on 4* ar Radio 4, a oedd yn cydnabod bod Cymru yn rhoi mwy o flaenoriaeth i greu swyddi nag i gostau wrth ddyfarnu contractau'r Llywodraeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rydych yn dod i'r Siambr hon yn gyson—fel sydd wedi digwydd yn y Cynulliad dros y 13 mlynedd diwethaf—i drafod diwygio prosesau pwrcasu cyhoeddus er mwyn sicrhau bod cwmnïau o Gymru'n cael cyfle i dendro a bod economi

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you come to this Chamber regularly—as has happened in the Assembly over the past 13 years—to discuss the revision of public procurement processes to ensure that companies from Wales have an opportunity to tender and

Cymru'n cael cyfle i gael y budd o'r broses honno. Fodd bynnag, a allwch ddweud â'ch llaw ar eich calon, fod unrhyw beth wedi newid? Mae adroddiadau'n dod yn ôl dro ar ôl tro bod cwmnïau o Gymru yn methu â chael cyfle i dendro yn y sefyllfa hon—yn genedlaethol, gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ar y lefel leol hefyd.

that the Welsh economy has an opportunity to benefit from that process. However, can you say with your hand on your heart that anything has really changed? Reports are issued time after time that companies from Wales are failing in terms of the opportunities to tender in this situation—nationally with the National Assembly for Wales and on a local level.

**Jane Hutt:** To date, there are seven such projects, which are worth £185.5 million. They include completing the measurement tool in relation to community benefits, looking at the contract value, the income to Welsh residents, revenue to Wales-based businesses and contributions to Welsh small and medium-sized enterprises. Carmarthenshire quality homes framework is one example in your constituency area: there has been a contribution of £29.9 million to Welsh SMEs and the revenue to Wales-based businesses from that project is £33.9 million. Also, the number of training weeks provided to disadvantaged persons was 8,951. I think that that demonstrates good progress.

**Jane Hutt:** Hyd yn hyn, ceir saith prosiect o'r fath, sy'n werth £185.5 miliwn. Maent yn cynnwys cwblhau'r adnodd mesur yng nghyswllt manteision cymunedol, gan edrych ar werth y contract, yr incwm i drigolion Cymru, y refeniw i fusnesau yng Nghymru a'r cyfraniadau i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Mae fframwaith cartrefi o safon Sir Gaerfyrddin yn un enghraifft yn ardal eich etholaeth chi: gwnaed cyfraniad o £29.9 miliwn i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, ac mae'r refeniw i fusnesau yng Nghymru o'r prosiect hwnnw'n cyfateb i £33.9 miliwn. At hynny, roedd nifer yr wythnosau o hyfforddiant a ddarparwyd i bobl dan anfantais yn 8,951. Credaf fod hynny'n dangos cynnydd da.

## Y Portffolio Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

## The Environment and Sustainable Development Portfolio

***14. Christine Chapman:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i bolisïau ynni Llywodraeth Cymru wrth bennu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y portffolio Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. OAQ(4)0116(FIN)*

***14. Christine Chapman:** What consideration did the Minister give to the Welsh Government's energy policies when setting the overall budget for the Environment and Sustainable Development portfolio. OAQ(4)0116(FIN)*

**Jane Hutt:** The final budget that was agreed reflects our priorities for the environment and sustainable development portfolio, including our commitments on energy.

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb derfynol a gytunwyd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau ar gyfer y portffolio amgylchedd a datblygu cynaliadwy, gan gynnwys ein hymrwymiadau ym maes ynni.

**Christine Chapman:** The programme for government sets out a commitment to change significantly the way that we approach sustainability. This is an area where we must work collaboratively. As other Members have noted, today is Europe Day, so I would like to draw your attention to the Covenant of Mayors, a European movement that aims to support the efforts of local authorities to implement sustainable energy policies.

**Christine Chapman:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ymrwymiad i newid yn sylweddol y modd yr ydym yn ymdrin â chynaliadwyedd. Mae hwn yn faes lle y mae'n rhaid inni weithio ar y cyd. Fel y mae Aelodau eraill wedi nodi, mae heddiw yn Ddiwrnod Ewrop, felly hoffwn dynnu eich sylw at Gyfamod y Meiri, sef mudiad Ewropeaidd sy'n ceisio cefnogi ymdrechion awdurdodau lleol i weithredu polisïau ynni

Minister, there will be new opportunities for Welsh local authorities over the coming years. Can the Welsh Government commit to supporting them in developing sustainable policies and perhaps promoting the covenant as one such solution?

cynaliadwy. Weinidog, bydd cyfleoedd newydd i awdurdodau lleol Cymru dros y blynyddoedd nesaf. A all Llywodraeth Cymru ymrwymo i'w cefnogi i ddatblygu polisïau cynaliadwy, a hyrwyddo'r cyfamod, efallai, fel un ateb o'r fath?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Cynon Valley for bringing this to our attention on Europe Day. We would encourage any such initiatives, as I am sure would the Minister for Local Government and Communities, particularly in relation to the Covenant of Mayors. It fits the sustainable development scheme objectives and the climate change strategy. It will now be for us to share this opportunity with our local authorities.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am dynnu ein sylw at y mater hwn ar Ddiwrnod Ewrop. Byddem yn annog unrhyw fentrau o'r fath, fel y byddai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, rwyf yn siŵr, yn enwedig yng nghyswllt Cyfamod y Meiri. Mae'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun datblygu cynaliadwy a'r strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd. Ein lle ni yn awr fydd rhannu'r cyfle hwn â'n hawdurdodau lleol.

**Darren Millar:** I would like to ask the Minister about the value for money that can be demonstrated by cross-cutting Government policies. I am thinking, for example, about technical advice note 8, the Government's policy for renewable energy on the planning side of things. That particular policy obviously has an impact on local government finances in terms of transport infrastructure and the economy, relating to the transportation of the parts and so for the construction of the windfarms. Are those things taken into account when decisions are made on the production of policies like TAN 8? If not, do you agree that it is time that we introduced such a measure so that damaging policies like TAN 8 are properly thought through before they are introduced?

**Darren Millar:** Hoffwn ofyn i'r Gweinidog am y gwerth am arian y gellir ei ddangos gan bolisïau trawsbynciol y Llywodraeth. Rwyf yn meddwl, er enghraifft, am nodyn cyngor technegol 8, sef polisi'r Llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy o ran yr elfen gynllunio. Mae'n amlwg bod y polisi penodol hwnnw'n cael effaith ar gyllid llywodraeth leol o ran seilwaith trafnidiaeth a'r economi, yng nghyswllt cludo'r rhannau ac yn y blaen ar gyfer adeiladu ffermydd gwynt. A gaiff y pethau hynny eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchu polisïau megis TAN 8? Os na chânt eu hystyried, a ydych yn cytuno ei bod yn bryd inni gyflwyno mesur o'r fath er mwyn i bolisïau niweidiol megis TAN 8 gael eu hystyried yn briodol cyn iddynt gael eu cyflwyno?

**Jane Hutt:** Of course, we would certainly refute that point about TAN 8. We also recognise that our powers are constrained in terms of opportunities to influence all developments on that front, but it is quite clear that this is a cross-cutting agenda in terms of delivering value for money, which I take very seriously.

**Jane Hutt:** Wrth gwrs, byddem yn sicr yn gwrthod y pwynt hwnnw ynghylch TAN 8. Rydym hefyd yn cydnabod bod ein pwerau'n gyfyngedig o ran cyfleoedd i ddylanwadu ar bob datblygiad yn y maes hwnnw, ond mae'n eithaf amlwg bod hon yn agenda drawsbynciol o ran sicrhau gwerth am arian, sy'n fater yr wyf yn ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif.

**Alun Ffred Jones:** O ran ynni adnewyddadwy, targed y Llywodraeth oedd cynhyrchu 4 TWh o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2010. Y gwir ffigur erbyn hyn yw 1.6 TWh; hynny yw, methiant o 60%. Ai diffyg arian a chyllid oedd yn gyfrifol am y methiant hwn?

**Alun Ffred Jones:** In terms of renewable energy, the Government's target was to produce 4 TWh of electricity from renewable sources by 2010. The real figure is 1.6 TWh, which is a failure by 60%. Is it a shortage of funding that was responsible for this failure?

**Jane Hutt:** These are targets that we seek to meet. We are constrained by the reduced budget from the UK Government in terms of our opportunities to deliver on our objectives and targets, but clearly we are increasing the budget for environment and sustainable development both this year and next compared to indicative plans in our previously held budgets.

**Jane Hutt:** Mae'r rhain yn dargedau yr ydym yn ceisio eu cyrraedd. Mae'r gyllideb lai gan Lywodraeth y DU yn cyfyngu ar ein cyfleoedd i gyflawni o ran ein hamcanion a'n targedau, ond yn amlwg rydym yn cynyddu'r gyllideb ar gyfer yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy eleni a'r flwyddyn nesaf, o'i chymharu â chynlluniau dangosol yn y cyllidebau a oedd gennym yn flaenorol.

**The Presiding Officer:** Question 15, OAQ(4)0114(FIN), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(4)0114(FIN), yn ôl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
## Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

### Blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen

### Priorities for Torfaen

***1. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0132(BET)*

***1. Lynne Neagle:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for Torfaen for the next 12 months. OAQ(4)0132(BET)*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** Our priorities for the whole of Wales are set out in the programme for government and include plans for strengthening the economy by assisting with job creation and retention, and investing in skills, infrastructure and innovation.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru gyfan wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu ac maent yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cryfhau'r economi drwy gynorthwyo â chreu a chadw swyddi, a buddsoddi mewn sgiliau, seilwaith ac arloesedd.

**Lynne Neagle:** We know that one of the most serious problems blighting businesses in Torfaen is the failure of banks to increase lending, despite all the promises that we hear from the coalition in Westminster. Therefore, it is really worrying that companies that currently offer payday loans to individuals are now moving into lending to small businesses. With many companies relying on credit cards and other forms of lending to stay afloat, there is a real danger that these legal loan sharks could do real damage to economic development in Wales. While I recognise that responsibility for this problem rests largely at Westminster, will you commit to looking at these issues at a Welsh level so that we can take action to avoid this situation developing?

**Lynne Neagle:** Gwyddom mai un o'r problemau mwyaf difrifol sy'n amharu ar fusnesau yn Nhorfaen yw methiant banciau i gynyddu benthyca, er gwaethaf yr holl addewidion a glywn gan y glymblaid yn San Steffan. Felly, mae'n peri pryder mawr bod cwmnïau sy'n cynnig benthyciadau diwrnod cyflog i unigolion ar hyn o bryd bellach yn dechrau benthyca i fusnesau bach. Gyda llawer o gwmnïau'n dibynnu ar gardiau credyd a mathau eraill o fenthyca i gael dau ben llinyn ynghyd, mae perygl go iawn y gallai'r benthycwyr arian cyfreithlon hyn wneud niwed go iawn i ddatblygu economaidd yng Nghymru. Er fy mod yn cydnabod mai San Steffan sydd bennaf gyfrifol am ymdrin â'r broblem hon, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y materion hyn ar lefel Cymru fel y gallwn gymryd camau i atal y sefyllfa hon rhag datblygu?

**Edwina Hart:** Thank you for your question. In the case of the banks, there is general concern within industry about the fact that they are not lending effectively to help small and medium-sized enterprises in particular. We have seen at first hand as a Government with the successful funds that we have launched—with £6 million for microbusinesses, and the fact that we have had to launch a £30 million fund as well—that part of the problem is the fact that banks are not lending. I will certainly do what I need to in terms of the discussions that I will have in Wales, as well as with national politicians. It is a worrying development that these payday loan companies are moving into the business market and targeting companies when you look at what they are doing to individuals.

**Edwina Hart:** Diolch am eich cwestiwn. Yn achos y banciau, mae diwydiant yn pryderu'n gyffredinol am y ffaith nad ydynt yn benthyca yn effeithiol i helpu busnesau bach a chanolig eu maint yn arbennig. Rydym wedi gweld drosom ein hunain fel Llywodraeth gyda'r cronfeydd llwyddiannus yr ydym wedi'u lansio—gyda £6 miliwn ar gyfer microfusnesau, a'r ffaith ein bod wedi gorfod lansio cronfa gwerth £30 miliwn hefyd—mai rhan o'r broblem yw'r ffaith nad yw banciau'n benthyca. Byddaf yn sicr yn gwneud yr hyn y mae angen imi ei wneud o ran y trafodaethau y byddaf yn eu cael yng Nghymru, yn ogystal â'm trafodaethau â gwleidyddion cenedlaethol. Mae'n ddatblygiad sy'n peri pryder bod y cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog hyn yn symud i mewn i'r farchnad fusnes ac yn targedu cwmnïau pan ystyriwch yr hyn y maent yn ei wneud i unigolion.

**William Graham:** The Minister will be aware of the comment by the Federation of Small Businesses that if every SME recruited one more person, everyone looking for a job would be employed. This would have particular effect in a region like Torfaen. Could the Minister outline the support that she provides to promote SME growth?

**William Graham:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r sylw gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, sef, y byddai pawb sy'n chwilio am swydd yn cael gwaith pe bai pob busnes bach a chanolig yn recriwtio un unigolyn arall. Byddai hyn yn cael effaith benodol mewn ardal fel Torfaen. A allai'r Gweinidog amlinellu'r cymorth y mae'n ei roi i hybu twf busnesau bach a chanolig eu maint?

**Edwina Hart:** Obviously, you are aware of the schemes that we have introduced, such as the £40 million SME fund, which is on top of the existing £150 million JEREMIE fund. The microbusiness fund amounts to £6 million and came in direct response to the microbusiness report. I am certainly looking at other options in relation to how we can assist these companies in terms of what we undertake as a Government. I recognise that what it said could be true, so we have to have a mixture of things that help small to medium-sized enterprises and larger companies.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, rydych yn ymwybodol o'r cynlluniau yr ydym wedi'u cyflwyno, megis y gronfa gwerth £40 miliwn ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, sydd ar ben y £150 miliwn sydd ar gael yn barod drwy gronfa JEREMIE. Mae'r gronfa ar gyfer microfusnesau yn werth £6 miliwn a daeth mewn ymateb uniongyrchol i'r adroddiad ar ficrofusnesau. Rwyf yn sicr yn edrych ar opsiynau eraill ar gyfer sut y gallwn gynorthwyo'r cwmnïau hyn o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth. Rwyf yn cydnabod y gallai'r hyn a ddywedodd fod yn wir, felly rhaid inni gael cymysgedd o bethau sy'n helpu busnesau bach a chanolig a chwmnïau mwy.

### Contractau Olympaidd

### Olympic Contracts

***2. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gontractau Olympaidd a enillwyd gan gwmnïau o Gymru.*

***2. Eluned Parrott:*** *Will the Minister make a statement on Olympic contracts won by Welsh firms. OAQ(4)0120(BET)*

*OAQ(4)0120(BET)*

**Edwina Hart:** The Welsh Government has led the effort to engage, co-ordinate and deliver the Olympic opportunities for businesses in Wales and will continue to pursue opportunities where they arise.

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain yr ymdrech i gydlynu a sicrhau'r cyfleoedd Olympaidd i fusnesau yng Nghymru ac ymgysylltu â hwy a bydd yn parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd lle y maent yn codi.

**Eluned Parrott:** You will be aware that the Welsh Government website states that £38 million-worth of contracts have been won by Welsh companies to date, out of a spend of more than £9.3 billion. That is 0.4% for a population of 5%, despite the fact that Cardiff is a host city and is, in fact, the host of the very first event of the games. Demonstrably, this is a very disappointing record. In hindsight, what errors do you believe that the Welsh Government has made?

**Eluned Parrott:** Byddwch yn ymwybodol bod gwefan Llywodraeth Cymru yn dweud bod gwerth £38 miliwn o gontractau wedi cael eu hennill gan gwmnïau o Gymru hyd yma, allan o wariant o fwy na £9.3 biliwn. Mae hynny'n 0.4% ar gyfer poblogaeth o 5%, er gwaethaf y ffaith bod Caerdydd yn ddinas sy'n cynnal rhai o'r digwyddiadau ac, yn wir, yn cynnal digwyddiad cyntaf un y gemau. Yn amlwg, mae hyn yn siomedig iawn. Wrth edrych yn ôl, pa gamgymeriadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud yn eich tyb chi?

**Edwina Hart:** I am naturally delighted that the first Olympic event will be held in Cardiff and that it is women's football, which is particularly important. We have expressed disappointment that Welsh businesses have not won more Olympic contracts and we have discussed the concerns at the council for economic renewal meeting with the business community. The First Minister wrote to the chair of the Olympic Delivery Authority in July last year about the issues around securing contracts. In his response, John Armitt, chair of the Olympic Delivery Authority, recognised that Welsh companies secured fewer direct contracts compared with other places in the UK. However, he indicated the contracts that we had secured, which include those won by Rowecord Engineering Ltd in Newport, Euro Clad Ltd in Cardiff, B&W Tunnelling Ltd in Bridgend, Express Reinforcements Ltd in Neath, Williamson Technical Services Ltd in Conwy and Bluebay Building Products in Cardiff. Therefore, there have been some successes.

**Edwina Hart:** Yn naturiol, rwyf yn falch iawn y bydd digwyddiad cyntaf y Gemau Olympaidd yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ac mai pêl-droed merched ydyw, sy'n arbennig o bwysig. Rydym wedi mynegi siom nad yw busnesau Cymru wedi ennill mwy o gontractau Olympaidd ac rydym wedi trafod y pryderon â'r gymuned fusnes yng nghyfarfod cyngor adnewyddu'r economi. Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at gadeirydd Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd ym mis Gorffennaf y llynedd am y materion sy'n ymwneud ag ennill contractau. Yn ei ymateb, roedd John Armitt, cadeirydd Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd, yn cydnabod bod cwmnïau o Gymru wedi ennill llai o gontractau uniongyrchol o gymharu â mannau eraill yn y DU. Fodd bynnag, cyfeiriodd at y contractau yr ydym wedi'u hennill, sy'n cynnwys y rhai a enillwyd gan Rowecord Engineering Ltd yng Nghasnewydd, Euro Clad Ltd yng Nghaerdydd, B&W Tunnelling Ltd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Express Reinforcements Ltd yng Nghastell-nedd, Williamson Technical Services Ltd yng Nghonwy a Bluebay Building Products yng Nghaerdydd. Felly, cafwyd rhai llwyddiannau.

**Mohammad Asghar:** Minister, you have

**Mohammad Asghar:** Weinidog, rydych

already partly answered my questions in response to the questions posed by Eluned Parrott. However, the thing is that our Welsh economy has not improved with these Olympics contracts. We have only been given just under £670,000-worth of contracts, whereas over £5.5 billion-worth of contracts have been secured in England, £23 million-worth have been won by Scottish firms and just under £17 million-worth have been awarded to Northern Ireland. We have missed out on this great opportunity. Will the Minister consider, with the Olympics coming in the next few months, improving our tourism sector and to get our business areas developed in Wales? That would be a great boost for our economy.

eisoes wedi ateb fy nghwestiynau yn rhannol wrth ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan Eluned Parrott. Fodd bynnag, y broblem yw nad yw ein heconomi yng Nghymru wedi gwella gyda'r contractau Olympaidd hyn. Dim ond gwerth ychydig yn llai na £670,000 o gontractau yr ydym wedi'u cael, tra mae gwerth dros £5.5 biliwn o gontractau wedi'u hennill yn Lloegr, gwerth £23 miliwn wedi'u hennill gan gwmnïau o'r Alban a gwerth ychydig yn llai nag £17 miliwn wedi eu dyfarnu i Ogledd Iwerddon. Rydym wedi colli allan ar y cyfle gwych hwn. A wnaiff y Gweinidog ystyried, gyda'r Gemau Olympaidd yn dechrau yn yr ychydig fisoedd nesaf, gwella ein sector twristiaeth a datblygu ein hardaloedd busnes yng Nghymru? Byddai hynny'n hwb mawr i'n heconomi.

**Edwina Hart:** Yes, we must take advantage of the UK Olympics. It must not just be a London-focused event. We have been involved with many initiatives with the UK Government to encourage tourism during that period. Tourists are greatly welcomed in Wales.

**Edwina Hart:** Byddai, rhaid inni fanteisio ar Gemau Olympaidd y DU. Rhaid iddo beidio â bod yn ddigwyddiad sy'n canolbwyntio ar Lundain yn unig. Rydym wedi bod yn gysylltiedig â nifer o fentrau gyda Llywodraeth y DU i annog twristiaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae twristiaid yn cael croeso mawr yng Nghymru.

**Bethan Jenkins:** Let us see if it is not a London-focused event. I am dubious about that. Does the Minister agree that there are strong lessons that need to be learned from the bidding process leading up to the contracts, as mentioned earlier, particularly in relation to the supply and development service? Could the Welsh Government have been more proactive in its efforts to engage with Welsh companies prior to the contracts being awarded?

**Bethan Jenkins:** Cawn weld a fydd yn ddigwyddiad nad yw'n canolbwyntio ar Lundain. Rwyf yn amheus am hynny. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod gwersi pwysig y mae angen eu dysgu o'r broses o gyflwyno ceisiadau a oedd yn arwain at y contractau, fel y soniwyd yn gynharach, yn enwedig o ran y gwasanaeth cyflenwi a datblygu? A allai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn fwy rhagweithiol yn ei hymdrechion i ymgysylltu â chwmnïau o Gymru cyn i'r contractau gael eu dyfarnu?

**Edwina Hart:** I will make a point about the Olympics. It is a UK event and it is only the nation states that can make the bid to hold the Olympic Games. We must be positive about the impact of the Olympics on tourism and other areas. If there are lessons to be learned, then they will come out in our discussions with business and industry. We also consider any major events that that we might want to attract Wales in the future and we must certainly look at the contract issues.

**Edwina Hart:** Rwyf am wneud pwynt am y Gemau Olympaidd. Mae'n ddigwyddiad ar gyfer y DU a dim ond y cenedl-wladwriaethau all gyflwyno cais i gynnal y Gemau Olympaidd. Rhaid inni fod yn gadarnhaol am effaith y Gemau Olympaidd ar dwristiaeth a meysydd eraill. Os oes gwersi i'w dysgu, yna byddant yn dod i'r amlwg yn ein trafodaethau â busnes a diwydiant. Rydym hefyd yn ystyried unrhyw ddigwyddiadau mawr y gallem fod yn awyddus i'w denu i Gymru yn y dyfodol ac yn sicr rhaid inni edrych ar y materion sy'n ymwneud â chontractau.

**Melin Bapur Trelái**

***3. Mark Drakeford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau i ailddatblygu cyn-safle Melin Bapur Trelái yng Ngorllewin Caerdydd. OAQ(4)0123(BET)*

**Edwina Hart:** The redevelopment of the former Ely paper mill site will deliver a mixed tenure of housing. The project will deliver 700 homes over a five to six-year period bringing much needed construction jobs to Cardiff and south Wales.

**Mark Drakeford:** The housing crisis in Cardiff West means that families across Cardiff are grateful to you and to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage for the new urgency that you have brought to the development of the Ely paper mill site. Do you, like me, look forward to working jointly on the scheme with the new Labour-controlled Cardiff Council? In the discussions that you will have with the council, will you bring some priority to the infrastructure consequences of this development, ensuring that transport links, schooling implications and so on are built into the planning for the site from the very beginning?

**Edwina Hart:** As my colleague the Minister for housing always points out to me, the issues around housing are very wide ranging. They are about economic regeneration and infrastructure, whether a school adjacent to a site or further development. That will be a focus of my discussions with the newly elected local authority.

2.15 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, the re-development of the Ely paper mill site took a considerable time to come to fruition and considerable work still needs to be done. Planning and business development, especially brownfield development, is critical, as is the joining up of both departments in understanding the needs of businesses. Can you assure Members that your officials engage regularly with the Minister for planning and that any glitches in

**Ely Paper Mill**

***3. Mark Drakeford:** Will the Minister make a statement on the planned redevelopment of the former Ely Paper Mill site in Cardiff West. OAQ(4)0123(BET)*

**Edwina Hart:** Bydd y gwaith o ailddatblygu cyn-safle melin bapur Trelái yn darparu tai â chymysgedd o ddeiliadaethau. Bydd y prosiect yn darparu 700 o gartrefi dros gyfnod o bump i chwe mlynedd gan ddod â swyddi adeiladu y mae mawr eu hangen i Gaerdydd a’r de.

**Mark Drakeford:** Mae’r argyfwng tai yng ngorllewin Caerdydd yn golygu bod teuluoedd ar draws Caerdydd yn ddiolchgar i chi ac i’r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth am roi pwys o’r newydd ar ddatblygu safle melin bapur Trelái. A ydych chithau, fel finnau, yn edrych ymlaen at gydweithio ar y cynllun â Chyngor Caerdydd a gaiff ei reoli gan y Blaid Lafur erbyn hyn? Yn y trafodaethau y byddwch yn eu cael â’r cyngor, a wnewch chi roi rhywfaint o flaenoriaeth i oblygiadau’r datblygiad hwn o ran seilwaith, gan sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth, goblygiadau o ran ysgolion ac ati yn cael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio ar gyfer y safle o’r dechrau’n deg?

**Edwina Hart:** Fel y bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog tai bob amser yn ei ddweud wrthyf, mae’r materion sy’n ymwneud â thai yn eang iawn. Maent yn ymwneud ag adfywio economaidd a seilwaith, p’un a oes ysgol yn agos i safle neu ddatblygiad pellach. Bydd fy nhrafodaethau â’r awdurdod lleol sydd newydd ei ethol yn canolbwyntio ar hynny.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, cymerodd y cynlluniau i ailddatblygu safle melin bapur Trelái gryn amser i ddwyn ffrwyth ac mae gwaith sylweddol i’w wneud o hyd. Mae cynllunio a datblygu busnes, yn enwedig datblygu tir llwyd, yn hanfodol, ac mae’r un peth yn wir am dynnu’r ddwy adran ynghyd i ddeall anghenion busnesau. A allwch roi sicrwydd i’r Aelodau bod eich swyddogion yn ymgysylltu’n rheolaidd â’r Gweinidog cynllunio ac y gall unrhyw ddiffygion yn y

the planning process can be smoothed out so that businesses will invest in brownfield sites in our urban areas?

broses gynllunio gael eu hunioni er mwyn i fusnesau fuddsoddi mewn safleoedd tir llwyd yn ein hardaloedd trefol?

**Edwina Hart:** The points that you have raised with me today, leader of the opposition, are relevant to my discussions with house builders and others about the development of brownfield sites. I have kept my colleague, who has responsibility for planning, in the loop and we will have further discussions on this. We will have the opportunity, with new planning legislation coming forward, to look at it. However, we also need to have early discussions to ensure that any opportunities for the development of these sites should be taken. It took a long time for the developments at Ely mill, but we have an excellent arrangement with the Principality Building Society in terms of the model and we need to look at replicating that across Wales.

**Edwina Hart:** Mae'r pwyntiau yr ydych wedi'u codi â mi heddiw, arweinydd yr wrthblaid, yn berthnasol i'm trafodaethau ag adeiladwyr tai ac eraill am ddatblygu safleoedd tir llwyd. Rwyf wedi rhannu gwybodaeth â'm cydweithiwr, sydd â chyfrifoldeb am gynllunio, a byddwn yn cynnal trafodaethau pellach ynghylch hyn. Bydd cyfle gennym, gyda deddfwriaeth gynllunio newydd yn cael ei chyflwyno, i edrych arno. Fodd bynnag, mae angen inni hefyd gael trafodaethau yn gynnar er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i ddatblygu'r safleoedd hyn yn cael eu cymryd. Cymerodd y datblygiadau ym melin Trelái amser hir, ond mae gennym drefniant rhagorol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality o ran y model ac mae angen inni edrych ar ailadrodd hynny ledled Cymru.

### Cydweithio rhwng y Sectorau Busnes ac Addysg

### Collaboration between the Business and Education Sectors

***4. Mike Hedges:*** *Pa waith y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu cydweithio rhwng y sectorau busnes ac addysg yng Nghymru. OAQ(4)0118(BET)*

***4. Mike Hedges:*** *What work is the Minister doing to promote collaboration between the business and education sectors in Wales. OAQ(4)0118(BET)*

**Edwina Hart:** We encourage Welsh universities and colleges to collaborate with businesses through initiatives such as knowledge transfer partnerships, the academic expertise for business programme and the youth entrepreneurship strategy. Our recently launched science strategy also promotes collaboration with the education sector through the National Science Academy.

**Edwina Hart:** Rydym yn annog prifysgolion a cholegau Cymru i gydweithio â busnesau drwy fentrau megis partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth, y rhaglen arbenigedd academaidd i fusnesau a'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuenctid. Mae ein strategaeth wyddoniaeth a lansiwyd yn ddiweddar hefyd yn hyrwyddo cydweithio â'r sector addysg drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol.

**Mike Hedges:** Recently, Julie James and I visited CyDen in SA1, which is an example of cosmetic technology that uses light therapy. The Institute of Light Therapy has worked closely with Swansea University. Do you agree that there are opportunities for more collaboration between universities and businesses in order to get more high-paid, high-tech jobs into the Welsh economy?

**Mike Hedges:** Yn ddiweddar, aeth Julie James a minnau i ymweld â CyDen yn SA1, sy'n enghraifft o dechnoleg gosmetig sy'n defnyddio therapi golau. Mae'r Sefydliad Therapi Golau wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe. A ydych yn cytuno bod cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng prifysgolion a busnesau er mwyn dod â rhagor o swyddi uwch-dechnoleg sy'n talu'n dda i economi Cymru?

**Edwina Hart:** The life sciences panel sees

**Edwina Hart:** Mae'r panel gwyddorau

companies such as CyDen as what we want to look for in terms of Welsh life science companies, because of the cross-disciplinary work that it undertakes. It is important that we welcome the company's expansion and the opening of its new offices. It is an indigenous company with a global market and we need more of those.

bywyd yn ystyried cwmnïau fel CyDen yn enghraifft o'r hyn yr ydym am chwilio amdano o safbwynt cwmnïau gwyddorau bywyd yng Nghymru, oherwydd y gwaith trawsddisgyblaethol y mae'n ei wneud. Mae'n bwysig ein bod yn croesawu'r ffaith bod y cwmni'n ehangu ac yn agor ei swyddfeydd newydd. Mae'n gwmni cynhenid sydd â marchnad fyd-eang ac mae angen mwy o'r rheini arnom.

**Suzy Davies:** Minister, despite the work of various sector skills councils, one of the main concerns for many businesses remains the lack of appropriate skills among young people entering the workplace. Some witnesses at the Children and Young People Committee's inquiry were also concerned that the take-up of business courses in the 14-19 learning pathway was disappointing. What steps are your department taking to ensure that businesses are involved in the design of curricula and qualifications?

**Suzy Davies:** Weinidog, er gwaethaf gwaith yr amryw gynghorau sgiliau sector, un o'r prif bryderon i lawer o fusnesau o hyd yw'r diffyg sgiliau priodol ymhlith pobl ifanc sy'n dod i mewn i'r gweithle. Roedd rhai tystion yn ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd yn pryderu bod y nifer sy'n dilyn cyrsiau busnes yn y llwybr dysgu 14-19 yn siomedig. Pa gamau y mae eich adran yn eu cymryd i sicrhau bod busnesau'n cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio cwricwla a chymwysterau?

**Edwina Hart:** You have raised this matter with me, and I will have further discussions with the appropriate Minister. Businesses raise issues to do with skills with me, and what is required. I have raised those issues with my colleague, Jeff Cuthbert, and he is opening up a very good dialogue with some of the companies and sectors that have raised those issues with me.

**Edwina Hart:** Rydych wedi codi'r mater hwn â mi, a byddaf yn cael trafodaethau pellach â'r Gweinidog priodol. Mae busnesau'n codi materion sy'n ymwneud â sgiliau â mi, a'r hyn y mae ei angen. Rwyf wedi codi'r materion hynny â'm cydweithiwr, Jeff Cuthbert, ac mae ef yn dechrau trafodaeth dda iawn â rhai o'r cwmnïau a'r sectorau sydd wedi codi'r materion hynny â mi.

**Alun Ffred Jones:** Rydych newydd gyfeirio at faes *life sciences*. Mae gan Brifysgol Bangor gynlluniau cyffrous i'r cyfeiriad hwnnw. Un agwedd o'r rheiny yw ymgais y brifysgol i brynu hen adeilad Technium CAST oddi ar y Llywodraeth. Allwch chi roi diweddariad i ni ar y trafodaethau hynny ac esbonio pam y bu cymaint o oedi gyda'r trafodaethau?

**Alun Ffred Jones:** You have just referred to the life sciences field. Bangor University has exciting plans in this direction. One aspect of those is the university's attempt to buy the former CAST technium building from the Government. Could you give us an update on those discussions and explain why there has been such a great deal of delay in those negotiations?

**Edwina Hart:** I asked my officials yesterday to give me an update on the position regarding CAST. I will write to the Member once I have clarity from my officials on the outstanding issues.

**Edwina Hart:** Gofynnais i'm swyddogion ddoe i roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ar y sefyllfa o ran CAST. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ar ôl imi gael eglurder gan fy swyddogion am y materion sy'n aros i gael sylw o hyd.

**Aled Roberts:** Minister, during the same inquiry that Suzy Davies referred to by the Children and Young People Committee into

**Aled Roberts:** Weinidog, yn ystod yr un ymchwiliad yr oedd Suzy Davies yn cyfeirio ato gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i

the Learning and Skills Measure (Wales) 2009, witnesses expressed some concern about the failure of educationists to consider labour market intelligence in developing curricula. What discussions take place between your department and the Department for Education and Skills in that regard?

Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, mynegodd tystion bryderon ynghylch methiant addysgwyr i ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur wrth ddatblygu cwricwla. Pa drafodaethau sy'n digwydd rhwng eich adran chi a'r Adran Addysg a Sgiliau yn hynny o beth?

**Edwina Hart:** My officials and education officials have an excellent working relationship. We have cooperated on many issues, because education and training are central to the development of the economy in Wales and to jobs and skills. Bearing in mind that the question was raised by you and Suzy Davies, I will look at the evidence presented to the committee to see whether any further work can be undertaken.

**Edwina Hart:** Mae gan fy swyddogion i a swyddogion addysg berthynas waith ardderchog. Rydym wedi cydweithio ar nifer o faterion, gan fod addysg a hyfforddiant yn ganolog i ddatblygu'r economi yng Nghymru ac i swyddi a sgiliau. O ystyried mai chi a Suzy Davies gododd y cwestiwn, byddaf yn edrych ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor i weld a oes modd gwneud unrhyw waith pellach.

**Kenneth Skates:** Minister, the Enterprise and Business Committee has agreed to undertake an inquiry into the Horizon 2020 proposals. One of the central elements of this funding programme will be support for knowledge and innovation communities, otherwise known as KICs. Three KICs have been set up during the current financial framework, including one to drive innovation in the area of climate change adaptation and mitigation. Minister, given that the European Commission has proposed that the funding of KICs will fall within the framework of the new Horizon 2020 programme for 2014 to 2020, what discussions have you had with officials about Welsh involvement in KIC projects over the next few years?

**Kenneth Skates:** Weinidog, mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i gynigion Horizon 2020. Un o elfennau canolog y rhaglen ariannu hon fydd darparu cymorth i gymunedau gwybodaeth ac arloesedd. Mae tair cymuned o'r fath wedi eu sefydlu yn ystod y fframwaith ariannol presennol, gan gynnwys un i sbarduno arloesedd ym maes addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Weinidog, o ystyried bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig y bydd ariannu cymunedau gwybodaeth ac arloesedd yn dod o fewn fframwaith y rhaglen Horizon 2020 newydd ar gyfer y cyfnod 2014 i 2020, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â swyddogion am gyfranogiad Cymru mewn prosiectau'n gysylltiedig â chymunedau gwybodaeth ac arloesedd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf?

**Edwina Hart:** The Horizon 2020 programmes and budgets are still being developed and agreed by the European Union. Officials are contributing to the Department for Business, Innovation and Skills' ongoing negotiations with the EU with regard to the detailed proposals for the Horizon 2020 programmes, and we await the finalised plans.

**Edwina Hart:** Mae rhaglenni a chyllidebau Horizon 2020 yn dal i gael eu datblygu a'u cytuno gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae swyddogion yn cyfrannu at drafodaethau parhaus yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau â'r UE ynghylch y cynigion manwl ar gyfer y rhaglenni Horizon 2020, ac rydym yn aros am y cynlluniau terfynol.

**Blaenoriaethau ar gyfer Llanelli**

**Priorities for Llanelli**

***5. Keith Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer Llanelli dros y tymor Cynulliad hwn.*

***5. Keith Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for Llanelli for this Assembly term. OAQ(4)0133(BET)*

*OAQ(4)0133(BET)*

**Edwina Hart:** Our priorities for developing the economy across Wales are set out in the programme for government and include plans for strengthening the conditions for job creation and retention and investing in infrastructure, skills and innovation.

**Edwina Hart:** Mae ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi ledled Cymru wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu ac maent yn cynnwys cynlluniau i gryfhau'r amodau ar gyfer creu a chadw swyddi a buddsoddi mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd.

**Keith Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf y sawl raglen cyllid sydd ar gael i helpu busnesau ac unigolion ac rwyf wedi gweld yn ddiweddar, gyda chi, y manteision a ddaw oddi wrth gronfa twf economaidd Cymru, cronfa buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig, a chronfa microfusnesau. Fodd bynnag, mae rhai yn dal i gael trafferth wrth ddod o hyd i'r cyngor priodol a rhai yn disgyn tu allan i'r meini prawf. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ddatblygu cymhwysedd yn y maes?

**Keith Davies:** Thank you for that reply, Minister. I welcome the finance programmes that are available to help business and individuals and, recently, with you, I have seen the advantages that come from the Wales economic growth fund, the investment in SMEs fund, and the microbusinesses fund. However, some still have difficulty in getting the appropriate advice and some fall outwith the criteria. What is the Government doing to increase competence in the field?

**Edwina Hart:** The important thing is that you have welcomed the funds and the fact that they are making a difference to businesses in your constituency. Finance Wales has received feedback from the microbusiness task and finish group in relation to the microbusiness fund, which it has integrated into its scheme. We are continuing to evaluate the Wales economic growth fund and will take those lessons forward. There will be tailored guidance and business support available online via our business information website. We will also have regional centres that will provide local businesses with the opportunity to speak to experienced staff who can offer valuable information and guidance. Therefore, we have reviewed the offer that we have and the availability and accessibility of that to businesses, but there is still a lot more work to do.

**Edwina Hart:** Y peth pwysig yw eich bod wedi croesawu'r cronfeydd a'r ffaith eu bod yn gwneud gwahaniaeth i fusnesau yn eich etholaeth. Mae Cyllid Cymru wedi cael adborth gan y grŵp gorchwyl a gorffen microfusnesau am y gronfa i ficrofusnesau, y mae wedi ei gynnwys yn ei gynllun. Rydym yn parhau i werthuso cronfa twf economaidd Cymru a byddwn yn gweithredu ar y gwersi hynny. Bydd arweiniad a chymorth busnes wedi'u teilwra ar gael ar-lein trwy ein gwefan gwybodaeth i fusnesau. Bydd gennym hefyd ganolfannau rhanbarthol a fydd yn cynnig cyfle i fusnesau lleol siarad â staff profiadol sy'n gallu cynnig gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr. Felly, rydym wedi adolygu'r hyn sydd gennym i'w gynnig ac argaeledd a hygyrchedd hynny i fusnesau, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud o hyd.

**Nick Ramsay:** Minister, economically, Llanelli falls into the west Wales and the Valleys region, which is an area that clearly had problems, given the GDP figures that were released earlier in the year. I know that you have recognised that the European structural funds money that was spent previously was not necessarily spent in the best way to support the economy in the future. How will you and, perhaps, the

**Nick Ramsay:** Weinidog, yn economaidd, mae Llanelli yn rhanbarth gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n amlwg yn ardal a chanddi broblemau, o ystyried y ffigurau ar gyfer Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a ryddhawyd yn gynharach yn y flwyddyn. Gwn eich bod wedi cydnabod na chafodd yr arian o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a wariwyd yn flaenorol ei wario o reidrwydd yn y ffordd orau i gefnogi'r economi yn y

Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, ensure that the money that is spent from now on goes into supporting home-grown businesses so that, in future, we do not find ourselves in the same position of not having a sustainable economy in that area?

dyfodol. Sut y byddwch chi ac, efallai, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, yn sicrhau bod yr arian a gaiff ei wario o hyn ymlaen yn cael ei wario ar gefnogi busnesau cynhenid fel nad ydym yn ein cael ein hunain yn yr un sefyllfa yn y dyfodol o beidio â chael economi gynaliadwy yn yr ardal honno?

**Edwina Hart:** It is important that we support home-grown businesses, but, as Minister for business, I want to look at the companies that want to come to Wales, invest in Wales and bring employment to Wales, and the offer that we have from them. My colleague, the Deputy Minister, who has responsibility for European structural funds, has addressed the Assembly on this issue. His reflection exercise has certainly brought forward and highlighted where we need to go in the next round.

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi busnesau cynhenid, ond, fel Gweinidog busnes, rwyf am edrych ar y cwmnïau sydd am ddod i Gymru, buddsoddi yng Nghymru a dod â chyflogaeth i Gymru, a'r cynnig a gawn ganddynt. Mae fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog, sy'n gyfrifol am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, wedi annerch y Cynulliad ar y mater hwn. Mae ei ymarfer myfyrio yn sicr wedi dangos a phwysleisio ble y mae angen inni fynd yn y rownd nesaf.

**Simon Thomas:** Minister, we know that the First Minister shops in Parc Trostre, because that is where he picks up his Plaid Cymru election leaflets. However, out-of-town developments have had a very damaging effect on the town centre of Llanelli. In that context, will you welcome the East Gate development in Llanelli, which is a mixed development that will have shops, a cinema, and a hotel, which some Members may find useful. In welcoming that development, will you work with your fellow Ministers to ensure that your Government favours the redevelopment of town centres or developments that are close to town centres in future and not out-of-town developments?

**Simon Thomas:** Weinidog, gwyddom fod y Prif Weinidog yn siopa ym Mharc Trostre, oherwydd dyna lle y mae'n codi taflenni etholiadol Plaid Cymru. Fodd bynnag, mae datblygiadau y tu allan i'r dref wedi cael effaith niweidiol iawn ar ganol tref Llanelli. Yn y cyd-destun hwnnw, a wnewch chi groesawu datblygiad East Gate yn Llanelli, sy'n ddatblygiad cymysg a fydd yn cynnwys siopau, sinema a gwesty, a fydd yn ddefnyddiol i rai Aelodau, efallai. Wrth groesawu'r datblygiad hwnnw, a wnewch chi weithio gyda'ch cyd-Weinidogion i sicrhau bod eich Llywodraeth yn ffafrio ailddatblygu canol trefi neu ddatblygiadau sy'n agos i ganol trefi yn y dyfodol yn hytrach na datblygiadau y tu allan i'r dref?

**Edwina Hart:** There are many decisions that local authorities might regret in terms of what they have done over the years with regard to planning and out-of-town developments and the impact on shopping centres. However, we have to recognise that the world of retail is changing, with more and more going online. Therefore, I have been having discussions not only with the Minister with responsibility for planning about some of the wider issues regarding planning and out-of-town developments, but also with my colleague, Huw Lewis, in terms of regeneration. That is why I was pleased to be able to look at local

**Edwina Hart:** Mae llawer o benderfyniadau y gallai awdurdodau lleol fod yn eu difaru o ran yr hyn y maent wedi'i wneud dros y blynyddoedd o safbwynt cynllunio a datblygiadau y tu allan i'r dref a'r effaith ar ganolfannau siopa. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod byd manwerthu yn newid, gyda mwy a mwy yn mynd ar-lein. Felly, rwyf wedi bod yn cynnal trafodaethau nid yn unig â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio am rai o'r materion ehangach sy'n ymwneud â chynllunio a datblygiadau y tu allan i'r dref, ond hefyd â'm cydweithiwr, Huw Lewis, o ran adfywio. Dyna pam yr

growth zones within three towns in Powys to see whether they could develop something that impacts on not only Powys but elsewhere in terms of what we can undertake.

oeddwn yn falch o allu edrych ar ardaloedd twf lleol mewn tair tref ym Mhowys i weld a allent ddatblygu rhywbeth sy'n effeithio nid yn unig ar Bowys ond ar leoedd eraill o ran yr hyn y gallwn ei wneud.

**The Presiding Officer:** Question 6, OAQ(4)0127(BET), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd Cwestiwn 6, OAQ(4)0127(BET), yn ôl.

**Technium Abertawe**

**Swansea Technium**

***7. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Technium Abertawe. OAQ(4)0117(BET)*

***7. Peter Black:*** *Will the Minister make a statement on the future of the Swansea Technium. OAQ(4)0117(BET)*

**Edwina Hart:** I am reviewing the most appropriate way of taking forward the technium network and investigating options for the future of all the technium centres, including that in Swansea.

**Edwina Hart:** Rwyf yn adolygu'r ffordd fwyaf priodol o ddatblygu'r rhwydwaith technium ac yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer dyfodol pob un o'r canolfannau technium, gan gynnwys yr un yn Abertawe.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. The delay with regard to the future of the techniums is unfortunate. As you know, Swansea Metropolitan University, in partnership with the University of Wales Trinity St David, has acquired the Dylan Thomas Centre in SA1 and the two techniums are adjacent to that. Have you considered talking to the university about the development of a science park around those three centres? That would benefit Swansea.

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r oedi o ran dyfodol y canolfannau technium yn anffodus. Fel y gwyddoch, mae canolfan Dylan Thomas yn SA1 wedi dod i feddiant Prifysgol Fetropolitan Abertawe, mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac mae'r ddwy ganolfan technium yn agos at ganolfan Dylan Thomas. A ydych wedi ystyried siarad â'r brifysgol am ddatblygu parc gwyddoniaeth o amgylch y tair canolfan hynny? Byddai hynny o fudd i Abertawe.

**Edwina Hart:** Yes, this issue has been raised with my officials and we will be having discussions on the matter.

**Edwina Hart:** Ydw, mae'r mater hwn wedi'i godi â'm swyddogion a byddwn yn cynnal trafodaethau am y mater.

**Byron Davies:** Minister, I note your answer to Peter Black, but do you also agree that whoever takes over the technium must have a good track record of economic contribution to Wales and take full advantage of the opportunities that the techniums should be offering?

**Byron Davies:** Weinidog, rwyf yn nodi eich ateb i Peter Black, ond a ydych hefyd yn cytuno bod yn rhaid i bwy bynnag sy'n cymryd y ganolfan technium fod â hanes da o gyfrannu at economi Cymru a bod yn rhaid iddynt fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y dylai'r canolfannau technium fod yn eu cynnig?

**Edwina Hart:** I concur. They are beautiful buildings, they are in the right location and they should be used for their intended purpose.

**Edwina Hart:** Rwyf yn cytuno. Maent yn adeiladau hardd, maent yn y lleoliad cywir a dylid eu defnyddio at y diben a fwriadwyd.

**Bethan Jenkins:** I ddatblygu ar yr hyn sydd wedi ei ofyn eisoes, dylai pwy bynnag sydd yn parhau â datblygiad y technium yn

**Bethan Jenkins:** To develop what has already been asked, whoever carries on the technium development in Swansea should

Abertawe gynnwys cwmnïau lleol yn llawer mwy. Bûm yn agoriad adeilad newydd Wall Colmonoy ym Mhontardawe yr wythnos diwethaf. A oes mwy o gysylltiadau y gellir eu gwneud gyda chwmnïau o'r fath, sy'n arwain y byd yn eu meysydd?

involve local companies a lot more. I attended the opening for the Wall Colmonoy building in Pontardawe last week. Could more links be made with such companies, which lead the world in their fields?

**Edwina Hart:** Yes. We aim to have good links with all companies. We are reforming the structure of my department in order to have business relationship managers for companies so that we can encourage that type of involvement and encourage the involvement of local government and other partners.

**Edwina Hart:** Oes. Rydym yn ceisio cael cysylltiadau da â phob cwmni. Rydym yn diwygio strwythur fy adran er mwyn cael rheolwyr cysylltiadau busnes ar gyfer cwmnïau fel y gallwn annog yr arfer o'u cynnwys fel hyn ac annog yr arfer o gynnwys llywodraeth leol a phartneriaid eraill.

**The Presiding Officer:** Question 8, OAQ(4)0128(BET), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 8, OAQ(4)0128(BET), yn ôl.

## Economi

## Economy

***9. Elin Jones:*** *Sut y bydd y Gweinidog yn cefnogi'r economi dros y 6 mis nesaf. OAQ(4)0121(BET)*

***9. Elin Jones:*** *How will the Minister be supporting the economy over the next 6 months. OAQ(4)0121(BET)*

**Edwina Hart:** Our focus is on immediate assistance through access to finance, reducing other barriers, and investing for the longer term through key sectors, enterprise zones, broadband and science.

**Edwina Hart:** Rydym yn canolbwyntio ar gymorth uniongyrchol drwy fynediad i gyllid, lleihau rhwystrau eraill, a buddsoddi ar gyfer y tymor hwy drwy sectorau allweddol, ardaloedd menter, band eang a gwyddoniaeth.

**Elin Jones:** The independent group established to look at local growth zones is consulting on proposals for Powys. Local growth zones may be a valuable economic regeneration tool for other rural areas, such as Ceredigion, my constituency. Once the consultation is complete, will you consider rolling this model out beyond Powys to other rural areas in economic need?

**Elin Jones:** Mae'r grŵp annibynnol a sefydlwyd i edrych ar ardaloedd twf lleol yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer Powys. Gallai ardaloedd twf lleol fod yn adnodd adfywio economaidd gwerthfawr ar gyfer ardaloedd gwledig eraill, fel Ceredigion, fy etholaeth i. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau, a wnewch chi ystyried cyflwyno'r model hwn y tu hwnt i Bowys i ardaloedd gwledig eraill sydd mewn angen o safbwynt economaidd?

**Edwina Hart:** Yes, I think that I will consider that, because the whole object of this was to get an area together to look at some of the issues where I thought there would be common concerns. Also, last July, at the Royal Welsh Show, I met the rural local authorities and set them a task with regard to what they wanted my department to look at in order to help them. They came back with some paperwork before the election and I now intend to meet them again

**Edwina Hart:** Gwnaf, rwyf yn credu y gwnaf i ystyried hynny, oherwydd holl ddiben hyn oedd cael ardal at ei gilydd i edrych ar rai o'r materion lle'r oeddwn yn credu y byddai pryderon cyffredin. At hynny, fis Gorffennaf diwethaf, yn Sioe Frenhinol Cymru, cyfarfûm â'r awdurdodau lleol gwledig a gosod tasg iddynt o ran yr hyn yr oeddent am i'm hadran ei ystyried er mwyn eu helpu. Daethant yn ôl â rhywfaint o waith papur cyn yr etholiad ac rwyf bellach yn

to see whether there are any positive points I can take forward and develop in my discussions with them. It is important that we recognise that we can have an all-Wales policy but that, sometimes, we need some niche policies for rural Wales.

bwriadu cyfarfod â hwy eto i weld a oes unrhyw bwyntiau cadarnhaol y gallaf fwrw ymlaen â hwy a'u datblygu yn fy nhrafodaethau â hwy. Mae'n bwysig inni gydnabod y gallwn gael polisi Cymru gyfan ond, weithiau, bod angen rhai polisïau arbenigol ar gyfer Cymru wledig.

**Nick Ramsay:** Minister, can you provide as with an update on when you expect the business rates review task and finish group to report?

**Nick Ramsay:** Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl i'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adolygu ardrethi busnes adrodd yn ôl?

**Edwina Hart:** I have to say that, the more the group talks to individuals, the more work it seems to take on. There has been such an enormous interest in it, and I do not want to stifle that interest or prevent more people giving evidence to the group. Therefore, I will make formal enquiries with the chair of that group to get a proper indication of where we might be with this. I should get a real-life indication in that way, rather than speaking to my officials, who are ever hopeful that it will be sooner than I think it will be.

**Edwina Hart:** Mae'n rhaid imi ddweud, y mwyaf y mae'r grŵp yn siarad ag unigolion, y mwyaf o waith y mae fel pe bai'n ei ysgwyddo. Bu cymaint o ddiddordeb ynddo, ac nid wyf am fygu'r diddordeb hwnnw nac atal mwy o bobl rhag rhoi tystiolaeth i'r grŵp. Felly, byddaf yn gwneud ymholiadau ffurfiol gyda chadeirydd y grŵp hwnnw i gael darlun cywir o ble'r ydym arni gyda hyn. Dylwn gael syniad go iawn o wneud hynny, yn hytrach na siarad â'm swyddogion, sy'n dal i obeithio y bydd yn gynt nag yr wyf yn meddwl y bydd hi.

**Nick Ramsay:** From my discussions with the chair, I know that he has been enthusiastically engaging with many aspects of business in Wales. I am sure that you agree, Minister, that it is very important that, while gathering as much information and evidence as possible, the group reports as quickly as possible. Will you also undertake that any recommendations made will be implemented with haste? Businesses across Wales are clearly suffering at the moment and they have continually said to us that the one way the Welsh Government can help them is by giving them some business rate relief support at this very difficult time.

**Nick Ramsay:** O'm trafodaethau â'r cadeirydd, gwn ei fod wedi bod yn ymgysylltu'n frwdfrydig â sawl agwedd ar fyd busnes yng Nghymru. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno, Weinidog, ei bod yn bwysig iawn, wrth gasglu cymaint o wybodaeth a thystiolaeth ag sy'n bosibl, bod y grŵp yn adrodd yn ôl cyn gynted ag sy'n bosibl. A wnewch chi hefyd sicrhau y bydd unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu gweithredu ar fyrder? Mae'n amlwg bod busnesau ledled Cymru yn dioddef ar hyn o bryd ac maent wedi dweud wrthym dro ar ôl tro mai'r un ffordd y gall Llywodraeth Cymru eu helpu yw drwy roi rhywfaint o gefnogaeth iddynt o ran rhyddhad ardrethi busnes ar yr adeg anodd iawn hon.

**Edwina Hart:** In all honesty, any recommendations will have to be considered by me and Cabinet colleagues for any knock-on effects they may have in other portfolios. However, if we then decide to implement any of those recommendations, I will implement them as speedily as the microbusiness recommendations were implemented, which was really quite quickly.

**Edwina Hart:** A bod yn onest, bydd yn rhaid i unrhyw argymhellion gael eu hystyried gennyf fi a'm cydweithwyr yn y Cabinet ar gyfer unrhyw sgîl-effeithiau y gallent eu cael ar bortffolios eraill. Fodd bynnag, os byddwn yn penderfynu gweithredu unrhyw rai o'r argymhellion hynny wedyn, byddaf yn eu gweithredu yr mor gyflym ag a gafodd yr argymhellion o ran microfusnesau eu

gweithredu, a oedd yn eithaf cyflym yn wir.

**Eluned Parrott:** Minister, inward investment is obviously a key issue. On coming back from his trade mission in India, the First Minister said that hundreds of jobs would be coming to Cardiff as a result of Firstsource, a call centre company, but today the company said that there had been a 'misunderstanding'.

'We have never said that we were going to take on new jobs…What he said was not agreed with Firstsource'.

While that is clearly embarrassing for the Government, it also creates difficulties for Firstsource in having to clear up the situation. Is embarrassing inward investors how you normally do business overseas?

**Eluned Parrott:** Weinidog, mae mewnfuddsoddi yn amlwg yn fater allweddol. Ar ôl dychwelyd o'i daith fasnach yn India, dywedodd y Prif Weinidog y byddai cannoedd o swyddi yn dod i Gaerdydd o ganlyniad i Firstsource, cwmni canolfannau galwadau, ond heddiw dywedodd y cwmni bod camddealltwriaeth wedi bod.

Nid ydym erioed wedi dweud ein bod yn mynd i greu swyddi newydd...Ni chafodd yr hyn a ddywedodd ei gytuno â Firstsource.

Er bod hynny'n amlwg yn codi cywilydd ar y Llywodraeth, mae hefyd yn creu anawsterau i Firstsource sy'n gorfod egluro'r sefyllfa. Ai drwy godi cywilydd ar fewnfuddsoddwyr y byddwch yn gwneud busnes dramor fel rheol?

2.30 p.m.

**Edwina Hart:** I am sorry but I do not understand where you are going with this question. We do not embarrass any inward investors. They tell us that we are good at dealing with them and that they enjoy their relationship with us. As far as I am concerned, we deal properly with all those who express an interest in inward investment in Wales.

**Edwina Hart:** Mae'n ddrwg gennyf, ond nid wyf yn deall i ble'r ydych yn mynd â'r cwestiwn hwn. Nid ydym yn codi cywilydd ar unrhyw fewnfuddsoddwyr. Maent yn dweud wrthym ein bod yn ymdrin â hwy yn dda a'u bod yn mwynhau eu perthynas â ni. Hyd y gwn i, rydym yn ymdrin yn briodol â phawb sy'n mynegi diddordeb mewn mewnfuddsoddi yng Nghymru.

**Eluned Parrott:** I repeat what the company said: what the First Minister said was never agreed with Firstsource, and it had never agreed to take on new jobs. The truth of the situation is that an announcement was made, the announcement was botched, and these jobs are not coming to Cardiff as a result of Firstsource because they were already in Cardiff. They were already here but were being transferred from elsewhere in the city. Do you believe that future trade missions would be more competent if the First Minister took you along?

**Eluned Parrott:** Ailadroddaf yr hyn a ddywedodd y cwmni: ni chafodd yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog fyth mo'i gytuno â Firstsource, ac nid oedd fyth wedi cytuno i greu swyddi newydd. Y gwir am y sefyllfa yw bod cyhoeddiad wedi'i wneud, gwnaed cawl o'r cyhoeddiad, ac nid yw'r swyddi hyn yn dod i Gaerdydd o ganlyniad i Firstsource oherwydd bod y cwmni eisoes yng Nghaerdydd. Roedd yma yn barod ond roedd yn trosglwyddo o rywle arall yn y ddinas. A ydych yn credu y byddai teithiau masnach yn y dyfodol yn fwy cymwys pe bai'r Prif Weinidog yn mynd â chi gydag ef?

**Edwina Hart:** At the end of the day, the First Minister does an excellent job of representing Wales. He is representing the nation, and it is widely acknowledged that he led the Labour Party in Wales to excellent victories in the local government elections last week. You have to understand that we

**Edwina Hart:** Yn y pen draw, mae'r Prif Weinidog yn gwneud gwaith rhagorol wrth gynrychioli Cymru. Mae'n cynrychioli'r genedl, a chaiff ei gydnabod yn eang ei fod wedi arwain y Blaid Lafur yng Nghymru i fuddugoliaethau gwych yn yr etholiadau llywodraeth leol yr wythnos diwethaf. Rhaid

have an excellent relationship. Members in the Chamber would sometimes do well to remember that criticising the First Minister or my department does no good for business confidence or for the fact that we want to attract jobs to Wales.

ichi ddeall bod gennym berthynas ardderchog. Byddai'n dda weithiau pe bai'r Aelodau yn y Siambr yn cofio nad yw beirniadu'r Prif Weinidog neu fy adran i yn gwneud dim lles i hyder busnesau nac i'r ffaith ein bod am ddenu swyddi i Gymru.

**Grantiau i Fusnesau yn Arfon**

**Grants for Businesses in Arfon**

***10. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer grantiau i fusnesau yn etholaeth Arfon. OAQ(4)0131(BET)*

***10. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement on plans for grants for businesses in the constituency of Arfon. OAQ(4)0131(BET)*

**Edwina Hart:** The Welsh Government is committed to supporting businesses to access business finance. Five offers of Wales's economic growth funding worth just under £1 million have been approved for projects in the Arfon constituency.

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo busnesau i gael mynediad i gyllid busnes. Mae pum cynnig ar gyfer cyllid twf economaidd Cymru sy'n werth ychydig o dan £1 filiwn wedi eu cymeradwyo ar gyfer prosiectau yn etholaeth Arfon.

**Alun Ffred Jones:** Yn ddiweddar, cafwyd cwymp yn Chwarel y Penrhyn, ac mae 0.5 miliwn tunnell o graig wedi disgyn, sydd wedi effeithio ar allu'r cwmni i weithredu ac, yn wir, wedi peryglu swyddi yn y chwarel. Sylwais mewn datganiad a wnaed gan y Llywodraeth heddiw eich bod yn dweud bod cadw a chynnal swyddi yr un mor bwysig â chreu swyddi newydd yn y sefyllfa sydd ohoni. Mae 180 o bobl yn gweithio yn yr hen ddiwydiant hwn, felly a wnewch chi ofyn i'ch swyddogion drafod gyda chwmni Welsh Slate i weld a yw'n bosibl rhoi cymorth iddo mewn unrhyw ffordd yn y sefyllfa anodd hon?

**Alun Ffred Jones:** Recently, there has been a rockfall at the Penrhyn Quarry, and 0.5 million tonnes of rock has fallen, which has had an impact on the company's ability to operate and, further, has put jobs at the quarry in danger. I noticed that a statement issued by the Government today said that safeguarding and retaining existing jobs is just as important as creating new jobs in the current climate. Given that 180 people work in that age-old industry, will you ask your officials to discuss with the company, Welsh Slate, to see whether it is possible to offer it some assistance of any kind to get through this difficult time?

**Edwina Hart:** You can certainly have my assurance that such discussions will take place.

**Edwina Hart:** Yn sicr, gallaf eich sicrhau y bydd trafodaethau o'r fath yn digwydd.

**Mark Isherwood:** The Federation of Small Businesses has expressed concern that the small and medium-sized enterprise investment fund is not being adequately promoted and that awareness among its members is patchy. What action, therefore, are you taking to raise awareness of financial support schemes such as the SME investment fund in rural communities such as Arfon?

**Mark Isherwood:** Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi mynegi pryder nad yw'r gronfa fuddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol a bod ymwybyddiaeth ymysg ei aelodau yn anghyson. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd, felly, i godi ymwybyddiaeth ynghylch cynlluniau cymorth ariannol megis y gronfa fuddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint mewn cymunedau gwledig fel Arfon?

**Edwina Hart:** It is important to recognise

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig cydnabod ein

that we have had difficulty giving enough publicity to some of the funds that we have offered. I have asked officials to look at all our funds to see how we can make them more accessible and advertise them more effectively in light of some of the criticisms that have been given.

bod wedi cael anhawster o ran rhoi digon o gyhoeddusrwydd i rai o'r cronfeydd yr ydym wedi eu cynnig. Rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar bob un o'n cronfeydd i weld sut y gallwn eu gwneud yn fwy hygyrch a'u hysbysebu yn fwy effeithiol o ystyried rhai o'r beirniadaethau a gafwyd.

**Busnesau Bach**

**Small Businesses**

***11. Mohammad Asghar:*** *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi busnesau bach yng Nghymru. OAQ(4)0116(BET)*

***11. Mohammad Asghar:*** *What is the Minister doing to support small businesses in Wales. OAQ(4)0116(BET)*

**Edwina Hart:** We have made clear commitments to support businesses throughout Wales, and our plans are set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Rydym wedi gwneud ymrwymiadau clir i gefnogi busnesau ledled Cymru, ac mae ein cynlluniau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that answer, Minister. The latest report of 'The FSB 'Voice of Small Business' Member Survey' reveals that

**Mohammad Asghar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae adroddiad diweddaraf y Ffederasiwn Busnesau Bach 'Voice of Small Business' sy'n seiliedig ar arolwg o'i aelodau yn dangos bod

'Government funded business support is rated as unhelpful by 41 per cent'.

Cymorth busnes a ariennir gan y Llywodraeth yn cael ei ystyried yn ddiwerth gan 41 y cant.

The report goes on to say that, although more small businesses are accessing business support now than in 2009, it is 'disappointing' that there is a decline in the helpfulness ratings in Wales. Will the Minister look into this matter to ensure that support in Wales is swift and effective in meeting the needs of our small businesses?

Mae'r adroddiad yn mynd rhagddo i ddweud, er bod mwy o fusnesau bach yn cael cymorth busnes yn awr nag yn 2009, ei bod yn siomedig bod gostyngiad yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n credu bod y cymorth yn ddefnyddiol. A wnaiff y Gweinidog ymchwilio i'r mater hwn i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yng Nghymru yn diwallu anghenion ein busnesau bach yn gyflym ac yn effeithiol?

**Edwina Hart:** Yes.

**Edwina Hart:** Gwnaf.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Many of my constituents who run small and medium-sized enterprises can be frustrated by the planning system. That can be particularly acute in the area covered by the Brecon Beacons National Park. I recently met with constituents who run small businesses who have had their advertising taken down—at a time when they need it more than ever. What discussions have you had with the Minister for environment about ensuring that planning regimes, whether at county council level or in the national park area, are responsive to the

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Mae'r system gynllunio yn gallu peri rhwystredigaeth i lawer o'm hetholwyr sy'n rhedeg busnesau bach a chanolig. Gall hynny fod yn arbennig o ddifrifol yn yr ardal sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn ddiweddar, cyfarfûm ag etholwyr sy'n rhedeg busnesau bach y mae eu hysbysebion wedi eu tynnu i lawr—ar adeg pan fo'u hangen arnynt yn fwy nag erioed. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Gweinidog yr amgylchedd ynghylch sicrhau bod cyfundrefnau cynllunio, boed ar lefel cyngor sir neu yn

needs of business, especially in this difficult economic climate?

ardal y parc cenedlaethol, yn ymateb i anghenion busnesau, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni?

**Edwina Hart:** I have had several discussions with the Minister responsible for planning, who has himself had several discussions with businesses, which make the same points. There is a lot of concern out there that people do not recognise that—dare I say it—in order for the national parks to survive and thrive, we need businesses around them to provide services for visitors and the communities. This is an important issue, and I know that the Minister takes it seriously and is looking at it with his officials.

**Edwina Hart:** Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, ac mae ef wedi cael nifer o drafodaethau â busnesau, sy'n codi'r un pwyntiau. Ceir llawer o bryder nad yw pobl yn cydnabod y ffaith—os meiddiaf ddweud—bod gallu'r parciau cenedlaethol i oroesi a ffynnu yn dibynnu ar gael busnesau o'u cwmpas i ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr a'r cymunedau. Mae hwn yn fater pwysig, a gwn fod y Gweinidog yn cymryd y peth o ddifrif ac yn edrych arno gyda'i swyddogion.

**Effaith y Dirwasgiad**

**The Effect of the Recession**

***12. Simon Thomas:*** *Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn mynd i'w cymryd i leddfu effaith y dirwasgiad ar Gymru. OAQ(4)0130(BET)*

***12. Simon Thomas:*** *What steps are the Government going to take to ease the effect of the recession in Wales. OAQ(4)0130(BET)*

**Edwina Hart:** We are using the very limited levers that we have in our power to support the Welsh economy by reducing the barriers that businesses face as well as continuing to invest for longer term recovery.

**Edwina Hart:** Rydym yn defnyddio'r dulliau cyfyngedig iawn sydd gennym yn ein gallu i gefnogi economi Cymru drwy leihau'r rhwystrau y mae busnesau yn eu hwynebu yn ogystal â pharhau i fuddsoddi ar gyfer adferiad yn y tymor hwy.

**Simon Thomas:** Thank you for that reply. Yesterday, the Prime Minister and Deputy Prime Minister went to Essex to continue that dreadful reality economics programme: the only way is recession. What alternatives do you have in mind here in Wales, on the day that Wonga.com has said that it will now lend to small businesses? Does that not show that we must have alternative mechanisms to support small and growing businesses here in Wales?

**Simon Thomas:** Diolch am yr ateb hwnnw. Ddoe, aeth y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog i Essex i barhau â'r rhaglen realiti ofnadwy honno sy'n ymwneud ag economeg: *the only way is recession*. Pa ddewisiadau eraill sydd gennych mewn golwg yma yng Nghymru, ar y diwrnod y mae Wonga.com wedi dweud y bydd bellach yn benthyca i fusnesau bach? Onid yw hynny'n dangos bod yn rhaid inni gael dulliau eraill o gefnogi busnesau bach a rhai sy'n tyfu yma yng Nghymru?

**Edwina Hart:** We have consistently warned the UK Government that its spending cuts were too deep and too fast. We warned that these cuts would lead to a double-dip recession, and recent figures prove what is going on. The worrying development with Wonga.com is an illustration of that. I look to the example of Chrysler in the United States, which the Government bailed out. It is now paying its loans back, and the

**Edwina Hart:** Rydym wedi rhybuddio Llywodraeth y DU yn gyson bod ei thoriadau gwariant yn rhy ddwfn ac yn rhy gyflym. Bu inni rybuddio y byddai'r toriadau hyn yn arwain at ddirwasgiad dwbl, ac mae ffigurau diweddar yn profi'r hyn sy'n digwydd. Mae'r datblygiad gyda Wonga.com, sy'n peri pryder, yn dangos hynny. Edrychaf ar enghraifft cwmni Chrysler yn yr Unol Daleithiau, yr oedd y Llywodraeth wedi

Government is ensuring that that multinational is back in profit. There is an issue there about investing in infrastructure. A key area for investment is housing, of course, given that it creates homes and generates jobs for people. Although the proposal from Ely mill is very welcome, we will have to do a lot more of that kind of thing with limited resources—resources that have been cut by the UK Government.

achub ei groen. Mae bellach yn talu ei fenthyciadau yn ôl, ac mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod y cwmni rhyngwladol hwnnw yn gwneud elw unwaith eto. Ceir problem yn gysylltiedig â buddsoddi mewn seilwaith. Un maes allweddol ar gyfer buddsoddi yw tai, wrth gwrs, o ystyried ei fod yn creu cartrefi ac yn creu swyddi i bobl. Er bod y cynnig gan felin Treláі i'w groesawu'n fawr, bydd yn rhaid inni wneud mwy o lawer o'r math hwnnw o beth gydag adnoddau cyfyngedig—adnoddau sydd wedi cael eu torri gan Lywodraeth y DU.

**Darren Millar:** What is your department doing to promote export in Wales? That is one way in which the Welsh economy, particularly the manufacturing sector, can be helped throughout the economic downturn, which was unfortunately caused by the disastrous financial mismanagement of your previous UK Government.

**Darren Millar:** Beth y mae eich adran yn ei wneud i hybu allforio yng Nghymru? Mae honno'n un ffordd o helpu economi Cymru, yn enwedig y sector gweithgynhyrchu, yn ystod y dirywiad economaidd, a achoswyd yn anffodus gan gamreolaeth ariannol drychinebus eich Llywodraeth flaenorol chi yn y DU.

**Edwina Hart:** So the capitalist system across the world did not have a disaster; it was only the UK, was it? I think not. We are talking about a worldwide financial crisis, and this is the reality. Can we please change the record, because I have had enough of it?

**Edwina Hart:** Felly ni chafodd y system gyfalafol ar draws y byd drychineb; ai dim ond y DU a'i cafodd? Go brin. Rydym yn sôn am argyfwng ariannol byd-eang, a dyna yw'r realiti. Rwyf wedi cael digon ar glywed yr un hen gân, a allwn glywed rhywbeth newydd?

I am taking practical steps to deal with the issue that you addressed in the first part of your question, namely exports. Exports and the balance of payments are very important. We were very fortunate to hold an event with UK Trade & Investment, which Lord Green addressed, talking about the importance of us exporting. We were invited to go on more delegations with him, and we now go on more trade missions. I have met some successful companies recently, the majority of whose trade is outside the UK, which is helping our balance of payments. Within my department, we have to ensure that we have the structures in place to support those businesses.

Rwyf yn cymryd camau ymarferol i ymdrin â'r mater a godwyd gennych yn rhan gyntaf eich cwestiwn, sef allforion. Mae allforion a'r fantolen daliadau yn bwysig iawn. Roeddem yn ffodus iawn i gynnal digwyddiad gyda Masnach a Buddsoddi y DU, lle y cafwyd anerchiad gan yr Arglwydd Green, yn sôn am ba mor bwysig yw hi ein bod yn allforio. Cawsom ein gwahodd i fynd ar ragor o deithiau gydag ef, a bellach rydym yn mynd ar ragor o deithiau masnach. Rwyf wedi cyfarfod â chwmnïau llwyddiannus yn ddiweddar, y mae'r rhan fwyaf o'u masnach y tu allan i'r DU, sy'n helpu â'n mantolen daliadau. Yn fy adran i, rhaid inni sicrhau bod gennym y strwythurau yn eu lle i gefnogi'r busnesau hynny.

### Twristiaeth

### Tourism

***13. Julie Morgan:*** *Pa strategaeth sydd gan y Gweinidog i ddenu twristiaid domestig a rhyngwladol i Gymru yr haf hwn. OAQ(4)0119(BET)*

***13. Julie Morgan:*** *What strategy does the Minister have to attract both domestic and international tourists to Wales this summer. OAQ(4)0119(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out the action that has been undertaken to promote Wales as a tourism destination.

**Edwina Hart:** Mae’r rhaglen lywodraethu yn nodi’r camau sydd wedi’u cymryd i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid.

**Julie Morgan:** Following the success of the Welsh tourism industry last year in attracting a large increase in the number of domestic tourists—the largest ever, I believe—what plans does the Minister have to ensure that the glories of Wales, including the newly opened all-Wales coastal path, bring in visitors from overseas as well as domestic visitors?

**Julie Morgan:** Yn dilyn llwyddiant diwydiant twristiaeth Cymru y llynedd wrth sicrhau cynnydd mawr yn nifer y twristiaid domestig—y mwyaf erioed, mi gredaf—pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod gogoniannau Cymru, gan gynnwys llwybr arfordir Cymru gyfan sydd newydd ei agor, yn denu ymwelwyr o dramor yn ogystal ag ymwelwyr domestig?

**Edwina Hart:** Visit Wales’s key markets for promoting tourism internationally are the US and northern Europe, and they are good markets for us. We have our ‘Wales View’ magazine and international websites, and it is important that we promote events, such as the Dylan Thomas centenary, which is coming up. It is very important that we market that carefully and encourage it. We need to look at all the other things that we have. It is not just the coastal path, as we have been talking about religious tourism and so on. We need to maximise what we have in our nation—our history, our castles and so on. We will continue doing that because that will bring the tourists in.

**Edwina Hart:** Marchnadoedd allweddol Croeso Cymru ar gyfer hyrwyddo twristiaeth yn rhyngwladol yw’r Unol Daleithiau a gogledd Ewrop, ac maent yn farchnadoedd da inni. Mae gennym ein cylchgrawn ‘Wales View’ a gwefannau rhyngwladol, ac mae’n bwysig inni hyrwyddo digwyddiadau, megis canmlwyddiant Dylan Thomas sydd ar ddod. Mae’n bwysig iawn inni farchnata hynny’n ofalus a’i hybu. Mae angen inni edrych ar yr holl bethau eraill sydd gennym. Nid dim ond llwybr yr arfordir, gan ein bod wedi bod yn siarad am dwristiaeth grefyddol ac yn y blaen. Mae angen inni wneud y gorau o’r hyn sydd gennym yn ein gwlad—ein hanes, ein cestyll ac yn y blaen. Byddwn yn parhau i wneud hynny gan y bydd hynny’n denu’r twristiaid.

**Suzy Davies:** The Proper Holidays campaign is a new look for Welsh tourism and one that we could have begun to market through travel agents and travel writers at the World Travel Fair, of course, but did not. Will you tell us, perhaps in a written answer if it is easier, where exactly the Proper Holidays brochures have been sent? A list of countries is not sufficient for us to scrutinise the effectiveness of the expenditure on those brochures, and we need to know how they are being used in those countries.

**Suzy Davies:** Mae’r ymgyrch Gwyliau Go Iawn yn ddelwedd newydd ar gyfer twristiaeth yng Nghymru ac yn un y gallem fod wedi dechrau ei marchnata drwy drefnwyr teithiau ac awduron teithio yn Ffair Teithio’r Byd, wrth gwrs, ond ni wnaethom. A wnewch chi ddweud wrthym, mewn ateb ysgrifenedig os yw’n haws, i ble yn union yr anfonwyd y llyfrynnau Gwyliau Go Iawn? Nid yw rhestr o wledydd yn ddigonol inni graffu ar effeithiolrwydd y gwariant ar y llyfrynnau hynny, ac mae angen inni wybod sut y maent yn cael eu defnyddio yn y gwledydd hynny.

**Edwina Hart:** I would be more than happy to see what further information I can give to Members.

**Edwina Hart:** Byddwn yn fwy na pharod i weld pa wybodaeth arall y gallaf ei rhoi i’r Aelodau.

**Twristiaeth Chwaraeon**

**Sports Tourism**

***14. Sandy Mewies:** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog rhagor o dwristiaeth chwaraeon yng Nghymru. OAQ(4)0129(BET*)

***14. Sandy Mewies:** What is the Welsh Government doing to encourage more sports tourism in Delyn. OAQ(4)0129(BET)*

**Edwina Hart:** Outdoor activities and adventure sports are key elements of the Wales tourism offer, with our coastline and countryside providing natural challenges and excitement for all those wishing to take part in such activities.

**Edwina Hart:** Mae gweithgareddau awyr agored a chwaraeon antur yn elfennau allweddol o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig o safbwynt twristiaeth, gyda'n harfordir a'n cefn gwlad yn cynnig heriau naturiol a chyffro i bawb sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

**Sandy Mewies:** I recently opened a golf academy training facility at Mold Golf Club, which was supported by a Welsh Government grant. It is a top-flight facility, similar to ones used by top players, and it is creating a lot of interest throughout north Wales and the north-west of England, bringing additional visitors and, hopefully, more members for the club, all benefitting local tourism. Minister, do you agree that that is a superb example of how comparatively small grants from the Welsh Government can have an enormous impact on areas such as that, and that we must now continue to see where we can make these possible?

**Sandy Mewies:** Yn ddiweddar, agorais gyfleuster hyfforddi academi golff yng Nghlwb Golff yr Wyddgrug, a gafodd gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'n gyfleuster o'r radd flaenaf, yn debyg i'r rhai a ddefnyddir gan y chwaraewyr gorau, ac mae'n creu llawer o ddiddordeb ar draws gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, gan ddod ag ymwelwyr ychwanegol a mwy o aelodau i'r clwb, gobeithio, ac mae hyn i gyd o fudd i dwristiaeth yn lleol. Weinidog, a ydych yn cytuno bod hynny'n enghraifft wych o sut y gall grantiau cymharol fach gan Lywodraeth Cymru gael effaith enfawr ar feysydd tebyg, a bod yn rhaid inni yn awr barhau i weld ble y gallwn wneud y rhain yn bosibl?

**Edwina Hart:** Yes. I think that small grants are a useful mechanism for encouraging activities such as that. We have had a successful strategy for golfing tourism, part of which was how we attracted the Ryder Cup and followed that through. It is important that you have a lasting legacy for such an event, and the opening of that training facility at Mold Golf Club is great news. It follows on from 38 projects aimed at increasing golf participation in Wales, which I think really shows that the Ryder Cup was money well spent.

**Edwina Hart:** Ydw. Rwyf yn credu bod grantiau bach yn ddull defnyddiol o hybu gweithgareddau fel hyn. Rydym wedi cael strategaeth lwyddiannus ar gyfer twristiaeth golff, a rhan ohoni oedd y modd y bu inni lwyddo i ddenu a chynnal cystadleuaeth Cwpan Ryder. Mae'n bwysig cael gwaddol parhaol ar gyfer digwyddiad o'r fath, ac mae agor y cyfleuster hyfforddi yng Nghlwb Golff yr Wyddgrug yn newyddion gwych. Mae'n dilyn 38 o brosiectau sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn golff yng Nghymru, ac rwyf yn credu bod hynny wir yn dangos bod yr arian a wariwyd ar gystadleuaeth Cwpan Ryder yn werth pob ceiniog.

**Mark Isherwood:** *The Flintshire Chronicle* recently ran an online poll, which found that nearly nine out of 10 people felt that the Olympic Games would not benefit Flintshire in any way. However, I am more of a glass-half-full person. Therefore, do you agree with the West Cheshire and North Wales Chamber of Commerce, which said:

**Mark Isherwood:** Yn ddiweddar cynhaliodd papur newydd *The Flintshire Chronicle* bleidlais ar-lein, a ganfu fod bron i naw o bob 10 o bobl yn teimlo na fyddai Sir y Fflint yn elwa o'r Gemau Olympaidd mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, rwyf yn un sy'n edrych ar yr ochr olau i bethau. Felly, a ydych yn cytuno â Siambr Fasnach Gorllewin Swydd

Gaer a Gogledd Cymru, a ddywedodd:

‘Organisers are reiterating their belief the competition will be beneficial…and we are obviously optimistic this will be the case for firms across the region. The arrival of the Olympic torch to the region in late May could be the catalyst to spark local interest’?

Mae’r trefnwyr yn ailadrodd eu cred y bydd y gystadleuaeth yn fuddiol...ac rydym yn amlwg yn obeithiol y bydd hynny’n wir i gwmnïau ar draws y rhanbarth. Gallai dyfodiad y ffagl Olympaidd i’r rhanbarth ddiwedd mis Mai fod yn sbardun i ddeffro diddordeb lleol?

**Edwina Hart:** Yes. Hopefully, the fact that the Olympic torch is going all around the UK will be a catalyst, as some people might take the opportunity to go to another area to see it. I think that we have to be hopeful about the Olympics. We have the Olympics in London, so we have to talk them up and see what benefits they bring. If they bring just a dozen people who are large inward investors into the UK and they like what they see, we could end up getting something out of it. Therefore, it is important to recognise that we need to talk up the Olympics now, especially as we have excellent teams going forward—hopefully, to get gold medals.

**Edwina Hart:** Ydw. Gobeithio y bydd y ffaith bod y ffagl Olympaidd yn mynd o amgylch y DU i gyd yn sbardun, gan y gallai rhai pobl gymryd y cyfle i fynd i ardal arall i’w gweld. Credaf fod yn rhaid inni fod yn obeithiol am y Gemau Olympaidd. Mae’r Gemau Olympaidd yn dod i Lundain, felly rhaid inni eu hybu a gweld pa fanteision a ddaw yn eu sgîl. Os byddant yn dod â dwsin o bobl yn unig sy’n fewnfuddsoddwyr mawr i’r DU a’u bod yn hoffi’r hyn a welant, gallem gael rhywbeth allan ohono yn y pen draw. Felly, mae’n bwysig cydnabod bod angen inni sôn yn gadarnhaol am y Gemau Olympaidd yn awr, yn enwedig gan fod gennym dîmau rhagorol yn mynd yn eu blaenau—gobeithio, i gael medalau aur.

### Amrywiadau mewn Gwerth Arian

### Currency Fluctuations

***15. Mark Drakeford:*** *Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i ymateb i effaith amrywiadau mewn gwerth arian ar gwantwm y cyllid Ewropeaidd sydd ar gael i Gymru. OAQ(4)0122(BET)*

***15. Mark Drakeford:*** *What steps has the Minister taken to respond to the impact of currency fluctuations on the quantum of European funding available to Wales. OAQ(4)0122(BET)*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** Management arrangements, including the close monitoring of euro/sterling exchange rate movements and the commitment and expenditure levels of projects and programmes, are being implemented to ensure that we maximise the EU funding available to Wales.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Mae trefniadau rheoli yn cael eu gweithredu i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o gyllid yr UE sydd ar gael i Gymru, ac mae hynny’n cynnwys gwaith monitro gofalus o ran symudiadau cyfraddau cyfnewid yr ewro/sterling ac ymrwymiad a lefelau gwariant prosiectau a rhaglenni.

**Mark Drakeford:** These are dangerous and turbulent times in the eurozone. Yesterday, the pound appreciated strongly against the euro and, for every cent the pound appreciates, £15 million in European funding is lost to Wales. As the current round comes to an end, managing that becomes increasingly difficult. Will you give us an

**Mark Drakeford:** Mae hwn yn gyfnod peryglus a chythryblus yn ardal yr ewro. Ddoe, cododd gwerth y bunt yn gryf yn erbyn yr ewro ac, ar gyfer pob sent y mae’r bunt yn codi mewn gwerth, bydd Cymru’n colli £15 miliwn o gyllid Ewropeaidd. Wrth i’r cylch presennol ddod i ben, mae’n dod yn fwyfwy anodd rheoli hynny. A wnewch chi roi

assurance that you will regularly attend to the mechanisms that you just described, which are there to try to manage this very difficult process, so that the impact of these changes on the money available to Wales is minimised?

sicrwydd inni y byddwch yn rhoi sylw yn rheolaidd i'r systemau yr ydych newydd eu disgrifio, sydd yno i geisio rheoli'r broses anodd iawn hon, fel bod effaith y newidiadau hyn ar yr arian sydd ar gael i Gymru yn cael ei lleihau cymaint ag sy'n bosibl?

**Alun Davies:** Exchange rate fluctuation is nothing new, and we have been dealing with it since 2000. During the 2000-06 programmes, for example, the exchange rate fluctuated between €1.72 and €1.20 to the pound. We took the decision in January 2012 to change our planning rate to €1.20 to the pound, and we are aware that we need to mitigate the risks that are caused by volatile euro conditions. We are currently looking at strengthening our arrangements, and we might well look towards moving to bimonthly rather than quarterly claims from the European Commission, where exchange rate gains and losses are based on a monthly conversion rate and the rate on the day of receipt.

**Alun Davies:** Nid yw amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid yn ddim byd newydd, ac rydym wedi bod yn ymdrin â hwy er 2000. Yn ystod rhaglenni 2000-06, er enghraifft, roedd y gyfradd gyfnewid yn amrywio rhwng €1.72 ac €1.20 i'r bunt. Gwnaethom y penderfyniad ym mis Ionawr 2012 i newid ein cyfradd gynllunio i €1.20 i'r bunt, ac rydym yn ymwybodol bod angen inni leihau'r risgiau a achosir gan gyflwr cyfnewidiol yr ewro. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried cryfhau ein trefniadau, ac efallai'n wir y byddwn yn ystyried symud at hawlio arian gan y Comisiwn Ewropeaidd bob deufis yn hytrach na bob chwarter, lle y mae enillion a cholledion o ran y gyfradd gyfnewid yn seiliedig ar gyfradd drosi fisol a'r gyfradd ar ddiwrnod ei dderbyn.

2.45 p.m.

**Paul Davies:** I appreciate that currency fluctuations will have an impact on the European funding available, but it is important that the funds we receive are used effectively. The Deputy Minister will be aware that the EU Commissioner for Regional Policy and structural funds has recently said that there will have to be quantifiable results in the future. Will the Deputy Minister tell us what measures and targets the Welsh Government will put in place to ensure that the funding we receive in future is used effectively and that real outcomes are achieved?

**Paul Davies:** Rwyf yn sylweddoli y bydd amrywiadau mewn gwerth arian yn cael effaith ar y cyllid Ewropeaidd sydd ar gael, ond mae'n bwysig bod yr arian a dderbyniwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol bod Comisiynydd Polisi Rhanbarthol a Chronfeydd Strwythurol yr UE wedi dweud yn ddiweddar y bydd yn rhaid cael canlyniadau mesuradwy yn y dyfodol. A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddweud wrthym pa fesurau a thargedau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr arian a gawn yn y dyfodol yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol a bod canlyniadau go iawn yn cael eu cyflawni?

**Alun Davies:** The commissioner, in making those statements, was referring to the proposals for legislation that he made in October and which were reported to this place at that time. The arrangements that are being put in place in the legislation that is currently making its way through the European institutions will themselves put in place the sorts of reporting arrangements that are required for Wales and other territories that administer the European funding

**Alun Davies:** Roedd y comisiynydd, wrth wneud y datganiadau hynny, yn cyfeirio at y cynigion ar gyfer deddfwriaeth a wnaeth ym mis Hydref ac a gafodd eu hadrodd wrth y lle hwn bryd hynny. Bydd y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r sefydliadau Ewropeaidd, eu hunain yn cyflwyno'r mathau o drefniadau adrodd sy'n ofynnol ar gyfer Cymru a thiriogaethau eraill sy'n gweinyddu'r rhaglenni cyllid Ewropeaidd.

programmes. We will put in place the systems that are required in order to meet our obligations to the European Commission on these matters. We are currently in negotiation with the Commission, and I will report back on the conclusion of those negotiations.

Byddwn yn gweithredu'r systemau sy'n ofynnol er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau i'r Comisiwn Ewropeaidd ar y materion hyn. Rydym yn trafod â'r Comisiwn ar hyn o bryd, a byddaf yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny.

## Cynnig i Ddirymu Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012
## Motion to Annul the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012

*Cynnig NNDM4981 William Graham*

*Motion NNDM4981 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.2 yn cytuno bod Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 15 Mawrth 2012, yn cael eu dirymu.*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.2 agrees that the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012, laid before the Assembly on 15 March 2012, be annulled.*

**Suzy Davies:** I move the motion.

**Suzy Davies:** Cynigiaf y cynnig.

Thank you for allowing this motion to be tabled so quickly so that these regulations could be brought to the attention of all Members, Llywydd.

Diolch, Lywydd, am ganiatáu i'r cynnig hwn gael ei gyflwyno mor gyflym er mwyn i'r rheoliadau hyn gael eu dwyn i sylw pob Aelod.

Part II of the Environmental Protection Act 1990 allows local authorities to charge, in addition to business rates and council tax, for the collection of industrially and commercially produced waste. It also provides, subject to a number of exceptions, that there is to be no charge for household waste. The type of waste that constituted household waste was originally described in secondary legislation, the Controlled Waste Regulations 1992. Schedule 2 to those regulations also set out the 16 exceptions to that principle of no collection charge for household waste. Attitudes to waste disposal and the pressures on the state to deal with it more effectively have changed since 1992. Accordingly, on 15 March this year, the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012 were laid before the Assembly and came into force on 6 April. The 1992 regulations were revoked.

Yn ogystal â chodi ardrethi busnes a'r dreth gyngor, mae Rhan II Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl am gasglu gwastraff a gynhyrchir gan ddiwydiant a masnach. Mae hefyd yn nodi, gyda nifer o eithriadau, na ddylid codi tâl am wastraff cartref. Cafodd y math o wastraff a gâi ei ystyried yn wastraff cartref ei ddisgrifio'n wreiddiol mewn is-ddeddfwriaeth, sef Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992. Mae Atodlen 2 y rheoliadau hynny hefyd yn nodi'r 16 o eithriadau i'r egwyddor na ddylid codi tâl am gasglu gwastraff cartref. Mae agweddau at waredu gwastraff a'r pwysau ar y wladwriaeth i ymdrin ag ef yn fwy effeithiol wedi newid er 1992. Yn unol â hynny, ar 15 Mawrth eleni, cafodd Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 eu gosod gerbron y Cynulliad, a daethant i rym ar 6 Ebrill. Cafodd rheoliadau 1992 eu dirymu.

On 23 April, after the regulations had come into force, the Constitutional and Legislative Affairs Committee met to scrutinise the procedure by which the regulations had been introduced. Members of that committee were advised that the negative procedure had been

Ar 23 Ebrill, ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym, cyfarfu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i graffu ar y weithdrefn a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r rheoliadau. Dywedwyd wrth Aelodau'r pwyllgor hwnnw fod y weithdrefn negyddol wedi'i defnyddio.

used. The Chair of the committee wrote to the Minister saying that while there was no comment on the content of the regulations, there was some disquiet that the negative procedure had been invoked. To my mind, these 2012 regulations are materially different from those of 1992 and impose a new and significant financial burden on some of our constituents. This factor is one that the Counsel General considers as requiring particular justification if a procedure other than the affirmative procedure is to be used. Members might be surprised at some of those affected and so should have been given the opportunity to debate the changes, but the use of the negative procedure has denied us that opportunity.

Ysgrifennodd Cadeirydd y pwyllgor at y Gweinidog i ddweud, er nad oedd unrhyw sylwadau wedi eu gwneud ar gynnwys y rheoliadau, bod rhywfaint o anniddigrwydd bod y weithdrefn negyddol wedi'i defnyddio. Yn fy marn i, mae rheoliadau 2012 yn wahanol yn eu hanfod i reoliadau 1992, ac maent yn gosod baich ariannol newydd a sylweddol ar rai o'n hetholwyr. Mae'r ffactor hwn yn un y mae'r Cwnsler Cyffredinol o'r farn bod angen ei gyfiawnhau'n benodol os bwriedir defnyddio gweithdrefn ar wahân i'r weithdrefn gadarnhaol. Hwyrach y bydd yr Aelodau yn synnu at rai o'r bobl yr effeithir arnynt, ac felly dylent fod wedi cael cyfle i drafod y newidiadau, ond mae defnyddio'r weithdrefn negyddol wedi gwadu'r cyfle hwnnw inni.

I have concerns about the implications of the detail of these regulations, but those are a matter for a full Assembly debate rather than today. However, there are three key differences between these regulations and those of 20 years ago, and I will draw them to Members' attention in order for them to consider whether they are sufficiently material to secure support for this motion to annul. First, regulation 4 extends the class of premises producing household waste for which a collection charge may be levied. These premises now include charity shops, premises used by community interest groups, charities and not-for-profit businesses that recycle domestic waste, and premises forming part of a hospital and parts of nursing homes where patients are not in permanent residence.

Rwyf yn pryderu ynglŷn â goblygiadau manylion y rheoliadau hyn, ond mae'r rheini'n fater ar gyfer dadl lawn yn y Cynulliad yn hytrach nag ar gyfer heddiw. Fodd bynnag, ceir tri gwahaniaeth allweddol rhwng y rheoliadau hyn a'r rhai a gyflwynwyd 20 mlynedd yn ôl, a hoffwn dynnu sylw'r Aelodau atynt er mwyn iddynt ystyried a ydynt o bwys digonol i sicrhau cefnogaeth i'r cynnig hwn i ddirymu'r rheoliadau. Yn gyntaf, mae rheoliad 4 yn ehangu'r dosbarth o safleoedd sy'n cynhyrchu gwastraff cartref y gellir codi tâl arnynt am gasglu'r gwastraff. Mae'r safleoedd hyn bellach yn cynnwys siopau elusen, safleoedd a ddefnyddir gan grwpiau buddiannau cymunedol, elusennau a busnesau di-elw sy'n ailgylchu gwastraff domestig, safleoedd sy'n rhan o ysbyty a rhannau o gartrefi nyrsio nad oes cleifion yn byw ynddynt yn barhaol.

Secondly, the same regulation now permits some of those premises to be charged not just for the collection, but for the disposal of waste. They include the three types of premises that I have just mentioned, although charity shops and recycling businesses will be charged only for the disposal of waste arising from a non-domestic source, but it includes residential homes, universities, schools and other educational establishments and penal institutions. A specific category of litter is also caught by this regulation, and it is possible for premises currently restricted to paying for collection only to become part of

Yn ail, mae'r un rheoliad bellach yn caniatáu i dâl gael ei godi ar rai o'r safleoedd hynny nid yn unig am gasglu'r gwastraff ond am ei waredu hefyd. Maent yn cynnwys y tri math o safle yr wyf newydd sôn amdanynt, er mai dim ond am waredu gwastraff sy'n codi o ffynhonnell annomestig y codir tâl ar siopau elusen a busnesau ailgylchu, ac maent yn cynnwys cartrefi preswyl, prifysgolion, ysgolion, sefydliadau addysgol eraill a sefydliadau cosbi. Caiff categori penodol o sbwriel ei nodi yn y rheoliad hwn hefyd, a gallai safleoedd sy'n gorfod talu am wasanaeth casglu gwastraff yn unig ar hyn o

this more expensive category, depending on their individual case.

bryd ddod yn rhan o’r categori drutach hwnnw, yn dibynnu ar eu hachos unigol.

Thirdly, some premises have been reclassified as producing commercial waste rather than household waste and, therefore, are liable to a more expensive charging regime. These include self-catering properties, caravan parks and campsites, non-recycling charities and—a special present for Her Majesty—royal palaces.

Yn drydydd, mae rhai safleoedd wedi cael eu hailddosbarthu’n rhai sy’n cynhyrchu gwastraff masnachol yn hytrach na gwastraff cartref, ac felly, maent yn agored i gyfundrefn ddrutach ar gyfer codi tâl. Mae’r rhain yn cynnwys eiddo hunanddarpar, parciau carafanau a meysydd gwersylla, elusennau nad ydynt yn gysylltiedig ag ailgylchu ac—anrheg arbennig i’w Mawrhydi—palasau brenhinol.

Members may also wish to know that these regulations have been introduced jointly with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, as the matters they cover are now dealt with separately by Parliament and the Assembly. Parliament has also implemented these regulations, I believe. However, the subject of these regulations does fall within the competence of this Assembly, insofar as they affect Wales. Just because they may have received swift passage at Westminster does not mean that they should not be openly debated here in Wales, if Members believe that such a debate is warranted.

Hwyrach y bydd yr Aelodau am wybod hefyd bod y rheoliadau hyn wedi eu cyflwyno ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, gan fod y materion sy’n cael sylw ynddynt yn cael eu trin ar wahân yn awr gan Senedd San Steffan a’r Cynulliad. Credaf fod Senedd San Steffan hefyd wedi rhoi’r rheoliadau hyn ar waith. Fodd bynnag, mae’r hyn sydd dan sylw yn y rheoliadau yn rhan o gymhwysedd y Cynulliad hwn, i’r graddau bod y rheoliadau’n effeithio ar Gymru. Nid yw’r ffaith bod y rheoliadau wedi mynd drwy San Steffan yn gyflym yn golygu na ddylent gael eu trafod yn agored yma yng Nghymru, os yw’r Aelodau o’r farn bod cyfiawnhad dros gael trafodaeth o’r fath.

Minister, it may be that you are able to satisfy us of the appropriateness of the negative procedure in your reply. For myself, I do not consider the potential inconvenience of different commencement dates in Wales and England to be a good enough reason to deprive Members of the opportunity to represent the position of their constituents and, indeed, their local authorities. I therefore ask Members to support this motion to annul the 2012 regulations and ask that they be re-presented to the Assembly for consideration via the affirmative procedure.

Weinidog, efallai y byddwch yn gallu rhoi sicrwydd inni ynghylch priodoldeb y weithdrefn negyddol yn eich ateb. O’m rhan i, nid wyf yn ystyried yr anghyfleustra a allai godi o gael dyddiadau dechrau gwahanol yng Nghymru a Lloegr yn rheswm digon da i amddifadu Aelodau o’r cyfle i gynrychioli safbwynt eu hetholwyr ac, yn wir, eu hawdurdodau lleol. Felly, gofynnaf i’r Aelodau gefnogi’r cynnig hwn i ddirymu rheoliadau 2012, a gofynnaf am i’r rheoliadau gael eu hailgyflwyno i’r Cynulliad i’w hystyried drwy’r weithdrefn gadarnhaol.

**Simon Thomas:** Rwyf yn codi i wrthwynebu cynnig Suzy Davies. Deallaf y pwyntiau y mae’n eu gwneud; mae perffaith ryddid ganddi hi a’r Ceidwadwyr i ddod â’r cynnig ger ein bron i ddirymu’r rheoliadau, pe baem yn dewis gwneud hynny. Er hynny, ni soniodd Suzy Davies am agwedd bwysig ar y mater hwn, sef i ymgynghoriad ffurfiol cyhoeddus ar y rheoliadau hyn gael ei gynnal dros flwyddyn yn ôl. Yn ystod yr

**Simon Thomas:** I rise to oppose the motion put forward by Suzy Davies. I understand her points; she has every right, as do the Conservatives, to bring this motion before us to annul the regulations, should we choose to do so. However, Suzy Davies did not mention one important aspect, which is that a formal public consultation on the regulations was held more than a year ago. During that consultation, only seven local authorities in

ymgynghoriad hwnnw, saith awdurdod lleol yn unig yng Nghymru a ymatebodd, ond fe ymatebodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran awdurdodau lleol, am wn i, ac ar ran democratiaeth leol, wrth gwrs, o safbwynt cynghorwyr lleol ac ati.

Wales responded, but the Welsh Local Government Association responded on behalf of local authorities, I believe, and, of course, on behalf of local democracy, from the point of view of councillors and so on.

Mae Suzy'n iawn i danlinellu'r ffaith bod o leiaf ddatganiad gan y Cwnsler Cyffredinol—datganiad y mae'r pwyllgor y mae hi a minnau'n aelodau ohono wedi ei dderbyn â chryn foddhad. Mae'r datganiad yn nodi pryd y byddai'r Llywodraeth yn dewis defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol. Credaf fod y rheoliadau arbennig hyn yn syrthio rhywle ar y ffin rhwng y ddwy, ond, ar y cyfan, nid wyf yn meddwl y byddwn yn helpu awdurdodau lleol, na'r gwaith o ddelio â gwastraff tai a busnesau, pe baem yn cytuno â'r hyn sydd ger ein bron heddiw. Felly, er fy mod yn cydnabod hawl y Ceidwadwyr i ddod â'r cynnig gerbron, ac er fy mod yn cydnabod bod dadleuon dros ddirymu'r rheoliadau, ar y cyfan, mae'r ffaith eu bod wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus, y ffaith bod angen gweithredu yn eu cylch, a'r ffaith bod angen diweddaru'r rheoliadau cyntaf o 20 mlynedd yn ôl yn pwyso arnom i wrthod y cynnig.

Suzy is right to underline the fact that there was at least a statement from the Counsel General—one that the committee of which she and I are members accepted with considerable satisfaction. The statement sets out when the Government would choose to use the negative or affirmative procedure. I believe that these regulations fall somewhere on the borderline between the two, but, on the whole, I do not feel that we would be assisting local authorities, or the work of dealing with domestic and commercial waste, if we were to agree what is before us today. Therefore, although I recognise the right of the Conservatives to table this motion and acknowledge that there are arguments in favour of annulling the regulations, on the whole, given that they have been subject to public consultation, that they need to be implemented, and that the original regulations from 20 years ago need updating, I urge Members to reject the motion.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** Wales is implementing the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012 in accordance with European, UK and Welsh Government policy, which obviously includes the waste hierarchy and the principle that the polluter pays, which require the producers of waste to be responsible for the collection and disposal costs. The majority of small businesses already pay the disposal costs of their waste. These changes affect only a small number of businesses, such as campsites, self-catering holiday accommodation and caravan sites. The regulations were made in reliance on enabling powers conferred by a designation of the Welsh Ministers under the European Communities Act 1972, and powers exercisable by the Welsh Ministers under the Environmental Protection Act 1990.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Mae Cymru yn gweithredu Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 yn unol â pholisi Ewropeaidd, polisi'r DU a pholisi Llywodraeth Cymru, sy'n amlwg yn cynnwys yr hierarchaeth gwaredu gwastraff a'r egwyddor y dylai'r un sy'n llygru dalu, sy'n mynnu bod y sawl sy'n cynhyrchu gwastraff yn gyfrifol am y costau casglu a gwaredu. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach eisoes yn talu costau gwaredu eu gwastraff. Dim ond ar nifer fach o fusnesau y mae'r newidiadau hyn yn effeithio, megis meysydd gwersylla, llety gwyliau hunanddarpar a safleoedd carafanau. Lluniwyd y rheoliadau drwy ddibynnu ar bwerau galluogi a roddwyd drwy benodi Gweinidogion Cymru dan Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972, a phwerau y gall Gweinidogion Cymru eu harfer dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
.

While the designation under the European Communities Act gives Welsh Ministers the choice to seek approval by the Assembly

Er bod y broses benodi dan Ddeddf Cymunedau Ewrop yn rhoi dewis i Weinidogion Cymru geisio cymeradwyaeth

through the use of the affirmative procedure, the ability to charge for the disposal of waste from certain sources was enacted solely in reliance on the enabling powers in the Environmental Protection Act. Section 161 of that Act requires that regulations made under the Act be subject to the negative procedure. The parts of the regulations that are made under the powers from the European Communities Act are relatively minor provisions of the waste framework directive 2008.

gan y Cynulliad drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol, cafodd y gallu i godi tâl am waredu gwastraff o rai ffynonellau penodol ei gyflwyno gan ddibynnu'n gyfan gwbl ar y pwerau galluogi yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd. Mae Adran 161 y Ddeddf honno yn mynnu bod y weithdrefn negyddol yn berthnasol i reoliadau a wneir dan y Ddeddf. Mae'r rhannau o'r rheoliadau a wneir dan y pwerau yn Neddf Cymunedau Ewrop yn ddarpariaethau cymharol fach sy'n perthyn i gyfarwyddeb fframwaith gwastraff 2008.

I have written to the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, clarifying this matter. I believe that local authorities should have discretion on charging, so that they can make decisions best suited to local circumstances. I encourage Members to support these regulations, as these powers will help reduce waste, increase recycling and create consistency in the waste disposal market by removing a taxpayer subsidy to a few businesses. I ask Members to support these regulations and oppose the annulment motion.

Rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan egluro'r mater hwn. Credaf y dylai awdurdodau lleol gael rhyddid i godi tâl, fel y gallant wneud penderfyniadau sy'n gweddu orau i amgylchiadau lleol. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r rheoliadau hyn, gan y bydd y pwerau hyn yn helpu i leihau gwastraff, cynyddu ailgylchu a chreu cysondeb yn y farchnad gwaredu gwastraff trwy gael gwared ar drefn lle y mae trethdalwyr yn talu rhywfaint o gostau nifer fach o fusnesau. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r rheoliadau hyn a gwrthwynebu'r cynnig i'w dirymu.

**Suzy Davies:** I would like to reply, first of all, to Simon Thomas, if that is okay. Public consultation, Simon, is not the same as debating a matter here. It may be that a small number of councils may have responded to that initial public consultation, but how about the businesses that have been affected by it? You were not able to tell us how many of those even knew that this consultation was taking place.

**Suzy Davies:** Yn gyntaf, hoffwn ymateb i Simon Thomas, os yw hynny'n iawn. Nid yw ymgynghoriad cyhoeddus yr un fath â thrafod y mater yn y fan hon, Simon. Efallai fod nifer fach o gynghorau wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol hwnnw, ond beth am y busnesau yr effeithir arnynt? Nid oeddech yn gallu dweud wrthym faint o'r rheini a oedd hyd yn oed yn gwybod bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

Besides that, this motion has been brought before the Assembly on procedural grounds. This is not about the content of these regulations. I raise that point once again in my reply to the Minister, who has encouraged everyone here today to support these regulations because of what they say. Minister, my complaint today is how this has been brought to our attention. The point that you raised about EU legislation may be true, but the detail of how EU legislation is introduced into Welsh law—and UK law, for that matter—is a matter for debate if we decide that it needs to be. We need to guard

Heblaw am hynny, mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddwyn gerbron y Cynulliad ar sail weithdrefnol. Nid oes a wnelo hyn â chynnwys y rheoliadau. Hoffwn wneud y pwynt hwnnw unwaith eto yn fy ymateb i'r Gweinidog, sydd wedi annog pawb yma heddiw i gefnogi'r rheoliadau hyn oherwydd yr hyn y maent yn ei ddweud. Weinidog, fy nghwyn heddiw yw'r modd y mae'r mater wedi ei ddwyn i'n sylw. Efallai fod y pwynt a wnaethoch ynghylch deddfwriaeth yr UE yn wir, ond mae manylion y modd y caiff deddfwriaeth yr UE ei chyflwyno i gyfraith Cymru—a chyfraith y DU hefyd, o ran

hynny—yn fater i'w drafod os byddwn yn penderfynu bod angen iddo fod. Mae angen inni ymochel rhag yr arfer o atodi mesurau ychwanegol, sydd wedi effeithio ar ddeddfwriaeth yma yng Nghymru ac yn y DU ers nifer fawr o flynyddoedd. Mae'r cyfle i ddod â'r rheoliadau hyn i sylw'r Siambr drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn rhoi cyfle inni siarad am hynny, i weld a oes mesurau ychwanegol wedi'u hatodi wrth gyfarwyddeb yr UE, y bu ichi sôn amdani, wrth iddi gael ei gweithredu. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i ystyried a fyddent yn hoffi edrych ychydig yn fwy manwl ar hyn, yn anad dim er mwyn gallu dweud wrth ein hetholwyr ein bod wedi craffu ar yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud, ac er mwyn gallu dweud wrthynt hefyd beth sy'n digwydd yn y fan hon.

against the gold-plating that has affected legislation here, both in Wales and the UK, for a significant number of years. The opportunity to bring these regulations to the Chamber's attention through the affirmative procedure gives us a chance to talk about that, to see whether the EU directive that you talked about has been gold-plated in its implementation. I therefore urge Members to consider whether they would like to look at this in a little more detail, not least so that we can inform our constituents that we have not only scrutinised what the Government is doing, but so that we can also tell them what is happening here.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are objections. I therefore defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.*
*Votes deferred until voting time.*

## Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog Rhif 11.21(iv)
## Debate by Individual Members under Standing Order No. 11.21(iv)

### Colli Golwg
### Sight Loss

*Cynnig NDM4965 Mark Drakeford, Suzy Davies, Lindsay Whittle, Kirsty Williams*

*Motion NDM4965 Mark Drakeford, Suzy Davies, Lindsay Whittle, Kirsty Williams*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy mewn colli golwg y mae modd ei osgoi yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to make a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales.*

**Mark Drakeford:** Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac yn enwau Suzy Davies, Lindsay Whittle a Kirsty Williams, a chydag enwau Mike Hedges, Rebecca Evans, Julie James, Lynne Neagle, Antoinette Sandbach, Sandy Mewies, Mark Isherwood, Joyce Watson, Mick Antoniw, Aled Roberts, Andrew R.T. Davies, Darren Millar, Janet Finch-Saunders, Nick Ramsay, Eluned Parrott, Keith Davies, David Rees, Alun Ffred Jones, Russell

**Mark Drakeford:** I move the motion in my name and the names of Suzy Davies, Lindsay Whittle and Kirsty Williams, and with the names of Mike Hedges, Rebecca Evans, Julie James, Lynne Neagle, Antoinette Sandbach, Sandy Mewies, Mark Isherwood, Joyce Watson, Mick Antoniw, Aled Roberts, Andrew R.T. Davies, Darren Millar, Janet Finch-Saunders, Nick Ramsay, Eluned Parrott, Keith Davies, David Rees, Alun

George, Byron Davies a Jenny Rathbone yn ei gefnogi.

Ffred Jones, Russell George, Byron Davies and Jenny Rathbone in support.

Hoffwn ddechrau gan ddiolch i'r Aelodau hynny o bob plaid a gefnogodd cynnal y ddadl hon ar atal pobl rhag colli'u golwg mewn modd y gellir ei osgoi. Rwyf yn ddiolchgar hefyd am waith a chefnogaeth Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, sydd wedi ymgyrchu'n ddiflino ar y mater hwn.

I want to start by thanking all those Members of all parties who have supported the need to hold this debate on preventing avoidable sight loss. I am also thankful for the support of the Royal National Institute of Blind People, which has campaigned tirelessly on this issue.

Ni fyddem yn cynnal y ddadl hon heddiw heb y gwaith a wnaed gan fy nghyd-gynigyddion, a fu'n helpu'r broses o roi'r cynnig at ei gilydd a'i gyflwyno. Bydd Kirsty Williams yn ymateb i'r ddadl, tra bydd Suzy Davies a Lindsay Whittle yn canolbwyntio ar raddfa a natur colli golwg yng Nghymru, gan amlinellu pam yr ydym yn credu ei bod yn bosibl lleihau'n sylweddol nifer y bobl sy'n dioddef o'r cyflwr hwn. Wrth gyflwyno'r ddadl, byddaf yn canolbwyntio ar y rhesymau pam ddylai'r mater hwn fod yn flaenoriaeth i wasanaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru, a byddaf yn amlinellu'r ffyrdd a fyddai'n arwain, yn ein barn ni, at welliant yn y dyfodol.

We would not be having this debate today without the work of my fellow proposers, who assisted in the process of putting the motion together and in tabling it. Kirsty Williams will be responding to the debate, while Suzy Davies and Lindsay Whittle will make contributions concentrating on the scale and nature of sight loss in Wales, outlining why we believe it possible to reduce significantly the numbers of people who suffer from this condition. In introducing the debate, I will concentrate on the reasons why it should be a priority for public health services in Wales, and I will outline ways that would lead, in our opinion, to an improvement for the future.

Llywydd, this motion calls for avoidable sight loss to be made a public health priority in Wales, and I believe that there are four tests that need to be applied in deciding whether an issue is best tackled in that way. The first question that we need to ask ourselves is whether this is a widespread problem. Others will provide far more detail. However, in brief, there are around 115,000 people living today with severe sight loss in Wales. That number is expected to double by 2015. There is no doubt that the scale of the problem puts it firmly into public health territory.

Lywydd, mae'r cynnig hwn yn galw am i achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg gael eu gwneud yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ac rwyf o'r farn bod pedwar prawf y mae angen eu cynnal i benderfynu ai dyna'r ffordd orau o fynd i'r afael ag unrhyw fater. Y cwestiwn cyntaf y mae angen inni ei ofyn i ni ein hunain yw a yw hon yn broblem gyffredin. Bydd eraill yn darparu llawer mwy o fanylion ynghylch hyn. Yn gryno, fodd bynnag, mae oddeutu 115,000 o bobl sydd wedi colli eu golwg yn ddifrifol yn byw yng Nghymru heddiw. Mae disgwyl i'r ffigur hwnnw ddyblu erbyn 2015. Nid oes amheuaeth nad yw maint y broblem yn golygu ei bod yn sicr yn perthyn i faes iechyd y cyhoedd.

Secondly, we need to ask ourselves whether this is a matter of public concern. In that context, we know that fear of sight loss is something that members of the public rate right at the top of their list of health anxieties. Going blind is something that older people, especially, report as an issue of continuing concern. There is, without doubt, a

Yn ail, mae angen inni ofyn i ni ein hunain a yw hwn yn fater sy'n peri pryder i'r cyhoedd. Yn y cyd-destun hwnnw, gwyddom fod ofn colli golwg yn rhywbeth y mae aelodau'r cyhoedd yn ei ystyried sydd ar frig eu rhestr o bryderon ynghylch iechyd. Mae mynd yn ddall yn rhywbeth y mae pobl hŷn, yn enwedig, yn nodi ei fod yn fater sy'n peri

considerable number of people in Wales for whom avoidable sight loss is a real matter of concern.

pryder parhaus iddynt. Heb amheuaeth, mae problemau colli golwg y gellir eu hosgoi yn destun pryder gwirioneddol i nifer sylweddol o bobl yng Nghymru.

3.00 p.m.

The third test is whether there is a solution that can be promoted through the key public health methods of health promotion and health education. The terms of the motion make it clear that we are concerned here with avoidable sight loss. There is a simple set of actions, which others will describe, that can be taken to make a real difference.

Y trydydd prawf yw gofyn a oes ateb y gellir ei hybu trwy'r dulliau allweddol sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, sef hybu iechyd a chyflwyno addysg am iechyd. Mae termau'r cynnig yn nodi'n glir ein bod yn sôn yma am achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg. Ceir cyfres syml o gamau gweithredu, y bydd eraill yn eu disgrifio, y gellir eu cymryd i wneud gwahaniaeth go iawn.

Finally, in these four tests, we must ask whether the solutions are best applied on a population basis. We are used to public health solutions being applied in that way to problems of smoking and obesity, the development of screening programmes—[*Inaudible.*]—a population-based response to outbreaks of food poisoning or contaminated water supplies. By contrast, sight loss has most often been viewed as a clinical disease, best managed through a more traditional medical model. In this debate, we suggest that a public health approach across the whole population is the most effective way of improving matters for the future. That involves a whole series of advantages: preventing problems from occurring in the first place, early intervention when things start to go wrong and working across professional and organisational boundaries in a way that recognises that sight loss is best addressed in the wider context of social, cultural, economic and personal factors that, together, lie at the root of successful health promotion and disease prevention. On all four tests, a public health approach has the most to offer in bringing about improvements in this vitally important area.

Yn olaf, yn rhan o'r pedwar prawf hyn, rhaid inni ofyn ai'r ffordd orau o roi'r atebion ar waith yw ar sail y boblogaeth. Rydym yn gyfarwydd â gweld atebion ym maes iechyd y cyhoedd yn cael eu rhoi ar waith yn y modd hwnnw er mwyn ymdrin â phroblemau ysmygu a gordewdra, datblygu rhaglenni sgrinio— *[Anghlywadwy.]*—ymateb ar sail y boblogaeth i achosion o wenwyn bwyd neu gyflenwadau dŵr wedi'u llygru. Ar y llaw arall, mae colli golwg wedi'i ystyried gan amlaf yn glefyd clinigol, a reolir orau drwy fodel meddygol mwy traddodiadol. Yn y ddadl hon, rydym yn awgrymu mai'r modd mwyaf effeithiol o wella'r sefyllfa ar gyfer y dyfodol yw defnyddio dull iechyd y cyhoedd o weithredu ar draws y boblogaeth gyfan. Mae i hynny lu o fanteision: atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, ymyrryd yn gynnar pan fydd pethau'n dechrau mynd o chwith, a gweithio ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol mewn modd sy'n cydnabod mai'r ffordd orau o fynd i'r afael ag achosion o golli golwg yw yng nghyd-destun ehangach ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a phersonol sydd, gyda'i gilydd, wrth wraidd camau llwyddiannus i hybu iechyd ac atal clefydau. Yng nghyswllt pob un o'r pedwar prawf, dull iechyd y cyhoedd o weithredu sydd â'r mwyaf i'w gynnig o ran cyflwyno gwelliannau yn y maes hwn sy'n hanfodol bwysig.

Moreover, there is a more general reason why a public health approach should be adopted. In Wales, public health medicine has a long, distinguished and successful history. In the nineteenth century, between 1848 and 1853,

Ar ben hynny, ceir rheswm mwy cyffredinol dros fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o weithredu. Yng Nghymru mae gan feddygaeth iechyd y cyhoedd hanes hir, nodedig a llwyddiannus. Yn ystod y

two in every five children born in Wales died before the age of five. Public health solutions, sanitation and the creation of a clean water supply made the second half of the nineteenth century a different experience here in Wales to that of the first half. In the twentieth century, public health medicine in Wales set down standards that have since been followed across the world. The epidemiological work undertaken by Archie Cochrane and his team in mining communities brought a scientific rigour to the investigation of tuberculosis and other chest diseases. That was copied by public health professionals worldwide and provided the starting point for evidence-based medicine, which today dominates the whole of medical research.

bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhwng 1848 ac 1853, roedd dau o bob pum plentyn a gâi eu geni yng Nghymru yn marw cyn eu bod yn bump oed. Sicrhaodd atebion ym maes iechyd y cyhoedd, carthffosiaeth a'r broses o greu cyflenwad dŵr glân fod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yma yng Nghymru yn brofiad gwahanol i'r hanner cyntaf. Yn ystod yr ugeinfed ganrif, gosododd meddygaeth iechyd y cyhoedd yng Nghymru safonau sydd wedi eu dilyn ledled y byd ers hynny. Daeth y gwaith epidemiolegol a wnaed gan Archie Cochrane a'i dîm mewn cymunedau glofaol â chywirdeb gwyddonol i waith ymchwilio i dwbercwlosis a chlefydau eraill y frest. Cafodd hynny ei gopïo gan weithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd y cyhoedd ledled y byd, a bu'n fan cychwyn ar gyfer meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n elfen flaenllaw erbyn heddiw o ymchwil feddygol drwyddi draw.

By the time that the Assembly got fully under way at the turn of the present century, Scott Greer, the leading analyst of health policymaking in the devolution era, concluded that if the health service in England was dominated by the managers, and in Scotland by the consultants, in Wales it was distinguished by the role that public health perspectives play in shaping our health policy. The first 10-year plan for health services in Wales was published by Jane Hutt, the Minister at the time, and deliberately entitled 'Improving Health in Wales – A Plan for the NHS with its Partners'. Those of us who were around at that time, and had a small part to play in its production, will remember that that plan was infused with a public health sense of preventing disease and ill health, tackling health inequalities and promoting and strengthening primary care. My point is simple: when this motion calls for tackling avoidable sight loss to be made a public health priority, we are not simply advocating an approach that has its own clear merits, but one that goes with the grain of how we think about health policy more generally here in Wales. The current Minister for health has made a point of emphasising her belief that every encounter between health services and users in Wales should be a public health encounter. Those of us who have proposed

Erbyn i'r Cynulliad gychwyn ar ei waith o ddifrif ar droad y ganrif bresennol, daeth Scott Greer, prif ddadansoddwr gwaith llunio polisi iechyd yn ystod oes datganoli, i'r casgliad hwn: os rheolwyr oedd fwyaf blaenllaw yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr, ac os ymgynghorwyr oedd fwyaf blaenllaw yn yr Alban, yr hyn a oedd yn nodedig am y gwasanaeth yng Nghymru oedd y rôl yr oedd safbwyntiau iechyd y cyhoedd yn ei chwarae wrth lunio ein polisi iechyd. Cyhoeddwyd y cynllun 10 mlynedd cyntaf ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru gan Jane Hutt, y Gweinidog ar y pryd, a chafodd ei enwi'n fwriadol yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid'. Bydd y rheini ohonom a oedd o gwmpas bryd hynny, ac a oedd â rhan fach i'w chwarae yn y broses o'i lunio, yn cofio mai prif ymdeimlad y cynllun hwnnw oedd ymdeimlad, a oedd yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, o atal afiechyd a salwch, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a hybu a chryfhau gofal sylfaenol. Mae fy mhwynt yn syml: er bod y cynnig hwn yn galw am sicrhau bod mynd i'r afael ag achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd, nid dadlau dros ddull gweithredu sydd â'i rinweddau clir ei hun yr ydym, ond dadlau dros ddull gweithredu sy'n cyd-fynd â'n ffordd o feddwl am bolisi iechyd yn fwy cyffredinol yma yng

this motion believe that there is no issue more likely to benefit from such an approach than tackling avoidable sight loss. We look forward, Minister, to what you have to say in this debate, and hope that, by the time you come to speak, you will have been persuaded to make this not simply a matter for public health, but a public health priority here in Wales in the near future.

Nghymru. Mae'r Gweinidog iechyd presennol wedi mynnu pwysleisio ei bod o'r farn y dylai pob cyswllt rhwng gwasanaethau iechyd a defnyddwyr yng Nghymru fod yn gyswllt iechyd y cyhoedd. Mae'r rheini ohonom sydd wedi cyflwyno'r cynnig hwn o'r farn nad oes yr un mater yn fwy tebygol o elwa o ddull gweithredu o'r fath na'r mater sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg. Edrychwn ymlaen, Weinidog, at yr hyn sydd gennych i'w ddweud yn y ddadl hon, a gobeithiwn, erbyn ichi ddod i siarad, y byddwch wedi cael eich perswadio i sicrhau y bydd y mater hwn nid yn unig yn fater ar gyfer iechyd y cyhoedd, ond yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yma yng Nghymru yn y dyfodol agos.

I grynhoi ac i gloi, mae'r broblem yn un go iawn, ac yn un y dylem ei datrys ar unwaith. Hefyd, mae'n broblem lle mae atebion effeithiol a fforddiadwy ar gael. Mae'n fater lle gallem wneud gwahaniaeth, a gallai'r gwahaniaeth hwnnw gael effaith mawr ar wella safon bywyd nifer helaeth o bobl yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at y ddadl, a gobeithiaf yn fawr, ar ôl gwrando ar ein cais, y bydd Aelodau'n fodlon cefnogi'r cynnig.

To summarise and to conclude, this is a very real problem, and one that we should resolve at once. Also, it is a problem where effective and affordable solutions are available. It is truly a matter on which we could make a difference, and that difference could have a huge impact on improving the quality of life of very many people in Wales. I look forward to the debate, and I hope that, having listened to our case, Members will be willing to support the motion.

**Suzy Davies:** Diolch i Mark Drakeford a'm cyd-noddwyr am ddod â'r ddadl hon gerbron heddiw, a hefyd am y gefnogaeth drawsbleidiol.

**Suzy Davies:** I thank Mark Drakeford and my co-sponsors for bringing this debate forward today, and also for the cross-party support.

Making a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales is not all about imposing another expensive responsibility on to the NHS. Unlike many conditions, preventable sight loss may not require huge changes in lifestyle, and may not even have any personal financial implications. For some, all that it will ever mean is a regular free eye check and free prescription glasses. Yet the inconvenience, and even the fatal despair that sight loss can cause, can result in a human cost far more shattering than the financial burden to the individual or the state.

Mae sicrhau bod gostyngiad mesuradwy yn nifer yr achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn golygu mwy na mynnu bod y GIG yn ysgwyddo cyfrifoldeb drud arall. Yn wahanol i lawer o gyflyrau, mae'n bosibl na fydd atal achosion o golli golwg yn gofyn am newidiadau enfawr i ffordd o fyw, ac mae'n bosibl na fydd hyd yn oed yn arwain at oblygiadau ariannol personol. I rai, y cyfan y bydd yn ei olygu yw cael prawf llygaid rhad ac am ddim yn rheolaidd a chael sbectol rad ac am ddim ar bresgripsiwn. Eto i gyd, gall yr anghyfleustra, a hyd yn oed yr anobaith anochel y gall colli golwg ei achosi, arwain at gost ddynol sy'n llawer mwy dinistriol na'r baich ariannol ar yr unigolyn neu'r wladwriaeth.

According to the Royal National Institute of Blind People, that financial burden is, however, considerable. There are 115,000 people with severe sight loss, including blindness, in Wales. In 2009-10, the NHS in Wales spent £113 million on eye and vision problems. The following year, 400,000 people visited out-patient departments for eyecare, and 85,000 of those were new attenders. Demand for NHS services can already be seen to be growing. Collateral costs, such as for informal care and reduced employment chances, could even exceed £300 million. Can it really be the case that the economic implications of sight loss for society are akin to those of dementia and cancer? It seems that the answer is ‘yes’, but it does not have to be.

Yn ôl Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, mae’r baich ariannol hwnnw’n sylweddol, serch hynny. Ceir 115,000 o bobl yng Nghymru sydd wedi colli eu golwg yn ddifrifol, neu sy’n ddall. Yn 2009-10, gwariodd y GIG yng Nghymru £113 miliwn ar broblemau’n ymwneud â’r llygaid a’r golwg. Y flwyddyn ganlynol, ymwelodd 400,000 o bobl ag adrannau cleifion allanol i gael gofal llygaid, ac roedd 85,000 o’r bobl hynny’n bobl a oedd yn mynychu am y tro cyntaf. Gellir gweld eisoes bod y galw am wasanaethau’r GIG yn tyfu. Gallai costau anuniongyrchol, megis costau gofal anffurfiol a llai o gyfleoedd o ran cyflogaeth, fod dros £300 miliwn hyd yn oed. A all goblygiadau economaidd colli golwg i’r gymdeithas fod yn debyg i oblygiadau economaidd dementia a chanser? Ymddengys mai’r ateb yw ‘gallant’, ond nid oes yn rhaid i bethau fod felly.

Not all sight loss is preventable, but 50% of sight loss is preventable. Prevention is easy to understand, easy for individuals to take control of, and should be straightforward to measure. It is not as if Governments in Wales and other parts of the UK have not taken action in recent years. Children, pensioners, those on low incomes, those with sudden eye conditions that need urgent attention, and those at a greater risk of eye disease get free eye tests. The Welsh eyecare initiative aims to detect eye disease early and help those whose poor sight is unlikely to improve. At a strategic and planning level, a group of professionals produced the Wales vision strategy implementation plan 2010-14 to help Wales play its part in the UK’s vision strategy. Yet, despite tests being free for many people, and despite the implementation plan being in its third year, uptake is surprisingly low. Less than half of older people in Wales are taking up the test entitlement, but just as worrying is the fact that almost a third of children are failing to get their eyes tested.

Nid oes modd atal pob achos o golli golwg, ond gellir atal 50% ohonynt. Mae gwaith atal yn hawdd ei ddeall, mae’n hawdd i unigolion ei reoli, a dylai fod yn hawdd ei fesur. Rhaid cydnabod bod Llywodraethau yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o’r DU wedi gweithredu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae plant, pensiynwyr, y sawl sydd ar incwm isel, y sawl sydd wedi dangos arwyddion o gyflyrau’r llygaid yn sydyn, y mae angen sylw brys arnynt, a’r sawl sydd mewn mwy o berygl o gael clefydau’r llygaid yn cael profion llygaid rhad ac am ddim. Nod Menter Gofal Llygaid Cymru yw canfod clefydau’r llygaid yn gynnar a helpu’r sawl y mae eu golwg gwan yn annhebygol o wella. Ar lefel strategol a chynllunio, cynhyrchodd grŵp o weithwyr proffesiynol gynllun gweithredu strategaeth olwg Cymru 2010-14 i helpu Cymru i chwarae ei rhan yn strategaeth olwg y DU. Eto i gyd, er bod profion ar gael yn rhad ac am ddim i lawer o bobl, ac er bod y cynllun gweithredu yn ei drydedd flwyddyn, mae nifer y bobl sy’n manteisio ar y profion yn rhyfeddol o isel. Mae llai na hanner pobl hŷn Cymru yn manteisio ar yr hawl i gael prawf llygaid, ond mae’r ffaith bod bron i un plentyn o bob tri’n methu â chael prawf llygaid yn peri’r un pryder yn union.

It was mentioned in the children’s oral health debate last week that first responsibility for

Soniwyd yn y ddadl ynghylch iechyd y geg ymysg plant yr wythnos diwethaf mai rhieni

children's health lies with parents and carers, but there will always be occasions where that responsibility is unmet, for a variety of reasons. Children have a right to free eyecare. If they cannot exercise that right, then we acquire a responsibility to help them to do so, whether by helping families to meet their obligations, or more directly. For some children, an in-school test may be their only realistic option. The Hall report recommends that screening for visual impairment between 4 and 5 years of age should be offered by an orthoptic-led service, based on eye exercises. The Welsh Government's implementation plan aims to provide effective eye screening services for children across the country, yet RNIB Cymru evidence shows that the current provision for eye screening in schools varies from near-universal provision in Cardiff to zero in Ceredigion—apparently because the light in those schools is too poor. However, living in a predominantly rural county, it is possible to foresee that children in Ceredigion might find it more difficult to get to the opticians.

a gofalwyr sy'n bennaf gyfrifol am iechyd plant, ond bydd achlysuron bob amser pan na chaiff y cyfrifoldeb hwnnw ei ysgwyddo am amryw resymau. Mae gan blant yr hawl i gael gofal llygaid rhad ac am ddim. Os na allant arfer yr hawl honno, mae'n gyfrifoldeb arnom ni i'w helpu i wneud hynny, boed trwy helpu teuluoedd i gyflawni eu rhwymedigaethau neu trwy weithredu'n fwy uniongyrchol. I rai plant, mae'n bosibl mai cael prawf yn yr ysgol fydd yr unig opsiwn realistig ar eu cyfer. Mae adroddiad Hall yn argymell y dylai gwasanaeth sgrinio i ganfod nam ar y golwg gael ei gynnig i blant rhwng 4 a 5 oed gan wasanaeth a arweinir gan orthoptyddion, sy'n seiliedig ar ymarferion llygaid. Nod cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru yw darparu gwasanaethau sgrinio llygaid effeithiol i blant ar draws y wlad, ond eto i gyd, mae tystiolaeth RNIB Cymru yn dangos bod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer sgrinio llygaid mewn ysgolion yn amrywio o ddarpariaeth sydd ar gael bron yn gyffredinol yng Nghaerdydd i wasanaeth nad yw ar gael o gwbl yng Ngheredigion—am fod y golau yn yr ysgolion hynny'n rhy wael, mae'n debyg. Fodd bynnag, gan fod Ceredigion yn sir wledig yn bennaf, mae'n bosibl rhagweld y gallai plant yn y sir honno ei chael yn anos mynd i'r optegydd.

Catching any vision problem at the start of a child's school career is key to ensuring their educational attainment and consequent employment prospects. Health visitors, families and teachers may not always be able to spot potential eye problems and young children may not always be able to articulate them. Therefore, Minister, in developing any new eyecare plan, you may wish to consider the recommendation of the Hall report, as well as considering how to encourage families into the habit of getting regular eye tests.

Mae canfod unrhyw broblem â'r golwg ar ddechrau gyrfa ysgol plentyn yn allweddol o ran sicrhau ei gyrhaeddiad addysgol a'i ragolygon o ran cyflogaeth wedyn. Mae'n bosibl na fydd ymwelwyr iechyd, teuluoedd ac athrawon bob amser yn gallu sylwi ar broblemau posibl â'r llygaid, ac mae'n bosibl na fydd plant ifanc bob amser yn gallu dweud bod ganddynt broblemau. Felly, Weinidog, wrth ddatblygu unrhyw gynllun newydd ynghylch gofal llygaid, efallai yr hoffech ystyried argymhelliad adroddiad Hall, yn ogystal ag ystyried sut y gellid annog teuluoedd i fynd i'r arfer o gael profion llygaid rheolaidd.

Minister, I am glad that you are prepared to consider a new eye plan, particularly one with a strong public health foundation. I hope that you will give specific consideration to children's eye health in that plan. I am encouraged because, at the moment, there is no mention of eye health in the Government's 'Our Healthy Future' and

Weinidog, rwyf yn falch eich bod yn barod i ystyried cynllun newydd ynghylch llygaid, yn enwedig un sydd â sylfaen gadarn ym maes iechyd y cyhoedd. Gobeithiaf y byddwch yn rhoi ystyriaeth benodol i iechyd llygaid plant yn y cynllun hwnnw. Rwyf wedi fy nghalonogi oherwydd, ar hyn o bryd, nid oes sôn am iechyd llygaid yn 'Ein Dyfodol Iach'

‘Fairer Health Outcomes for All’ publications, and only two, unfortunately, of the 22 local authorities’ health, social care and wellbeing strategies make reference to the importance of sight loss prevention. It is not considered in any of the 2011 health boards’ directors of public health annual reports. Perhaps you can tell us how you see any new plan fitting in with existing provision and whether there are any interim evaluations of existing provision that you might consider. The important thing is that we realise that preventing 50% of preventable sight loss cannot be a matter for the Government alone. Nevertheless, a targeted revival of Government interest and intervention would surely make a difference.

a ‘Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb’, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, ac yn anffodus, dim ond dwy o’r 22 o strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles awdurdodau lleol sy’n cyfeirio at bwysigrwydd atal achosion o golli golwg. Ni chaiff ei ystyried yn unrhyw un o’r adroddiadau blynyddol a luniwyd gan gyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd byrddau iechyd ar gyfer 2011. Efallai y gallech ddweud wrthym sut yr ydych yn gweld unrhyw gynllun newydd yn cyd-fynd â’r ddarpariaeth bresennol, ac a fyddech yn ystyried unrhyw werthusiadau interim o’r ddarpariaeth bresennol. Y peth pwysig yw ein bod yn sylweddoli na all atal 50% o’r achosion y gellid eu hatal o golli golwg fod yn fater i’r Llywodraeth yn unig. Serch hynny, byddai camau wedi’u targedu i adfywio diddordeb ac ymyrraeth gan y Llywodraeth yn siŵr o wneud gwahaniaeth.

**Lindsay Whittle:** I am delighted to add my name to this motion today. For many people who drive, the only eye test that they have is the one to read a number plate at 20m at their initial test—and that is it; they are then left to their own devices. To think of the dangers associated with that is quite alarming.

**Lindsay Whittle:** Rwyf wrth fy modd o allu ychwanegu fy enw at y cynnig hwn heddiw. I lawer o bobl sy’n gyrru, yr unig brawf llygaid y byddant yn ei gael yw’r prawf i ddarllen rhif car sydd 20m i ffwrdd yn ystod eu prawf cychwynnol—a dyna ni; cânt wneud fel y mynnont ar ôl hynny. Mae’n eithaf brawychus meddwl am y peryglon sy’n gysylltiedig â hynny.

For some years, I used to hold papers further and further away to read them, and it was a joke of mine to say that my eyes were fine, but that my arms were not long enough. However, it is no joke to continue to allow people’s eyesight to deteriorate. The evidence is clear that half of all sight loss is avoidable. Dealing with it would save public money—we have heard that the direct costs can be about £113 million, and the estimated indirect costs are £325 million a year in unpaid care. Most importantly, apart from the cost, tackling this issue can bring an end to the abject misery and depression that must inevitably go with sight loss. A sensory loss, particularly of sight, would have a huge detrimental effect on my life. It is important to remember that the prevention of eyesight loss for those who develop this condition could release greater funding for those who are born with the condition, and could enable them to lead fuller lives. Who knows, perhaps some of the finance could be directed into research. The arguments for early

Am rai blynyddoedd, roeddwn yn arfer dal papurau’n fwyfwy pell o’m llygaid er mwyn eu darllen, ac roedd bob amser yn jôc gennyf bod fy llygaid yn iawn ond nad oedd fy mreichiau’n ddigon hir. Fodd bynnag, nid yw’n jôc parhau i adael i olwg pobl ddirywio. Mae’r dystiolaeth yn dangos yn glir bod modd osgoi hanner yr holl achosion o golli golwg. Byddai ymdrin â’r achosion hynny’n arbed arian cyhoeddus—rydym wedi clywed y gall y costau uniongyrchol gyfateb i oddeutu £113 miliwn, ac amcangyfrifir bod y costau anuniongyrchol yn cyfateb i oddeutu £325 miliwn y flwyddyn mewn gofal di-dâl. Yn bwysicaf oll, ar wahân i’r gost, gall mynd i’r afael â’r mater hwn roi diwedd ar y diflastod a’r iselder ysbryd llethol sy’n cyd-fynd yn anochel â cholli golwg. Byddai colli un o’m synhwyrau, yn enwedig fy ngolwg, yn cael effaith andwyol enfawr ar fy mywyd i. Mae’n bwysig cofio y gallai atal achosion o golli golwg ymysg y sawl sy’n datblygu’r cyflwr hwn sicrhau bod mwy o gyllid ar gael ar gyfer y sawl sy’n cael eu geni gyda’r

monitoring are well rehearsed. Other Members have already given eloquent reasons for looking after our young people, people with illness and those who are getting older.

cyflwr, a'u galluogi i fyw bywyd llawnach. Pwy a ŵyr, efallai y gallai rhywfaint o'r cyllid gael ei gyfeirio at ymchwil. Mae'r dadleuon dros fonitro'n gynnar wedi'u trafod yn helaeth. Mae Aelodau eraill eisoes wedi rhoi rhesymau huawdl dros ofalu am ein pobl ifanc, pobl sydd â salwch a phobl sy'n mynd yn hŷn.

Perhaps we should spare some thought for those with eye loss who want to work but who are prevented from doing so, maybe because some employers see them as providing less value for money. We need to do further research into introducing legislation to strengthen the rights of disabled people in gaining employment. I am not satisfied that all employers in Wales are carrying out their duties to employ a certain percentage of disabled people. In the 1970s, I recall dictating letters to a registered blind typist; you do not see that today. There are little things that could be done to assist people with sight loss.

Dylem gofio hefyd am y rheini sydd wedi colli eu golwg ac sydd am weithio, ond sy'n cael eu rhwystro rhag gwneud hynny, o bosibl am fod rhai cyflogwyr o'r farn y byddent yn cynnig llai o werth am arian. Mae angen inni wneud gwaith ymchwil pellach i gyflwyno deddfwriaeth i gryfhau hawliau pobl anabl o ran cael gwaith. Nid wyf yn fodlon bod pob cyflogwr yng Nghymru yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflogi canran benodol o bobl anabl. Yn yr 1970au, rwyf yn cofio arddweud llythyrau i deipydd dall cofrestredig; nid ydych yn gweld hynny heddiw. Mae pethau bach y gellid eu gwneud i gynorthwyo pobl sydd wedi colli eu golwg.

The scourge of modern society is the computer screen. Parents should check how many hours their children spend at computers, and they have small telephones, iPads and even Kindles nowadays. I agree that primary and secondary school children should be checked far more regularly. Employers, too, should act responsibly in encouraging their office-based staff to take short breaks away from their screens. Perhaps politicians should do so, too. Many of us politicians have spent the last month or two delivering leaflets to get our political message across, but thought should be given to font size, given that it can affect the readability of leaflets.

Melltith cymdeithas fodern yw sgrîn y cyfrifiadur. Dylai rhieni wirio faint o oriau y mae eu plant yn eu treulio o flaen cyfrifiaduron, ac mae ganddynt ffonau bach, iPads a hyd yn oed Kindles heddiw. Cytunaf y dylai plant mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd gael archwiliadau'n llawer mwy rheolaidd. Dylai cyflogwyr ymddwyn yn gyfrifol hefyd wrth annog eu staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd i gymryd seibiant byr i ffwrdd o'u sgrîn. Efallai y dylai gwleidyddion wneud hynny hefyd. Mae llawer ohonom ni, wleidyddion, wedi treulio'r mis neu ddau ddiwethaf yn dosbarthu taflenni i gyfleu ein neges wleidyddol, ond dylid ystyried maint y ffont, o gofio y gall hynny effeithio ar ba mor hawdd eu darllen yw'r taflenni.

It is important that we reflect on everything that we do in society to prevent sight loss. I am pleased that this debate at least raises awareness of this important issue, and I am happy to lend my name to it.

Mae'n bwysig inni ystyried popeth a wnawn mewn cymdeithas i atal achosion o golli golwg. Rwyf yn falch bod y ddadl hon o leiaf yn codi ymwybyddiaeth o'r mater pwysig hwn, ac rwyf yn falch o ychwanegu fy enw at y cynnig.

3.15 p.m.

**Sandy Mewies:** You will be aware that I am the chair of the cross-party group on vision loss. I was pleased to be a founder member,

**Sandy Mewies:** Byddwch yn ymwybodol mai fi yw cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar golli golwg. Roeddwn yn falch o fod yn un o

along with others here and the RNIB director, Sarah Rochira, who is now leaving and moving on, but who was a driving force behind it. We are well aware of the problems caused by the lack of prevention of sight loss. The 50% figure is no exaggeration; in fact, many of the figures given today are perhaps just the tip of the iceberg. I would like to raise the issue of a lack of data available for those taking sight tests and for young people. The data are not lacking in one place only; there is a lack of consistent data across Wales.

aelodau gwreiddiol y grŵp, ynghyd ag eraill yma a chyfarwyddwr yr RNIB, sef Sarah Rochira, sydd bellach yn ein gadael ac yn symud ymlaen, ond a fu’n sbardun y tu ôl i’r grŵp. Rydym yn ymwybodol iawn o’r problemau a achosir gan ddiffyg camau gweithredu i atal achosion o golli golwg. Nid ydym yn gorddweud wrth sôn am ffigur o 50%; yn wir, mae’n bosibl mai dim ond crafu’r wyneb y mae llawer o’r ffigurau a roddwyd heddiw. Hoffwn godi’r mater sy’n ymwneud â’r diffyg data sydd ar gael ynghylch y sawl sy’n cael profion golwg ac ynghylch pobl ifanc. Nid mewn un man yn unig y ceir diffyg data; ceir diffyg data cyson ar draws Cymru.

Coincidentally, we had a meeting yesterday to drive off our new agenda of meetings and we considered a response from the Minister for health on similar issues that we have raised with her. I am pleased to say that the organisations and individuals that were there representing people with sight loss, including RNIB and others, were supportive of, and pleased with, what is happening in Wales at the moment to support people with sight loss and to prevent sight loss. However, nobody would deny that there is a long way to go. They were also pleased with the very positive response from the Minister for health that we considered yesterday. She will be getting another letter from us soon with other facts and figures.

Trwy gyd-ddigwyddiad, cawsom gyfarfod ddoe i ddechrau ar ein hagenda newydd o gyfarfodydd, a buom yn ystyried ymateb gan y Gweinidog iechyd ynghylch materion tebyg yr ydym wedi’u codi gyda hi. Rwyf yn falch o ddweud bod y mudiadau a’r unigolion a oedd yno’n cynrychioli pobl sydd wedi colli eu golwg, a oedd yn cynnwys yr RNIB ac eraill, yn gefnogol i’r hyn sy’n digwydd ac yn fodlon â’r hyn sy’n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd i gynorthwyo pobl sydd wedi colli eu golwg ac i atal achosion o golli golwg. Fodd bynnag, ni fyddai neb yn gwadu bod cryn dipyn o ffordd i fynd eto. Roeddent hefyd yn fodlon â’r ymateb cadarnhaol iawn a gafwyd gan y Gweinidog iechyd, y buom yn ei ystyried ddoe. Bydd yn cael llythyr arall gennym yn fuan a fydd yn cynnwys ffeithiau a ffigurau eraill.

People are right that it is about preventable sight loss. I remember having an eye test when I was 11 years old. I might have said this before, but I can remember the surprise of wearing a pair of spectacles and suddenly realising that, for a long time, I had not been able to see properly. I have worn glasses ever since and it has not been a problem. However, I remember thinking, ‘Crikey, these colours are awfully bright’. It should not happen at 11; it should happen long before then. It should happen when children are young.

Mae pobl yn iawn pan ddywedant bod a wnelo hyn ag achosion y gellir eu hatal o golli golwg. Rwyf yn cofio cael prawf llygaid pan oeddwn yn 11 oed. Efallai imi ddweud hyn o’r blaen, ond gallaf gofio’r syndod a gefais wrth wisgo sbectol a sylweddoli’n sydyn nad oeddwn wedi bod yn gallu gweld yn iawn ers amser hir. Rwyf wedi gwisgo sbectol ers hynny, ac nid yw wedi bod yn broblem. Fodd bynnag, rwyf yn cofio meddwl, ‘Rargol, mae’r lliwiau hyn yn llachar ofnadwy’. Ni ddylai hynny ddigwydd pan fydd rhywun yn 11 oed; dylai ddigwydd ymhell cyn hynny. Dylai ddigwydd pan fydd plant yn ifanc.

Sight tests are not only important for young people. They should happen year on year for

Nid i bobl ifanc yn unig y mae profion golwg yn bwysig. Dylent ddigwydd bob blwyddyn i

special categories of people. There are at-risk groups, including people from certain ethnic backgrounds, those who have a family history of glaucoma, and people with diabetes who need to have diabetic retinopathy screenings. There are lots of things that can be done and, in Wales, we have a public health system in place that can do them.

gategorïau arbennig o bobl. Ceir grwpiau o bobl sydd mewn perygl o golli eu golwg, ac maent yn cynnwys pobl o gefndiroedd ethnig penodol, y sawl sydd â hanes o glawcoma yn y teulu, a'r sawl sydd â diabetes y mae angen iddynt gael eu sgrinio i ganfod retinopathi diabetig. Mae llawer o bethau y gellir eu gwneud, ac yng Nghymru mae gennym system iechyd y cyhoedd ar waith sy'n gallu gwneud y pethau hynny.

Most Members have been to their local schools and seen children with toothbrushes being shown how to clean their teeth—that is public health working hard. We already have professionals who do these things. I hope that the Minister will consider expanding that. It need not be at a huge cost; we already have health professionals who contact people who would benefit from this.

Mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau wedi bod i'w hysgolion lleol ac wedi gweld plant â brwshis dannedd yn cael cyfarwyddyd ar sut i lanhau eu dannedd—dyna enghraifft o iechyd y cyhoedd yn gweithio'n galed. Mae gennym weithwyr proffesiynol sy'n gwneud y pethau hyn eisoes. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn ystyried ehangu hynny. Nid oes angen iddo gostio llawer; mae gennym weithwyr iechyd proffesiynol eisoes sy'n cysylltu â phobl a fyddai'n elwa o hynny.

I do not intend to repeat the facts and figures that have been said, but I will say that, for me, avoidable sight loss is a tragedy. When you hear the personal stories of people who have suffered vision loss, at whatever age, if they were born with it or not, you hear that they suffer from bullying and harassment more than any of us do, and they suffer from depression, social exclusion and isolation. Those things happen to some people, but not to all. We must do what we can to ensure that avoidable sight loss does not happen.

Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y ffeithiau a'r ffigurau sydd wedi'u nodi eisoes, ond rwyf am ddweud fy mod yn ystyried achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg yn drasiedi. Wrth glywed straeon personol gan bobl sydd wedi colli eu golwg, o ba oedran bynnag, p'un a gawsant eu geni gyda'r cyflwr ai peidio, byddwch yn clywed eu bod yn dioddef pobl yn eu bwlio ac yn aflonyddu arnynt i raddau mwy na'r un ohonom ni, a byddant yn dioddef o iselder ysbryd, allgáu cymdeithasol ac unigrwydd. Mae'r pethau hynny'n digwydd i rai pobl, ond nid i bawb. Rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg yn digwydd.

Minister, I urge you to ensure that data and services are available consistently throughout Wales. Someone mentioned the economic cost of sight loss: it exceeds that of cancer or dementia. We need to ensure that it does not happen in future and that, in Wales, we continue to provide services that are the best possible to ensure that we support people who have sight loss and that people are prevented from developing sight loss.

Weinidog, rwyf yn eich annog i sicrhau bod data a gwasanaethau ar gael yn gyson ledled Cymru. Soniodd rhywun am gost economaidd colli golwg: mae'n uwch na chost canser neu ddementia. Mae angen inni sicrhau nad yw'n digwydd yn y dyfodol, a sicrhau ein bod, yng Nghymru, yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i wneud yn siŵr ein bod yn cynorthwyo pobl sydd wedi colli eu golwg a bod pobl yn cael eu hatal rhag dechrau colli eu golwg.

**Joyce Watson:** Like most people here today, I have tended to accept eyesight change as an inevitable consequence of ageing. Since most

**Joyce Watson:** Fel y rhan fwyaf ohonom yma heddiw, rwyf wedi tueddu i dderbyn bod golwg sy'n newid yn un o ganlyniadau

eye diseases are age related, we are all at risk of sight loss—the ocular equipment on display in the Chamber tells you that. However, when reading up on the subject for today's debate, I admit that I was shocked to learn that half of all sight loss in Wales is avoidable. The correlation between financial income and health outcome is sadly a familiar pattern. We know that poorer people are more likely to have poor health and this is often compounded by a lower take-up of tests. In this case, it means that people on lower incomes are experiencing avoidable sight loss. That is not unexpected, but it does not mean that it is acceptable.

anochel heneiddio. Gan fod y rhan fwyaf o glefydau'r llygaid yn gysylltiedig ag oedran, mae pob un ohonom mewn perygl o golli ein golwg—mae'r offer sy'n ymwneud â'r llygaid, a welir yn y Siambr, yn awgrymu hynny. Fodd bynnag, wrth ddarllen am y pwnc ar gyfer y ddadl heddiw, rwyf yn cyfaddef imi gael fy synnu o glywed bod hanner yr achosion o golli golwg yng Nghymru yn achosion y gellid eu hosgoi. Yn anffodus, mae'r gydberthynas rhwng incwm ariannol a chanlyniad iechyd yn batrwm cyfarwydd. Gwyddom fod pobl dlotach yn fwy tebygol o ddioddef afiechyd, ac yn aml caiff hynny ei waethygu gan y ffaith bod llai ohonynt yn manteisio ar brofion. Yn yr achos hwn, mae'n golygu bod pobl ar incwm is yn dioddef problemau y gellid eu hosgoi o ran colli golwg. Nid yw hynny'n annisgwyl, ond nid yw'n golygu ei fod yn dderbyniol.

We know that we have to target at-risk groups to reduce health inequalities. There is a similar correlation for those from minority ethnic groups and the RNIB also highlights the links between sight loss and other health risk factors, such as smoking, obesity, diabetes and high blood pressure. I work closely with the Stroke Association, and blood pressure checks are key to reducing the risk of suffering that disease. I was not aware that there was also a link to sight loss. It just goes to show the importance of regular checks and good screening. When a patient presents with one health issue, there should be a joined-up response. I am thinking here of the approach taken by the fracture liaison service that is offered in Bronglais General Hospital. When a patient turns up with a fracture and ticks specific boxes relating to age and so on, they are tested for osteoporosis. I wonder whether there is an equivalent for avoidable sight loss.

Gwyddom fod yn rhaid inni dargedu grwpiau sydd mewn perygl er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Ceir cydberthynas debyg o safbwynt y sawl sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac mae'r RNIB hefyd yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng colli golwg a ffactorau eraill sy'n peri risg i iechyd, megis ysmygu, gordewdra, diabetes a phwysedd gwaed uchel. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Strôc, ac mae archwiliadau pwysedd gwaed yn allweddol i leihau'r risg o ddioddef o'r clefyd hwnnw. Nid oeddwn yn ymwybodol bod cysylltiad rhwng hynny a cholli golwg. Mae'n dangos pwysigrwydd cael archwiliadau rheolaidd a gwasanaeth sgrinio da. Pan fydd claf yn dioddef o un broblem iechyd, dylid cael ymateb cydgysylltiedig. Rwyf yn meddwl yn awr am ddull gweithredu'r gwasanaeth cyswllt torri esgyrn a gynigir yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Pan fydd claf yn cyrraedd wedi torri asgwrn ac os bydd yn perthyn i gategorïau penodol sy'n ymwneud ag oedran ac yn y blaen, caiff brawf ar gyfer osteoporosis. Tybed a geir cyfleoedd tebyg ar gyfer achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg?

It starts with people going to their doctor or optician before picking up a cheap pair of reading glasses. Returning to the issue of age, the RNIB reports that a third of people over the age of 70 fail to have regular eye checks.

Mae'n dechrau gyda phobl yn mynd at eu meddyg neu'u hoptegydd cyn prynu sbectol ddarllen rad. Gan fynd yn ôl at y mater sy'n ymwneud ag oedran, mae'r RNIB yn nodi bod un o bob tri pherson dros 70 oed yn

This puts me in mind of a retired gentleman of my acquaintance who was referred to the eye clinic of his local hospital. The consultant asked him why he was there and the gentleman said, 'Because my optician referred me to you'. The consultant told him, 'Well, thank your optician the next time that you see him; I think that we might have caught your glaucoma in its very early stages'. When he told me that, the retired gentleman said that, at his age, the temptation to nip to the local cheap and cheerful retailer in the high street for a couple of pairs of over-the-counter glasses was attractive. If you are not the most patient person in the world—and how many of us are?—the prospect of having to make an appointment, wait in a queue and leave the house at a time chosen by someone else is overwhelming, but not doing so can be the wrong decision in the long term.

methu â chael profion llygaid rheolaidd. Mae hynny'n fy atgoffa o ŵr wedi ymddeol yr wyf yn ei adnabod, a gafodd ei gyfeirio at y clinig llygaid yn ei ysbyty lleol. Gofynnodd y meddyg ymgynghorol iddo pam yr oedd yno, a dywedodd y gŵr, 'Oherwydd bod fy optegydd wedi fy nghyfeirio atoch'. Dywedodd y meddyg ymgynghorol wrtho, 'Wel, diolchwch i'ch optegydd y tro nesaf y byddwch yn ei weld; rwyf yn credu ein bod wedi dal eich glawcoma yn gynnar iawn'. Pan ddywedodd hynny wrthyf, dywedodd y gŵr a oedd wedi ymddeol ei bod yn demtasiwn i rywun o'i oed ef bicio i mewn i'r siop rad leol yn y stryd fawr i brynu sbectol neu ddwy dros y cownter. Os nad ydych yn unigolyn amyneddgar—a sawl un ohonom sy'n amyneddgar?—mae'r posibilrwydd o orfod gwneud apwyntiad, aros mewn ciw a gadael y tŷ ar adeg a ddewiswyd gan rywun arall yn anodd, ond gall peidio â gwneud hynny fod yn benderfyniad anghywir yn y tymor hir.

The older you are, the more important it is that you get regular eye inspections. The free market may well be the convenient option, but it can also be the option that leads to serious eye conditions being undiagnosed and, therefore, untreated. Let us face it, this is not a case of being thoughtful regarding the wellbeing of others: undiagnosed eye conditions can lead to serious sight impairment for the person involved. They can also lead to increased danger to others. We need only think of the dangers—and this was mentioned earlier—that driving a car can involve if you have a serious, undetected eye condition. Regular eye examinations are essential and they do not just show long-sightedness or short-sightedness, they show up far more serious conditions that the patient might not even be aware of. Therefore, I support today's motion and call on the Welsh Government to make a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales and I commend my colleague, Mark Drakeford, for bringing the issue to the floor of the Chamber.

Po hynaf yr ydych, y pwysicaf yw ichi gael archwiliadau llygaid rheolaidd. Efallai fod y farchnad rydd yn ddewis cyfleus, ond gall hefyd fod yn ddewis sy'n arwain at achosion o fethu â diagnosio cyflyrau llygaid difrifol, ac o fethu â'u trin, felly. Gadewch inni wynebu'r gwir, nid oes a wnelo hyn â bod yn ystyriol o les pobl eraill: gall cyflyrau llygaid heb eu diagnosio arwain at nam difrifol ar y golwg i'r unigolyn dan sylw. Gallant hefyd arwain at fwy o berygl i bobl eraill. Does ond angen inni feddwl am y peryglon—soniwyd am y mater hwn yn gynharach—a all fod yn gysylltiedig â gyrru car os oes gennych gyflwr llygaid difrifol nad yw wedi'i ganfod. Mae cael archwiliadau llygaid rheolaidd yn hanfodol. Yn ogystal â dangos a ydych yn hir neu'n fyr eich golwg, maent hefyd yn tynnu sylw at gyflyrau llawer mwy difrifol nad yw'r claf efallai'n ymwybodol ohonynt hyd yn oed. Felly, rwyf yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy yn nifer yr achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru, a chymeradwyaf fy nghydweithiwr, Mark Drakeford, am gyflwyno'r mater i lawr y Siambr.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolchaf

Members for bringing forward this debate and for their contributions today. I am sure that Members will not be surprised to learn that I did not need to be persuaded; the Welsh Government supports the motion to make a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales. I absolutely agreed with Mark Drakeford's reasons why this should be the case.

i'r Aelodau am gyflwyno'r ddadl hon ac am eu cyfraniadau heddiw. Rwyf yn siŵr na fydd yr Aelodau'n synnu o glywed nad oedd angen imi gael fy mherswadio; mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy yn nifer yr achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Roeddwn yn cytuno'n llwyr â rhesymau Mark Drakeford dros hynny.

Loss of sight is devastating and we are committed to doing everything we can to prevent this from happening. It has a significant impact on quality of life and people who have lost their sight can often feel extremely isolated. We need to ensure that people receive both emotional and physical support at such a difficult time in their lives.

Mae colli golwg yn rhywbeth dinistriol, ac rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i atal hynny rhag digwydd. Mae'n cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd, ac yn aml gall pobl sydd wedi colli eu golwg deimlo'n unig ofnadwy. Mae angen inni sicrhau bod pobl yn cael cymorth emosiynol a chorfforol ar adeg mor anodd yn eu bywyd.

We are already taking action to improve the eye health of the people of Wales. Our Wales eyecare initiative leads the way in the UK in its provision of primary care eye services. This initiative aims to preserve sight through the early detection of eye disease and to provide support to those who have low vision and whose sight is unlikely to improve. The Wales eyecare initiative is supported by the focus on pathways. These have been developed to ensure the provision of integrated eyecare services, where ophthalmologists and optometrists work together to improve the diagnosis, treatment and ongoing care of patients. Care pathways are being implemented across Wales for glaucoma, age-related macular degeneration and unscheduled care. Further pathways are being developed for cataracts and will be implemented over the coming year.

Rydym eisoes yn cymryd camau i wella iechyd y llygaid ymysg pobl Cymru. Mae ein Menter Gofal Llygaid Cymru yn arwain y ffordd yn y DU o ran y gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol y mae'n eu darparu. Mae'r fenter hon yn ceisio sicrhau bod pobl yn cadw eu golwg trwy ganfod clefyd y llygaid yn gynnar, ac mae'n ceisio rhoi cymorth i'r sawl sydd â golwg gwan a'r sawl y mae eu golwg yn annhebygol o wella. Caiff Menter Gofal Llygaid Cymru ei chefnogi gan y ffocws ar lwybrau. Mae'r llwybrau hyn wedi'u datblygu i sicrhau y darperir gwasanaethau integredig o ran gofal llygaid, lle y mae offthalmolegwyr ac optometryddion yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r diagnosis, y driniaeth a'r gofal parhaus a roddir i gleifion. Mae llwybrau gofal yn cael eu rhoi ar waith ar draws Cymru ar gyfer glawcoma, dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran, a gofal heb ei drefnu. Mae llwybrau pellach wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer cataractau, a byddant yn cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

The Welsh Optometry Postgraduate Education Centre is accommodated in the School of Optometry and Vision Sciences at Cardiff University. The centre provides a dedicated facility for postgraduate education in optometry and a wide range of short courses for eyecare professionals. It will offer diplomas, master's degrees and doctorates

Mae Canolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru wedi'i lleoli yn Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ganolfan yn darparu cyfleuster pwrpasol i gyflwyno addysg ôl-raddedig ym maes optometreg ac ystod eang o gyrsiau byr ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal llygaid. Bydd yn

and provides the training and accreditation for optometrists relating to the Wales eyecare initiative.

cynnig diplomâu, graddau meistr a doethuriaethau, ac mae'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd achredu i optometryddion sy'n gysylltiedig â Menter Gofal Llygaid Cymru.

Last December, I attended the launch of the eye clinic liaison officer service in Bangor, to hear first-hand about the impact this service has on the daily lives of people who are blind or partially sighted. The ECLO works closely with medical and nursing staff in the eye clinic, as well as with the sensory team in social services. They signpost patients to the practical and emotional support they need to understand their diagnosis, deal with sight loss and maintain their independence. I heard first-hand how highly valued the service is by both patients and clinicians. The Royal College of Ophthalmologists recommends the posts and sees them as an integral part of the patient pathway.

Fis Rhagfyr diwethaf, roeddwn yn bresennol pan lansiwyd gwasanaeth y swyddog cyswllt clinig llygaid ym Mangor, i glywed drosof fy hun am yr effaith y mae'r gwasanaeth hwn yn ei chael ar fywydau pob dydd pobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda staff meddygol a staff nyrsio yn y clinig llygaid a'r tîm synhwyrau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cyfeirio cleifion at y cymorth ymarferol ac emosiynol y mae arnynt ei angen er mwyn deall eu diagnosis, ymdopi â cholli golwg a chynnal eu hannibyniaeth. Clywais drosof fy hun gymaint y mae'r cleifion a'r clinigwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn. Mae Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yn argymell y swyddi, ac mae'n eu hystyried yn rhan annatod o lwybr y claf.

The programme for government also sets out our commitment to establish ophthalmic diagnostic and treatment centres in key locations throughout Wales to further improve services for patients. This provides the opportunity to manage patients outside the existing out-patient clinic scenario, thereby allowing follow-up in a community setting with reductions in waiting times.

Mae'r rhaglen lywodraethu hefyd yn egluro ein hymrwymiad i sefydlu canolfannau diagnosis a thriniaeth offthalmig mewn lleoliadau allweddol ledled Cymru i wella gwasanaethau ar gyfer cleifion ymhellach. Mae hyn yn rhoi cyfle i reoli cleifion y tu allan i glinigau cleifion allanol presennol, sy'n ei gwneud yn bosibl trefnu apwyntiadau dilynol yn y gymuned gan leihau amseroedd aros.

We have people in Wales who are particularly vulnerable to eye disease and it is essential that their eyes are examined at the earliest possible opportunity so that treatment can be provided to preserve their sight. We need to raise awareness of eye health care and maximise the uptake of regular eyesight tests. In particular, we need to specifically target those people at risk of sight loss to ensure early identification, diagnosis and treatment. My officials are currently working with a wide range of key health professionals and stakeholders to develop our eye health care plan for the next five years. The issues that Suzy Davies raised in relation to children will have to be looked at closely because the provision of sight tests in schools is variable across Wales. The key aims of this plan are to reduce levels of avoidable sight loss, preserve

Mae gennym bobl yng Nghymru sy'n arbennig o agored i glefydau'r llygaid, ac mae'n hanfodol bod eu llygaid yn cael eu harchwilio cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn gallu darparu triniaeth i warchod eu golwg. Mae angen inni godi ymwybyddiaeth o ofal iechyd y llygaid a sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn cael profion golwg yn rheolaidd. Yn benodol, mae angen inni dargedu'r bobl hynny sydd mewn perygl o golli eu golwg, er mwyn sicrhau y caiff y broblem ei chanfod, ei diagnosio a'i thrin yn gynnar. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gydag ystod eang o weithwyr iechyd proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ein cynllun gofal iechyd y llygaid ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd yn rhaid edrych yn ofalus ar y materion a godwyd gan Suzy Davies yng nghyswllt plant, oherwydd

sight through the early detection of eye disease and provide support to those with visual impairment. This will be achieved by prevention and raising awareness, screening for early diagnosis and treatment and patient-focused integrated services. We need to ensure that our plan is developed to deliver the best services and high-quality support for the people of Wales.

mae'r ddarpariaeth o ran profion golwg mewn ysgolion yn amrywio ar draws Cymru. Nodau allweddol y cynllun hwn yw lleihau nifer yr achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg, gwarchod golwg pobl trwy ganfod clefydau'r llygaid yn gynnar, a rhoi cymorth i'r sawl sydd â nam ar eu golwg. Bydd hynny'n cael ei gyflawni trwy atal problemau a chodi ymwybyddiaeth, sgrinio er mwyn rhoi diagnosis a thriniaeth yn gynnar, a chynnig gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae angen inni sicrhau bod ein cynllun yn cael ei ddatblygu i ddarparu'r gwasanaethau gorau a chymorth o safon i bobl Cymru.

Sandy Mewies mentioned a lack of data being a problem. I am aware of quality issues to do with data, and there will be a programme of work to improve this to enable us to monitor delivery and progress. We need to continuously monitor and review the services provided to ensure that they remain of the highest quality and are patient focused. Therefore, we will be establishing a Wales eyecare steering group to oversee the development and delivery of the plan and to provide strategic leadership for existing eyecare groups, such as the Wales low vision services advisory group, the eye health examination advisory group and MEGAFOCUS Wales—the Minority Ethnic Groups Association for Ophthalmic Care Uptake and Service Improvement in Wales—to ensure that there is an integrated approach to the delivery of services and support that best meet the needs of the people of Wales. Joyce Watson raised the issue of ethnic minority groups. I attended a health fair a couple of months ago at City Hall in Cardiff. It was very encouraging to see so many people going along to have eye tests who would not ordinarily have done so.

Soniodd Sandy Mewies fod diffyg data'n broblem. Rwyf yn ymwybodol o faterion ynghylch ansawdd sy'n ymwneud â data, a bydd rhaglen waith yn cael ei gweithredu i wella hynny er mwyn ein galluogi i fonitro'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu a monitro cynnydd. Mae angen inni barhau i fonitro ac adolygu'r gwasanaethau a ddarperir i sicrhau eu bod yn parhau i fod o'r ansawdd uchaf a'u bod yn canolbwyntio ar y claf. Felly, byddwn yn sefydlu grŵp llywio ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun ac i ddarparu arweiniad strategol i grwpiau gofal llygaid sy'n bodoli eisoes, megis y grŵp cynghori ar wasanaethau golwg gwan yng Nghymru, y grŵp cynghori ar archwiliadau iechyd y llygaid, a MEGAFOCUS Cymru—y gymdeithas grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar gyfer manteisio ar ofal offthalmig a gwella gwasanaethau yng Nghymru—i sicrhau dull integredig o ddarparu gwasanaethau a chymorth, sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn y ffordd orau. Soniodd Joyce Watson am y mater sy'n ymwneud â grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Bûm mewn ffair iechyd rai misoedd yn ôl yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd. Roedd yn galonogol iawn gweld cynifer o bobl yn mynd yno i gael profion llygaid—pobl na fyddent fel arfer wedi gwneud hynny.

Public health has a key role to play in raising awareness and the prevention of eyecare issues. Therefore, we will be developing a number of work programmes to improve the general eye health care of all people, but also to specifically target those most at risk of

Mae gan iechyd y cyhoedd rôl allweddol i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth ac atal problemau gofal llygaid. Felly, byddwn yn datblygu nifer o raglenni gwaith i wella gofal cyffredinol iechyd y llygaid i bawb, ond byddwn hefyd yn targedu'n benodol y sawl

eyecare problems. Eye Health Week in September will provide an opportunity to celebrate the good work that has been undertaken in Wales. It will also enable us to communicate the work that will be undertaken in the coming years to further improve the services and support. That would be a good time to raise the issue of driving, which Lindsay Whittle mentioned in the debate.

sy'n wynebu'r perygl mwyaf o gael problemau gofal llygaid. Bydd Wythnos Iechyd y Llygaid ym mis Medi yn rhoi cyfle i ddathlu'r gwaith da a wnaed yng Nghymru. Bydd hefyd yn ein galluogi i sôn am y gwaith a fydd yn cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd nesaf i wella gwasanaethau a chymorth ymhellach. Byddai hynny'n amser da i godi'r mater ynghylch gyrru, y soniodd Lindsay Whittle amdano yn y ddadl.

3.30 p.m.

I would like to recognise the skills and dedication of all our eyecare professionals in Wales, including optometrists, ophthalmologists, orthoptists and opticians. Our third sector partners have also played a key role in the significant improvements to eyecare support provided during the last 10 years and I was pleased to hear from Sandy Mewies that they looked favourably on our initiatives.

Hoffwn gydnabod sgiliau ac ymroddiad ein holl weithwyr proffesiynol ym maes gofal llygaid yng Nghymru, gan gynnwys optometryddion, offthalmolegwyr, orthoptyddion ac optegwyr. Mae ein partneriaid yn y trydydd sector hefyd wedi chwarae rôl allweddol yn y gwelliannau sylweddol a wnaed i gymorth gofal llygaid yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac roeddwn yn falch o glywed gan Sandy Mewies bod y partneriaid hynny'n fodlon â'n mentrau.

Finally, I reiterate my commitment to improving eye health care services and support. The Welsh Government fully supports this motion and we will continue to work with all stakeholders to further improve eye health care services for the people of Wales.

Yn olaf, hoffwn ailadrodd fy ymrwymiad i wella gwasanaethau gofal iechyd y llygaid a'r cymorth a roddir. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i wella gwasanaethau gofal iechyd y llygaid ymhellach i bobl Cymru.

**Kirsty Williams:** I thank the speakers for their contributions to this important debate this afternoon. In opening, Mark Drakeford, in his usual eloquent way, made the case for Government action in this area and for why that action should be in the public health tradition that we can be rightly proud of in Wales. He also outlined the scale of the problem, the level of public concern about it, the availability of solutions and how those solutions fit that public health model.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddiolch i'r siaradwyr am eu cyfraniadau i'r ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Wrth agor, bu i Mark Drakeford, yn ei ffordd huawdl arferol, gyflwyno'r achos dros gael y Llywodraeth i weithredu yn y maes hwn, a soniodd am y rhesymau pam y dylai'r gweithredu hwnnw fod yn rhan o'r traddodiad iechyd y cyhoedd y gallwn fod yn falch ohono yng Nghymru, a hynny'n gywir ddigon. Yn ogystal, amlinellodd faint y broblem, lefel y pryder amdani ymysg y cyhoedd, y graddau y mae atebion ar gael, a'r modd y mae'r atebion hynny'n cyd-fynd â'r model hwnnw ar gyfer iechyd y cyhoedd.

Suzy, in her powerful contribution, focused on the economic and personal impact of sight loss, with a special emphasis on children and making people aware of the opportunities that currently exist for screening and especially for using the opportunity of children being in school to make it easier to do that screening.

Yn ei chyfraniad pwerus, canolbwyntiodd Suzy ar effaith economaidd a phersonol colli golwg, gan roi pwyslais arbennig ar blant ac ar sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran sgrinio, ac yn enwedig o ran defnyddio'r ffaith bod plant yn yr ysgol i'w gwneud yn

haws eu sgrinio.

Lindsay, I do not know how far your arms do reach, but you are right to point to the savings that can be made by maintaining people's sight. Sandy, data collection is key—it would allow for the targeting of interventions and the monitoring of any public health initiative and would also allow the Government to improve its service planning by simply knowing the scale of the problem that it was dealing with. Joyce is right to remind us that sight deterioration and sight loss are not an inevitable part of getting older. We can do something about it, and we have done something about it.

Lindsay, ni wn pa mor bell y gallwch ymestyn eich breichiau, ond rydych yn iawn i dynnu sylw at yr arbedion y gellir eu gwneud trwy sicrhau nad yw pobl yn colli eu golwg. Sandy, mae casglu data yn allweddol—byddai'n ei gwneud yn bosibl targedu ymyriadau a monitro unrhyw fenter iechyd y cyhoedd, a byddai hefyd yn caniatáu i'r Llywodraeth wella'r modd y mae'n cynllunio gwasanaethau trwy wybod maint y broblem y mae'n delio â hi. Mae Joyce yn iawn i'n hatgoffa nad yw golwg sy'n dirywio ac achosion o golli golwg yn rhan anochel o heneiddio. Gallwn wneud rhywbeth am y mater, ac rydym wedi gwneud rhywbeth am y mater.

Wales has a proud track record in this area. Back in 2000, when I was in Mark's place and chaired the Health and Social Services Committee, as a result of the then coalition between Labour and the Liberal Democrats, we embarked on our eyecare initiative. Initially, the Welsh Liberal Democrats demanded free eye tests for all. That was in the days before Mark Drakeford became a progressive universalist. Those attempts were resisted wholeheartedly. In retrospect, I am glad that they were, because the work that the committee then did on its eyecare initiative led us to an eyecare initiative that led the world. It looked at enhanced testing for those sections of the population that really needed it and those who were at greatest risk. More people became entitled to a free eye test than was previously the case. Others were able to access hospital services much more quickly because of direct referrals from the high street to secondary care clinics. The diabetic retinopathy screening service, both hospital based and mobile—particularly important in rural constituencies such as my own—made a real impact on those suffering from diabetes who were in real danger of losing their sight. It was a groundbreaking initiative—it led the world and we can be truly proud of what we achieved back then.

Mae gan Gymru hanes balch yn y maes hwn. Yn ôl yn 2000, pan oeddwn yn y sefyllfa y mae Mark ynddi ac yn cadeirio'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o ganlyniad i'r glymblaid bryd hynny rhwng y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, bu inni ddechrau ein menter gofal llygaid. Yn wreiddiol, roedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gofyn am brofion llygaid rhad ac am ddim i bawb. Roedd hynny cyn i Mark Drakeford ddod yn gyfanfydwr blaengar. Cafodd yr ymdrechion hynny eu gwrthod yn llwyr. Wrth edrych yn ôl, rwyf yn falch iddynt gael eu gwrthod, oherwydd arweiniodd y gwaith a wnaed gan y pwyllgor wedyn ar ei fenter gofal llygaid at sefydlu menter gofal llygaid a oedd yn arwain y ffordd yn y byd. Bu'n edrych ar brofion gwell ar gyfer y rhannau hynny o'r boblogaeth yr oedd arnynt eu hangen fwyaf a'r sawl a oedd yn wynebu'r perygl mwyaf. Cafodd mwy o bobl yr hawl i gael prawf llygaid rhad ac am ddim nag o'r blaen. Roedd eraill yn gallu cael mynediad i wasanaethau ysbytai'n gynt o lawer oherwydd atgyfeiriadau uniongyrchol o'r stryd fawr i glinigau gofal eilaidd. Cafodd y gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig, mewn ysbyty a chyfleuster symudol—sy'n arbennig o bwysig mewn etholaethau gwledig fel fy etholaeth i—effaith wirioneddol ar y sawl sy'n dioddef o ddiabetes ac a oedd mewn perygl gwirioneddol o golli eu golwg. Roedd yn fenter arloesol—arweiniodd y ffordd yn y byd, a gallwn fod yn wirioneddol falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym bryd hynny.

However, the sad fact is that, despite those important steps forward and despite the fact that many services are currently available and free at the point of delivery, as you have heard in contributions this afternoon, take-up among particular age groups and in certain sections of our population remains challengingly low.

Fodd bynnag, er gwaethaf y camau pwysig hynny a gymerwyd i symud y sefyllfa yn ei blaen, ac er gwaethaf y ffaith bod llawer o wasanaethau ar gael ar hyn o bryd a'u bod yn rhad ac am ddim yn y man lle y cânt eu darparu, y ffaith drist, fel y clywsoch yn y cyfraniadau y prynhawn yma, yw bod nifer y bobl mewn grwpiau oedran penodol ac mewn rhannau penodol o'n poblogaeth sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn yn dal yn hynod o isel, sy'n her inni.

Minister, I thank you for your support for the motion this afternoon and for outlining the developments in care pathways and the training of our professionals who can provide services in this particular area. However, as you know, and as we have heard, the impact of sight loss is huge; the costs are immense. We do it for other conditions. We are all aware here of public health initiatives in our newspapers, on our television screens, on our radios, in leaflets in our doctors' surgeries and initiatives in education and other healthcare settings. I look forward to hearing from you later this year about the work to set up your steering group and the publication of your plan so that eye health and preventable sight loss can take their rightful place alongside these other public health initiatives. To do anything less would be a huge mistake and run contrary to the proud track record that the Welsh Government has in this important area.

Weinidog, diolchaf am eich cefnogaeth i'r cynnig y prynhawn yma ac am amlinellu'r datblygiadau mewn llwybrau gofal ac mewn hyfforddiant i'n gweithwyr proffesiynol sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y maes penodol hwn. Fodd bynnag, fel y gwyddoch ac fel yr ydym wedi clywed, mae effaith achosion o golli golwg yn enfawr; mae'r costau'n aruthrol. Rydym yn gweithredu yng nghyswllt cyflyrau eraill. Mae pob un ohonom yma'n ymwybodol o fentrau iechyd y cyhoedd yn ein papurau newydd, ar ein sgriniau teledu, ar ein setiau radio, mewn taflenni ac yn ein meddygfeydd, ac o fentrau ym myd addysg ac mewn lleoliadau gofal iechyd eraill. Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn nes ymlaen eleni am y gwaith i sefydlu eich grŵp llywio a chyhoeddi eich cynllun fel y gall iechyd y llygaid ac achosion y gellir eu hosgoi o golli golwg gymryd eu lle haeddiannol ochr yn ochr â mentrau eraill ym maes iechyd y cyhoedd. Byddai gwneud unrhyw beth yn llai na hynny'n gamgymeriad mawr, a byddai'n mynd yn groes i'r hanes balch sydd gan Lywodraeth Cymru yn y maes pwysig hwn.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36. I am sure that Members will agree that our initiative of cross-party backbench debates is proving to be very successful. Thank you.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno bod ein menter o gynnal dadleuon trawsbleidiol gan y meinciau cefn yn llwyddiannus iawn. Diolch.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.35 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.35 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Dyfodol y GIG yng Nghymru
### The Future of the Welsh NHS

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, and amendment 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4977 William Graham*

*Motion NDM4977 William Graham*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi cynnwys y papur 'Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod angen newid' a gyflwynwyd i gabinet Llywodraeth Cymru ar 13 Mawrth 2012.*

*1. Notes the contents of the paper 'Together for Health—Why change is needed' which was presented to the Welsh Government's cabinet on 13 March 2012.*

*2. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhannu ei bwriad â phobl Cymru tan nawr ynghylch dyfodol y GIG yng Nghymru.*

*2. Regrets that the Welsh Government has failed to share its intentions until now with the people of Wales regarding the future of the Welsh NHS.*

**Darren Millar:** I move the motion.

**Darren Millar:** Cynigiaf y cynnig.

Last week saw the publication of papers relating to a meeting of the Welsh Government's Cabinet that took place on 13 March. The minutes of the meeting reported that the Minister for Health and Social Services had presented a paper to the Cabinet, 'Together for Health—Why change is needed'. This paper set out a case for the centralisation of NHS services at fewer hospitals around the country. The purpose of our debate today is to note both the contents of that Cabinet paper and the minutes that accompanied it, and to regret that the Welsh Labour Government has hidden from the Welsh public its intention to axe services at some hospitals. 'Together for Health—Why change is needed' and the Cabinet minutes that accompanied it, gave us a rare glimpse of Welsh Labour's true intentions for our precious NHS: fewer hospital beds, fewer hospitals offering 24/7 consultant-led accident and emergency services and fewer hospitals providing emergency general surgery services. All of that was in the paper prepared by the Minister for health and her team. In order to achieve these objectives, the

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd papurau'n ymwneud â chyfarfod o Gabinet Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd ar 13 Mawrth. Roedd cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno papur i'r Cabinet, 'Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod angen newid'. Roedd y papur hwnnw'n cyflwyno achos dros ganoli gwasanaethau'r GIG mewn nifer lai o ysbytai ledled y wlad. Diben ein dadl heddiw yw nodi cynnwys y papur hwnnw i'r Cabinet a'r cofnodion a oedd yn cyd-fynd ag ef, a gresynu bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi celu rhag y cyhoedd yng Nghymru ei bwriad i gael gwared ar wasanaethau mewn rhai ysbytai. Roedd 'Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod angen newid', a chofnodion y Cabinet a oedd yn cyd-fynd ag ef, yn rhoi inni gipolwg prin ar wir fwriadau Llafur Cymru ar gyfer ein GIG gwerthfawr: llai o welyau mewn ysbytai, llai o ysbytai'n cynnig gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 dan arweiniad meddyg ymgynghorol, a llai o ysbytai'n darparu gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys. Roedd y cyfan

paper noted, a charm offensive is needed, led not by the politicians responsible for taking the decision to axe beds and services, but by a human shield of cuddly clinicians.

yn y papur a baratowyd gan y Gweinidog iechyd a'i thîm. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, roedd y papur yn nodi bod angen ymgyrch i swyno pobl, wedi'i harwain nid gan y gwleidyddion sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad i gael gwared ar welyau a gwasanaethau, ond gan darian ddynol o glinigwyr annwyl.

Throughout the Cabinet paper, reference was made to another document, 'The Case for Change', a report commissioned by the Welsh NHS Confederation. That report, authored by Professor Marcus Longley, was published by the confederation today, rebadged as 'The Best Configuration of Hospital Services for Wales: A Review of the Evidence'. Some would suggest that the delay in the publication of the report was designed to prevent any damage that could have been sustained by the Labour Party in last week's elections. I will leave the people of Wales to make up their own minds on that particular issue. I will also leave them to decide whether the cancellation of an event to present the report to Assembly Members, which was scheduled to take place in March, but reconvened today, was also part of a strategy to prevent damage to the Labour Party in last week's elections. To me, it is abundantly clear that this whole report has been cynically postponed because the Labour Party did not want to reveal its plans to downgrade local health services until after the elections last week. Labour should have been honest about its plans to centralise services. Needless to say, the report by Professor Longley portrays Wales as the sick man of Britain, trailing behind its English peers, with an NHS on the brink of catastrophic collapse due to a combination of record-breaking cuts, increasing demand on services and recruitment problems. The reference to recruitment problems in the report should come as no surprise, especially given the uncertainty that surrounds many hospital services and the failure of successive Welsh Governments to undertake effective workforce planning.

Roedd papur y Cabinet yn frith o gyfeiriadau at ddogfen arall, 'The Case for Change', sef adroddiad a gomisiynwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru. Cafodd yr adroddiad hwnnw, a ysgrifennwyd gan yr Athro Marcus Longley, ei gyhoeddi gan y conffederasiwn heddiw, dan y teitl newydd 'Y Trefniant Gorau ar gyfer Gwasanaethau Ysbytai Cymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth'. Byddai rhai'n awgrymu bod yr oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad wedi ei fwriadu i atal unrhyw niwed a allai fod wedi ei wneud i'r Blaid Lafur yn etholiadau'r wythnos diwethaf. Rwyf am adael i bobl Cymru benderfynu drostynt eu hunain ynghylch y mater penodol hwnnw. Rwyf hefyd am adael iddynt benderfynu a oedd canslo digwyddiad i gyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cynulliad, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Mawrth ond a aildrefnwyd ar gyfer heddiw, hefyd yn rhan o strategaeth i atal niwed i'r Blaid Lafur yn etholiadau'r wythnos diwethaf. O'm rhan i, mae'n gwbl amlwg bod yr adroddiad hwn i gyd wedi ei ohirio'n sinigaidd am nad oedd y Blaid Lafur yn dymuno datgelu ei chynlluniau i israddio gwasanaethau iechyd lleol tan ar ôl etholiadau'r wythnos diwethaf. Dylai'r Blaid Lafur fod wedi bod yn onest am ei chynlluniau i ganoli gwasanaethau. Afraid dweud bod yr adroddiad gan yr Athro Longley yn portreadu Cymru fel claf Prydain, sy'n llusgo y tu ôl i'w chymheiriaid yn Lloegr, a GIG sydd ar fin methu'n drychinebus o ganlyniad i gyfuniad o doriadau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen, galw cynyddol am wasanaethau a phroblemau recriwtio. Ni ddylai'r cyfeiriad at broblemau recriwtio yn yr adroddiad beri dim syndod, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch llawer o wasanaethau ysbytai a methiant y naill Lywodraeth ar ôl y llall yng Nghymru i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol.

At this point in the debate, let me make clear the Welsh Conservatives' position on the

Ar y pwynt hwn yn y ddadl, gadewch imi egluro safbwynt y Ceidwadwyr Cymreig ar

future of our NHS. We have always believed that local health services should be there for local people. We do not subscribe to the mantra that people should have to travel further for life-saving care, which seems to be the direction in which the Labour Party in Wales is moving. That is why we on these benches will continue to oppose plans to downgrade our hospitals and reject any proposals that emerge to cut or downgrade our A&E departments, maternity or paediatric services. That said, we accept that there is a case for change when it comes to non-emergency services. The Welsh public are, we believe, prepared to travel further for elective treatment planned in advance at specialist centres that offer better and improved health outcomes.

ddyfodol ein GIG. Rydym bob amser wedi credu y dylai gwasanaethau iechyd lleol fod yno ar gyfer pobl leol. Nid ydym yn cefnogi'r mantra y dylai pobl orfod teithio ymhellach i gael gofal sy'n achub bywydau, sef y cyfeiriad yr ymddengys fod y Blaid Lafur yng Nghymru yn symud iddo. Dyna pam y byddwn ni ar y meinciau hyn yn parhau i wrthwynebu cynlluniau i israddio ein hysbytai ac yn gwrthod unrhyw gynigion a ddaw i'r amlwg i gwtogi neu israddio ein hadrannau damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau mamolaeth neu wasanaethau pediatrig. Wedi dweud hynny, rydym yn derbyn bod achos dros newid yng nghyswllt gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys. Credwn fod y cyhoedd yng Nghymru yn barod i deithio ymhellach i gael triniaeth ddewisol a gynllunnir ymlaen llaw mewn canolfannau arbenigol sy'n cynnig gwell canlyniadau iechyd.

The Cabinet minutes also record that the paper was presented by the Minister for health and that the First Minister specifically endorsed the paper, 'particularly the case for change'. These are the same Ministers who have consistently denied that there are any plans or proposals to downgrade hospitals in Wales. The Minister for heath has said repeatedly that she does not intend to see the downgrading of any health services in Wales and, only last week, the First Minister stated that no hospital is under threat and that no hospital was ever under threat in Wales. However, 'Together for Health—Why change is needed' clearly states that

Mae cofnodion y Cabinet hefyd yn nodi bod y papur wedi'i gyflwyno gan y Gweinidog iechyd a bod y Prif Weinidog yn benodol wedi cefnogi'r papur, 'yn enwedig yr achos dros newid'. Dyma'r union Weinidogion sydd wedi gwadu'n gyson bod unrhyw gynlluniau neu gynigion i israddio ysbytai yng Nghymru. Mae'r Gweinidog iechyd wedi dweud droeon nad yw'n bwriadu gweld unrhyw wasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael eu hisraddio ac, mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, dywedodd y Prif Weinidog nad oes yr un ysbyty dan fygythiad, ac na fu'r un ysbyty erioed dan fygythiad yng Nghymru. Fodd bynnag, mae 'Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod angen newid' yn datgan yn glir y

'The number of sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services will need to be reduced as will the number of sites providing emergency general surgery services.'

Bydd angen lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 dan arweiniad meddyg ymgynghorol, a bydd angen lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys.

This paper was endorsed by the First Minister of Wales. If that is not downgrading, then I do not know what is. Perhaps the Minister for health, in her response to the debate today, will be able to explain to Assembly Members how she will be able to reduce the number of 24/7 A&E sites without closing a pre-existing service on one of those sites. I think that how

Cafodd y papur hwn ei gefnogi gan Brif Weinidog Cymru. Os nad yw hynny'n gyfystyr ag israddio, wn i ddim beth sydd. Efallai y bydd y Gweinidog iechyd, yn ei hymateb i'r ddadl heddiw, yn gallu egluro wrth Aelodau'r Cynulliad sut y bydd yn gallu lleihau nifer y safleoedd damweiniau ac achosion brys 24/7 heb gau gwasanaeth sy'n

she responds to that question will be fascinating, and I hope that she responds to it directly.

bodoli eisoes ar un o’r safleoedd hynny. Credaf y bydd ei hymateb i’r cwestiwn hwnnw’n ddiddorol iawn, a gobeithiaf y bydd yn ymateb iddo’n uniongyrchol.

Such service changes would put pressure on already stretched ambulance services, which are missing their targets—and the targets are lower in Wales than in England—and it is unlikely that the Wales Air Ambulance service, which is already struggling to raise sufficient finance to keep its choppers in the air, will be able to cope with increased demand.

Byddai newidiadau o’r fath i wasanaethau’n rhoi pwysau ar wasanaethau ambiwlans sydd eisoes dan straen ac sy’n methu â chyrraedd eu targedau—sy’n is yng Nghymru nag yn Lloegr—ac mae’n annhebygol y bydd gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru, sydd eisoes yn ei chael yn anodd codi digon o arian i gadw ei hofrenyddion yn yr awyr, yn gallu ymdopi â’r galw cynyddol.

Refreshingly for a Government paper, Labour’s ‘Together for Health—Why change is needed’ admits that proposed changes to the health service are financially driven, something that is often denied by Ministers in this Chamber. We all know that this year’s £0.25 million real-terms cut to the NHS in Wales represents the biggest year-on-year cut in the history of the Welsh NHS. The King’s Fund and the Wales Audit Office have confirmed that the funding situation is unprecedented and worse than in any other nation in the United Kingdom. The British Medical Association’s Dr Richard Lewis has warned about the impact of Labour’s slash-and-burn cuts to our health service, so it is no wonder that services are creaking at the seams.

Mae papur y Blaid Lafur, ‘Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod angen newid’, yn cyfaddef mai cymhellion ariannol sydd wrth wraidd y newidiadau arfaethedig i’r gwasanaeth iechyd; mae cyfaddefiad o’r fath yn amheuthun mewn papur gan Lywodraeth ac mae’n rhywbeth sy’n cael ei wadu’n aml gan Weinidogion yn y Siambr hon. Gwyddom i gyd mai’r toriad o £0.25 miliwn a gafwyd eleni mewn termau real i’r GIG yng Nghymru yw’r toriad mwyaf erioed o’r naill flwyddyn i’r llall yn ei hanes. Mae’r King’s Fund a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod y sefyllfa ariannu yn un nas gwelwyd ei thebyg o’r blaen ac yn waeth nag mewn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig. Mae Dr Richard Lewis o Gymdeithas Feddygol Prydain wedi rhybuddio ynghylch effaith toriadau dinistriol y Blaid Lafur i’n gwasanaeth iechyd, felly nid yw’n syndod bod gwasanaethau’n gwegian.

It is not just me who is expressing concerns about Welsh Labour’s plans. Clinicians in Bronglais General Hospital, Ysbyty Glan Clwyd and other hospitals in north and west Wales have also expressed their concerns, and so have Labour politicians. Several Members of Parliament and AMs, including Paul Murphy, Nia Griffith, Rebecca Evans, Joyce Watson, Lynne Neagle, Leighton Andrews and Keith Davies, have opposed the downgrading or temporary closure of facilities in their areas, in many cases launching petitions against the changes.

Nid fi yw’r unig un sy’n mynegi pryderon am gynlluniau Llafur Cymru. Mae clinigwyr yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Ysbyty Glan Clwyd ac mewn ysbytai eraill yn y gogledd a’r gorllewin wedi mynegi eu pryderon hefyd, fel y mae gwleidyddion y Blaid Lafur. Mae nifer o Aelodau Seneddol ac Aelodau’r Cynulliad, gan gynnwys Paul Murphy, Nia Griffith, Rebecca Evans, Joyce Watson, Lynne Neagle, Leighton Andrews a Keith Davies, wedi gwrthwynebu israddio cyfleusterau neu gau cyfleusterau dros dro yn eu hardaloedd, gan lansio deisebau yn erbyn y newidiadau mewn nifer o achosion.

**Lynne Neagle:** You should get your facts straight. We made representations about

**Lynne Neagle:** Dylech ofalu bod eich ffeithiau’n gywir. Gwnaethom sylwadau am

changes to the minor injuries unit in Torfaen. At no point have we ever opposed the downgrading of services, because there has not been such a downgrading of services.

newidiadau i'r uned mân anafiadau yn Nhorfaen. Nid ydym erioed wedi gwrthwynebu israddio gwasanaethau, gan nad yw gwasanaethau wedi'u hisraddio o gwbl.

**Darren Millar:** When I last looked, minor injuries services were emergency services. If you were opposing the closure of minor injuries units, you were opposing the closure and the downgrading of services in your constituency. That is why you and Paul Murphy organised a petition against those closures.

**Darren Millar:** Pan edrychais ddiwethaf, roedd gwasanaethau mân anafiadau yn wasanaethau brys. Os oeddech yn gwrthwynebu cau unedau mân anafiadau, roeddech yn gwrthwynebu cau ac israddio'r gwasanaethau yn eich etholaeth. Dyna pam y bu i chi a Paul Murphy drefnu deiseb yn erbyn yr achosion hynny o gau gwasanaethau.

**Lynne Neagle** *rose—*

**Lynne Neagle** *a gododd—*

**Darren Millar:** I have taken your intervention and I have responded to you. I was angry as well; I share your anger because, in my constituency, MIUs in Colwyn Bay and Ruthin were closed on a temporary basis. So, I share your anger about the closure of MIUs across Wales.

**Darren Millar:** Rwyf wedi derbyn eich ymyriad ac wedi ymateb ichi. Roeddwn i'n flin hefyd; rwyf innau fel chithau'n flin oherwydd, yn fy etholaeth i, cafodd unedau mân anafiadau ym Mae Colwyn a Rhuthun eu cau dros dro. Felly, rwyf innau, fel chithau, yn flin am yr achosion o gau unedau mân anafiadau ledled Cymru.

What was Welsh Labour's response to such opposition, even within its own ranks? It was a publicity exercise that Max Clifford would be proud of: a programme of external engagement, a move onto the front foot with communications, unambiguous and direct language and letting clinicians take the heat rather than the Minister for health. That was the response of the Welsh Government. It is astonishing that Labour's proposals for the Welsh NHS are so unwelcome that the Government has been forced to recruit doctors to their PR machine to try to convince the people of Wales. It is totally unacceptable that GPs, clinicians and others should be used as PR puppets for the Welsh Labour Government because the Minister will not accept responsibility for her policy decisions.

Beth oedd ymateb Llafur Cymru i wrthwynebiad o'r fath, hyd yn oed o fewn ei rhengoedd ei hun? Roedd yn ymarfer cyhoeddusrwydd y byddai Max Clifford yn falch ohono: rhaglen o ymgysylltu allanol, bwrw iddi o safbwynt cyfathrebu a defnyddio iaith ddiamwys ac uniongyrchol a gadael i glinigwyr yn hytrach na'r Gweinidog iechyd gymryd y bai. Dyna oedd ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'n rhyfeddol bod cynigion y Blaid Lafur ar gyfer y GIG yng Nghymru mor annerbyniol nes bod y Llywodraeth wedi cael ei gorfodi i recriwtio meddygon i'w hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus i geisio argyhoeddi pobl Cymru. Mae'n gwbl annerbyniol bod meddygon teulu, clinigwyr ac eraill yn cael eu defnyddio fel pypedau cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Lafur Cymru am nad yw'r Gweinidog yn barod i dderbyn cyfrifoldeb am ei phenderfyniadau o ran polisi.

Despite the commitment to clear language emphasised in the report, we still had the same old flannel yesterday from the First Minister during questions in the Chamber regarding the security of 24/7 A&E services at Glan Clwyd Hospital and services at

Er gwaethaf yr ymrwymiad i iaith glir, a bwysleisir yn yr adroddiad, cawsom yr un hen gleber ddoe gan y Prif Weinidog yn ystod y cwestiynau yn y Siambr ynglŷn â diogelwch gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 yn Ysbyty Glan Clwyd a

Bronglais and Prince Philip hospitals. Fudge and claptrap prevail, and language is ambiguous and anything but direct—from the First Minister or anybody else in the Cabinet. The Cabinet papers provide the Chamber with clear evidence of the Welsh Labour Party's betrayal of the NHS in this country. It spells out the severe impact of its savage cuts to our NHS in Wales and it exposes the truth about its intention to strip life-saving services from our hospitals. That is why I urge every Member in the Chamber, regardless of their political affiliation—and I am looking at you, Keith, and others on those benches who have supported our calls in the past—to support our motion.

gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty'r Tywysog Philip. Lol a dwli sy'n teyrnasu, ac mae'r iaith a ddefnyddir—gan y Prif Weinidog neu unrhyw un arall yn y Cabinet—yn amwys ac ymhell o fod yn uniongyrchol. Mae papurau'r Cabinet yn rhoi tystiolaeth glir i'r Siambr o'r modd y mae'r Blaid Lafur yng Nghymru wedi bradychu'r GIG yn y wlad hon. Mae'r papurau yn nodi effaith ddifrifol ei thoriadau llym i'n GIG yng Nghymru ac yn datgelu'r gwir am ei bwriad i dynnu gwasanaethau sy'n achub bywydau o'n hysbytai. Dyna pam yr wyf yn annog pob Aelod yn y Siambr, ni waeth beth fo'u lliwiau gwleidyddol—ac rwyf yn edrych arnoch chi, Keith, ac eraill ar y meinciau hynny, sydd wedi cefnogi ein galwadau yn y gorffennol—i gefnogi ein cynnig.

3.45 p.m.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu manylion llawn y newidiadau arfaethedig ar y cyfle cyntaf er mwyn hwyluso dadleuon ar sail gwybodaeth ar lefel leol.*

*Calls on the Welsh Government to provide full details of the proposed changes at the earliest opportunity so as to facilitate informed debates at a local level.*

**Kirsty Williams:** I move amendment 2 in the name of Peter Black.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Peter Black.

I state from the outset that the Welsh Liberal Democrat group will support the motion. In October last year, in questions to the First Minister, I revealed the contents of local health boards' risk registers, which showed quite clearly, and by their own admission, that there were huge variations in NHS performance and access to services. At the time, in response to those questions, the First Minister said that I was 'scaremongering' and that my comments about the NHS in Wales were 'not helpful'. Lo and behold, what does the Cabinet paper now say about those very same services? It says that

Rwyf yn datgan o'r dechrau y bydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cynnig. Fis Hydref y llynedd, mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog, datgelais gynnwys cofrestrau risg byrddau iechyd lleol, a oedd yn dangos yn ddigon clir, ac yn ôl eu cyfaddefiad eu hunain, bod amrywiadau enfawr yng nghyswllt perfformiad y GIG a mynediad i wasanaethau. Ar y pryd, wrth ymateb i'r cwestiynau hynny, dywedodd y Prif Weinidog fy mod yn codi bwganod ac nad oedd fy sylwadau am y GIG yng Nghymru yn ddefnyddiol. Ond, beth y mae papur y Cabinet yn ei ddweud yn awr am yr

union wasanaethau hynny? Mae'n dweud bod

'Patients in Wales are at increased risk when admitted to hospital over the weekend.'

Cleifion yng Nghymru yn wynebu mwy o risg os cânt eu derbyn i'r ysbyty dros y penwythnos.

That Cabinet paper says that there are major variations in outcome for major trauma patients depending on the hospital at which they are treated. It challenges the high-level use of locum doctors and the associated risks. If I was 'not helpful' and 'scaremongering' in October, what is this Cabinet paper all about?

Mae papur y Cabinet yn dweud bod amrywiadau o bwys mewn canlyniadau i gleifion sydd wedi dioddef trawma mawr, yn dibynnu ar yr ysbyty y cânt eu trin ynddo. Mae'n herio'r defnydd helaeth o feddygon locwm a'r risgiau cysylltiedig. Os nad oedd fy sylwadau'n ddefnyddiol ac os oeddwn yn codi bwganod ym mis Hydref, am beth y mae'r papur hwn i'r Cabinet yn sôn?

The challenges that face the NHS in Wales are not new, and they will certainly not go away however long we choose to stick our heads in the sand. They are real issues and there are real choices to be made by the Government, by opposition political parties and by the population of Wales who use these services. Whatever we would like, we cannot all receive intensive, complex services in our communities and on our doorsteps. There will always be a trade-off between issues of access and excellence, the ability to staff rotas and, in these difficult economic times, to pay for it all.

Nid yw'r heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru yn newydd, ac mae'n sicr na fyddant yn diflannu, ni waeth pa mor hir y byddwn yn dewis claddu ein pennau yn y tywod. Maent yn broblemau go iawn, a rhaid i ddewisiadau go iawn gael eu gwneud gan y Llywodraeth, gan y gwrthbleidiau a chan boblogaeth Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Ni waeth beth y byddem yn hoffi ei gael, ni all pob un ohonom gael gwasanaethau dwys a chymhleth yn ein cymunedau ac ar garreg ein drws. Bydd yn rhaid cyfaddawdu bob amser rhwng materion sy'n ymwneud â mynediad a rhagoriaeth, y gallu i staffio rotâu ac, yn y cyfnod economaidd anodd sydd ohoni, y gallu i dalu am y cyfan.

It is clear to me from reading these Cabinet papers what the Government's intentions are: reconfiguration will happen. The Government should now front up, man up and be honest and explicit about what it wants to do. It should provide details to populations the length and breadth of Wales about its plans for their local health services.

O ddarllen y papurau hyn i'r Cabinet, mae'n amlwg i mi beth yw bwriadau'r Llywodraeth: bydd ad-drefnu'n digwydd. Yn awr, dylai'r Llywodraeth sefyll yn gadarn, bod yn ddewr, bod yn onest a dweud yn glir beth y mae'n dymuno ei wneud. Dylai ddarparu manylion i boblogaethau ledled Cymru am ei chynlluniau ar gyfer eu gwasanaethau iechyd lleol.

That brings me to the substance of amendment 2. We want the Welsh Government to provide full details of the proposed changes at the earliest opportunity—and the local government elections are now long gone, so there are no more excuses—to facilitate informed debate at a local level. There needs to be honesty and openness with the public about the challenges that face us all. It seems to me, from reading its own Cabinet papers, that the

Daw hyn â mi at sylwedd gwelliant 2. Rydym am i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion llawn y newidiadau arfaethedig ar y cyfle cyntaf—ac mae'r etholiadau llywodraeth leol wedi hen basio erbyn hyn, felly nid oes rhagor o esgusodion—er mwyn hwyluso dadleuon ar sail gwybodaeth ar lefel leol. Mae angen bod yn onest ac yn agored gyda'r cyhoedd am yr heriau sy'n ein hwynebu i gyd. Ymddengys i mi, o ddarllen papurau ei Chabinet ei hun, mai dim ond esgus cefnogi'r

Government pays nothing but lip service to the idea of community consultation. It has made up its mind and it has decided what is good for communities. Communities need the opportunity to have their say. What the Government might think they want may not in reality be a priority for those communities. However, unless the Government is explicit about what it sees as the best way to configure services, communities do not have the chance to respond, and they will find themselves debating the future of their health service in an atmosphere of fear, ignorance and mistrust. That, for certain, will not lead to the configuration of health services that Wales needs now and in the future.

syniad o ymgynghori â'r gymuned a wna'r Llywodraeth. Mae wedi gwneud ei phenderfyniad ac mae wedi penderfynu beth sy'n dda i gymunedau. Mae angen cyfle ar gymunedau i ddweud eu dweud. Hwyrach na fydd yr hyn y mae'r Llywodraeth efallai'n credu eu bod yn dymuno ei gael yn flaenoriaeth mewn gwirionedd i'r cymunedau hynny. Fodd bynnag, oni bai bod y Llywodraeth yn glir ynghylch y ffordd orau o drefnu gwasanaethau yn ei barn hi, nid oes gan gymunedau gyfle i ymateb, a byddant yn gweld eu bod yn trafod dyfodol eu gwasanaeth iechyd mewn awyrgylch o ofn, anwybodaeth a diffyg ymddiriedaeth. Mae'n sicr na fydd hynny'n arwain at y dull o drefnu gwasanaethau iechyd y mae ar Gymru ei angen yn awr ac yn y dyfodol.

**William Graham:** The news that, under Labour, one in eight people in Wales is on an NHS waiting list is particularly alarming. No-one deserves to be put through ridiculously long waits, and vulnerable people in particular are still suffering the painful ill effects of this enduring problem. We now have Labour's flagship policy paper, 'Together for Health', which admits that the proposed changes are financially driven. It states that

**William Graham:** Mae'r newyddion bod un o bob wyth o bobl yng Nghymru, dan y Blaid Lafur, ar un o restrau aros y GIG yn arbennig o frawychus. Nid oes neb yn haeddu gorfod aros am gyfnod annerbyniol o hir, ac mae pobl agored i niwed yn benodol yn dal i ddioddef effeithiau poenus y broblem barhaus hon. Erbyn hyn, mae gennym bapur polisi blaenllaw'r Blaid Lafur, 'Law yn Llaw at Iechyd', sy'n cyfaddef mai cymhellion ariannol sydd wrth wraidd y newidiadau arfaethedig. Mae'n nodi y

'there will be slower funding growth in the future. This means the NHS must use every penny even more carefully…and…sometimes significant service change.'

'bydd y twf mewn cyllid yn arafach...yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r GIG ddefnyddio pob ceiniog hyd yn oed yn fwy gofalus...Bydd hynny'n galw...weithiau am newid gwasanaethau'n sylweddol.'

This service change is coming in the guise of Labour cutting the funding of the Welsh NHS by £534 million in real terms over the next three years. This year, it is a cut of 3.9%, or £0.25 million in real terms. It represents the biggest year-on-year cut in the history of the Welsh NHS. This comes at a time when mortality rates for general surgery, trauma, orthopaedics, general medicine and stroke services are higher in Wales than in England.

Daw'r newid hwn i wasanaethau ar ffurf toriad gan y Blaid Lafur i gyllid y GIG yng Nghymru, sy'n cyfateb i £534 miliwn mewn termau real dros y tair blynedd nesaf. Eleni, ceir toriad o 3.9%, neu £0.25 miliwn mewn termau real. Dyma'r toriad mwyaf erioed o'r naill flwyddyn i'r llall yn hanes y GIG yng Nghymru. Daw hyn ar adeg pan fo cyfraddau marwolaethau ar gyfer llawfeddygaeth gyffredinol, trawma, orthopedeg, meddygaeth gyffredinol a gwasanaethau strôc yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr.

In the introduction, the Minister clearly states that the days of increased budgets are over and that the Welsh NHS faces a tougher financial future for many years. That is

Yn y cyflwyniad, mae'r Gweinidog yn datgan yn glir bod y dyddiau pan oedd modd cynyddu cyllidebau ar ben, a bod y GIG yng Nghymru yn wynebu dyfodol ariannol anos

generally recognised, but the document admits that the role of local hospitals will change.

am flynyddoedd lawer. Caiff hynny ei gydnabod yn gyffredinol, ond mae'r ddogfen yn cydnabod y bydd rôl ysbytai lleol yn newid.

'All District General Hospitals across Wales will retain an essential role but this will change as we respond to the challenges and opportunities outlined'.

'Bydd gan bob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yng Nghymru swyddogaeth hollbwysig o hyd, ond bydd honno'n newid wrth inni ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a amlinellir.'

The paper states that, by 2016, patients will be treated in specialist facilities before being transferred to district general hospitals or community hospitals to continue their recovery. One can only speculate what this continuation of recovery actually means in real terms. However, the Minister for health has admitted in Cabinet that the expected consequences of meeting the case for change will mean ensuring a reduction in admissions to, and reliance upon, hospital beds in district general hospitals.

Dywed y papur y bydd cleifion, erbyn 2016, yn cael eu trin mewn cyfleusterau arbenigol cyn cael eu trosglwyddo i ysbytai cyffredinol dosbarth neu ysbytai cymunedol i barhau â'r broses adfer. Ni allwn ond dyfalu beth y mae parhau â'r broses adfer yn ei olygu mewn gwirionedd mewn termau real. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog iechyd wedi cydnabod yn y Cabinet y bydd canlyniadau disgwyliedig y broses o fodloni'r achos dros newid yn golygu lleihau nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i ysbytai cyffredinol dosbarth a lleihau'r graddau y dibynnir ar welyau yn yr ysbytai hynny.

The number of sites requiring 24/7 consultant-led accident and emergency services will need to be reduced, as will the number of sites providing emergency general surgery services. Labour's plans to downgrade services are not wanted by clinicians, and they do not appear to be wanted by Labour politicians either. As my colleague has already mentioned, Torfaen's MP and AM have both organised a petition calling for a halt to plans to close the minor injuries unit at County Hospital, also called Panteg hospital.

Bydd angen lleihau nifer y safleoedd lle mae angen gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 dan arweiniad meddyg ymgynghorol, a bydd angen lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys. Nid yw clinigwyr yn croesawu cynlluniau'r Blaid Lafur i israddio gwasanaethau, ac ymddengys nad yw gwleidyddion y Blaid Lafur yn eu croesawu chwaith. Fel y mae fy nghydweithiwr eisoes wedi crybwyll, mae Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad Torfaen ill dau wedi trefnu deiseb sy'n galw am atal cynlluniau i gau'r uned mân anafiadau yn Ysbyty'r Sir, a elwir hefyd yn ysbyty Panteg.

**Lynne Neagle:** I really wish that you would get your facts straight and stop deliberately confusing these alleged plans to downgrade services with concerns that were raised on behalf of constituents about changes to the minor injuries unit in Torfaen. That was us doing our job. There were no plans to downgrade County Hospital, and the Welsh Conservatives should stop trying to frighten people.

**Lynne Neagle:** Byddai'n dda gennyf pe baech yn gofalu bod eich ffeithiau'n gywir a phe baech yn rhoi'r gorau i fynd ati'n fwriadol i ddrysu'r cynlluniau honedig hyn i israddio gwasanaethau â'r pryderon a fynegwyd ar ran etholwyr am newidiadau i'r uned mân anafiadau yn Nhorfaen. Ni'n gwneud ein gwaith oedd hynny. Nid oedd unrhyw gynlluniau i israddio Ysbyty'r Sir, a dylai'r Ceidwadwyr Cymreig roi'r gorau i geisio codi ofn ar bobl.

**William Graham:** I fail to understand the logic of that. If you close a minor injuries

**William Graham:** Ni allaf ddeall rhesymeg hynny. Os ydych yn cau uned mân anafiadau,

unit, you are downgrading health services. It is as simple as that. There is a letter here to the Minister dated 9 November—you know that you wrote that letter.

rydych yn israddio gwasanaethau iechyd. Mae mor syml â hynny. Mae gennyf lythyr yma at y Gweinidog, dyddiedig 9 Tachwedd—gwyddoch mai chi a ysgrifennodd y llythyr hwnnw.

**Lynne Neagle:** No-one is denying that Paul Murphy and I made representations about the minor injuries unit at County Hospital. However, what you are saying is that this is somehow part of some wider Welsh Labour conspiracy to downgrade everything in Wales, which is clearly nonsense.

**Lynne Neagle:** Nid oes neb yn gwadu bod Paul Murphy a minnau wedi cyflwyno sylwadau am yr uned mân anafiadau yn Ysbyty'r Sir. Fodd bynnag, yr hyn a ddywedwch chi yw bod hynny, rywsut, yn rhan o ryw gynllwyn ehangach gan Lafur Cymru i israddio popeth yng Nghymru, sy'n amlwg yn nonsens.

**William Graham:** I suggest that you read the paper freely published by your own Cabinet.

**William Graham:** Awgrymaf eich bod yn darllen y papur a gyhoeddwyd gan eich Cabinet eich hun i bawb ei weld.

My colleague has already mentioned this, but it is worth saying again that the BMA's Dr Richard Lewis has warned of slash-and-burn cuts to the NHS. Indeed, papers circulated among members of the Health and Social Care Committee last week noted that, for every £1 spent on adapting a person's home, £7.50 is saved from health and social services budgets. These are practical and pragmatic savings that need to be identified to move forward.

Mae fy nghydweithiwr eisoes wedi sôn am hyn, ond mae'n werth dweud unwaith eto bod Dr Richard Lewis o Gymdeithas Feddygol Prydain wedi rhybuddio ynghylch toriadau dinistriol i'r GIG. Yn wir, roedd papurau a ddosbarthwyd ymhlith aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr wythnos diwethaf yn nodi bod pob £1 a gaiff ei gwario ar addasu cartref unigolyn yn arbed £7.50 i gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn arbedion ymarferol a phragmatig y mae angen eu nodi er mwyn symud ymlaen.

In his review of the evidence, Professor Longley states that, while the evidence is inconclusive, there is now sufficient cause for concern about whether we are getting the best possible care from the resources that we currently invest. When talking about costs, he went on to say that we are not talking about increased efficiency, but about taking money out of the system, and that is really serious. My colleague, Andrew Davies, questioned the First Minister yesterday about the flexibility of local health boards' budgets, and his shaky reply is worth repeating. Most surprisingly, on 1 May, the First Minister stated in Plenary that

Wrth adolygu'r dystiolaeth, mae'r Athro Longley yn dweud, er nad yw'r dystiolaeth yn bendant, bod digon o reswm yn awr i bryderu ynghylch a ydym yn cael y gofal gorau posibl o'r adnoddau yr ydym yn eu buddsoddi ar hyn o bryd. Wrth sôn am gostau, aeth yn ei flaen i ddweud nad sôn am gynyddu effeithlonrwydd yr ydym, ond am dynnu arian allan o'r system, ac mae hynny'n wirioneddol ddifrifol. Bu fy nghydweithiwr, Andrew Davies, yn gofyn i'r Prif Weinidog ddoe am hyblygrwydd cyllidebau byrddau iechyd lleol, ac mae ei ymateb sigledig yn werth ei ailadrodd. Yr hyn sy'n peri'r syndod mwyaf yw i'r Prif Weinidog ddweud hyn, mewn Cyfarfod Llawn ar 1 Mai:

'No hospital is under threat, and no hospital was ever under threat in Wales.'

'Nid oes dim un ysbyty o dan fygythiad, ac ni fu dim un ysbyty erioed o dan fygythiad yng Nghymru.'

The document 'Together for Health' shows

Mae'r ddogfen 'Law yn Llaw at Iechyd' yn

that that simply is not the case.

dangos nad yw hynny'n syml iawn yn wir.

**Elin Jones:** We will be supporting the Conservatives' motion today, as well as the Lib Dems' amendment 2. In my contribution, I want to make a few points about the process and politics involved in the changes to come to the NHS. Next Tuesday's debate, I am sure, will allow further analysis of today's Marcus Longley report. It is clear to us all that the reconfiguration plans were held back until after last week's election. At the end of last year, Hywel Dda Local Health Board even devised a pre-consultation phase to get itself beyond last Thursday's election. That is politics, and even though the general public may find this to be particularly cynical, politicians here will understand, if not support, Welsh Labour's desire to avoid the publication of controversial proposals before an election. However, the First Minister has not covered himself in glory over the past few weeks with his comments on hospital reconfiguration. He has become very agitated at times in the Chamber, stressing that there would be no hospital downgrading. He was keen at one stage to accuse me of scaremongering, just as he had accused Kirsty Williams of scaremongering earlier. He even accused me of deliberately lying to my constituents.

**Elin Jones:** Byddwn yn cefnogi cynnig y Ceidwadwyr heddiw, yn ogystal â gwelliant 2 y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn fy nghyfraniad, hoffwn wneud rhai pwyntiau am y broses a'r wleidyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r newidiadau sydd i ddod i'r GIG. Mae'n siŵr y bydd y ddadl a gynhelir ddydd Mawrth nesaf yn gyfle i ddadansoddi ymhellach yr adroddiad gan Marcus Longley a gyhoeddwyd heddiw. Mae'n amlwg i bob un ohonom bod y cynlluniau ad-drefnu wedi cael eu dal yn ôl tan ar ôl etholiad yr wythnos diwethaf. Ddiwedd y llynedd bu i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ddyfeisio cyfnod cyn-ymgynghori hyd yn oed, er mwyn sicrhau ei fod yn mynd y tu hwnt i'r etholiad ddydd Iau diwethaf. Dyna yw gwleidyddiaeth, ac er y bydd y cyhoedd efallai o'r farn bod hynny'n sinigaidd tu hwnt, bydd gwleidyddion yn y fan hon yn deall, os nad yn cefnogi, awydd Llafur Cymru i osgoi cyhoeddi cynigion dadleuol cyn etholiad. Fodd bynnag, nid yw'r Prif Weinidog wedi ennill dim bri dros yr ychydig wythnosau diwethaf gyda'i sylwadau ynghylch ad-drefnu ysbytai. Mae wedi cynhyrfu'n fawr ar adegau yn y Siambr, gan bwysleisio na fyddai'r un ysbyty'n cael ei israddio. Roedd yn awyddus ar un adeg i'm cyhuddo o godi bwganod, yn union fel yr oedd wedi cyhuddo Kirsty Williams o godi bwganod yn gynharach. Fe'm cyhuddodd hyd yn oed o ddweud celwydd yn fwriadol wrth fy etholwyr.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I am sure that the First Minister did not accuse you of deliberately lying. You must rephrase that more respectfully.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rwyf yn siŵr na chawsoch eich cyhuddo gan y Prif Weinidog o ddweud celwydd yn fwriadol. Rhaid ichi aralleirio hynny'n fwy parchus.

**Elin Jones:** Well, respectfully, as I recall it, he said that I had not told the truth to my constituents. [*Laughter.*] That is meant with respect, and that is what I recall him saying at this point.

**Elin Jones:** Wel, yn barchus, os cofiaf yn iawn, dywedodd nad oeddwn wedi dweud y gwir wrth fy etholwyr. [*Chwerthin.*] Rwyf yn dweud hynny gyda pharch, a dyna'r wyf yn ei gofio'n ei ddweud ar hyn o bryd.

On Radio Wales, two weeks ago, the First Minister clearly said that there was no threat to any hospital in Wales, and yet we learn, upon the publication of the Cabinet minutes and papers for 13 March, that the Cabinet clearly endorsed the case for change. Minute 4.7, as Darren Millar said, specifically

Ar Radio Wales, bythefnos yn ôl, dywedodd y Prif Weinidog yn glir nad oedd unrhyw fygythiad i unrhyw ysbyty yng Nghymru, ac eto rydym yn gweld, ar ôl cyhoeddi cofnodion a phapurau'r Cabinet ar gyfer 13 Mawrth, bod y Cabinet yn amlwg wedi cefnogi'r achos dros newid. Fel y dywedodd

mentions the First Minister's personal endorsement of the case for change in the NHS. The Cabinet paper clearly says that

Darren Millar, mae cofnod 4.7 yn cyfeirio'n benodol at y ffaith i'r Prif Weinidog ei hun gefnogi'r achos dros newid yn y GIG. Mae papur y Cabinet yn dweud yn glir y

'The number of sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services will need to be reduced as will the number of sites providing emergency general surgery services.'

Bydd angen lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 dan arweiniad meddyg ymgynghorol, a bydd angen lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys.

Despite knowing and endorsing that, the First Minister has said on numerous occasions that there are no threats to any hospitals in Wales. To me, there is clearly a contradiction here between the agreed Cabinet paper and the First Minister's public comments. To the First Minister, this may be a matter of semantics, but I ask the Minister for health to give her commitment today to ensuring clarity and transparency in the hospital reconfiguration proposals that will be released in the next few months.

Er ei fod yn gwybod hynny ac wedi cefnogi hynny, mae'r Prif Weinidog wedi dweud droeon nad oes unrhyw fygythiad i unrhyw ysbytai yng Nghymru. O'm rhan i, ceir gwrthdaro amlwg yma rhwng papur y Cabinet y cytunwyd arno a sylwadau cyhoeddus y Prif Weinidog. Hwyrach mai mater o semanteg yw hynny i'r Prif Weinidog, ond gofynnaf i'r Gweinidog iechyd ymrwymo heddiw i sicrhau eglurder a thryloywder yn y cynigion ar gyfer ad-drefnu ysbytai, a gaiff eu cyhoeddi yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

The Cabinet paper and the NHS Confederation's 'Case for Change' document provide clarity on one issue. The case for change and the drivers for change are national, and the accountability for decisions on the future of hospital services lies with the Welsh Government, not with health boards working in splendid isolation. It is important, therefore, that the people of Wales are clear that any proposals to centralise services or to remove 24/7 consultant-led accident and emergency services or emergency surgery from certain hospitals are not proposals attributable to the management of certain local health boards, but are in fact the political priorities of this Welsh Labour Government. It will be a matter for the Welsh Government and for its local health boards to make the case for change, providing clear proposals and the clinical and financial reasons for reducing, centralising or changing services. It will then be a matter for the people of Wales to decide whether they support such changes to their NHS.

Mae papur y Cabinet a dogfen 'The Case for Change' Conffederasiwn y GIG yn darparu eglurder ynghylch un mater. Mae'r achos dros newid a'r ffactorau sy'n sbarduno newid yn rhai cenedlaethol, a Llywodraeth Cymru sy'n atebol am benderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau ysbytai, ac nid byrddau iechyd sy'n gweithio'n gwbl annibynnol. Mae'n bwysig, felly, bod pobl Cymru yn deall yn glir nad rheolwyr byrddau iechyd lleol penodol sy'n gyfrifol am unrhyw gynigion i ganoli gwasanaethau neu gael gwared ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 dan arweiniad meddyg ymgynghorol neu lawdriniaeth frys o rai ysbytai; yn hytrach, blaenoriaethau gwleidyddol y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru ydynt. Mater i Lywodraeth Cymru a'i byrddau iechyd lleol fydd cyflwyno'r achos dros newid, gan roi cynigion clir a'r rhesymau clinigol ac ariannol o blaid lleihau, canoli neu newid gwasanaethau. Mater i bobl Cymru wedyn fydd penderfynu a ydynt yn cefnogi newidiadau o'r fath i'w GIG.

4.00 p.m.

In relation to Hywel Dda LHB, we will see how the board has taken on board views during the so-called pre-consultation phase

O ran Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, cawn weld yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf sut y mae'r bwrdd wedi ystyried y

during the next few weeks. At least now, with last Thursday's election over, we can, hopefully, embark on a more open, honest and informed debate on NHS service reconfiguration throughout our nation.

safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y cyfnod a alwyd yn gyfnod cyn-ymgynghori. O leiaf yn awr, gydag etholiad ddydd Iau diwethaf drosodd, rwyf yn gobeithio y gallwn ddechrau ar drafodaeth fwy agored, gonest a gwybodus ynghylch ad-drefnu gwasanaethau'r GIG ledled ein gwlad.

**Mark Isherwood:** In 2005, the then Welsh Labour Government's 'Designed for Life' paper stated that its ambition was to create world-class healthcare for Wales in the twenty-first century. It also said that it would

**Mark Isherwood:** Yn 2005, roedd y papur 'Cynllun Oes' a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Lafur ar y pryd yng Nghymru yn datgan mai uchelgais y llywodraeth oedd creu gofal iechyd o'r radd flaenaf i Gymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Dywedodd hefyd y byddai'n

'promote the active participation of citizens and communities in service development.'

'annog dinasyddion a chymunedau i gymryd rhan weithredol [mewn datblygu gwasanaethau].'

It added that it would keep the NHS local and make decisions with, rather than for, the public, but it failed to keep its promise. There was public outcry and protest across Wales at the cuts and closures resulting from the Government's plans. I established the community hospitals acting nationally together campaign, known as CHANT, which culminated in a mass protest rally on the Senedd steps.

Ychwanegodd y byddai'n cadw'r GIG yn lleol ac yn gwneud penderfyniadau gyda'r cyhoedd yn hytrach nag ar eu rhan, ond methodd â chadw ei haddewid. Cafwyd gwrthwynebiad a phrotestiadau cyhoeddus ledled Cymru yn erbyn y toriadau a'r achosion o gau gwasanaethau yn sgîl cynlluniau'r Llywodraeth. Sefydlais yr ymgyrch ysbytai cymunedol yn cydweithredu'n genedlaethol â'i gilydd, a elwir yn CHANT, a arweiniodd at rali brotest dorfol ar risiau'r Senedd.

Now, with this Welsh Labour Government's 'Together for Health' paper, it is groundhog day in the Welsh NHS again. Using almost identical language to that used in 2005, this document states that its vision is based around community services with patients at the centre to ensure that it is capable of 'world-class performance'. It is as if it has got the old document down off the shelf, dusted, rebranded and re-issued it, hoping we would not notice. Back then, cynical Labour Ministers and local politicians continued to point the finger of blame at local health boards for the consequences of Labour's own policies. As I said in the Chamber then, accountability must lie with the Welsh Government. It cannot reside with local health boards, who are not elected, when they continue to shut hospital wards and beds.

Yn awr, mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu'r un hen sefyllfa eto gyda phapur 'Law yn Llaw at Iechyd' y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Gan ddefnyddio iaith sydd bron yn union yr un fath â'r iaith a ddefnyddiwyd yn 2005, mae'r ddogfen hon yn datgan bod ei gweledigaeth yn seiliedig ar wasanaethau cymunedol y mae cleifion yn ganolog iddynt er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn un 'o safon fyd-eang'. Mae fel pe bai wedi tynnu'r hen ddogfen oddi ar y silff, wedi tynnu'r llwch oddi arni ac wedi ei hailfrandio a'i hailgyhoeddi, gan obeithio na fyddem yn sylwi. Bryd hynny, parhaodd Gweinidogion Llafur sinigaidd a gwleidyddion lleol i fwrw'r bai ar fyrddau iechyd lleol am ganlyniadau polisïau'r Blaid Lafur ei hun. Fel y dywedais yn y Siambr bryd hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn atebol. Ni all byrddau iechyd lleol, na chânt eu hethol, fod yn atebol pan fydd wardiau a gwelyau'n parhau i gael eu cau

mewn ysbytai.

Let us fast-forward to this Welsh Labour Government: once again, we see the grotesque sham of Welsh Labour politicians campaigning locally against plans to downgrade local health services and blaming health boards for implementing their own party's policies. Just as we did at the time of 'Designed for Life', Welsh Conservatives believe in local health services for local people and reject any proposals to cut A&E departments and maternity services. Labour cynically kept its plans to downgrade local health services under wraps until after the local elections.

Gadewch inni symud ymlaen i'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru: unwaith eto, gwelwn dwyll gwrthun wrth i wleidyddion Llafur Cymru ymgyrchu'n lleol yn erbyn cynlluniau i israddio gwasanaethau iechyd lleol a bwrw'r bai ar fyrddau iechyd am weithredu polisïau eu plaid eu hunain. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu, yn yr un modd ag yr oeddem yn credu adeg cyhoeddi 'Cynllun Oes', mewn gwasanaethau iechyd lleol ar gyfer pobl leol, ac rydym yn gwrthod unrhyw gynigion i dorri adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau mamolaeth. Yn sinigaidd, cadwodd y Blaid Lafur ei chynlluniau i israddio gwasanaethau iechyd lleol yn gyfrinach tan ar ôl yr etholiadau lleol.

Following cuts in the Welsh budget by the last Labour UK Government, the then Labour-led Welsh Government cut health spending by £435 million in 2010-11, long before the UK coalition Government's spending review. Labour now admits that its proposed changes are financially driven. However, they are cutting the Welsh NHS by £548 million in real terms over three years. These are the deepest cuts of any UK nation. This year's cut is the biggest in the history of the Welsh NHS. Yet this need not have been the case. The UK Government provided funding for the English NHS to protect its budget in real terms and gave the Welsh Labour Government funding so that it could do the same. It failed to pass this on to our Welsh NHS.

Yn dilyn toriadau i gyllideb Cymru gan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU, aeth Llywodraeth Cymru ar y pryd, dan arweiniad y Blaid Lafur, ati i dorri gwariant ar iechyd £435 miliwn yn 2010-11, ymhell cyn yr adolygiad o wariant gan Lywodraeth glymblaid y DU. Yn awr, mae'r Blaid Lafur yn cyfaddef mai cymhellion ariannol sydd wrth wraidd ei newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n torri cyllid y GIG yng Nghymru £548 miliwn mewn termau real dros dair blynedd. Y rhain yw'r toriadau llymaf yn unrhyw un o wledydd y DU. Toriad eleni yw'r toriad mwyaf erioed yn hanes y GIG yng Nghymru. Eto i gyd, nid oedd angen i bethau fod felly. Darparodd Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer y GIG yn Lloegr i ddiogelu ei gyllideb mewn termau real, a rhoddodd gyllid i Lywodraeth Lafur Cymru fel y gallai wneud yr un peth. Methodd hi â throsglwyddo'r cyllid hwnnw i'n GIG ni yng Nghymru.

They also eroded the voice of the patient in Wales by terminating the independent review of health service complaints. A north Wales constituent emailed last week to state

Yn ogystal, bu iddynt erydu llais y claf yng Nghymru trwy derfynu'r adolygiad annibynnol o gwynion yn erbyn y gwasanaeth iechyd. Daeth neges e-bost i law gan etholwraig o'r gogledd yr wythnos diwethaf, a oedd yn dweud ei bod

'It is an absolute disgrace to allow the wealthy to have free prescriptions while cancer patients are refused life-saving or life-prolonging treatment.'

Yn warthus caniatáu i bobl gyfoethog gael presgripsiynau am ddim pan fo triniaeth sy'n gallu achub bywyd neu ymestyn oes yn cael ei gwrthod i gleifion canser.

She states that when her husband had cancer last spring, Wrexham Maelor Hospital prescribed penicillin, which he is allergic to, resulting in toxic shock and septicaemia. They stabilised him but re-administered the penicillin; he nearly died. Her husband was then coldly informed, she says, that he had cancer. He could not face going back to that hospital and accessed private healthcare treatment in Birmingham. The prognosis is now good. However, my constituent asks what would have happened if they had been forced to rely on the Welsh NHS? She said that the hospital had been pretty good to them in the past but added that the situation was a lottery. She also had to fight for her father to have life-saving heart surgery and for treatment for her children. In each case, specialist hospitals in England came to the rescue.

Mae'n dweud, pan gafodd ei gŵr ganser y gwanwyn diwethaf, i Ysbyty Maelor Wrecsam ragnodi penisilin, sef cyffur y mae gan ei gŵr alergedd iddo, a arweiniodd at sioc wenwynig a septisemia. Llwyddodd staff yr ysbyty i'w sefydlogi ond rhoddwyd penisilin iddo'r eilwaith, a bu bron iddo farw. Yna, meddai, dywedwyd wrth ei gŵr yn oeraidd bod canser arno. Ni allai wynebu mynd yn ôl i'r ysbyty hwnnw, a threfnodd driniaeth drwy ofal iechyd preifat yn Birmingham. Mae'r prognosis bellach yn dda. Fodd bynnag, mae fy etholwraig yn gofyn beth fyddai wedi digwydd pe baent wedi gorfod dibynnu ar y GIG yng Nghymru? Dywedodd fod yr ysbyty wedi bod yn eithaf da iddynt yn y gorffennol ond ychwanegodd fod y sefyllfa yn loteri. Bu'n rhaid iddi frwydro hefyd i'w thad gael llawdriniaeth ar y galon i achub ei fywyd, a brwydro am driniaeth i'w phlant. Ym mhob achos, daeth ysbytai arbenigol yn Lloegr i'r adwy.

Flintshire's over-50s action group has asked me to state that there are neither funds nor capacity to repatriate services from England. However, it now appears that the border is becoming an artificial barrier and that there has been a constant erosion of services in Flintshire since the inception of the new health board. The group is also concerned that all senior personnel from previous health boards are still employed at a vast cost.

Mae grŵp gweithredu Sir y Fflint i bobl dros 50 oed wedi gofyn imi ddatgan nad oes cyllid na chapasiti ar gael i symud gwasanaethau'n ôl o Loegr. Fodd bynnag, ymddengys bellach fod y ffin yn dod yn rhwystr artiffisial a bod gwasanaethau wedi cael eu herydu'n gyson yn Sir y Fflint ers sefydlu'r bwrdd iechyd newydd. Mae'r grŵp hefyd yn pryderu bod holl staff uwch y byrddau iechyd blaenorol yn dal i gael eu cyflogi ar gost enfawr.

As we heard at this morning's NHS Confederation briefing, some services are not organised as they should be and some in-patient, high-cost services are at breaking point. We need to make services safer for patients but we need to involve patients in that debate as well.

Fel y clywsom yng nghyfarfod briffio Conffederasiwn y GIG y bore yma, nid yw rhai gwasanaethau'n cael eu trefnu fel y dylent ac mae rhai gwasanaethau drud i gleifion mewnol wedi eu hymestyn i'r eithaf. Mae angen inni wneud gwasanaethau'n fwy diogel i gleifion, ond mae angen inni gynnwys cleifion yn y ddadl honno hefyd.

**Nick Ramsay:** I will start by saying that, unusually, I agree completely with the comment that Lynne Neagle made about the fact that it is the job of Assembly Members like Lynne, like Keith Davies and the rest of us, both on the Government side and in the opposition, to ensure that health services in Wales are as responsive as they can be, and are protected locally where it is in the interest of local people for that to happen. As Elin Jones said in her contribution, we need an

**Nick Ramsay:** Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod, yn groes i'r arfer, yn cytuno'n llwyr â'r sylw a wnaeth Lynne Neagle am y ffaith mai gwaith Aelodau'r Cynulliad megis Lynne, Keith Davies a'r gweddill ohonom, ar ochr y Llywodraeth ac yn y gwrthbleidiau, yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd yng Nghymru mor ymatebol ag y gallant fod, a'u bod yn cael eu diogelu'n lleol pan fo hynny er budd y bobl leol. Fel y dywedodd Elin Jones yn ei

open and transparent debate about this, and I completely agree. This is one of the main areas of concerns for people across the country, if not their pre-eminent concern. We need to put community health and patients at the centre of the community health bubble.

chyfraniad, mae arnom angen trafodaeth agored a thryloyw ynghylch hyn, ac rwyf yn cytuno’n llwyr. Dyma un o’r prif feysydd, os nad y prif faes, sy’n peri pryder i bobl ledled y wlad. Mae angen inni sicrhau bod iechyd cymunedol a chleifion yn ganolog i waith ym maes iechyd cymunedol.

I would like to add my concerns to those put on record by previous speakers about the Welsh Government’s ‘Together for Health—Why Change is Needed’ document. Wales is still regarded by many as the home of the NHS. Opponents to the Westminster’s Government health policies hold up Wales as a bastion of where the health service is operating effectively and efficiently. How often do we hear Welsh Labour making the point that it is Nye Bevan’s NHS and that they would seek to protect it? If only that were the case across the board.

Hoffwn ychwanegu fy mhryderon i at y rhai a fynegwyd gan siaradwyr blaenorol am ddogfen Llywodraeth Cymru, ‘Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod angen newid’. Caiff Cymru ei hystyried o hyd gan lawer yn gartref y GIG. Mae’r rhai sy’n gwrthwynebu polisïau iechyd Llywodraeth San Steffan yn cyfeirio at Gymru fel cadarnle lle y mae’r gwasanaeth iechyd yn gweithredu’n effeithiol ac yn effeithlon. Pa mor aml y byddwn yn clywed Llafur Cymru yn gwneud y pwynt mai GIG Nye Bevan ydyw ac y byddai Llafur Cymru yn ceisio ei ddiogelu? O na bai hynny’n wir yn gyffredinol.

I accept that change is needed. I am a progressive and believe that improvements are necessary to create a health service fit for the people of Wales in the twenty-first century. Therefore, you would expect the Welsh Government to be coming forward with policies that would try to improve and adapt the NHS to the world in which we now live. However, it is ironic that it was only my party that pledged to ring-fence and protect the health budget for the NHS in our election manifesto last year—not in cash terms, as the Welsh Government has done, but in real terms, including inflation. That is what protection of the health budget means. People across Wales know that that is the reality of the situation.

Rwyf yn derbyn bod angen newid. Rwyf yn unigolyn blaengar ac yn credu bod angen gwelliannau i greu gwasanaeth iechyd sy’n addas ar gyfer pobl Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Felly, byddech yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn cynnig polisïau a fyddai’n ceisio gwella’r GIG a’i addasu i’r byd yr ydym yn byw ynddo’n awr. Fodd bynnag, mae’n eironig mai dim ond fy mhlaid i a addawodd neilltuo a diogelu’r gyllideb iechyd ar gyfer y GIG yn ein maniffesto ar gyfer yr etholiad y llynedd—nid yn nhermau arian parod, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud, ond mewn termau real, gan gynnwys chwyddiant. Dyna yw gwir ystyr diogelu’r gyllideb iechyd. Mae pobl ledled Cymru yn gwybod mai dyna yw realiti’r sefyllfa.

Alternatively, the current Welsh Government is cutting the Welsh NHS budget by £534 million over the next three years, at a time when one in eight people are on NHS waiting lists. If I do not stress anything else in this debate and do not make any other point, I would like to make that point, because that really is an appalling statistic. The cut of 3.9% over this year represents the biggest year-on-year cut, as Mark Isherwood said, in the history of the Welsh NHS. It is inevitable that such a cut will affect health services. How could it not? The health Minister herself

Ar y llaw arall, mae Llywodraeth bresennol Cymru yn torri cyllideb y GIG yng Nghymru £534 miliwn dros y tair blynedd nesaf, ar adeg pan fo un o bob wyth o bobl ar restrau aros y GIG. Os na lwyddaf i bwysleisio dim byd arall yn y ddadl hon ac os na lwyddaf i wneud yr un pwynt arall, hoffwn wneud y pwynt hwnnw, oherwydd mae’n ystadegyn gwirioneddol arswydus. Fel y dywedodd Mark Isherwood, y toriad hwn o 3.9% eleni yw’r toriad mwyaf erioed o’r naill flwyddyn i’r llall yn hanes y GIG yng Nghymru. Mae’n anochel y bydd toriad o’r fath yn effeithio ar

has stated that the days of increased budgets are over and that the NHS faces a tougher financial future than for many years.

wasanaethau iechyd. Sut na allai? Mae'r Gweinidog iechyd ei hun wedi datgan bod y dyddiau pan oedd modd cynyddu cyllidebau ar ben, a bod y GIG yn wynebu dyfodol ariannol anos nag y mae wedi'i wynebu ers blynyddoedd lawer.

I want to focus on one area that I am concerned about and which has not really been touched upon, namely the ambulance service. I have raised the issue of the ambulance service in questions over the last couple of weeks, following problems in my constituency. I have seen for myself the challenges that the Welsh NHS is facing. The ambulance service works very hard, doing a job that would be difficult to do in healthy economic times, but, at present, it faces a constant juggling act in ensuring that paramedic vehicles are in the best possible places to respond to emergency calls. I recently visited the south-east Wales ambulance call centre and was impressed by the technological changes and advances that have been made there. However, it is clear to me that with that dwindling budget—I think that there is a 6% cut in the ambulance service budget this year—it is facing an uphill struggle. That is shameful. It should be getting the support it needs from the Government.

Rwyf am ganolbwyntio ar un maes sy'n peri pryder imi ac nad yw wedi cael llawer o sylw, sef y gwasanaeth ambiwlans. Rwyf wedi codi'r mater sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ambiwlans mewn cwestiynau yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, yn dilyn problemau yn fy etholaeth. Rwyf wedi gweld drosof fy hun yr heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gweithio'n galed iawn, yn gwneud gwaith a fyddai'n anodd ei wneud mewn cyfnod economaidd iach, ond, ar hyn o bryd, mae'n gorfod jyglo'n barhaus i sicrhau bod cerbydau parafeddygol yn y mannau gorau posibl i ymateb i alwadau brys. Yn ddiweddar, ymwelais â chanolfan alwadau'r gwasanaeth ambiwlans yn y de-ddwyrain, a gwnaeth y newidiadau a'r datblygiadau technolegol a gyflwynwyd yno argraff fawr arnaf. Fodd bynnag, mae'n amlwg i mi, gyda'i chyllideb sy'n lleihau—credaf fod toriad o 6% yng nghyllideb y gwasanaeth ambiwlans eleni—ei fod yn wynebu tasg go anodd. Mae hynny'n warthus. Dylai fod yn cael y cymorth y mae arno ei angen gan y Llywodraeth.

In an area such as Monmouthshire, the challenge becomes even more pronounced. While I am pleased to learn that money is being spent in my area, its proximity to major urban centres such as Cardiff and Newport, coupled with the challenge of the geography of that and other rural areas, mean that there are many challenges to the service. When these cuts are applied to the health budget across the board, and specifically to the ambulance service, it is understandable that health provision is going to suffer.

Mewn ardal fel Sir Fynwy, mae'r her yn dod yn fwy amlwg fyth. Er fy mod yn falch o glywed bod arian yn cael ei wario yn fy ardal, mae ei hagosrwydd i ganolfannau trefol mawr megis Caerdydd a Chasnewydd, ynghyd â'r her sydd ynghlwm wrth ddaearyddiaeth yr ardal honno ac ardaloedd gwledig eraill, yn golygu bod y gwasanaeth yn wynebu llawer o heriau. Pan gaiff y toriadau hyn eu gwneud i'r gyllideb iechyd yn gyffredinol, ac i'r gwasanaeth ambiwlans yn benodol, mae'n ddealladwy bod y ddarpariaeth iechyd yn mynd i ddioddef.

I would like to make a final point about rural health provision, because it is necessary that the public knows how to get the most from its health service, and learn how to make use of neighbouring English services to ensure that patients living just over the border in Wales do not suffer due to decisions taken here in

Hoffwn wneud pwynt terfynol ynghylch y ddarpariaeth iechyd mewn ardaloedd gwledig, oherwydd mae angen i'r cyhoedd wybod sut i gael y gorau o'u gwasanaeth iechyd, a dysgu sut i ddefnyddio gwasanaethau cyfagos yn Lloegr er mwyn sicrhau nad yw cleifion sy'n byw ychydig

Cardiff bay by a Government that, although broadly may have good intentions, is actually saying one thing while something completely different is happening on the ground.

dros y ffin yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i benderfyniadau a wneir yma ym mae Caerdydd gan Lywodraeth sydd, er bod ei bwriadau efallai'n dda at ei gilydd, mewn gwirionedd yn dweud un peth tra mae rhywbeth hollol wahanol yn digwydd ar lawr gwlad.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** The health challenges that we face in Wales are significant and well documented. 'Together for Health' and, more recently, my Cabinet paper on why change is needed describe how, as a Government, we plan to confront these challenges head-on. As a Government, and for me as a Minister, we are not afraid to debate and discuss these challenges. We keep returning to these issues in this Chamber, and rightly so, because they are among the most formidable and challenging problems that we face as a nation, as many Members have recognised in their contributions today. However, I remain concerned that, no matter how many times we debate the vital issue of NHS service change, we are still in the uncomfortable situation where many Assembly Members acknowledge and accept the need for change in principle, but oppose it locally. Choosing not to change services because it is the populist and easy option will not address the issues faced by the NHS.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru o safbwynt iechyd yn sylweddol ac wedi'u cofnodi'n dda. Roedd 'Law yn Llaw at Iechyd' ac, yn fwy diweddar, fy mhapur i'r Cabinet ynghylch pam y mae angen newid, yn disgrifio sut yr ydym ni fel Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau hyn yn uniongyrchol. Fel Llywodraeth, ac o'm safbwynt i, fel Gweinidog, nid ydym yn ofni cael dadleuon a thrafodaethau ynghylch yr heriau hyn. Rydym yn dychwelyd dro ar ôl tro at y materion hyn yn y Siambr hon, a hynny'n gywir ddigon, oherwydd maent ymhlith y problemau mwyaf enbyd a heriol a wynebwn fel cenedl, fel y mae llawer o Aelodau wedi cydnabod yn eu cyfraniadau heddiw. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu o hyd ein bod, ni waeth sawl gwaith y byddwn yn trafod y mater hollbwysig sy'n ymwneud â newid gwasanaethau'r GIG, yn dal yn y sefyllfa anghysurus lle y mae llawer o Aelodau'r Cynulliad yn cydnabod ac yn derbyn yr angen am newid mewn egwyddor, ond yn ei wrthwynebu yn lleol. Ni fydd dewis peidio â newid gwasanaethau am mai dyna'r opsiwn poblogaidd a'r opsiwn hawdd yn mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan y GIG.

If we want to ensure the NHS provides safe, high-quality, effective and sustainable services in the coming years, it must be allowed to evolve and change. The future success of the NHS in Wales will be built on doing different things, not doing the same things differently. The Bevan Commission noted the responsibility that politicians have not to stand in the way of essential action to ensure our services remain in tune with needs, and use resources to achieve the best possible outcomes for the people of Wales.

Os ydym am sicrhau bod y GIG yn darparu gwasanaethau diogel, effeithiol a chynaliadwy o safon yn y blynyddoedd sydd i ddod, rhaid caniatáu iddo esblygu a newid. Bydd llwyddiant y GIG yng Nghymru yn y dyfodol yn seiliedig ar wneud pethau sy'n wahanol, ac nid ar wneud yr un pethau mewn modd gwahanol. Nododd Comisiwn Bevan y cyfrifoldeb sydd ar wleidyddion i beidio â rhwystro camau gweithredu hanfodol i sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i ymateb i anghenion, a'r cyfrifoldeb sydd arnynt i ddefnyddio adnoddau i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru.

Our belief that change is necessary is based

Mae ein cred bod newid yn angenrheidiol

on a range of solid evidence. Some of our services need to be redesigned to reflect best practice and put them on a sustainable basis. We need to ensure that we can continue to staff our services appropriately. We need to seize the opportunities offered by new technologies. All this was set out in 'Together for Health', which reflects the advice of the Bevan Commission—all of which has been debated in this Chamber. I have been very clear about all of this, but I will repeat once again in case anyone remains in doubt: the status quo is not a safe or sustainable option for the future. Changes must and will be made to ensure our NHS continues to provide safe and high-quality services to the people of Wales. I remain absolutely steadfast on this point and make no apologies for my stubbornness.

wedi'i seilio ar ystod o dystiolaeth gadarn. Mae angen ailgynllunio rhai o'n gwasanaethau i adlewyrchu arfer gorau a'u rhoi ar sylfaen gynaliadwy. Mae angen inni sicrhau y gallwn barhau i staffio ein gwasanaethau yn briodol. Mae angen inni fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnolegau newydd. Cafodd hyn oll ei egluro yn 'Law yn Llaw at Iechyd', sy'n adlewyrchu cyngor Comisiwn Bevan—ac mae'r cyfan wedi ei drafod yn y Siambr hon. Rwyf wedi bod yn glir iawn ynghylch hyn oll, ond fe'i dywedaf eto rhag ofn bod gan unrhyw un amheuaeth o hyd: nid yw cynnal y sefyllfa bresennol yn opsiwn diogel na chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Rhaid i newidiadau gael eu gwneud, a byddant yn cael eu gwneud, i sicrhau bod ein GIG yn parhau i ddarparu gwasanaethau diogel o safon i bobl Cymru. Rwyf yn dal yn gwbl gadarn ynghylch y pwynt hwn, ac nid wyf yn ymddiheuro am fod yn ystyfnig.

The Cabinet paper referred to in this debate reiterates what I have said many times before in this Chamber. Key to the delivery of this difficult and controversial programme will be our collective political leadership. It would be irresponsible for any party to try to hide from or duck that responsibility in order to further short-term political interests. In view of this, I am surprised the motion expresses regret that the Welsh Government has failed to share its intentions until now. Suggestions that I am somehow being secretive or manipulative about this programme are both unhelpful and untruthful. Suggestions that I delayed the publication of a report that was not mine to delay are also untruthful.

Mae'r papur i'r Cabinet, y cyfeiriwyd ato yn y ddadl hon, yn ailadrodd yr hyn yr wyf wedi'i ddweud droeon o'r blaen yn y Siambr. Yr allwedd i gyflawni'r rhaglen anodd a dadleuol hon fydd ein harweiniad gwleidyddol cyfun. Byddai'n anghyfrifol i unrhyw blaid geisio cuddio rhag y cyfrifoldeb hwnnw neu ei osgoi er mwyn hybu buddiannau gwleidyddol tymor byr. O ystyried hynny, rwyf yn synnu bod y cynnig yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhannu ei bwriadau tan nawr. Mae awgrymiadau fy mod rywsut yn ymddwyn yn gyfrinachgar neu'n ystrywgar ynghylch y rhaglen hon yn ddi-fudd ac yn anwir. Mae awgrymiadau fy mod wedi gohirio cyhoeddi adroddiad nad oedd yn eiddo i mi i'w ohirio hefyd yn anwir.

**Darren Millar:** Thank you for taking this intervention, Minister. The reason why we are expressing regret is because some of the information in the report that you presented to the Cabinet has not been shared before, either in this Chamber or elsewhere. For example, the point that

**Darren Millar:** Diolch am dderbyn yr ymyriad hwn, Weinidog. Y rheswm pam yr ydym yn gresynu yw oherwydd nad yw rhywfaint o'r wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynwyd gennych i'r Cabinet wedi ei rhannu o'r blaen, yn y Siambr hon neu mewn man arall. Er enghraifft, y pwynt sy'n nodi y

'The number of sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services will need to be reduced'.

Bydd angen lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 dan arweiniad meddyg ymgynghorol.

You have never said that anywhere until this report, which people found on a website.

Nid ydych erioed wedi dweud hynny yn unman cyn yr adroddiad hwn, y daeth pobl o hyd iddo ar wefan.

**Lesley Griffiths:** You were not here when the Wanless report was debated, but you were here when 'Together for Health' was debated, when the Bevan Commission report was debated, and when we debated district general hospitals. As I have said before, our position on the need for change in the NHS has been clearly stated during numerous debates in this Chamber. I will therefore be supporting the Government amendment to delete the second point of the motion. Clearly, neither I nor the Welsh Government has failed to share our intentions with the people of Wales regarding the future of the Welsh NHS. In fact, my officials and I have worked tirelessly to ensure quite the opposite.

**Lesley Griffiths:** Nid oeddech yma pan gafwyd dadl ynghylch adroddiad Wanless, ond roeddech yma pan gafwyd dadl ynghylch 'Law yn Llaw at Iechyd', pan gafwyd dadl ynghylch adroddiad Comisiwn Bevan, a phan gafwyd dadl ynghylch ysbytai cyffredinol dosbarth. Fel y dywedais o'r blaen, mae ein safbwynt ynghylch yr angen am newid yn y GIG wedi'i ddatgan yn glir yn ystod nifer o ddadleuon yn y Siambr hon. Felly, byddaf yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth i ddileu ail bwynt y cynnig. Yn amlwg, nid wyf fi na Llywodraeth Cymru wedi methu â rhannu ein bwriadau â phobl Cymru ynglŷn â dyfodol y GIG yng Nghymru. Yn wir, mae fy swyddogion a minnau wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau'r gwrthwyneb i hynny'n llwyr.

Any suggestion we are aiming to manipulate the attitudes or behaviour of doctors and nurses in relation to service change is equally misconceived. For Darren Millar to call them PR puppets is outrageous and offensive; I dread to think what our health professionals will make of that. Our published guidance is clear—we want clinicians to be engaged in service design and we established mechanisms to engage them better when we set up our new local health boards. I have said repeatedly that it is essential that clinicians play a much more active role in describing the reasons and options for service change.

Mae unrhyw awgrym ein bod yn ceisio llywio agweddau neu ymddygiad meddygon a nyrsys ynghylch newid gwasanaethau yr un mor gyfeiliornus. Mae'n warthus ac yn sarhaus bod Darren Millar wedi eu galw'n bypedau cysylltiadau cyhoeddus; mae'n gas gennyf feddwl beth y bydd ein gweithwyr iechyd proffesiynol yn ei feddwl o hynny. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn glir—rydym am i glinigwyr fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, a bu inni sefydlu dulliau i'w cynnwys yn well pan sefydlwyd ein byrddau iechyd lleol newydd. Rwyf wedi dweud droeon ei bod yn hanfodol bod clinigwyr yn chwarae rhan fwy gweithredol o lawer yn y broses o ddisgrifio'r rhesymau a'r opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau.

4.15 p.m.

The people of Wales respect expert opinion on these matters and we would be negligent if we did not encourage those on the ground to offer advice on the future development of services. To ensure that in assessing how best to match any proposals on service improvement to the evidence, the NHS in Wales commissioned a research document entitled 'The Case for Change' from the Welsh Institute for Health and Social Care. Professor Marcus Longley, a respected,

Mae pobl Cymru yn parchu barn arbenigol am y materion hyn, a byddem yn esgeulus pe na baem yn annog y rheini sy'n gweithio ar lawr gwlad i gynnig cyngor ynghylch datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau hynny wrth asesu'r ffordd orau o ofalu bod unrhyw gynigion ynghylch gwella gwasanaethau'n cyfateb i'r dystiolaeth, comisiynodd y GIG yng Nghymru ddogfen ymchwil sy'n dwyn y teitl 'The Case for Change' gan Athrofa Iechyd a

independent academic, has emphasised that he has approached this study from a position of neutrality. He has drawn together the evidence as it is; he has no political or partisan position to promote. If Darren Millar was suggesting anything else, I am sure that Professor Longley would address that, too.

Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r Athro Marcus Longley, sy'n academydd annibynnol, uchel ei barch, wedi pwysleisio ei fod wedi mynd at yr astudiaeth hon o sefyllfa niwtral. Mae wedi dwyn y dystiolaeth ynghyd fel y mae; nid oes ganddo unrhyw safbwynt gwleidyddol neu bleidiol i'w hyrwyddo. Os oedd Darren Millar yn awgrymu unrhyw beth arall, rwyf yn siŵr y byddai'r Athro Longley yn fodlon mynd i'r afael â hynny hefyd.

His report is written primarily for the wider public—the people who care about the future of health services and who want to make up their own minds based on the available evidence, not through the partisan and conflicting views often presented by other sources. 'The Case for Change' reviews the evidence on what constitutes the best in hospital provision, and assesses the strength and implications of the evidence. It is impartial, based solely on the evidence reviewed, and any judgments made on the basis of the evidence are explicit. For those of you who have not already done so, I urge you read the entire document and consider carefully what Professor Longley and his colleagues have to say.

Mae ei adroddiad wedi ei ysgrifennu'n bennaf ar gyfer y cyhoedd yn fwy cyffredinol—y bobl sy'n poeni am ddyfodol gwasanaethau iechyd ac sydd am benderfynu drostynt eu hunain ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, yn hytrach nag ar sail y safbwyntiau pleidiol a chroes a gyflwynir yn aml gan ffynonellau eraill. Mae 'The Case for Change' yn adolygu'r dystiolaeth ynghylch yr hyn sydd orau o ran darpariaeth ysbyty, ac mae'n asesu cryfder a goblygiadau'r dystiolaeth. Mae'n ddiduedd, fe'i seiliwyd ar y dystiolaeth a adolygwyd yn unig, ac mae unrhyw farn y daethpwyd iddi ar sail y dystiolaeth yn gwbl eglur. I'r rhai ohonoch sydd heb wneud hynny eisoes, rwyf yn eich annog i ddarllen y ddogfen gyfan ac ystyried yn ofalus yr hyn sydd gan yr Athro Longley a'i gydweithwyr i'w ddweud.

I have said repeatedly that no district general hospitals in Wales will close. The network of DGHs that we have will retain an essential role in the future delivery of NHS services. I have also said that I do not want to hear the word 'downgrading'. Reconfiguration is not downgrading; it is about improving services. Out there, in the real world, I believe that people understand the need for change. They understand and support the Government's desire to ensure safe and sustainable services for patients in the future. If any Members in the Chamber do not share that aim, then it is up to them to explain it to their constituents.

Rwyf wedi dweud droeon na fydd yr un ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru yn cau. Bydd y rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth sydd gennym yn dal i chwarae rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau'r GIG yn y dyfodol. Rwyf hefyd wedi dweud nad wyf am glywed y gair 'israddio'. Nid oes a wnelo ad-drefnu ag israddio; mae a wnelo â gwella gwasanaethau. Allan yn y byd go iawn, credaf fod pobl yn deall yr angen am newid. Maent yn deall ac yn cefnogi dymuniad y Llywodraeth i sicrhau gwasanaethau diogel a chynaliadwy i gleifion yn y dyfodol. Os nad yw unrhyw Aelodau yn y Siambr yn rhannu'r nod hwnnw, yna eu lle nhw yw esbonio hynny i'w hetholwyr.

Within the DGH network, we will increasingly see more centres of excellence being developed to ensure that the very best skills and equipment are on hand round the clock for the most complex, life-threatening

O fewn y rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth, byddwn yn gweld yn gynyddol y bydd mwy o ganolfannau rhagoriaeth yn cael eu datblygu i sicrhau bod y sgiliau a'r offer gorau posibl ar gael bob awr o'r dydd ar

conditions. 'Together for Health' and now 'The Case for Change' describe what must be different in order for the NHS in Wales to rank among the best health services in the world. As we debate, once again, the future of our hospitals, it is interesting to note that 90% of all health contacts take place in the community. The services that people rely on daily for the majority of their healthcare are provided by the GP, the pharmacist, the optician and many other health professionals located outside of a hospital setting. It is therefore essential that we also debate the future provision of GP and community services alongside any changes that are made to hospital services.

gyfer y cyflyrau mwyaf cymhleth sy'n peryglu bywyd. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' ac yn awr 'The Case for Change' yn disgrifio'r hyn y mae'n rhaid ei wneud yn wahanol er mwyn i'r GIG yng Nghymru fod ymysg y gwasanaethau iechyd gorau yn y byd. Wrth inni drafod dyfodol ein hysbytai unwaith eto, mae'n ddiddorol nodi bod 90% o'r holl gyswllt a geir â'r gwasanaeth iechyd yn digwydd yn y gymuned. Caiff y gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt yn ddyddiol am y rhan fwyaf o'u gofal iechyd eu darparu gan y meddyg teulu, y fferyllydd, yr optegydd a llawer o weithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio y tu allan i ysbytai. Felly, mae'n hanfodol ein bod hefyd yn trafod y modd y darperir gwasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol yn y dyfodol, ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau a wneir i wasanaethau ysbytai.

What this Government and any number of independent academics cannot do is tailor the changes that are needed to local circumstances. That is a matter for local health boards, working with community health councils and the local community. The Welsh Government has no plans to engage directly in this process, although it will be seeking assurance from the national clinical forum that the changes proposed will lead to the best possible clinical outcomes for patients. For this reason, I am unable to support the Welsh Liberal Democrat amendment calling on me to publish details of the proposed changes. Proposals for change are a matter for local publication and local discussion, not for Government. It is necessary that I remain removed from these local discussions, as I may have a role under the national guidance on service change in considering any concerns referred to me by community health councils about the process or the impact of decisions made by LHBs.

Yr hyn na all y Llywodraeth hon nac unrhyw nifer o academyddion annibynnol ei wneud yw teilwra'r newidiadau y mae eu hangen i amgylchiadau lleol. Mae hynny'n fater i fyrddau iechyd lleol, gan weithio gyda chynghorau iechyd cymuned a'r gymuned leol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ymwneud yn uniongyrchol â'r broses honno, er y bydd yn ceisio sicrwydd gan y fforwm clinigol cenedlaethol y bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at y canlyniadau clinigol gorau posibl i gleifion. Dyna pam na allaf gefnogi gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sy'n galw arnaf i gyhoeddi manylion y newidiadau arfaethedig. Mater i'w gyhoeddi a'i drafod yn lleol, ac nid mater i'r Llywodraeth, yw'r cynigion ar gyfer newid. Mae'n angenrheidiol imi gadw draw o'r trafodaethau lleol hyn, oherwydd gallai fod gennyf rôl, dan y canllawiau cenedlaethol ynghylch newid gwasanaethau, mewn ystyried unrhyw bryderon a gaiff eu cyfeirio ataf gan gynghorau iechyd cymuned am y broses neu am effaith y penderfyniadau a wneir gan fyrddau iechyd lleol.

In conclusion, this work is simply too important and too emotionally charged to be used as a political football. Whatever our political differences, we must all look to help local communities fashion services that will best serve their interests for the future, so that

I gloi, mae'r gwaith hwn yn rhy bwysig ac mae gormod o emosiwn ynghlwm wrtho i'w ddefnyddio fel pêl droed wleidyddol. Ni waeth beth fo'n gwahaniaethau gwleidyddol, rhaid i bob un ohonom geisio helpu cymunedau lleol i lunio gwasanaethau a fydd

everyone can have easy access to safe, secure, high quality, appropriate and effective care when needed.

o'r budd mwyaf iddynt yn y dyfodol, fel y gall pawb gael mynediad hwylus i ofal diogel, priodol ac effeithiol o safon pan fo'i angen.

**Andrew R.T. Davies:** I thank everyone who has participated in this afternoon's debate. The Minister ended on the health service as a political football; I agree entirely that, in these challenging times, it should not be a political football. In opening her contribution, she talked about politicians going back to their locality and talking about their contributions in their local communities. It is interesting to note that Keith Davies issues press releases in his local community entitled 'hands off our hospital'. It is interesting to note that Lynne Neagle, as has been pointed out to her, has issued a press release asking the Minister to put a halt to the closure of a minor injuries unit. It is also interesting to note Joyce Watson and Rebecca Evans expressing major concerns about Hywel Dda Local Health Board and the developments in their area. The Minister for education also highlighted his concerns about the closure of Llwynypia MIU. He said that he is determined that it will not become a permanent closure. [*Interruption.*] I have two Members on their feet; there is no better way to start. [*Laughter.*]

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Gorffennodd y Gweinidog trwy gyfeirio at y gwasanaeth iechyd fel pêl droed wleidyddol; rwyf yn cytuno'n llwyr na ddylai fod yn bêl droed wleidyddol yn y cyfnod heriol hwn. Wrth agor ei chyfraniad, soniodd am wleidyddion yn mynd yn ôl i'w hardal leol ac yn siarad am eu cyfraniadau yn eu cymunedau lleol. Mae'n ddiddorol nodi bod Keith Davies yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn ei gymuned leol dan y pennawd 'gadewch lonydd i'n hysbyty'. Mae'n ddiddorol nodi bod Lynne Neagle, fel y dywedwyd wrthi, wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn gofyn i'r Gweinidog roi terfyn ar gau uned mân anafiadau. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod Joyce Watson a Rebecca Evans wedi mynegi pryderon mawr ynghylch Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a'r datblygiadau yn eu hardal. Tynnodd y Gweinidog addysg hefyd sylw at ei bryderon ynghylch cau uned mân anafiadau Llwynypia. Dywedodd ei fod yn benderfynol na fydd yn cael ei chau'n barhaol. [*Torri ar draws.*] Mae gennyf ddau Aelod ar eu traed; pa ffordd well o ddechrau? [*Chwerthin.*]

**Lynne Neagle:** This is becoming a little tedious now. You say that Members should not make representations to the Minister, but what I asked the Minister to do was to check that what the LHB had done was appropriate and in-line with what it had said about the need to close the MIU on the grounds of clinical safety. You are deliberately misleading people—

**Lynne Neagle:** Rwyf yn dechrau diflasu ar hyn yn awr. Rydych yn dweud na ddylai Aelodau gyflwyno sylwadau i'r Gweinidog, ond yr hyn a ofynnais i'r Gweinidog ei wneud oedd cadarnhau bod yr hyn a wnaeth y Bwrdd Iechyd Lleol yn briodol ac yn unol â'r hyn yr oedd wedi ei ddweud am yr angen i gau'r uned mân anafiadau ar sail diogelwch clinigol. Rydych yn camarwain pobl yn fwriadol—

**Andrew R.T. Davies:** Your press release may have gone on to say that, but I doubt it very much. [*Interruption.*]

**Andrew R.T. Davies:** Efallai fod eich datganiad i'r wasg wedi mynd ymlaen i ddweud hynny, ond rwyf yn amau hynny'n fawr iawn. [*Torri ar draws.*]

**Leighton Andrews** *rose—*

**Leighton Andrews** *a gododd—*

**Andrew R.T. Davies:** I have given way once, and I am sure that your comments would be the same, so I will make progress with my contribution. [*Interruption.*] You get

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf wedi ildio unwaith, ac rwyf yn siŵr y byddai eich sylwadau'r un fath. Felly, rwyf am fwrw ymlaen â'm cyfraniad. [*Torri ar draws.*]

the sentiment. The Minister for health is trying to make the point that it is only opposition politicians who are 'scaremongering' in their local communities. The fact is that many Members and many people in communities up and down Wales have grave concerns about the direction of the Welsh NHS. The reality is that, with a shrinking budget, we are not going to be able to provide the same type of NHS that we have historically provided in Wales. Modern technology allows new developments to provide better services in some parts and poorer services in others. We need clear leadership from the Minister and an outline of where the Government is going with its configuration of the Welsh NHS.

Rydych yn cael y syniad. Mae'r Gweinidog iechyd yn ceisio gwneud y pwynt mai dim ond gwleidyddion y gwrthbleidiau sy'n 'codi bwganod' yn eu cymunedau lleol. Y ffaith yw bod llawer o Aelodau a llawer o bobl mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru yn pryderu'n ddifrifol am y cyfeiriad y mae'r GIG yng Nghymru yn mynd iddo. Y gwir amdani yw na fyddwn, gyda chyllideb sy'n crebachu, yn gallu darparu'r un math o GIG â'r un yr ydym wedi'i ddarparu yn hanesyddol yng Nghymru. Mae technoleg fodern yn caniatáu i ddatblygiadau newydd ddarparu gwasanaethau gwell mewn rhai mannau a gwasanaethau gwaeth mewn mannau eraill. Mae arnom angen arweiniad clir gan y Gweinidog ac amlinelliad o'r cyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn mynd iddo wrth drefnu'r GIG yng Nghymru.

When the First Minister came into Government last year after winning the Assembly election, he talked of delivery. He talked of how his Government's focus would be specifically on delivering services for the people of Wales. Time and again, we see fudge and muddle when it comes to making decisions on the health service. Only last week, we heard the Minister for health's rhetoric about LHBs coming in on budget and how she would take draconian sanctions against LHB managers if they did not do so, only for her to bail them out at the last minute. Her word does not run through the NHS. Are administrators going to take account of what she says going forward?

Pan ddaeth y Prif Weinidog i Lywodraeth y llynedd ar ôl ennill etholiad y Cynulliad, soniodd am waith darparu. Soniodd am y modd y byddai ei Lywodraeth yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Dro ar ôl tro, gwelwn lol a dryswch pan ddaw'n fater o wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth iechyd. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, clywsom rethreg y Gweinidog iechyd am y byrddau iechyd lleol yn cadw at eu cyllideb ac am sut y byddai'n cosbi rheolwyr byrddau iechyd lleol yn llym pe na baent yn gwneud hynny, a hithau wedyn yn achub eu croen ar y funud olaf. Nid yw ei gair yn treiddio drwy'r GIG. A fydd gweinyddwyr yn ystyried yr hyn sydd ganddi i'w ddweud wrth symud ymlaen?

Minister, I hope that you will use your political capital to outline where Welsh Labour wants the NHS to be in five or 10 years' time. If we look at what Welsh Labour has delivered over the first 10 years of devolution, we have had two major reorganisations. The first, in 2004, was supposed to set a course for the NHS for a generation, but it only lasted five years. The 2009 reorganisation demoralised staff on the front line, because they saw the jobs and salaries of senior executives being protected while front-line clinician and nursing positions were lost. That did not show leadership or direction.

Weinidog, rwyf yn gobeithio y byddwch yn defnyddio eich grym gwleidyddol i amlinellu ble y mae Llafur Cymru am i'r GIG fod ymhen pump neu 10 mlynedd. O edrych ar yr hyn y mae Llafur Cymru wedi'i gyflawni dros 10 mlynedd cyntaf datganoli, rydym wedi cael dwy broses ad-drefnu fawr. Roedd disgwyl i'r broses gyntaf, yn 2004, bennu cyfeiriad y GIG am genhedlaeth, ond dim ond pum mlynedd y parodd. Cafodd staff ar y rheng flaen eu digalonni gan broses ad-drefnu 2009, oherwydd gwelsant swyddi a chyflogau uwch-swyddogion yn cael eu diogelu wrth i swyddi rheng flaen clinigwyr a nyrsys gael eu colli. Nid oedd hynny'n dangos arweiniad na chyfeiriad.

Within our health service, excellence is performed every day of every week of every month. Many people owe a great debt of gratitude for the wonderful work that our clinicians, professionals and support staff undertake on behalf of patients. It is now up to you, Minister, to map out where the health service will be in five or 10 years' time, rather than commission report after report—or cabinet paper after cabinet paper—that ultimately does nothing but tread water. That is not good enough and it is not fair on patients and the people of Wales. Elin Jones talked about semantics. The First Minister is undertaking a public relations campaign to try to dress up what other politicians are highlighting as the very real concerns of their communities.

Yn ein gwasanaeth iechyd, ceir enghreifftiau o ragoriaeth bob dydd o bob wythnos o bob mis. Mae dyled llawer o bobl yn fawr am y gwaith gwych y mae ein clinigwyr, ein gweithwyr proffesiynol a'n staff cymorth yn ei wneud ar ran cleifion. Yn awr, eich cyfrifoldeb chi, Weinidog, yw mapio ble y bydd y gwasanaeth iechyd ymhen pump neu 10 mlynedd, yn hytrach na chomisiynu'r naill adroddiad ar ôl y llall—neu'r naill bapur Cabinet ar ôl y llall—oherwydd nid yw hynny'n cyflawni dim yn y pen draw ond aros yn yr unfan. Nid yw hynny'n ddigon da, ac nid yw'n deg ar gleifion a phobl Cymru. Siaradodd Elin Jones am semanteg. Mae'r Prif Weinidog yn cynnal ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus i geisio rhoi gwedd fwy ffafriol ar y pethau y mae gwleidyddion eraill yn nodi eu bod yn peri pryder gwirioneddol i'w cymunedau.

It is time for you and the First Minister to front up. That is what this motion is about. It is a plain and simple motion that should not find objection from any quarter in the Chamber. It is a fact that the paper was presented to Cabinet and it is a fact that you and your Government have been slow to outline where the NHS will be in five or 10 years' time. I fail to see how anyone could object to the motion before us this afternoon. I hope that Members from across the Chamber will support the motion. [*Interruption*.] I will take an intervention if you want me to, Minister, because you are using very strong language there.

Mae'n bryd i chi a'r Prif Weinidog sefyll yn gadarn. Dyna yw diben y cynnig hwn. Mae'n gynnig plaen a syml na ddylai gael ei wrthwynebu gan unrhyw ran o'r Siambr. Mae'n ffaith i'r papur gael ei gyflwyno i'r Cabinet, ac mae'n ffaith eich bod chi a'ch Llywodraeth wedi bod yn araf yn amlinellu ble y bydd y GIG ymhen pump neu 10 mlynedd. Ni allaf weld sut y gall neb wrthwynebu'r cynnig sydd ger ein bron y prynhawn yma. Gobeithiaf y bydd Aelodau ar draws y Siambr yn cefnogi'r cynnig. [*Torri ar draws*.] Rwyf yn barod i dderbyn ymyriad os ydych am imi wneud hynny, Weinidog, oherwydd rydych yn defnyddio iaith gref iawn.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. No, you will not; it is too late.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Na wnewch; mae'n rhy hwyr.

**Andrew R.T. Davies:** I note that, in your contribution, Minister, you chose not to answer a question from Darren Millar about what constitutes an A&E department. [*Interruption*.] I will offer you the opportunity to intervene.

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf yn nodi, yn eich cyfraniad, Weinidog, ichi ddewis peidio ag ateb cwestiwn gan Darren Millar ynghylch beth yw adran damweiniau ac achosion brys. [*Torri ar draws*.] Rwyf yn barod i gynnig cyfle ichi ymyrryd.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You must wind up now. You are out of time. There is no time for an intervention.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rhaid ichi ddirwyn i ben yn awr. Mae eich amser ar ben. Nid oes amser ar gyfer ymyriad.

**Andrew R.T. Davies:** I offered her the opportunity.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiais y cyfle iddi.

The motion today is simple and straightforward: we need a Welsh NHS that is fit for the twenty-first century. You are in Government; it is time to lead and to put that motion forward. I urge Members to support the motion.

Mae'r cynnig heddiw yn syml ac yn ddi-lol: mae arnom angen GIG yng Nghymru sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Chi sydd mewn Llywodraeth; mae'n bryd ichi arwain a chyflwyno'r cynnig hwnnw. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon nes y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, all voting on this item will be deferred to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.*
*Votes deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Diweithdra
### Unemployment

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Peter Black a gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Peter Black and amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM4978 Jocelyn Davies*

*Motion NDM4978 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi â phryder y cynnydd mewn ffigurau diweithdra, yn enwedig ymysg menywod, pobl ifanc a phobl ag anableddau.*

*Notes, with alarm, the rise in unemployment figures, especially amongst women, young people and people with disabilities.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf y cynnig.

**Alun Ffred Jones:** I move the motion.

Rwy'n siŵr bod y pryder a nodir yn y cynnig yn cael ei rannu ar draws y lle hwn gan Aelodau o bob plaid.

I am sure that the concern noted in the motion is shared across this place by Members from all parties.

Yr wythnos diwethaf yn un o bentrefi fy etholaeth—hen bentref chwarelyddol—cefais sgwrs â dyn canol oed a oedd wrthi'n glanhau ei gar, a hwnnw'n hen gar 10 oed. Roedd mewn gwaith ond yn wynebu colli £30 yr wythnos oherwydd ad-drefnu yn y gweithle. Hynny yw, colled o ryw £150 y mis. Roedd ganddo ddau fab: un yn gweithio fel cogydd mewn gwesty lleol ar gyflog isel, a'r llall yn ddi-waith—er bod ganddo grefft, nid oedd ganddo swydd. Roedd y mab hwnnw yn

Last week in a village in my constituency—and old quarrying village—I had a conversation with a middle-aged man who was cleaning his car, which was a 10-year-old car. He had a job but was going to lose £30 per week due to workplace reorganisation. That is, he was going to lose some £150 a month. He had two sons: one working as a chef in a local hotel on a low wage and the other unemployed—even though he had a trade, he did not have a job.

amau gwerth chwlio am waith a cholli ei fudd-daliadau rhent. Dyna'r realiti sy'n wynebu teuluoedd ar hyd a lled Cymru—teuluoedd sy'n gwybod beth yw gwaith ond sy'n cael eu gwasgu gan gyflogau isel a diffyg cyfleoedd gwaith sy'n talu cyflog teg.

That son questioned the value of looking for work and losing his rent benefits. That is the reality facing families across Wales—families that know what work is but are being squeezed by low wages and a lack of employment opportunities paying a fair wage.

Mae diweithdra yng Nghymru wedi bod yn cynyddu yn gyson ers mis Mawrth 2008. Mae 9% o'r boblogaeth heb waith a bron i 6% yn chwilio am waith. Ond y ffigur sy'n frawychus yw'r 28,000 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 sy'n ddi-waith ond yn chwilio am swydd. Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith wedi aros ar lefel annerbyniol ers 2000. Er gwaethaf yr arian, yr amser a'r cynlluniau—50 ohonynt yn Abertawe yn unig, yn ôl y cyn Weinidog Andrew Davies—sydd wedi cael eu neilltuo i gael gwared ar y broblem, mae niferoedd y bobl ifanc NEET 16 i 18 oed wedi aros yn gyson ers 2000. Ni chafwyd symudiad sylweddol nac arwyddocaol. Mae niferoedd y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed NEET, yn anffodus, wedi bod yn cynyddu ers tua 2005 ac wedi cynyddu'n gyflym iawn yn y blynyddoedd diwethaf. Yn anffodus, er bod pawb yn gobeithio y byddai'r strategaethau a'r cynlluniau yn gweithio, maent wedi bod yn aneffeithiol.

Unemployment in Wales has been increasing steadily since March 2008—9% of the population is out of work and almost 6% is looking for work. The most frightening figure, however, is the 28,000 young people aged between 18 and 24 who are unemployed but are searching for work. The number of young people not in employment, education or training has remained at an unacceptable level since 2000. Despite the money, time and schemes—50 in Swansea alone, according to Andrew Davies, the former Minister—earmarked for dealing with the problem, the number of NEETs aged between 16 and 18 has remained constant since 2000. There has been no significant change. The number of NEETs aged between 18 and 24 has, unfortunately, been increasing since 2005 and has increased very quickly over recent years. Unfortunately, even though we all hoped that the strategies and schemes would work, they have been ineffective.

Wrth gwrs, gallwn gysuro'n hunain bod pethau'n waeth mewn nifer o wledydd ar gyfandir Ewrop, ond nid oes dwywaith y bydd y wasgfa bellach ar y pwrs cyhoeddus yn arwain at ragor o golli swyddi ac nid yw'r sector preifat, ar hyn o bryd, yn gwneud yn iawn am y colledion. Dyna pam rydym wedi galw'n gyson—do, hyd at syrffed—am ragor o fuddsoddi cyfalaf yn y diwydiannau adeiladu a goddefiad treth i fusnesau bach i ddiogelu swyddi a chreu rhai o'r newydd. Dyna sut mae creu cyflogaeth a chreu cyfleoedd i brentisiaid sydd â gobaith am swyddi go iawn.

Of course, we can comfort ourselves that things are worse in a number of countries on the European mainland, but there is no doubt that increased pressure on the public purse will lead to further job losses, and the private sector is not, at present, compensating for those losses. That is why we have repeatedly called—we have done so ad nauseam—for further capital investment in the construction industry and for tax relief for small businesses, in order to safeguard and create jobs. That is the way to create employment and create opportunities for apprentices with hopes for genuine employment.

Ond nid oes arwydd bod y Llywodraeth hon wedi troi pob carreg i helpu'r diwydiant adeiladu na denu arian cyfalaf ychwanegol a fyddai'n rhoi gobaith go iawn i'n cymunedau a'n cwmnïau. Os gwrandewch ar y Prif Weinidog yma yn y Cynulliad, a rhai Gweinidogion eraill, mae'n well ganddynt—efallai ei bod yn haws—bwyntio'r bys a rhoi

However, there is no sign that this Government has turned over every stone to help the construction industry or drawn down additional capital funds that would give our communities and companies real hope. If you listen to the First Minister and some other Ministers here at the Assembly, they prefer—perhaps it is easier for them—to point the

bai ar San Steffan, wrth osgoi'r cyfrifoldeb i ddangos arweiniad yma yng Nghymru.

finger of blame at Westminster, while avoiding the responsibility to show leadership here in Wales.

4.30 p.m.

Ddoe, dyfynnais ffigurau cymharol GDP Cymru a chefais fy nghyhuddo o fod yn ddewisol. Dyma nhw eto—mae'r ffeithiau'n weddol amlwg—sef GDP Cymru fel canran o gyfartaledd 27 gwlad yr UE: yn 2000, y ffigur i Gymru oedd 89% , ond erbyn 2009, roedd wedi gostwng i 80%. Yn y gorllewin a'r Cymoedd, roedd y ffigur wedi gostwng yn 2009 i 68%. Mae hynny'n cuddio amrywiaethau rhanbarthol a sirol pur sylweddol hefyd, yn y gogledd ac yn y de.

Yesterday, I quoted the relative GDP figures for Wales and I was accused of being selective. Here are those figures again—the facts speak for themselves—that is, the GDP of Wales as a percentage of the average for the 27 countries of the EU: in 2000, the figure for Wales was 89%, but by 2009, that had decreased to 80%. For west Wales and the Valleys, the figure had decreased in 2009 to 68%. Those figures also hide substantial regional and county-based variations in the north and the south.

Rwy'n ymuno yn y condemniad o bolisi Llywodraeth San Steffan, sy'n debyg i ddoctor sydd wedi penderfynu mai'r ffordd i wella'r claf ydy rhoi sioc i'w system a'i lwgu. Wel, yn anffodus nid yw'r driniaeth honno wedi gweithio ac nid ydyw'n gweithio. Y cwestiwn i ni yng Nghymru yw: a ydym yn mynd i wneud unrhyw beth drosom ni ein hunain neu a ydyw lladd ar Lundain yn ddigon i ni?

I join in the condemnation of the policies of the Westminster Government, which are akin to a doctor deciding that the best way to treat a patient is to give them a shock to the system and starve them. Well, unfortunately, that treatment has not worked and it is still not working. The question for us in Wales is: are we going to do anything for ourselves or is criticising London enough for us?

Os ydy San Steffan yn torri ar y gwariant cyhoeddus ac os ydym ni a'r Llywodraeth hon yn condemnio hynny, pam nad ydym yn gwneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru o fewn y pwerau sydd gennym? Mae'n werth cymharu'r hyn sy'n digwydd â'n hymateb ni mewn Llywodraeth pan aeth y Deyrnas Unedig i ddirwasgiad swyddogol yn 2009. Symudodd Ieuan Wyn Jones a'r Llywodraeth yn gyflym iawn ar yr adeg honno. Roedd tair uwchgynhadledd wedi eu galw erbyn diwedd 2008, cyn y dirwasgiad, i roi cyfle i arweinwyr busnes a'r undebau—pawb—i gyfrannu eu syniadau. Yng nghyfarfod yr uwchgynhadledd yn Rhagfyr 2008, datblygwyd y cynllun ProAct ac roedd yn weithredol erbyn Ionawr 2009, gyda'r cwmni cyntaf yn elwa o'r cynllun ym mis Chwefror. O fewn dim roedd y chwaer raglen, ReAct, hefyd yn weithredol. Dygwyd arian cyfalaf ymlaen, sef £125 miliwn o gyllideb 2011-12, i greu a chynnal rhaglen adeiladu gynhwysfawr. Roedd y Llywodraeth honno yn deall gwerth rhoi chwistrelliad i'r economi

If Westminster is cutting public expenditure and if we and the Government here are condemning that, why are we not doing something different in Wales within the powers that we have? It is worth comparing the situation now with our response in Government when the UK officially entered recession in 2009. Ieuan Wyn Jones and the Government acted very quickly at the time. Three summits were called before the end of 2008, before the recession, to provide an opportunity for business leaders and the unions—everyone—to contribute their ideas. In a summit meeting in December 2008, the ProAct scheme was developed and it was operational by January 2009 and the first company was benefitting from the scheme by February. In no time at all, its sister programme, ReAct, was also operational. Capital funding of £125 million was brought forward from the 2011-12 budget to create and support a comprehensive construction programme. That Government understood the value of giving the economy a boost through

trwy gynlluniau cyfalaf.

capital schemes.

Mae'r her i'r Llywodraeth bresennol yn amlwg. Mae'r her honno wedi ei datgan yma sawl gwaith. Os ydym o ddifrif ynglŷn â cheisio dylanwadu ar y ffigurau gwael hynny o ran diweithdra, mae'n rhaid i ni gymryd camau pellgyrhaeddol.

The challenge to the present Government is very clear. The challenge has been stated here time and again. If we are serious about trying to influence those awful unemployment figures, we have to take far-reaching steps.

As the recession was declared, however, there was no statement by the Government, no vision for how to meet the challenge and no announcement of any extra measures to help the Welsh economy. It seems as though the Welsh Government was surprised by the recession although, in fact, to be fair, we on these benches and the Government party had warned about the possibility, indeed the probability, of a double-dip recession. A fortnight on, we still await an announcement. It is very easy to capitalise electorally on the bad news, but the fact is that it is the responsibility of us here and of the Government here in Wales to help Welsh people and our communities the length and breadth of Wales.

Pan ddaeth y cyhoeddiad am y dirwasgiad, fodd bynnag, ni chafwyd yr un datganiad gan y Llywodraeth, na'r un weledigaeth ynghylch sut i ymateb i'r her na'r un cyhoeddiad ynghylch unrhyw fesurau ychwanegol i helpu economi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru fel pe bai wedi'i synnu gan y dirwasgiad, er, mewn gwirionedd, a bod yn deg, roeddem ni ar y meinciau hyn a phlaid y Llywodraeth wedi rhybuddio ynghylch y posibilrwydd, yn wir ynghylch y tebygolrwydd, o ddirwasgiad dwbl. Bythefnos yn ddiweddarach, rydym yn dal i ddisgwyl am gyhoeddiad. Mae'n hawdd iawn manteisio'n etholiadol ar y newyddion drwg, ond y gwir amdani yw mai ein cyfrifoldeb ni yma a chyfrifoldeb y Llywodraeth yma yng Nghymru yw helpu pobl Cymru a'n cymunedau ledled Cymru.

What are we calling on the Government to do? We are calling for the same things as we have been calling for since May 2011. The Welsh Government has already engaged in talks on unlocking borrowing powers it inherited from the abolition of the Welsh Development Agency, but which it is not allowed to use by the Treasury. Plaid Cymru is demanding an urgent update on these talks, but every time we ask for the details we are told that talks are ongoing and that there is a meeting next month. We need a proper update on what is being asked for and what the state of play is. That is not too much to ask the Government to provide. We recognise that the Welsh Government does not yet have the powers to introduce new funding mechanisms, but it is unforgivable that it does not even appear to be making the case.

Beth rydym yn galw ar y Llywodraeth i'w wneud? Rydym yn galw am yr un pethau yr ydym wedi bod yn galw amdanynt er mis Mai 2011. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar ddatgloi'r pwerau benthyca a etifeddodd ar ôl i Awdurdod Datblygu Cymru gael ei ddiddymu, ond nad yw'r Trysorlys yn caniatáu iddi eu defnyddio. Mae Plaid Cymru yn galw am y wybodaeth ddiweddaraf ar frys ynghylch y trafodaethau hynny, ond bob tro y gofynnwn am y manylion cawn wybod bod y trafodaethau'n parhau a bod cyfarfod y mis nesaf. Mae arnom angen y wybodaeth ddiweddaraf briodol am yr hyn y gofynnir amdano a'r sefyllfa gyfredol. Nid yw hynny'n ormod i'w ofyn i'r Llywodraeth ei ddarparu. Rydym yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau eto i gyflwyno systemau ariannu newydd, ond mae'n anfaddeuol nad yw hyd yn oed yn ymddangos ei bod yn cyflwyno'r achos dros hynny.

The Welsh Government must also begin talks with the Treasury on getting permission to launch a Build for Wales investment vehicle. This sort of scheme could carry

Yn ogystal, rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch cael caniatâd i lansio cyfrwng buddsoddi Adeiladu dros Gymru. Gallai'r math hwn o

about £500 million-worth of projects. There must be an urgent commitment to revise and expand the local authority borrowing scheme and an aim to double it so that it is worth around £350 million. Again, I congratulate the Government on what it has already achieved in this area, although we have not seen the results of this agreement so far. However, that is certainly an excellent beginning. In line with the comments made by Nick Bennett of Community Housing Cymru on 18 January, a similar programme for tapping into the borrowing powers of housing associations must be drawn up, which should aim to generate around £150 million. If these three projects were undertaken, with the right commitment, an investment programme of over £1 billion could be financed to support the Welsh economy for the next few years, during what is set to be a sluggish and fragile recovery in the British isles and in Europe.

gynllun gynnal prosiectau gwerth tua £500 miliwn. Rhaid cael ymrwymiad ar frys i adolygu ac ymestyn y cynllun benthyca i awdurdodau lleol, a rhaid ceisio ei ddyblu fel ei fod yn werth tua £350 miliwn. Unwaith eto, hoffwn longyfarch y Llywodraeth ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni eisoes yn y maes hwn, er nad ydym wedi gweld canlyniadau'r cytundeb hwn hyd yma. Fodd bynnag, mae'n sicr yn ddechrau ardderchog. Yn unol â'r sylwadau a wnaed gan Nick Bennett, Cartrefi Cymunedol Cymru, ar 18 Ionawr, rhaid llunio rhaglen debyg ar gyfer manteisio ar bwerau benthyca cymdeithasau tai, a ddylai geisio cynhyrchu tua £150 miliwn. Pe bai'r tri phrosiect hyn yn cael eu gweithredu, gyda'r ymrwymiad iawn, gellid ariannu rhaglen fuddsoddi gwerth dros £1 biliwn i gefnogi economi Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn ystod adferiad a fydd yn ôl pob golwg yn araf ac yn fregus ar Ynysoedd Prydain ac yn Ewrop.

Felly dyna'r her yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn ei gosod i'r Llywodraeth. Dylai'r ffigurau diweithdra fod yn poeni pawb ac rwy'n siŵr eu bod. Y gamp yw gweld a oes pethau y gallwn eu gwneud i wrthweithio'r tueddiadau yn yr economi ehangach ym Mhrydain, yn Ewrop ac ymhellach na hynny hyd yn oed. Rydym yn credu bod y cynlluniau hyn yn ymarferol ac rydym yn gofyn i'r Llywodraeth frysio ac i ddangos brwdfrydedd dros weithredu rhai o'r cynlluniau hyn er lles ein pobl, a'n pobl ifanc yn arbennig.

That is the challenge that we in Plaid Cymru pose to the Government. The unemployment figures should be of concern to everyone and I am sure that they are. The trick is to see whether we can do something to counteract the tendencies in the wider economy in Britain, in Europe and even further afield than that. We believe that these plans are practical and we ask the Government to rush and to show enthusiasm for implementing some of these schemes for the benefit of our people, and our young people in particular.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig 'ac effaith y polisïau y mae Llywodraeth y DU yn eu dilyn ar ddiweithdra'.*

*Insert at end of motion 'and the effect on unemployment of the policies being pursued by the UK Government'.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Contract Ieuenctid sy'n cynnwys lleoliadau profiad gwaith gwirfoddol i bobl*

*Welcomes the introduction of the Youth Contract by the UK Government which includes voluntary work experience*

*ifanc yng Nghymru, ac yn croesawu cymorth ariannol ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Newydd.*

*placements for young people in Wales, and welcomes the Welsh Government's additional financial support for the Young Recruits Programme.*

**Eluned Parrott:** I move amendment 2 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Peter Black.

Everybody is concerned by the number of people unemployed as a result of the economic collapse back in 2008 and it was interesting, Minister, to hear your analysis of its causes earlier today. As the biggest economic catastrophe for a couple of generations, it is clear that it will take some time for the country and the economy to return to a more normal position, particularly now that there has been renewed anxiety in the markets because of the political situation in Greece. It is a concern that Wales still lags behind other parts of the UK in terms of gross value added and employment levels, and youth employment in particular. The UK youth unemployment rate is currently 22.2%, but it is higher in Wales, at 23.4%, which is a total of around 50,000 young people who are out of work. So, it is absolutely right that Governments in Wales and on a UK level work really hard to tackle what is, for me, a real tragedy.

Mae pawb yn pryderu am nifer y bobl sy'n ddi-waith o ganlyniad i'r cwymp economaidd yn ôl yn 2008, ac roedd yn ddiddorol, Weinidog, clywed eich dadansoddiad o'r hyn a'i hachosodd yn gynharach heddiw. Gan mai hwn yw'r trychineb economaidd mwyaf ers sawl cenhedlaeth, mae'n amlwg y bydd yn cymryd rhywfaint o amser i'r wlad a'r economi ddychwelyd i sefyllfa fwy normal, yn enwedig gan fod pryder o'r newydd yn y marchnadoedd yn awr oherwydd y sefyllfa wleidyddol yng Ngwlad Groeg. Mae'n destun pryder bod Cymru yn dal i lusgo y tu ôl i rannau eraill y DU o ran gwerth ychwanegol crynswth a lefelau cyflogaeth, a chyflogaeth ymhlith pobl ifanc yn enwedig. Y gyfradd ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y DU ar hyn o bryd yw 22.2%, ond mae'n uwch yng Nghymru ac yn 23.4%, sy'n gyfystyr â chyfanswm o oddeutu 50,000 o bobl ifanc sydd heb waith. Felly, mae'n gwbl briodol bod y Llywodraeth yng Nghymru ac ar lefel y DU yn gweithio'n galed iawn i fynd i'r afael â rhywbeth sy'n drasiedi go iawn, yn fy marn i.

We welcome some of the Welsh Government's interventions, in particular the Young Recruits programme, which offers funding to employers who provide high-quality apprenticeships. I am a passionate supporter of apprenticeships; I believe that they have a critical role to play in giving young people real opportunities to find work. For this reason, we are very proud as a party to support the Government's economic stimulus package, which provided additional funding for that programme. However, I also hope that the Welsh Government is willing to recognise the work of the UK Government, particularly those aspects that are having a notable effect here in Wales. The youth contract, introduced in full in England and in part in Wales, achieves many of the same things that the Welsh Government is pursuing, for example, by investing in and celebrating the value of apprenticeships. As I

Rydym yn croesawu rhai o ymyriadau Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhaglen Recriwtiaid Newydd, sy'n cynnig arian i gyflogwyr sy'n darparu prentisiaethau o safon. Rwyf yn un o gefnogwyr brwd prentisiaethau; rwyf yn credu bod ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae o ran rhoi cyfleoedd go iawn i bobl ifanc ddod o hyd i waith. Am y rheswm hwnnw, rydym yn falch iawn fel plaid o gefnogi pecyn ysgogi economaidd y Llywodraeth, a oedd yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglen honno. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn barod i gydnabod gwaith Llywodraeth y DU, yn enwedig yr agweddau hynny sy'n cael effaith nodedig yma yng Nghymru. Mae'r contract ieuenctid, a gyflwynwyd yn llawn yn Lloegr ac yn rhannol yng Nghymru, yn cyflawni llawer o'r un pethau ag y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar eu trywydd,

said, some aspects of that youth contract do apply here in Wales, such as the voluntary work experience programme. The evidence to date shows that around 50% of the people who take up that opportunity are off benefits and in work within a matter of weeks of completion, which is fantastic news. It is something that has achieved a high success rate at a third of the cost of Jobs Growth Wales per placement. However, it is an additional opportunity; it is not instead of. I am glad that young people in Wales have a range of options to explore and I call on the Welsh Government to ensure that efforts to attract young people to these routes are effectively co-ordinated so that young people are aware of all the options available to them and are signposted to the most appropriate for them.

er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn prentisiaethau a dathlu eu gwerth. Fel y dywedais, mae rhai agweddau ar y contract ieuenctid hwnnw'n berthnasol yma yng Nghymru, megis y rhaglen profiad gwaith gwirfoddol. Mae'r dystiolaeth hyd yma'n dangos bod tua 50% o'r bobl sy'n manteisio ar y cyfle hwnnw wedi gorffen cael budd-daliadau ac wedi dechrau gweithio, o fewn ychydig wythnosau'n unig iddynt gwblhau'r rhaglen, sy'n newyddion gwych. Mae'n rhywbeth sydd wedi arwain at gryn dipyn o lwyddiant am un rhan o dair o gost Twf Swyddi Cymru fesul lleoliad. Fodd bynnag, cyfle ychwanegol ydyw; nid cyfle sy'n disodli rhywbeth arall. Rwyf yn falch bod gan bobl ifanc yng Nghymru ystod o opsiynau i'w harchwilio, ac rwyf yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ymdrechion i ddenu pobl ifanc at y llwybrau hyn yn cael eu cydlynu'n effeithiol fel bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r holl opsiynau sydd ar gael iddynt ac yn cael eu cyfeirio at yr opsiynau mwyaf priodol ar eu cyfer.

Turning to the effects of unemployment on women, it is clear that the recession has impacted quite heavily on part-time jobs, in which a greater proportion of women than men are employed. Clearly, this is very concerning. However, I believe that a number of the initiatives that the UK Government has introduced will have a positive impact on the career prospects of women and will help to achieve a level playing field for women and men in the workplace. I will give you some examples of that. The first is the introduction of shared parental leave to enable both parents to choose how to split their leave, so that women are not always forced to be the ones to reduce their working hours. That is something that I would have found extremely useful when my children were born, as I am sure would many of you who are parents. I am very lucky as my husband is very supportive and laid back—some of you might say that he would have to be—and I did not have to choose between my job and my family in a way that many women of my generation and many of my friends have had to. Secondly, the UK Government has created 260,000 new free childcare places for two-year-olds, enabling more mothers and fathers to return to work or to increase their hours when their children are young and reducing

Gan droi at effeithiau diweithdra ar fenywod, mae'n amlwg bod y dirwasgiad wedi effeithio'n eithaf gwael ar swyddi rhan-amser, lle y caiff mwy o fenywod na dynion eu cyflogi. Mae'n amlwg bod hynny'n destun pryder mawr. Fodd bynnag, credaf y bydd nifer o'r mentrau y mae Llywodraeth y DU wedi eu cyflwyno yn cael effaith gadarnhaol ar ragolygon menywod o ran gyrfa, ac y byddant yn helpu i sicrhau chwarae teg i fenywod a dynion yn y gweithle. Hoffwn roi rhai enghreifftiau o hynny ichi. Yr enghraifft gyntaf yw cyflwyno absenoldeb a rennir i rieni er mwyn galluogi'r ddau riant i ddewis sut i rannu eu habsenoldeb, fel na chaiff menywod eu gorfodi bob amser i leihau eu horiau gweithio. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn i wedi ei ystyried yn hynod ddefnyddiol pan gafodd fy mhlant i eu geni, yn yr un modd, rwyf yn siŵr, ag y byddai llawer ohonoch chi sy'n rhieni. Rwyf yn ffodus iawn, gan fod fy ngŵr yn gefnogol iawn ac yn ddyn nad yw'n cynhyrfu'n hawdd—hwyrach y byddai rhai ohonoch yn dweud y byddai'n rhaid iddo fod felly—ac nid oedd yn rhaid imi ddewis rhwng fy ngwaith a'm teulu fel y mae llawer o fenywod o'm cenhedlaeth ac fel y mae llawer o'm ffrindiau wedi gorfod gwneud. Yn ail, mae Llywodraeth y DU wedi creu 260,000 o

the burden of childcare costs to make work a much more viable option for them.

leoedd gofal plant newydd rhad ac am ddim ar gyfer plant dwyflwydd oed, sy'n galluogi mwy o famau a thadau i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu horiau pan fydd eu plant yn ifanc, ac sy'n lleihau costau beichus gofal plant i wneud gwaith yn opsiwn llawer mwy ymarferol ar eu cyfer.

**Joyce Watson:** Thank you for taking an intervention. Can you explain why you think that the changes to the child tax credit are not having a negative impact on women who are trying to work, but are finding it impossible because of the reduction from the previous allowance?

**Joyce Watson:** Diolch am dderbyn ymyriad. A allwch esbonio pam yr ydych o'r farn nad yw'r newidiadau i'r credyd treth plant yn cael effaith negyddol ar fenywod sy'n ceisio gweithio, ond sy'n ei chael yn amhosibl gwneud hynny oherwydd bod y lwfans blaenorol wedi'i leihau?

**Eluned Parrott:** The UK Government is trying to achieve a fairer approach to tax and benefits that reflects the needs of hard-working families—[*Interruption.*]

**Eluned Parrott:** Mae Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau dull tecach o ymdrin â threthi a budd-daliadau, sy'n adlewyrchu anghenion teuluoedd sy'n gweithio'n galed—[*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. When Members make interventions, they have to listen to the reply for at least a few seconds before they interrupt again.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Pan fydd Aelodau yn ymyrryd, rhaid iddynt wrando ar yr ateb am ychydig eiliadau, o leiaf, cyn torri ar draws unwaith eto.

**Eluned Parrott:** Moving the tax threshold towards £10,000 for every man and woman in this country and lifting people out of taxation will have a massive impact. May I point out to you that around 60% of the individuals who have been taken out of income tax are women? That is because, unfortunately, women are in those part-time and lower paid jobs. Hard-working families are benefiting from this one simple proposal. It is always darker before the dawn—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']—but the economic challenges that we face, which the last Labour Government left us with, are appalling. Notwithstanding the renewed instability of the last few days in the eurozone, I believe that we are starting to see signs of hope. The youth contract and the Young Recruits programme, together, could share that hope with our most disengaged young people, and for that I, at least, am very grateful.

**Eluned Parrott:** Bydd symud y trothwy o ran treth yn nes at £10,000 ar gyfer pob dyn a menyw yn y wlad hon, a sicrhau nad yw pobl yn gorfod talu treth, yn cael effaith enfawr. Hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith bod tua 60% o'r unigolion nad ydynt bellach yn gorfod talu treth incwm yn fenywod? Y rheswm am hynny, yn anffodus, yw mai menywod sydd yn y swyddi rhan-amser hynny a'r swyddi sydd â chyflog is. Mae teuluoedd sy'n gweithio'n galed yn elwa o'r un cynnig syml hwn. Yr awr dywyllaf yw'r un cyn y wawr bob amser—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']—ond mae'r heriau economaidd yr ydym yn eu hwynebu, a adawyd inni gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, yn erchyll. Er gwaethaf ansefydlogrwydd newydd y dyddiau diwethaf yn ardal yr ewro, credaf ein bod yn dechrau gweld arwyddion o obaith. Gallai'r contract ieuenctid a'r rhaglen Recriwtiaid Newydd, gyda'i gilydd, rannu'r gobaith hwnnw â'n pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf, ac rwyf fi, o leiaf, yn ddiolchgar iawn am hynny.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod diweithdra yng Nghymru yn dal yn uwch na holl wledydd eraill y DU.*

*Notes that unemployment in Wales remains the highest of all the UK nations.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod diweithdra ieuenctid yng Nghymru wedi bod yn uwch na chyfradd y DU ym mhob blwyddyn er 2001 a bod 11.5 y cant o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed a 23.3 y cant o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd fel pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.*

*Notes that youth unemployment in Wales has exceeded the UK rate in every year since 2001 and that 11.5% of 16 to 18 year olds and 23.2% of 19 to 24 year olds are currently classed as Not in Employment, Education or Training.*

*Gwelliant 5 William Graham*

*Amendment 5 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r datganiad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach sy'n honni y gellid cyflogi pawb sy'n chwilio am swydd petai bob busnes bach a chanolig yn recriwtio un unigolyn arall.*

*Notes the statement from the Federation of Small Businesses claiming that everyone looking for a job could be employed if every SME recruited one more person.*

*Gwelliant 6 William Graham*

*Amendment 6 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r gymuned fusnes i greu rhagor o gyfleoedd swyddi.*

*Calls on the Welsh Government to work constructively with the UK government and the business community to create more job opportunities.*

**Nick Ramsay:** I move amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf welliannau 3, 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

That contribution from Eluned certainly got them going, did it not? I am pleased to contribute to this debate. I will start by agreeing with many of the comments that Alun Ffred Jones made in his opening contribution. He made two points that certainly resonated with me. One was that it is easy to point the finger at Westminster, with all the issues that it is trying to deal with, and to deny all the responsibility here that the Welsh Government should be taking. It was only during the referendum in 2011

Roedd cyfraniad Eluned yn sicr yn llawn emosiwn, onid oedd? Rwyf yn falch o gael cyfrannu i'r ddadl hon. Hoffwn ddechrau drwy gytuno â llawer o'r sylwadau a wnaeth Alun Ffred Jones yn ei gyfraniad agoriadol. Gwnaeth ddau bwynt a oedd yn sicr yn taro tant o'm safbwynt i. Y pwynt cyntaf oedd ei bod yn hawdd pwyntio bys at San Steffan, gyda'r holl broblemau y mae'r Llywodraeth yno'n ceisio ymdrin â hwy, ac ymwrthod â'r holl gyfrifoldeb y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei gymryd yma. Does dim llawer o

that the First Minister said that he wanted the tools to do the job and that the buck would stop here. Those were noble words and intentions. I often find it strange, sitting on this side, that the only party that was not party to the move towards devolution of the others parties in the second referendum of 1997 seems to be the one party that now stands by the principles of devolution in saying that we believe that the responsibility should lie here, and rightly so. I agree with the First Minister more on what he said last year than what he seems to be trying to pretend to say now.

amser ers i Brif Weinidog Cymru ddweud, yn ystod y refferendwm yn 2011, ei fod am gael yr adnoddau i wneud y gwaith ac y byddai'r cyfrifoldeb yn aros yma. Roedd y geiriau a'r bwriadau hynny'n ardderchog. Mae'n fy rhyfeddu'n aml, wrth eistedd ar yr ochr hon, ei bod yn ymddangos mai'r unig blaid nad oedd yn cefnogi symud tuag at ddatganoli fel y pleidiau eraill yn yr ail refferendwm yn 1997 yw'r unig blaid sydd erbyn hyn yn cefnogi egwyddorion datganoli wrth ddweud ein bod yn credu y dylai'r cyfrifoldeb fod yma, a hynny'n gywir ddigon. Rwyf yn cytuno mwy â'r Prif Weinidog ynghylch yr hyn a ddywedodd y llynedd yn hytrach na'r hyn yr ymddengys ei fod yn ceisio esgus ei ddweud yn awr.

The second point that Alun Ffred Jones made with which I agree is that regarding the economy and young people who are not in education, employment or training. I chair the Enterprise and Business Committee of which Alun Ffred Jones is a member. As all parties have realised, the statistics in terms of NEETS in the 19 to 24 age bracket are stark: between 23% and 24%, so almost a quarter of young people of that age, are not in education, employment or training. That has been the case for a long time; it is not a recent phenomenon. It is something that has stubbornly refused the efforts of all Governments over a long period of time to deal with it. We need a united approach to try to get to grips with that. The damage that unemployment does to both individuals and communities cannot be underestimated, and it is important that, as an Assembly, we look into how we can best highlight these issues. Therefore, we will support this motion.

Yr ail bwynt yr wyf yn cytuno ag ef o ran yr hyn a ddywedodd Alun Ffred Jones yw'r pwynt ynghylch yr economi a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Rwyf yn gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes y mae Alun Ffred Jones yn aelod ohono. Fel y mae pob plaid wedi sylweddoli, mae'r ystadegau ynghylch pobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn arswydus: nid yw rhwng 23% a 24%, bron i chwarter y bobl ifanc sydd o'r oedran hwnnw, felly, mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hynny wedi bod yn wir ers amser maith; nid yw'n ffenomen ddiweddar. Mae'n rhywbeth sydd wedi ymwrthod yn ystyfnig ag ymdrechion pob Llywodraeth dros gyfnod maith i ymdrin ag ef. Mae angen dull gweithredu unedig arnom i geisio mynd i'r afael â hynny. Ni ellir gorbwysleisio'r niwed y mae diweithdra'n ei achosi i unigolion a chymunedau, ac mae'n bwysig ein bod yn ymchwilio, fel Cynulliad, i'r ffordd orau y gallwn dynnu sylw at y materion hyn. Felly, byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn.

It is easy to end up in a pool of statistics when you look at this area, but I will take out a couple. According to Office for National Statistics figures that were released last month for December 2011 to February 2012, our unemployment rate remains the highest of all the UK nations at 8.9%, which equates to 131,000 Welsh residents who are out of work. Wales has exceeded the UK average in youth unemployment every year since 2001. I mentioned the figures for 19 to 24-year-olds

Mae'n hawdd mynd i bwll o ystadegau wrth edrych ar y maes hwn, ond hoffwn sôn am ambell un. Yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a ryddhawyd fis diwethaf ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Chwefror 2012, ein cyfradd diweithdra ni, sef 8.9%, yw'r gyfradd uchaf o blith holl wledydd y DU, ac mae'n golygu bod 131,000 o drigolion Cymru heb waith. Mae cyfradd Cymru ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi bod yn uwch na chyfartaledd y DU bob

who are NEET, and the figure for 16 to 18-year-olds—albeit that there are a different set of issues there—stands at 11.5%. Clearly, there is a problem that needs to be dealt with.

blwyddyn er 2001. Soniais am y ffigurau ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a'r ffigur ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed—er bod cyfres wahanol o faterion yn berthnasol iddynt hwy—yw 11.5%. Mae'n amlwg bod problem y mae angen ymdrin â hi.

4.45 p.m.

We need to ensure that we are in the best possible position to attract businesses and to provide a climate that encourages employment in these challenging economic times. The Welsh Government will not be able to deal with the problem of unemployment, and we as an opposition will not be able to criticise you for not being able to deal with it, unless we have some very real solutions in what are challenging economic times.

Mae angen inni sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau posibl i ddenu busnesau a darparu hinsawdd sy'n annog cyflogaeth yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ymdrin â phroblem diweithdra, ac ni fyddwn ni fel gwrthblaid yn gallu eich beirniadu am fethu ag ymdrin â hi, oni bai bod gennym rai atebion go iawn mewn cyfnod economaidd sy'n heriol.

With the Welsh economy having grown so reliant on the public sector, it is imperative that the private sector grows. I have heard the First Minister himself talk about the importance of the private sector. It was a Labour peer, Baroness Eluned Morgan, who admitted that many in the private sector have sensed the animosity of the Labour Party in the past and have been reluctant to engage. I know that I have taken that remark out of context, but I think that there is a very real issue there, and it is hardly surprising that unemployment has remained so high when businesses in Wales are not growing at the same rate as businesses in other parts of the UK. It is the responsibility of all of us here to ensure that we give businesses the enthusiasm and the stability to be able to respond to a very challenging economic situation.

Gan fod economi Cymru mor ddibynnol ar y sector cyhoeddus erbyn hyn, mae'n hanfodol bod y sector preifat yn tyfu. Rwyf wedi clywed y Prif Weinidog ei hun yn siarad am bwysigrwydd y sector preifat. Un o arglwyddi'r Blaid Lafur, y Farwnes Eluned Morgan, a gyfaddefodd fod llawer yn y sector preifat wedi synhwyro gelyniaeth y Blaid Lafur yn y gorffennol a'u bod yn amharod i ymgysylltu. Gwn fy mod wedi cymryd y sylw hwnnw allan o'i gyd-destun, ond credaf fod hynny'n broblem wirioneddol, ac nid yw'n syndod bod diweithdra wedi parhau mor uchel pan nad yw busnesau yng Nghymru yn tyfu mor gyflym â busnesau mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom yma i sicrhau ein bod yn rhoi i fusnesau y brwdfrydedd a'r sefydlogrwydd i allu ymateb i sefyllfa economaidd heriol iawn.

Unless you have been living on Mars, you will know that the Welsh Conservatives' policy is to provide more support to businesses by abolishing business rates for small businesses with a rateable value of up to £12,000 and to taper relief for those with a rateable value of up to £15,000. I know that the Government has not been keen on that idea, but, in a few weeks' time, we will, hopefully, have the response from the review panel, unless it takes on even more work than it already has. As I said in questions to the

Oni bai eich bod wedi bod yn byw ar y blaned Mawrth, byddwch yn gwybod mai polisi'r Ceidwadwyr Cymreig yw darparu rhagor o gymorth i fusnesau drwy gael gwared ar ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 a thapro rhyddhad ar gyfer y rheini sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Gwn nad yw'r Llywodraeth wedi hoffi'r syniad hwnnw ryw lawer, ond ymhen ychydig wythnosau, byddwn, gobeithio, yn cael ymateb y panel adolygu, oni bai y bydd

Minister earlier, I very much hope that solid recommendations will come forward and that you will take them up to ensure that we grow businesses that will then be able to provide the employment that we need.

**Ieuan Wyn Jones:** Un o sgîl effeithiau cyfnod o ddirwasgiad a chynnwrf ariannol yw cynnydd mewn diweithdra ymhlith yr ifanc. Yn y 1980au, roedd patrwm clir o bobl ifanc a oedd yn methu cael gwaith ac yna'n syrthio i anweithgarwch economaidd parhaol. Mae ardaloedd yng Nghymru lle mae anweithgarwch economaidd yn arswydus o uchel: ym Mlaenau Gwent, er enghraifft, mae'n 28.8%; ym Merthyr Tudful, mae'n 28.1%, ac, yng Nghastell Nedd Port Talbot, mae'n 27.9%.

Yn rhai o ardaloedd y Cymoedd, a Blaenau'r Cymoedd yn arbennig, mae'r ffigurau wedi bod yn uchel iawn ers blynyddoedd, beth bynnag am liw'r Llywodraeth yn San Steffan. Yn y cyfnod hwn, mae perygl i'r un patrwm gael ei ailadrodd, yn bennaf oherwydd bod canran mor uchel o ddisgyblion yn gadael yr ysgol bob blwyddyn heb sgiliau sylfaenol.

Yr wythnos diwethaf, dywedais wrth y Dirprwy Weinidog Sgiliau y bydd 8,000 o ddisgyblion yn gadael yr ysgol eleni heb sgiliau sylfaenol, sef un o bob pump. Mae hynny'n sgandal. Er tegwch, cydnabu Jeff Cuthbert fod hyn yn annerbyniol ac nad oedd y Llywodraeth yn fodlon ar lefelau llythrennedd a rhifedd. Da iawn hynny, ond y cwestiwn sy'n codi yw: a yw ymateb y Llywodraeth yn ddigonol?

Yn fy marn i, mae ymateb y Llywodraeth yn syrthio'n brin o ystyried yr angen. Pan holais y Prif Weinidog ddoe, fe roddodd yr un ymateb ag y mae wedi ei roi droeon, sef y bydd Twf Swyddi Cymru yn helpu 4,000 o bobl ifanc yn flynyddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon o bell ffordd. Os na fydd rhywbeth yn newid yn fuan, bydd 40,000 o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb sgiliau sylfaenol yng nghyfnod y Llywodraeth hon. Erbyn iddynt gyrraedd y pwynt lle y gallant wneud cais i ddod i mewn i Dwf Swyddi Cymru, ar ôl gadael yr ysgol, bydd y niwed

yn ymgymryd â hyd yn oed mwy o waith na'r hyn sydd ganddo eisoes. Fel y dywedais yn ystod y cwestiynau i'r Gweinidog yn gynharach, rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd argymhellion cadarn yn cael eu cyflwyno ac y byddwch yn eu derbyn er mwyn sicrhau ein bod yn tyfu busnesau a fydd wedyn yn gallu darparu'r swyddi y mae arnom eu hangen.

**Ieuan Wyn Jones:** One of the impacts of a period of recession and financial turbulence is an increase in youth unemployment. In the 1980s, there was a clear pattern of young people not being able to find work and then falling into economic inactivity that became permanent. There are areas in Wales where economic inactivity is frighteningly high: in Blaenau Gwent, for example, it is 28.8%; in Merthyr Tydfil, it is 28.1%; and, in Neath Port Talbot, it is 27.9%.

In some areas of the Valleys, particularly the Heads of the Valleys, the figures have been very high over many years, whatever the hue of the Government in Westminster. In this period, there is a danger for the same pattern to be rehearsed, particularly because such a high percentage of pupils are leaving school each year without basic skills.

Last week, I told the Deputy Minister for Skills that 8,000 pupils will be leaving school this year without basic skills, which is one in every five. That is a scandal. In fairness, Jeff Cuthbert did acknowledge that this was unacceptable and that the Government was not content with the levels of literacy and numeracy. That is very good, but the question that arises from that is: is the Government's response adequate?

In my opinion, the Government's response falls short, considering the need. When I asked the First Minister about this yesterday, he gave the same response as he has given on a number of occasions, that Jobs Growth Wales will assist 4,000 young people annually. However, that is not enough, not by a long chalk. Unless something changes soon, 40,000 pupils will leave school without basic skills during the term of this Government. By the time they reach the point when they will be able to apply for Jobs Growth Wales, after leaving school, the damage will already have

eisoes wedi cael ei wneud.

been done.

Mae niwed sylweddol i economi Cymru, gan fod canran mor uchel heb sgiliau sylfaenol, ond mae'r niwed i unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau yn anhraethol fwy.

There is significant damage to the Welsh economy, because such a high percentage of school leavers do not have basic skills, but the damage to individuals, their families and communities is incalculably greater.

Mae diweithdra ymhlith yr ifanc yn ffenomen Ewropeaidd, wrth gwrs, ond mae'r sefyllfa'n llawer gwell mewn gwledydd fel yr Iseldiroedd, lle mae'r ganran yn 8.5%, a'r Almaen, lle mae'n 8.3%. Dylem edrych ar arfer da mewn gwledydd eraill i'n cynorthwyo gyda dod o hyd i ymatebion i'r broblem.

Youth unemployment is a European phenomenon, of course, but the situation is far better in countries such as the Netherlands, where the percentage is 8.5%, and Germany, where it is 8.3%. We should be looking at good practice in other countries to assist us with finding solutions to the problem.

The OECD recently identified skills as the global currency of twenty-first century economies. Without sufficient investment in skills, people languish on the margins of society. Technological progress does not translate into productivity growth, and countries can no longer compete in an increasingly knowledge-based global economy. At a time, therefore, when growing economic and social inequalities are a major challenge, effective skills policies must be part of any response to address this challenge. Many people simply see job creation as the answer to unemployment. However, unless people have the right skills—and, in many cases, basic skills—those jobs are worthless to a big sector of society. We therefore need to conduct a major study into basic skills. We need to look at what is happening in other countries and see what works. It cannot simply be a case of trying to deal with a problem when it is too late. This has to be tackled at the primary school level. We all remember that Estyn reported earlier this year that 20% of pupils who will arrive at secondary school this year—that is, one in five 11-year-olds—will be functionally illiterate. There is something wrong in the fact that we allow that to continually happen. That problem, of course, goes right through the education system. It is simply unacceptable, and there is a clear correlation between the lack of basic skills, the lack of literacy and numeracy and the high levels of youth unemployment. I am therefore asking the Government to bring together its plethora of schemes, streamline provision, tackle duplication in some areas and tackle the gaps

Yn ddiweddar nododd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd mai sgiliau oedd arian byd-eang economïau'r unfed ganrif ar hugain. Heb fuddsoddiad digonol mewn sgiliau, bydd pobl yn nychu'n barhaus ar gyrion cymdeithas. Nid yw cynnydd technolegol yn gyfystyr â thwf mewn cynhyrchiant, ac ni all gwledydd gystadlu mwyach mewn economi fyd-eang sy'n fwyfwy seiliedig ar wybodaeth. Ar adeg, felly, pan fo anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol cynyddol yn her enfawr, rhaid i bolisïau effeithiol ar gyfer sgiliau fod yn rhan o unrhyw ymateb ar gyfer mynd i'r afael â'r her hon. Mae llawer o bobl o'r farn mai creu swyddi yw'r ateb syml i ddiweithdra. Fodd bynnag, oni bai bod gan bobl y sgiliau cywir—a sgiliau sylfaenol, mewn llawer o achosion—bydd y swyddi hynny'n ddiwerth i sector mawr yn y gymdeithas. Felly, mae angen inni gynnal astudiaeth helaeth o sgiliau sylfaenol. Mae angen inni edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill a gweld beth sy'n gweithio. Ni all fod a wnelo'n syml â cheisio ymdrin â phroblem pan fydd yn rhy hwyr. Rhaid mynd i'r afael â'r broblem ar lefel yr ysgol gynradd. Rydym i gyd yn cofio bod Estyn wedi sôn yn gynharach eleni bod 20% o'r disgyblion a fydd yn cyrraedd yr ysgol uwchradd eleni—hynny yw, un o bob pum plentyn 11 oed—yn anllythrennog i bob pwrpas. Mae rhywbeth o'i le yn y ffaith ein bod yn caniatáu i hynny ddigwydd yn barhaus. Mae'r broblem honno, wrth gwrs, yn ymestyn drwy'r holl system addysg. Mae'n gwbl annerbyniol, a cheir cydberthynas glir rhwng diffyg sgiliau

in others. We do not want to see another lost generation of young people, but, without a change in direction, that could easily happen.

sylfaenol, diffyg llythrennedd a rhifedd a'r lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Felly, rwyf yn gofyn i'r Llywodraeth ddwyn ei llu o gynlluniau ynghyd, symleiddio'r ddarpariaeth, mynd i'r afael â'r achosion o ddyblygu mewn rhai meysydd a mynd i'r afael â'r bylchau mewn meysydd eraill. Nid ydym am weld cenhedlaeth goll arall o bobl ifanc, ond, heb newid cyfeiriad, gallai hynny ddigwydd yn hawdd.

**Gwyn R. Price:** I welcome the opportunity to speak in this debate, which comes less than a week after voters across Wales and the rest of the UK gave a very clear response to the UK Government's record of economic mismanagement. The continued policy of fiscal austerity is draining demand from the economy and creating uncertainty for both public and private sector workers. It is therefore not surprising that parts of the labour market in parts of the UK, including in Wales, are underperforming. Although the unemployment rate in Wales was unchanged in the most recent quarter, it was 0.4% up on last year. Bank lending remains weak, and credit conditions are volatile and are preventing small and medium-sized enterprises, in particular, from borrowing from investment funds. Lending to small businesses over the past year fell short of the target set under the Project Merlin agreement with the banks.

**Gwyn R. Price:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon, a ddaw lai nag wythnos ar ôl i bleidleiswyr ledled Cymru a gweddill y DU ymateb yn glir iawn i hanes Llywodraeth y DU o gamreoli'r economi. Mae'r polisi parhaus o weithredu mesurau cynilo yn sugno galw o'r economi ac yn creu ansicrwydd ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Nid yw'n syndod, felly, bod rhannau o'r farchnad lafur mewn rhannau o'r DU, gan gynnwys yng Nghymru, yn tanberfformio. Er nad oedd y gyfradd diweithdra yng Nghymru wedi newid yn ystod y chwarter diweddaraf, roedd 0.4% yn uwch na'r llynedd. Mae benthyca gan y banciau yn parhau'n wan, ac mae amodau o ran credyd yn gyfnewidiol ac yn atal busnesau bach a chanolig eu maint, yn benodol, rhag benthyca o gronfeydd buddsoddi. Methodd gwaith benthyca i fusnesau bach dros y flwyddyn ddiwethaf â chyrraedd y targed a osodwyd dan gytundeb Prosiect Merlin â'r banciau.

One of the amendments refers to a statement made by the Federation of Small Businesses, namely that everyone looking for a job could be employed if every SME recruited one more person. However, as noted in a report by a taskforce on small businesses and microbusinesses, which was commissioned by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, in a recent survey, 46% of microbusinesses identified cash-flow problems as one of the barriers to the success of their business, and 25% noted that obtaining finance was a barrier. If we want companies like these to grow the economy and create jobs, access to finance is essential.

Mae un o'r gwelliannau yn cyfeirio at ddatganiad a wnaed gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, sef y gellid cyflogi pawb sy'n chwilio am swydd pe bai pob busnes bach a chanolig ei faint yn recriwtio un unigolyn arall. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn adroddiad gan dasglu ar fusnesau bach a microfusnesau, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, mewn arolwg diweddar, nododd 46% o ficrofusnesau fod problemau llif arian yn un o'r rhwystrau i lwyddiant eu busnes, a nododd 25% fod cael cyllid yn rhwystr. Os ydym am i gwmnïau fel y rhain hybu'r economi a chreu swyddi, mae mynediad i gyllid yn hanfodol.

I welcome the fact that the Welsh Government has taken steps over the last six months to break down the barriers that affect

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau yn ystod y chwe mis diwethaf i chwalu'r rhwystrau sy'n effeithio

business by improving access to finance. These include the establishment of a £30 million economic growth fund, a £40 million Welsh SME investment fund, a £6 million microbusiness loan fund, and a life science fund—a dedicated equity fund that could generate £100 million in investment for life sciences businesses located in Wales. The Welsh Government is taking clear action to address some of the real difficulties that we face as a result of the economic and physical climate. However, if we are to tackle unemployment to the fullest effect, the UK Government must change course and pursue an economic policy to promote substantial economic growth, create jobs and ensure that people have the skills that they need to fulfil their potential.

ar fusnes drwy wella mynediad i gyllid. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu cronfa twf economaidd gwerth £30 miliwn, cronfa fuddsoddi gwerth £40 miliwn ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, cronfa fenthyciadau i ficrofusnesau, gwerth £6 miliwn, a chronfa gwyddorau bywyd—sef cronfa ecwiti bwrpasol a allai gynhyrchu £100 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer busnesau gwyddorau bywyd sydd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau gweithredu clir i fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau gwirioneddol yr ydym yn eu hwynebu o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd a ffisegol. Fodd bynnag, os ydym am fynd i'r afael â diweithdra gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl, rhaid i Lywodraeth y DU newid cyfeiriad a dilyn polisi economaidd i hybu twf economaidd sylweddol, creu swyddi a sicrhau bod gan bobl y sgiliau y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu potensial.

**Lindsay Whittle:** I have spoken before in this Chamber about the indignity not only of the dole queue but of cashing a giro at the post office. It is all different now. However, in 1981, as a result of Mrs Thatcher's Government, I had the worst seven months of my life. Politicians should have that sort of life-changing experience. It would teach those of you wittering over there a little bit of humility. In 1981, I recall walking around many an industrial estate knocking on doors offering my labour, prepared to turn my hand to anything to feed my family, pay my mortgage and the bills. Luxury items were simply non-existent. 'Not much has changed' is what I wanted to say, but, unfortunately, it has, because the situation has got worse for many of our more talented young people in Wales. The only vision they have is emigration, and that is a great shame.

**Lindsay Whittle:** Rwyf wedi siarad o'r blaen yn y Siambr hon am y gwarth sy'n gysylltiedig nid yn unig â'r ciw dôl ond â'r arfer o newid giro'n arian yn swyddfa'r post. Mae'n hollol wahanol erbyn hyn. Fodd bynnag, yn 1981, o ganlyniad i Lywodraeth Mrs Thatcher, profais saith mis gwaethaf fy mywyd. Dylai gwleidyddion gael y math hwnnw o brofiad sy'n newid eich bywyd. Byddai'n dysgu'r rheini ohonoch sy'n clebran fan draw i fod yn fwy gwylaidd. Yn 1981, rwyf yn cofio cerdded o amgylch sawl ystâd ddiwydiannol yn curo ar ddrysau i gynnig fy llafur, yn barod i droi fy llaw at unrhyw beth er mwyn bwydo fy nheulu a thalu fy morgais a'r biliau. Nid oedd modd ystyried prynu eitemau diangen. Roeddwn am ddweud nad oes llawer wedi newid, ond, yn anffodus, nid yw hynny'n wir, oherwydd mae'r sefyllfa wedi gwaethygu i lawer o'n pobl ifanc fwy dawnus yng Nghymru. Yr unig weledigaeth sydd ganddynt yw ymfudo, ac mae hynny'n drueni mawr.

Spare a thought as well, Chamber, for those who are less abled. What vision awaits them? We know that only 20% of people with mental health problems are in employment. Not only are disabled people more likely to be out of work and experience a higher incidence of poverty, but they also face additional financial costs as a result of their

Cofiwch hefyd, bawb sydd yn y Siambr, am y sawl sy'n llai abl. Pa weledigaeth sy'n eu disgwyl hwy? Gwyddom mai dim ond 20% o bobl â phroblemau iechyd meddwl sydd â swyddi. Yn ogystal â bod yn fwy tebygol o fod heb waith a phrofi mwy o dlodi, mae pobl anabl hefyd yn wynebu costau ariannol ychwanegol o ganlyniad i'w nam. Cofiwch

impairment. Spare a thought for the Remploy workers in Wales, who face great uncertainty as a result of the Con-Dem Government's decision to close down the factories. Spare a thought for the Remploy workers in Wales who lost their factories when the last Labour Government in London took a decision to close them down. I repeat Plaid Cymru's call to devolve the Remploy budgets to Wales and acknowledge the reply given by the First Minister only this week—you have seen the error of your ways at least, and are backing our call for greater devolution of that budget. Fine words are easy, of course. However, they do not offer a crumb of comfort to the unemployed when the P45 lands on the mat. That is when it really kicks in.

am weithwyr Remploy yng Nghymru, sy'n wynebu ansicrwydd mawr o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i gau'r ffatrïoedd. Cofiwch am y gweithwyr Remploy yng Nghymru a gollodd eu ffatrïoedd pan benderfynodd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yn Llundain eu cau. Hoffwn ailadrodd cais Plaid Cymru i gyllidebau Remploy gael eu datganoli i Gymru, a chydnabod yr ateb a roddwyd gan y Prif Weinidog mor ddiweddar â'r wythnos hon—rydych o leiaf wedi gweld eich camgymeriad, ac yn cefnogi ein cais i'r gyllideb honno gael ei datganoli'n fwy helaeth. Mae'n hawdd dweud y pethau iawn, wrth gwrs, ond nid yw hynny'n cynnig dim cysur i bobl ddi-waith pan fydd eu ffurflen P45 yn glanio ar y mat. Dyna pryd y bydd pobl yn sylweddoli realiti eu sefyllfa.

The Welsh Government must take stronger action against any employer guilty of paying disabled people less. The Welsh Government must take stronger action against employers who do not take their fair share of disabled workers. We must unite to give hope to all of our future generations of young Welsh people that there is a future here for them, here in our country, regardless of their age, sex, ability or disability.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau gweithredu mwy cadarn yn erbyn unrhyw gyflogwr sy'n euog o dalu llai o gyflog i bobl anabl. Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau mwy cadarn yn erbyn cyflogwyr nad ydynt yn cyflogi cyfran deg o weithwyr anabl. Rhaid inni uno i gynnig gobaith i bob un o'n cenedlaethau o Gymry ifanc a ddaw bod dyfodol ar gael yma ar eu cyfer, yma yn ein gwlad, beth bynnag fo'u hoedran, eu rhyw, eu gallu neu'u hanabledd.

I think a society is judged by the way it treats its most vulnerable. Our unemployed are among our most vulnerable, and our disabled unemployed are the most vulnerable. The Wales that I want to live in will help all of these people. That is why the economy and our argument to bring forward expenditure and spend money in Wales are so important. 'Spend, spend, spend' was a slogan of the 1960s and I think it is important to return to it now in these troubled times.

Rwyf o'r farn y caiff cymdeithas ei barnu'n ôl y ffordd y mae'n trin ei phobl fwyaf agored i niwed. Mae ein pobl ddi-waith ymhlith ein pobl fwyaf agored i niwed, a'n pobl ddi-waith anabl yw'r sawl sydd fwyaf agored i niwed. Bydd y Gymru yr wyf yn awyddus i fyw ynddi'n helpu'r holl bobl hyn. Dyna pam y mae'r economi a'n dadl i ddwyn gwariant ymlaen a gwario arian yng Nghymru mor bwysig. 'Gwario, gwario, gwario' oedd slogan yr 1960au, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig dychwelyd ato'n awr yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

**Mike Hedges**: We should remember it was a Conservative Prime Minister who described unemployment as a price worth paying. The poverty and misery caused was considered a price worth paying. Perhaps, more than anything else, that epitomises the Conservative Party. Unfortunately, it was the workers of Britain, including of Wales, who ended up paying that price. It is workers of

**Mike Hedges:** Dylem gofio mai Prif Weinidog Ceidwadol a ddisgrifiodd ddiweithdra fel pris sy'n werth ei dalu. Y farn oedd bod y tlodi a'r dioddefaint a gâi eu hachosi'n bris a oedd yn werth ei dalu. Efallai fod hynny, yn fwy na dim byd arall, yn crynhoi'r Blaid Geidwadol i'r dim. Yn anffodus, gweithwyr Prydain, gan gynnwys Cymru, a dalodd y pris hwnnw yn y pen

Britain and Wales today who are again paying that price. It is, however, the priority of the Labour Party and the Welsh Labour Government to create jobs and promote economic growth, to protect the people in Wales from the impact of the recession and of the destructive policies of the Tory-led, Lib-Dem-supported Government at Westminster.

draw, a gweithwyr Prydain a Chymru heddiw sy'n talu'r pris hwnnw unwaith eto. Fodd bynnag, blaenoriaeth y Blaid Lafur a Llywodraeth Lafur Cymru yw creu swyddi a hybu twf economaidd er mwyn gwarchod pobl Cymru rhag effaith y dirwasgiad a pholisïau dinistriol y Llywodraeth a arweinir gan y Torïaid ac a gefnogir gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

What we have seen in Wales is practical action by our Welsh Labour Government. The Labour Welsh Government initiative Jobs Growth Wales is aimed at helping to create some 4,000 job opportunities for young people in its first year of operation. This, alongside other programmes and initiatives, such as the Young Recruits programme, will help to tackle youth unemployment in Wales. They will also help fill the hole left by the UK Government's cruel and unnecessary decision to scrap the Future Jobs fund. We must do all we can to stop another generation of young people from being placed on the scrap heap by a callous, Tory Lib-Dem Government at Westminster. A Welsh Labour election pledge, Jobs Growth Wales will seek to create 4,000 jobs for young people aged 16 to 24 within the first year of delivery. This project commenced in April this year. It is anticipated that the majority of jobs will be generated in the private sector.

Yr hyn yr ydym wedi'i weld yng Nghymru yw camau gweithredu ymarferol gan ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru. Nod Twf Swyddi Cymru, sef menter Llywodraeth Lafur Cymru, yw helpu i greu tua 4,000 o gyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu. Bydd y fenter hon, ochr yn ochr â rhaglenni a mentrau eraill, megis y rhaglen Recriwtiaid Newydd, yn helpu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Byddant hefyd yn helpu i lenwi'r bwlch a adawyd gan benderfyniad creulon a diangen Llywodraeth y DU i gael gwared ar Gronfa Swyddi'r Dyfodol. Rhaid inni wneud popeth a allwn i atal cenhedlaeth arall o bobl ifanc rhag cael ei thaflu ar y domen gan Lywodraeth ddideimlad y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Yn unol ag addewid Llafur Cymru adeg yr etholiad, bydd Twf Swyddi Cymru yn ceisio creu 4,000 o swyddi ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed o fewn y flwyddyn gyntaf o weithredu. Dechreuodd y prosiect hwn ym mis Ebrill eleni. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o swyddi'n cael eu creu yn y sector preifat.

In terms of capital investment, the Government has set out how it is investing £1.3 billion in capital funding to improve Wales's infrastructure and deliver on its promise to the people of Wales, despite the 42.6% real-terms cut in Wales's capital budget, as outlined by Jane Hutt earlier this afternoon, which the Tory-led UK Government has imposed over the next four years. Capital investment will create jobs in the construction industry and help reflate the economy. That is why, for the last 12 months, I have been continually pressing for the Welsh Government to be given the same borrowing powers as the smallest council in Wales. It is a point that I raised earlier today. It really is important that borrowing powers exist in Wales. It is also important that the

O ran buddsoddi cyfalaf, mae'r Llywodraeth wedi egluro sut y mae'n buddsoddi £1.3 biliwn o gyllid cyfalaf i wella seilwaith Cymru a chyflawni ei haddewid i bobl Cymru, er gwaethaf y gostyngiad mewn termau real o 42.6% yn y gyllideb gyfalaf i Gymru, a amlinellwyd gan Jane Hutt yn gynharach y prynhawn yma, y mae Llywodraeth y DU a arweinir gan y Torïaid wedi'i gyflwyno ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Bydd buddsoddi cyfalaf yn creu swyddi yn y diwydiant adeiladu ac yn helpu i hybu'r economi o'r newydd. Dyna pam, dros y 12 mis diwethaf, yr wyf wedi bod yn pwyso'n barhaus am i Lywodraeth Cymru gael yr un pwerau benthyca â'r cyngor lleiaf yng Nghymru. Mae'n bwynt a godais yn gynharach heddiw. Mae'n wirioneddol

borrowing powers of local authorities are used. I have bored Members on the Finance Committee about that for the last 12 months as well—I can see Jocelyn nodding.

bwysig bod pwerau benthyca'n bodoli yng Nghymru. Mae hefyd yn bwysig bod pwerau benthyca awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio. Mae Aelodau'r Pwyllgor Cyllid wedi diflasu ar fy nghlywed yn dweud hynny hefyd dros y 12 mis diwethaf—gallaf weld Jocelyn yn nodio ei phen.

5.00 p.m.

It is important that that is used as an opportunity to get people back into work. In November, the Welsh Labour Government announced that a £38.9 million consequential from the UK Government would be used over a two-year period to achieve objectives set out in the programme for government. These proposals, taken together, represent a comprehensive stimulus package, which supports the skills and apprenticeship agenda. We need to improve the skills base, to bring employment into Wales and to create a more highly skilled workforce. The Conservatives wanted the money to be spent on freezing council tax, which would have most helped those in the highest banded properties. It is Labour that is committed to helping our people. In November 2011, the Labour Welsh Government announced a £40 million Wales SME investment fund and a £15 million Wales economic growth fund. Again, that is Labour working for Wales.

Mae'n bwysig bod hynny'n cael ei ddefnyddio fel cyfle i gael pobl i ailddechrau gweithio. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Lafur Cymru y byddai swm canlyniadol o £38.9 miliwn gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio dros gyfnod o ddwy flynedd i gyflawni amcanion a nodir yn y rhaglen lywodraethu. Mae'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn cynrychioli pecyn ysgogi cynhwysfawr, sy'n cefnogi'r agenda sgiliau a phrentisiaethau. Mae angen inni wella'r sylfaen sgiliau, er mwyn dod â chyflogaeth i Gymru a chreu gweithlu mwy medrus. Roedd y Ceidwadwyr am i'r arian gael ei wario ar rewi'r dreth gyngor, a fyddai wedi cynnig yr help mwyaf i'r sawl sydd mewn eiddo yn y bandiau uchaf. Y Blaid Lafur sydd wedi ymrwymo i helpu ein pobl. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Lafur Cymru gronfa fuddsoddi gwerth £40 miliwn ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru a chronfa twf economaidd gwerth £15 miliwn. Unwaith eto, dyma'r Blaid Lafur yn gweithio dros Gymru.

**Nick Ramsay:** On that point about freezing council tax, is it not logical that if there is a council tax freeze, it is frozen for people on low incomes as well? Therefore, I reject the comment that you just made that it provides more assistance for people in bigger houses.

**Nick Ramsay:** O ran y pwynt ynghylch rhewi'r dreth gyngor, onid yw'n rhesymegol, os caiff y dreth gyngor ei rhewi, ei bod yn cael ei rhewi ar gyfer pobl sydd ar incwm isel hefyd? Rwyf, felly, yn gwrthod y sylw yr ydych newydd ei wneud, sef bod hynny'n cynnig mwy o gymorth i bobl sydd â thai mwy o faint.

**Mike Hedges:** You are right, but you must also accept that those in band G and H properties will make the biggest savings, because their properties are worth more; equally, the people in band A properties will make the least savings. It is simple. I will explain it to you later if you need me to. The key thing is that, as we saw last week, the people of Wales realise that it is the Labour Party that is on their side. I am sure that,

**Mike Hedges:** Rydych yn gywir, ond rhaid ichi dderbyn hefyd mai'r sawl sydd mewn eiddo ym mand G a H fydd yn gwneud yr arbedion mwyaf, oherwydd bod eu heiddo'n werth mwy; yn yr un modd, y bobl mewn eiddo ym mand A fydd yn gwneud yr arbedion lleiaf. Mae'n syml. Esboniaf y cyfan wrthych yn nes ymlaen os oes angen. Y peth allweddol, fel y gwelsom yr wythnos diwethaf, yw bod pobl Cymru yn sylweddoli

when they get the chance in the next election, they will do the same again. Labour is about trying to make Wales a more prosperous place, despite what is happening at Westminster and despite what the Lib Dem-Tory Government is doing. Labour is standing up for Wales and running Wales well, which is why people voted for us last week.

mai'r Blaid Lafur sydd ar eu hochr nhw. Rwyf yn siŵr, pan gânt gyfle yn yr etholiad nesaf, y byddant yn gwneud yr un peth eto. Mae a wnelo'r Blaid Lafur â cheisio gwneud Cymru yn lle mwy ffyniannus, er gwaethaf yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan ac er gwaethaf yr hyn y mae Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud. Mae Llafur yn sefyll o blaid Cymru ac yn rhedeg Cymru yn dda, a dyna pam y pleidleisiodd pobl drosom yr wythnos diwethaf.

**Bethan Jenkins:** The impact of the recession has been severe in Wales. More so than anywhere else in the UK, Welsh people have been hit hard by the downturn in economic growth. We have already heard from my colleagues on these benches how the recession and cuts have impacted on young people, particularly those who are not in education, employment or training. We have heard how Plaid Cymru has performed previously in Government. We have also heard from Lindsay Whittle how disabled people will be severely affected. I want to concentrate on women and on how hard we have been hit, more so than at any other time, particularly now that we are faced with a double-dip recession and drastic cuts across the board.

**Bethan Jenkins:** Mae effaith y dirwasgiad wedi bod yn ddifrifol yng Nghymru. Yn fwy felly nag yn unman arall yn y DU, mae pobl Cymru wedi cael eu taro'n galed gan y dirywiad mewn twf economaidd. Rydym eisoes wedi clywed gan fy nghydweithwyr ar y meinciau hyn sut y mae'r dirwasgiad a'r toriadau wedi effeithio ar bobl ifanc, yn enwedig y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Rydym wedi clywed sut y mae Plaid Cymru wedi perfformio'n flaenorol mewn Llywodraeth. Rydym hefyd wedi clywed gan Lindsay Whittle sut yr effeithir yn ddifrifol ar bobl anabl. Rwyf fi am ganolbwyntio ar fenywod ac ar ba mor galed yr ydym ni wedi cael ein taro, yn fwy felly nag ar unrhyw adeg arall, yn enwedig gan ein bod bellach yn wynebu dirwasgiad dwbl a thoriadau llym yn gyffredinol.

Before I continue, I want to respond to the point that Eluned Parrott made earlier, because although the UK Government claims to protect lower earners by not increasing the contributions of those earning under £15,000 a year, that will not affect part-time workers. The Trades Union Congress has claimed that, of the 806,000 people who fall into that category, 90% of them are women. Therefore, we need to put the debate in perspective.

Cyn symud ymlaen, rwyf am ymateb i'r pwynt a wnaeth Eluned Parrott yn gynharach, oherwydd er bod Llywodraeth y DU yn honni ei bod yn amddiffyn y sawl sy'n ennill y cyflogau isaf drwy beidio â chynyddu cyfraniadau'r sawl sy'n ennill llai na £15,000 y flwyddyn, ni fydd hynny'n effeithio ar weithwyr rhan-amser. Yn ôl Cyngres yr Undebau Llafur mae 90% o'r 806,000 o bobl sy'n perthyn i'r categori hwnnw'n fenywod. Felly, mae angen inni roi'r ddadl mewn persbectif.

Although the rate of unemployment among Welsh women remains lower than that among Welsh men, for now, the trend lines are worrying in Wales because of the dominance of women in the public sector. It seems that public sector services are the No. 1 target of the UK coalition, as well as the target of Labour-controlled councils, as I have said in

Er bod y gyfradd diweithdra ymhlith menywod yng Nghymru yn parhau'n is na'r gyfradd ymhlith dynion yng Nghymru, am y tro, mae'r tueddiadau yn peri pryder yng Nghymru oherwydd bod mwy o fenywod yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Ymddengys mai gwasanaethau sector cyhoeddus yw prif darged clymblaid y DU, yn ogystal â tharged

previous debates. For example, in Bridgend, nursery nurses face losing up to £8,000 of their salary as a result of job evaluation processes.

cynghorau a reolir gan y Blaid Lafur, fel yr wyf wedi dweud mewn dadleuon blaenorol. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae gweinyddesau meithrin yn wynebu colli hyd at £8,000 o'u cyflog o ganlyniad i brosesau gwerthuso swyddi.

The figures speak for themselves: in 2010, 41% of working women in Wales were employed in the public sector, which amounts to 255,000 women. That is more than 0.25 million women at risk from cuts. If we look in more detail at the work that our female public sector workers perform, we see an even more worrying picture start to develop: 64% of low-paid workers in Wales are women, 40% of ethnic minority women already live in poverty in Wales, and women's average personal pensions are just 62% of the average for men. The UK Government's pension reforms will hit women disproportionately. A total of 92% of single parents are currently women, a group that is more likely than others to fall below the poverty line, as we know. On top of that, the UK's childcare costs are among the highest in the world. I note the efforts that have been made today with regard to shared parenting initiatives, but at the moment I know of many women my age who cannot go back to work after having a child because they simply cannot afford the childcare. We need to put the arguments into the perspective of the reality of the situation on the ground for women. The Fawcett Society, which does a lot of work in this area, has said that the cuts

Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain: yn 2010, câi 41% o fenywod sy'n gweithio yng Nghymru eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, sy'n gyfystyr â 255,000 o fenywod. Mae hynny'n golygu bod dros 0.25 miliwn o fenywod mewn perygl oherwydd toriadau. O edrych yn fanylach ar y gwaith y mae menywod sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn ei gyflawni, gwelwn fod darlun sy'n peri mwy o bryder fyth yn dechrau datblygu: mae 64% o weithwyr sy'n ennill cyflog isel yng Nghymru yn fenywod, mae 40% o fenywod o leiafrifoedd ethnig eisoes yn byw mewn tlodi yng Nghymru, ac mae cyfartaledd pensiynau personol menywod yn cyfateb i 62% yn unig o'r cyfartaledd ar gyfer dynion. Bydd diwygiadau pensiwn Llywodraeth y DU yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 92% o rieni sengl yn fenywod, ac maent yn grŵp sy'n fwy tebygol na grwpiau eraill o ddisgyn islaw'r llinell dlodi, fel y gwyddom. Ar ben hynny, mae costau gofal plant yn y DU ymhlith yr uchaf yn y byd. Nodaf yr ymdrechion a wnaed heddiw yng nghyswllt mentrau rhannu cyfrifoldebau rhieni, ond ar hyn o bryd gwn am lawer o fenywod o'm hoed i nad ydynt yn gallu dychwelyd i'r gwaith ar ôl cael plentyn am na allant fforddio gofal plant. Mae angen inni roi'r dadleuon ym mhersbectif realiti'r sefyllfa ar lawr gwlad i fenywod. Mae Cymdeithas Fawcett, sy'n gwneud llawer o waith yn y maes hwn, wedi dweud bod y toriadau

'spell a tipping point for women's equality'.

yn gam yn ôl ar gyfer cydraddoldeb menywod.

For an organisation such as that to say that the cuts will put women's equality in jeopardy is damning indeed. We really need to assess the future of women's equality here in Wales in light of these cuts. I do not think that we can let the Welsh Government get away scot free. We need to do much more to tackle unemployment among women. For example, the Scottish Government has

Mae'r ffaith bod sefydliad o'r fath yn dweud y bydd y toriadau'n peryglu cydraddoldeb menywod yn wirioneddol ddamniol. Mae gwir angen inni asesu dyfodol cydraddoldeb menywod yma yng Nghymru yng ngoleuni'r toriadau hyn. Nid wyf yn meddwl y gallwn adael i Lywodraeth Cymru ddianc yn ddigerydd. Mae angen inni wneud llawer mwy i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith

recently initiated a women's jobs summit to look specifically at the issues that affect women. Where is that happening in Wales? We have a women's equality network, which replaced the Wales women's national coalition, but I need to understand what more that network can do to help women.

menywod. Er enghraifft, yn ddiweddar mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi uwchgynhadledd ar swyddi menywod er mwyn edrych yn benodol ar y materion sy'n effeithio ar fenywod. Ble mae hynny'n digwydd yng Nghymru? Mae gennym rwydwaith cydraddoldeb i fenywod, a ddisodlodd glymblaid genedlaethol menywod Cymru, ond mae angen imi ddeall beth arall y gall y rhwydwaith hwnnw ei wneud i helpu menywod.

Organisations such as Chwarae Teg and others that work in social enterprise in Wales are phenomenal at encouraging women to empower themselves and start their own businesses. Juggling childcare is easier with flexible working hours, rather than going back to structured, nine-to-five days, and so that should be the case across the board. Perhaps we could even look to the Scandinavian countries. I am going to Denmark in June, so perhaps I could do a little tour to see what the Prime Minister of Denmark is doing—in real life, as opposed to what fiction is telling us. I had to get that in somewhere. I will finish there by saying that I hope that the Welsh Government can be more active in this area.

Mae sefydliadau megis Chwarae Teg ac eraill sy'n gweithio ym maes mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn gwneud gwaith rhyfeddol o ran annog menywod i'w grymuso eu hunain a dechrau eu busnesau eu hunain. Mae trefnu gofal plant yn haws gydag oriau gwaith hyblyg, yn hytrach na mynd yn ôl i ddiwrnodau strwythuredig naw tan bump, ac felly, dylai hynny fod yn wir yn gyffredinol. Efallai y gallem hyd yn oed edrych ar y gwledydd Sgandinafaidd. Byddaf yn mynd i Ddenmarc ym mis Mehefin, felly hwyrach y gallwn fynd ar daith i weld beth y mae Prif Weinidog Denmarc yn ei wneud—mewn bywyd go iawn, yn hytrach na'r hyn y mae ffuglen yn ei ddweud wrthym. Roedd yn rhaid imi geisio sôn am hynny rywle. Hoffwn orffen yn y fan honno drwy ddweud fy mod yn gobeithio y gall Llywodraeth Cymru fod yn fwy gweithredol yn y maes hwn.

**Mohammad Asghar:** Britain continues to face a tough economic situation. It has taken longer than anyone hoped to recover from the biggest debt crisis in our lifetime. Under the previous Labour Government, £1 in every £4 spent was borrowed. Our debt was so big that we were spending £120 million every day just paying the interest.

**Mohammad Asghar:** Mae Prydain yn parhau i wynebu sefyllfa economaidd anodd. Mae wedi cymryd yn hwy nag yr oedd neb yn ei obeithio i wella ar ôl argyfwng gwaethaf ein hoes o ran dyled. Dan y Llywodraeth Lafur flaenorol, roedd £1 o bob £4 a gâi ei wario wedi'i benthyg. Roedd ein dyled gymaint nes roeddem yn gwario £120 miliwn y dydd er mwyn talu'r llog yn unig.

The task of turning the economy around has been made much harder by the crisis in the eurozone, but unemployment in the United Kingdom remains lower than both the European Union average and the eurozone average. I welcome the fact that unemployment in the United Kingdom fell by 35,000 in the three months to February 2012.

Mae'r dasg o wella cyflwr yr economi wedi ei gwneud yn llawer anos oherwydd yr argyfwng yn ardal yr ewro, ond mae diweithdra yn y Deyrnas Unedig yn parhau'n is na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd a chyfartaledd ardal yr ewro. Croesawaf y ffaith bod diweithdra yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng 35,000 yn ystod y tri mis hyd at fis Chwefror 2012.

I also welcome the measures that the coalition Government is taking to tackle

Croesawaf hefyd y camau y mae'r Llywodraeth glymblaid yn eu cymryd i fynd

unemployment among particular groups. Reducing the number of unemployed young people is imperative. Youth unemployment has been rising steadily over the past 14 years. In an interview with *The Times* newspaper on 16 November last year, the former Labour Cabinet Minister, David Miliband, said that the present Government did not

i'r afael â diweithdra ymhlith grwpiau penodol. Mae gostwng nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith yn hanfodol. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi bod yn codi'n gyson dros y 14 blynedd diwethaf. Mewn cyfweliad â phapur newydd *The Times* ar 16 Tachwedd y llynedd, dywedodd y cyn-Weinidog yng Nghabinet y Blaid Lafur, David Miliband, nad y Llywodraeth bresennol

'invent the problem of youth unemployment'.

sydd wedi dyfeisio problem diweithdra ymhlith pobl ifanc.

He went on to say that youth unemployment started to become an issue under Labour from about 2005. The Westminster Government has already implemented a number of initiatives to help young people to get into work. The Work Programme offers tailor-made support for jobseekers designed to get them back into sustained employment. It has doubled the number of apprenticeship starts to more than 400,000, introduced sector-based work academies, and expanded the number of work experience placements available. From last month, young people aged 18 to 24 have been able to access extra help from the Government's youth contract. This provides subsidies of up to £2,275 to British businesses to take on 160,000 apprentices.

Aeth yn ei flaen i ddweud bod diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi dechrau dod yn broblem dan y Blaid Lafur ers tua 2005. Mae Llywodraeth San Steffan eisoes wedi gweithredu nifer o fentrau i helpu pobl ifanc i gael gwaith. Mae'r Rhaglen Waith yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i geiswyr gwaith, a'i bwriad yw cael y bobl hynny'n ôl i swyddi cynaliadwy. Mae wedi dyblu nifer y bobl sy'n dechrau prentisiaethau, i dros 400,000, mae wedi cyflwyno academïau gwaith sy'n seiliedig ar sectorau, ac mae wedi ehangu nifer y lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael. Ers y mis diwethaf, mae pobl ifanc 18 i 24 oed wedi gallu cael cymorth ychwanegol gan gontract ieuenctid y Llywodraeth. Mae'r contract yn rhoi cymorthdaliadau o hyd at £2,275 i fusnesau Prydain i gymryd 160,000 o brentisiaid.

John Cridland of the Confederation of British Industry said of the youth contract that

Dyma a ddywedodd John Cridland o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain am y contract ieuenctid:

'This is good news for young people up and down the country. We're pleased that the Government has developed our idea to incentivise businesses to take on the young unemployed. It will encourage firms to take a gamble on a young inexperienced person and help tackle…youth unemployment.'

Mae hyn yn newyddion da i bobl ifanc ar hyd a lled y wlad. Rydym yn falch bod y Llywodraeth wedi datblygu ein syniad i gymell busnesau i gymryd pobl ifanc ddi-waith. Bydd yn annog cwmnïau i fentro cymryd person ifanc dibrofiad ac yn helpu i fynd i'r afael â...diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Let me say a few words about unemployment among the disabled, which has been mentioned quite a lot by my colleagues in the Chamber. The UK Government has accepted the recommendations of the Sayce review carried out by Liz Sayce, chief executive of the disability rights organisation, Radar. The review advised that disability employment services should be focused on disabled

Gadewch imi ddweud ychydig eiriau am ddiweithdra ymhlith pobl anabl, y mae fy nghydweithwyr yn y Siambr wedi sôn cryn dipyn amdano. Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn argymhellion adolygiad Sayce a gynhaliwyd gan Liz Sayce, prif weithredwr y sefydliad hawliau anabledd, Radar. Dywedodd yr adolygiad y dylai gwasanaethau cyflogaeth i bobl anabl fod yn

people rather than on institutions. The £320 million budget for specialist disability employment services has been protected.

canolbwyntio ar bobl anabl yn hytrach nag ar sefydliadau. Mae’r gyllideb o £320 miliwn ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth arbenigol i bobl anabl wedi ei gwarchod.

**Ann Jones:** Do you agree with Iain Duncan Smith that all those Remploy workers whom the Tory Government wants to get rid of should get proper jobs then?

**Ann Jones:** A ydych yn cytuno ag Iain Duncan Smith y dylai pob un o’r gweithwyr Remploy y mae’r Llywodraeth Dorïaidd am gael gwared arnynt gael swyddi iawn, felly?

**Mohammad Asghar:** I can tell you one thing: the situation in relation to Remploy all started with your Government, which I am about to tell you about. [*Interruption.*] Please listen. In 2010-11, Remploy enterprise businesses operated at a loss of £68 million, which is one fifth the budget for specialist disability employment programmes in the United Kingdom. Labour closed 28 Remploy factories when it was in Government. At that time, Peter Hain, your former Minister, said:

**Mohammad Asghar:** Gallaf ddweud un peth wrthych: dechreuodd yr holl sefyllfa o safbwynt Remploy gyda’ch Llywodraeth chi, ac rwyf ar fin sôn wrthych am hynny. [*Torri ar draws.*] Gwrandewch, os gwelwch yn dda. Yn 2010-11, bu busnesau menter Remploy yn gweithredu ar golled o £68 miliwn, sef un rhan o bump o’r gyllideb ar gyfer rhaglenni cyflogaeth arbenigol i bobl anabl yn y Deyrnas Unedig. Caeodd y Blaid Lafur 28 o ffatrïoedd Remploy pan oedd mewn Llywodraeth. Ar y pryd, dywedodd Peter Hain, eich cyn-Weinidog:

‘I know there will be disappointment that we are unable to keep even more factories open, but the reality is that it is simply not viable.’

Rwyf yn gwybod y bydd pobl yn siomedig nad ydym yn gallu cadw mwy fyth o ffatrïoedd yn agored, ond y gwir amdani yw nad yw hynny’n ymarferol o gwbl.

The Westminster Government has decided that disabled people should have personalised support to get into work and has made an additional £15 million available through the Access to Work programme, which has already benefited 1,500 disabled people in Wales. I urge the Welsh Ministers to work constructively with the Westminster Government and the business community to create the conditions for economic growth, to maximise Wales’s appeal to potential investors and to reduce unemployment.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu y dylai pobl anabl gael cymorth personol i gael gwaith, ac mae wedi sicrhau bod £15 miliwn ychwanegol ar gael trwy’r rhaglen Mynediad i Waith, sydd eisoes wedi bod o fudd i 1,500 o bobl anabl yng Nghymru. Anogaf Weinidogion Cymru i weithio’n adeiladol gyda Llywodraeth San Steffan a’r gymuned fusnes i greu’r amodau ar gyfer twf economaidd, sicrhau bod Cymru mor ddeniadol ag sy’n bosibl i fuddsoddwyr posibl a lleihau diweithdra.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I share the concerns set out in this motion, as does everyone else in the Chamber, regarding the unemployment position in Wales. The cutbacks in public spending by the UK Government and the uncertain state of the global economy make these difficult times for people in Wales. That is a fact, not an excuse for Welsh Government policy. This is the reality, and Mohammad Asghar referred in his contribution to the problems within the eurozone. We will see how they pan out and

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rwyf innau, fel pawb arall yn y Siambr, yn rhannu’r pryderon a nodir yn y cynnig hwn ynghylch y sefyllfa o ran diweithdra yng Nghymru. Mae’r toriadau mewn gwariant cyhoeddus gan Lywodraeth y DU a chyflwr ansicr yr economi fyd-eang yn golygu bod y cyfnod hwn yn anodd i bobl Cymru. Ffaith yw hynny, ac nid esgus dros bolisi Llywodraeth Cymru. Dyma’r realiti, a chyfeiriodd Mohammad Asghar yn ei gyfraniad at y problemau yn ardal yr ewro.

the impact that they will have on the ability of Welsh industry to continue to export and to deal with other issues.

Cawn weld sut yr aiff pethau a'r effaith y byddant yn ei chael ar allu diwydiant yng Nghymru i barhau i allforio ac ymdrin â phroblemau eraill.

Between September 2010 and September 2011, the unemployment rate for women in Wales increased by 1.1%. Bethan Jenkins is absolutely right to draw our attention to the work done by the Fawcett Society on this, to the work that we need to undertake in Wales, and also to the crucial role that Chwarae Teg has to play. It is looking at the high redundancy rates for women, particularly in the public sector, and the challenges faced by women accessing work in the private sector, particularly the need for flexible working arrangements and the need to encourage employers to offer that in these difficult times. There is a clear gender element to what is happening with unemployment.

Rhwng mis Medi 2010 a mis Medi 2011, cynyddodd y gyfradd diweithdra ar gyfer menywod yng Nghymru 1.1%. Mae Bethan Jenkins yn llygad ei lle wrth dynnu ein sylw at y gwaith a wnaed gan Gymdeithas Fawcett ar y mater hwn, at y gwaith y mae angen inni ymgymryd ag ef yng Nghymru, a hefyd at y rôl hollbwysig sydd gan Chwarae Teg i'w chyflawni. Mae'n edrych ar y cyfraddau diswyddo uchel ar gyfer menywod, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, a'r heriau y mae menywod yn eu hwynebu wrth geisio cael gwaith yn y sector preifat, yn enwedig yr angen am drefniadau gweithio hyblyg a'r angen i annog cyflogwyr i gynnig hynny yn y cyfnod anodd hwn. Mae rhywedd yn elfen amlwg o'r hyn sy'n digwydd o safbwynt diweithdra.

The unemployment rate for young people aged 16 to 24 has also increased by 1.1%. There is a consensus over concerns that a whole generation might not make it into employment. The rate of unemployment for people who have disabilities, which Lindsay Whittle outlined, has also increased by 1%. In his contribution, he mentioned the difficulties faced by these groups in gaining employment, particularly people who have mental health difficulties, and those difficulties will worsen over the coming economic period, given that we are in a double-dip recession.

Mae'r gyfradd diweithdra ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed hefyd wedi cynyddu 1.1%. Ceir consensws ynghylch pryderon na fydd cenhedlaeth gyfan efallai'n llwyddo i gael swyddi. Mae'r gyfradd diweithdra ar gyfer pobl ag anableddau, a amlinellwyd gan Lindsay Whittle, hefyd wedi cynyddu 1%. Yn ei gyfraniad, soniodd am yr anawsterau y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu wrth geisio cael gwaith, yn enwedig pobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl, a bydd yr anawsterau hynny'n gwaethygu dros y cyfnod economaidd sydd i ddod, o gofio ein bod mewn dirwasgiad dwbl.

Only last week, the National Institute of Economic and Social Research warned that a continued high level of unemployment

Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, rhybuddiodd y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol fod lefel uchel barhaus o ddiweithdra

'is likely to do permanent damage to the supply side of the economy, with large long-run economic costs.'

yn debygol o wneud niwed parhaol i'r elfen gyflenwi o'r economi, gan arwain at gostau economaidd hirdymor mawr.

The main influences on the Welsh economy in the short to medium term are the state of the global economy and the UK Government's monetary and fiscal policy.

Y prif ddylanwadau ar economi Cymru yn y tymor byr i ganolig yw cyflwr yr economi fyd-eang a pholisi ariannol a chyllidol Llywodraeth y DU.

5.15 p.m.

As a devolved Government, we have fewer

Fel Llywodraeth ddatganoledig, mae gennym

powers to change the course of the economy. The macro powers are with the UK and we have warned that public spending cuts are too deep and too fast. There was a reference in Alun Ffred Jones's contribution to the double-dip recession. In January, the First Minister said that the cuts being imposed on Wales were too deep and too fast and that we faced the prospect of a double-dip recession. Nevertheless, we are doing everything we can to support the Welsh economy. The Government has taken clear actions to address some of the real difficulties faced as a result of the current economic climate. I refute the Plaid Cymru spokesperson's comments that we are not using all the powers that we have. He says that, but he does not set out an alternative agenda that could be delivered under the constraints of our budget and within our powers. On borrowing powers, we are discussing them and having fruitful discussions with the UK Government on the issue and looking at new funding mechanisms. The Ely housing project is a new funding mechanism. Discussions with local government and housing associations are proceeding. We have to recognise that work is happening in those areas. However, you can only utilise the tools that are available to you and hope that you can get new tools into production as a result of your discussions elsewhere.

lai o bwerau i newid cwrs yr economi. Gan y DU y mae'r pwerau macro, ac rydym wedi rhybuddio bod y toriadau ar wariant cyhoeddus yn rhy ddwfn ac yn rhy gyflym. Roedd cyfeiriad yng nghyfraniad Alun Ffred Jones at y dirwasgiad dwbl. Ym mis Ionawr, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y toriadau a orfodir ar Gymru yn rhy ddwfn ac yn rhy gyflym a'n bod yn wynebu'r posibilrwydd o ddirwasgiad dwbl. Serch hynny, rydym yn gwneud popeth a allwn i gefnogi economi Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau gweithredu clir i fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau gwirioneddol a wynebir o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd bresennol. Rwyf yn gwrthod sylwadau llefarydd Plaid Cymru, sef nad ydym yn defnyddio'r holl bwerau sydd gennym. Mae'n dweud hynny, ond nid yw'n gosod agenda amgen y gellid ei chyflawni dan gyfyngiadau ein cyllideb ac o fewn ein pwerau. O ran pwerau benthyca, rydym yn eu trafod ac rydym yn cael trafodaethau buddiol â Llywodraeth y DU ynghylch y mater ac yn ystyried systemau ariannu newydd. Mae prosiect tai Trelái yn system ariannu newydd. Mae trafodaethau â llywodraeth leol a chymdeithasau tai yn mynd rhagddynt. Rhaid inni gydnabod bod gwaith yn digwydd yn y meysydd hynny. Fodd bynnag, ni allwch ond defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ichi, gan obeithio y gallwch gynhyrchu adnoddau newydd o ganlyniad i'ch trafodaethau mewn mannau eraill.

On our amendment, it is important to recognise the impact of UK Government policy. I will now turn to the other amendments on the agenda. On amendment 2, which we will be opposing, in line with our programme for government commitments, we continue to extend the delivery of apprenticeships through our Pathways to Apprenticeships programme and the highly successful Young Recruits programme. These are innovative approaches to improve the supply of highly skilled apprentices and stimulate a demand for apprenticeships from local employers. The Young Recruits programme has benefitted from an additional £4.23 million via the economic stimulus package and provides direct support to employers recruiting additional apprentices where there is a need to maintain a highly skilled workforce. The

O ran ein gwelliant, mae'n bwysig cydnabod effaith polisi Llywodraeth y DU. Hoffwn droi'n awr at y gwelliannau eraill ar yr agenda. O ran gwelliant 2, y byddwn yn ei wrthwynebu, yn unol â'r ymrwymiadau yn ein rhaglen lywodraethu, rydym yn parhau i ymestyn y gwaith o ddarparu prentisiaethau drwy ein rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau a'r rhaglen Recriwtiaid Newydd, sy'n hynod lwyddiannus. Mae'r rhain yn ddulliau gweithredu arloesol i wella'r cyflenwad o brentisiaid medrus ac ysgogi galw am brentisiaethau gan gyflogwyr lleol. Mae'r rhaglen Recriwtiaid Newydd wedi elwa o gael £4.23 miliwn ychwanegol drwy'r pecyn ysgogi economaidd, ac mae'n rhoi cymorth uniongyrchol i gyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid ychwanegol lle y mae angen cynnal gweithlu medrus. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cymorth ychwanegol

Welsh Government welcomes the additional support for the Young Recruits programme, but the amendment does not reflect the need for assurances that the UK Government has resolved all the concerns raised by employers and young people who participate in the UK Government's work experience programme, nor does it reflect the need for the UK Government to undertake more timely consultation on its policy proposals for greater integration in Wales.

ar gyfer y rhaglen Recriwtiaid Newydd, ond nid yw'r gwelliant yn adlewyrchu'r angen am sicrwydd bod Llywodraeth y DU wedi ymateb i'r holl bryderon a fynegwyd gan gyflogwyr a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn rhaglen profiad gwaith Llywodraeth y DU, ac nid yw chwaith yn adlewyrchu'r angen i Lywodraeth y DU ymgynghori'n fwy amserol ynghylch ei chynigion polisi ar gyfer mwy o integreiddio yng Nghymru.

Eluned Parrott asked me if I would support measures taken by the UK Government, and I certainly support Vince Cable's statement today that we need an industrial strategy to back some of our key successful industries. Vince Cable is correct. However, we already have an industrial strategy. It was established by the last Government as part of the economic renewal programme, which this Government has continued to utilise as a base for some of its policies and interventions.

Gofynnodd Eluned Parrott imi a fyddwn yn cefnogi'r camau a gymerir gan Lywodraeth y DU, ac rwyf yn sicr yn cefnogi datganiad Vince Cable heddiw, sef bod arnom angen strategaeth ddiwydiannol i gefnogi rhai o'n diwydiannau llwyddiannus allweddol. Mae Vince Cable yn gywir. Fodd bynnag, mae strategaeth ddiwydiannol gennym ni eisoes. Fe'i sefydlwyd gan y Llywodraeth ddiwethaf yn rhan o'r rhaglen adnewyddu'r economi, y mae'r Llywodraeth hon wedi parhau i'w defnyddio'n sail i rai o'i pholisïau a'i hymyriadau.

We will support amendment 3 by William Graham, as its content describes the position, factually. On amendment 4, even though the NEET figures utilised are from a less robust data source, they are not incorrect. On the issues around the Federation of Small Businesses, we will support amendment 5. Gwyn Price made some useful comments in his contribution on this aspect.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 3 gan William Graham, oherwydd mae ei gynnwys yn disgrifio'r sefyllfa, yn ffeithiol. O ran gwelliant 4, er bod y ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn dod o ffynhonnell ddata sy'n llai cadarn, nid ydynt yn anghywir. O ran y materion sy'n ymwneud â'r Ffederasiwn Busnesau Bach, byddwn yn cefnogi gwelliant 5. Gwnaeth Gwyn Price rai sylwadau defnyddiol yn ei gyfraniad ar yr agwedd hon.

I turn to amendment 6, which we will be supporting. I must say that we work well with the business community. Gwyn said that the business community appreciates the developments on access to finance through the Wales economic growth fund, the SME investment fund, microbusiness loans, Finance Wales, JEREMIE, and the digital development fund. All of this came out of discussions with industry. Normally, Members are delighted to quote the *Western Mail* to me in the Chamber. I note that they have not done so today because the articles about the Government have been quite positive. If we can keep to not quoting that newspaper, I would not mind. However, if we

Trof at welliant 6, y byddwn yn ei gefnogi. Rhaid imi ddweud ein bod yn gweithio'n dda gyda'r gymuned fusnes. Dywedodd Gwyn fod y gymuned fusnes yn gwerthfawrogi'r datblygiadau o ran mynediad i gyllid trwy gronfa twf economaidd Cymru, y gronfa fuddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, benthyciadau i ficrofusnesau, Cyllid Cymru, JEREMIE, a'r gronfa datblygu digidol. Deilliodd y cyfan o drafodaethau â diwydiant. Fel rheol, mae'r Aelodau wrth eu bodd yn dyfynnu'r *Western Mail* wrthyf yn y Siambr. Nodaf nad ydynt wedi gwneud hynny heddiw, oherwydd mae'r erthyglau am y Llywodraeth wedi bod yn eithaf cadarnhaol. Ni fyddai ots gennyf pe baem yn

do quote, can we also quote the positive things and not only the negative?

glynu wrth yr arfer o beidio â dyfynnu'r papur newydd hwnnw. Fodd bynnag, o'i ddyfynnu, a allwn ddyfynnu'r pethau cadarnhaol hefyd yn hytrach na'r pethau negyddol yn unig?

We have a good relationship with the UK Government in terms of United Kingdom Trade and Investment. That relationship is being enhanced and improved at all time. When it comes to jobs, we are all on the same side of getting jobs into the economy. If a big plant comes to the UK, we will have to look at the supply chain and get what we can from inward investment and deal properly with companies and be part of the trade delegations. We will support the amendment, but we are doing what we have been asked to do in terms of the work that we are undertaking across Wales.

Mae gennym berthynas dda â Llywodraeth y DU o ran Masnach a Buddsoddi y Deyrnas Unedig. Mae'r berthynas honno'n cael ei chyfoethogi a'i gwella yn gyson. Pan ddaw'n fater o swyddi, rydym i gyd o blaid cael swyddi i'r economi. Os bydd ffatri fawr yn dod i'r DU, bydd yn rhaid inni edrych ar y gadwyn gyflenwi a chael yr hyn a allwn o fewnfuddsoddiad ac ymdrin yn briodol â chwmnïau a bod yn rhan o'r dirprwyaethau masnach. Byddwn yn cefnogi'r gwelliant, ond rydym yn gwneud yr hyn y gofynnwyd inni ei wneud o safbwynt y gwaith yr ydym yn ei gyflawni ar draws Cymru.

When we talk about unemployment, there is an individual behind every statistic. Unemployment is a scourge on society's cohesiveness and people's aspirations. It is important that we recognise that the task for all of us is to deal with unemployment, otherwise there will be social unrest and there will be problems within communities. We need to value the fact that people need a job and they need a future.

Wrth sôn am ddiweithdra, mae unigolyn y tu ôl i bob ystadegyn. Mae diweithdra yn bla ar gydlyniant cymdeithas a dyheadau pobl. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod mai'r dasg i bob un ohonom yw ymdrin â diweithdra, oherwydd fel arall bydd aflonyddwch cymdeithasol a bydd problemau mewn cymunedau. Mae angen inni werthfawrogi'r ffaith bod angen gwaith ar bobl a bod angen dyfodol arnynt.

It is very difficult now to see the way in which some people are trying to balance their budgets and deal with the issues surrounding them. It is very important that, as politicians, if we can, we look at what we can do in Wales constructively to take this agenda forward and to help the people whom we were all elected to serve.

Mae'n anodd iawn gweld yn awr sut y mae rhai pobl yn ceisio cydbwyso eu cyllidebau ac ymdrin â'r problemau sy'n ymwneud â hwy. Os gallwn, mae'n bwysig iawn ein bod, fel gwleidyddion, yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yn adeiladol yng Nghymru i hybu'r agenda hon a helpu'r bobl y cawsom i gyd ein hethol i'w gwasanaethu.

With unemployment, we need to look back at what happened in the 1930s and what happened in the 1980s, but we must ensure that our discussions lead to more hope. On that note, I urge you to accept the recommendations I have made in respect of the amendments and I thank everyone for their contributions today.

Gyda diweithdra, mae angen inni edrych yn ôl ar yr hyn a ddigwyddodd yn yr 1930au a'r hyn a ddigwyddodd yn yr 1980au, ond rhaid inni sicrhau bod ein trafodaethau'n arwain at fwy o obaith. Ar y nodyn hwnnw, rwyf yn eich annog i dderbyn yr argymhellion yr wyf wedi eu gwneud o ran y gwelliannau, a hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** In this debate, Plaid Cymru has put forward the case for much more to be done to tackle the growing problem of

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Yn y ddadl hon, mae Plaid Cymru wedi cyflwyno'r achos dros wneud llawer mwy i fynd i'r afael â phroblem diweithdra, sy'n

unemployment. We have demonstrated how Plaid Cymru in Government was much more proactive and ambitious than the current Government, and that was way before the recession hit.

broblem gynyddol. Rydym wedi dangos sut yr oedd Plaid Cymru mewn Llywodraeth yn fwy rhagweithiol ac uchelgeisiol o lawer na'r Llywodraeth bresennol, ymhell cyn i'r dirwasgiad daro.

There are plenty of people—Plaid Cymru included—who have consistently warned about the dangers of a double-dip recession. It should not have come as as surprise to anyone, but where is the vision and where is the plan to deal with the double-dip recession? We are still waiting for an announcement of any extra measures to help the Welsh economy. As Bethan Jenkins stated, in Scotland, the SNP First Minister, Alex Salmond, announced to the Scottish TUC conference a fortnight ago that helping more women into work is a priority for the Scottish Government. Salmond said that there will be a women's job summit that would bring together the public, private and voluntary sectors to help more women back into work. The Minister has accepted that there is a gender element to unemployment, so where is the plan to deal with the impact of unemployment on women in Wales? Where is the Welsh women's unemployment summit? There is no doubt that women are bearing the brunt of the job losses, more so in Wales than in the UK as a whole. Women are taking a bigger hit from cuts to benefits. Of course, we all understand that women's poverty equals child poverty.

Mae digon o bobl—gan gynnwys Plaid Cymru—wedi rhybuddio'n gyson ynghylch peryglon dirwasgiad dwbl. Ni ddylai fod wedi bod yn syndod i neb, ond ble mae'r weledigaeth a ble mae'r cynllun i ymdrin â'r dirwasgiad dwbl? Rydym yn dal i aros am gyhoeddiad ynghylch unrhyw gamau ychwanegol i helpu economi Cymru. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, yn yr Alban cyhoeddodd y Prif Weinidog o'r SNP, Alex Salmond, gerbron cynhadledd TUC yr Alban bythefnos yn ôl fod helpu mwy o fenywod i gael gwaith yn flaenoriaeth i Lywodraeth yr Alban. Dywedodd Salmond y bydd uwchgynhadledd yn cael ei chynnal ar swyddi menywod, a fyddai'n dod â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol ynghyd i helpu mwy o fenywod i ailddechrau gweithio. Mae'r Gweinidog wedi derbyn bod elfen o rywedd mewn diweithdra, felly ble mae'r cynllun i ymdrin ag effaith diweithdra ar fenywod yng Nghymru? Ble mae'r uwchgynhadledd ar ddiweithdra ymhlith menywod yng Nghymru? Nid oes amheuaeth nad yw menywod yn dwyn y baich o ran colli swyddi, yn fwy felly yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol. Mae menywod yn cael eu taro'n waeth gan doriadau i fudd-daliadau. Wrth gwrs, rydym i gyd yn deall bod tlodi menywod yn gyfystyr â thlodi plant.

Ieuan Wyn Jones outlined how youth unemployment and NEETs in particular are a problem, as well as high rates of economic inactivity, particularly in certain parts of Wales. He outlined how too many people lack basic skills, which is a problem not only for the individuals concerned, but for the wider economy as well. We have also heard how disabled people are being disproportionately affected by these cuts. The situation varies greatly, but we should all be concerned by the statistic that says that only 20% of people with mental health problems are in employment.

Amlinellodd Ieuan Wyn Jones sut y mae diweithdra ymhlith pobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn broblem, yn ogystal â chyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd, yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru. Amlinellodd sut y mae gormod o bobl yn dioddef o ddiffyg sgiliau sylfaenol, sy'n broblem nid yn unig i'r unigolion dan sylw ond i'r economi ehangach hefyd. Rydym hefyd wedi clywed sut y mae'r toriadau hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl anabl. Mae'r sefyllfa yn amrywio'n fawr, ond dylai pob un ohonom bryderu am yr ystadegyn sy'n nodi mai dim ond 20% o bobl â phroblemau iechyd meddwl sydd â swyddi.

We are aware of the changes to the benefits system, which have come at the same time as a serious reduction in the number of available jobs. This makes the proposals to close seven of the nine Remploy factories in Wales particularly callous and cruel. Plaid Cymru supports the principle of supported employment. Of course mainstream opportunities should be made available and people should be given all opportunities and support to take those up, but no-one should be forced into this and it should not be at the expense of supported employment, which some people really need. I cannot understand why the Welsh Government has not pulled out all of the stops to put the case for the devolution of the Remploy budget. Welsh Ministers have said that these factories could become economically viable, particularly with an increase in public procurement. It makes no economic sense to remove someone from a paid position to put them on to benefits. However, this is exactly what has happened to the workers from the Treforest factory, which was closed by Peter Hain in 2007. Far too many of those workers have not worked since that factory closed. Are we going to allow the same to happen to another tranche of Remploy workers? I would like to see a lot more action to save their jobs. Devolution should not be a last resort. As things look now, it is the only chance that those workers have.

Rydym yn ymwybodol o'r newidiadau i'r system fudd-daliadau, sydd wedi dod ar yr un pryd â gostyngiad difrifol yn nifer y swyddi sydd ar gael. Mae hynny'n golygu bod y cynigion i gau saith o'r naw ffatri Remploy sydd yng Nghymru yn arbennig o greulon a chalongaled. Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r egwyddor o gyflogaeth â chymorth. Dylai cyfleoedd prif ffrwd fod ar gael, wrth gwrs, a dylai pobl gael pob cyfle a chefnogaeth i fanteisio arnynt, ond ni ddylai neb gael eu gorfodi i wneud hynny, ac ni ddylai ddigwydd ar draul cyflogaeth â chymorth, y mae ei hangen yn fawr ar rai pobl. Ni allaf ddeall pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei gorau glas i gyflwyno'r achos dros ddatganoli cyllideb Remploy. Mae Gweinidogion Cymru wedi dweud y gallai'r ffatrïoedd hyn fod yn hyfyw o safbwynt economaidd, yn enwedig gyda chynnydd mewn caffael cyhoeddus. Nid yw'n gwneud dim synnwyr economaidd i symud pobl o swyddi cyflogedig i fudd-daliadau. Fodd bynnag, dyna'n union sydd wedi digwydd i'r gweithwyr o ffatri Trefforest, a gafodd ei chau gan Peter Hain yn 2007. Mae gormod o lawer o'r gweithwyr hynny wedi bod yn ddi-waith ers i'r ffatri honno gau. A ydym yn mynd i ganiatáu i'r un peth ddigwydd i garfan arall o weithwyr Remploy? Hoffwn weld llawer mwy o gamau gweithredu i achub eu swyddi. Ni ddylai datganoli fod yn ddewis olaf. Fel y mae pethau'n awr, dyma'r unig siawns sydd gan y gweithwyr hynny.

The final point that I would like to make relates to finance. Gwyn Price raised the importance of the availability of finance. If we are to achieve the real economic stimulus that Plaid Cymru has advocated persistently and consistently, there must be a means of financing it. We have called for borrowing powers in the form of Build for Wales. This Assembly does not have the tools it needs to implement a transformatory economic stimulus. Borrowing powers and Barnett reform have been specifically excluded from the remit of the Silk commission. We are told that these matters are for discussion between the two Governments, and yet, in response to a question from Simon Thomas earlier, the Minister for finance could not give us any concrete response on what the Government has done to try to get those powers. What

Mae'r pwynt olaf yr hoffwn ei wneud yn ymwneud â chyllid. Nododd Gwyn Price bwysigrwydd sicrhau bod cyllid ar gael. Os ydym am sicrhau'r ysgogiad economaidd go iawn y mae Plaid Cymru wedi dadlau drosto'n ddyfal ac yn gyson, rhaid bod modd i'w ariannu. Rydym wedi galw am bwerau benthyca ar ffurf Adeiladu dros Gymru. Nid oes gan y Cynulliad hwn yr adnoddau y mae arno eu hangen i weithredu ysgogiad economaidd trawsnewidiol. Mae pwerau benthyca a gwaith diwygio Barnett wedi cael eu heithrio'n benodol o gylch gorchwyl comisiwn Silk. Dywedir wrthym bod y materion hyn i'w trafod rhwng y ddwy Lywodraeth, ond eto i gyd, mewn ymateb i gwestiwn gan Simon Thomas yn gynharach, ni allai'r Gweinidog Cyllid roi unrhyw ymateb pendant inni ynghylch yr hyn y mae'r

exactly has been done on that front? What exactly has this Government asked for? All we have heard is the tired old thinking that we have heard before. Our unemployment problem here in Wales is now grave and growing worse. Surely it is now time for that tired, same old thinking to change.

Llywodraeth wedi'i wneud i geisio cael y pwerau hynny. Beth yn union sydd wedi'i wneud o ran hynny? Beth yn union y mae'r Llywodraeth hon wedi gofyn amdano? Y cyfan yr ydym wedi'i glywed yw'r un hen syniadau blinedig yr ydym wedi'u clywed o'r blaen. Mae ein problem diweithdra yma yng Nghymru yn ddifrifol erbyn hyn ac yn gwaethygu. Rhaid ei bod yn bryd yn awr i'r hen syniadau blinedig hynny newid.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

Are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.*
*Votes deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4981: O blaid 11, Ymatal 0, Yn erbyn 35.*
*Motion NDM4981: For 11, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled

Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Cynnig NDM4977: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Motion NDM4977: For 19, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Gregory, Janice
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Hart, Edwina
Lewis, Huw
Griffiths, Lesley
Griffiths, John
Black, Peter
Williams, Kirsty
Thomas, Gwenda
Davies, Alun
Cuthbert, Jeff
Mewies, Sandy
Hedges, Mike
Chapman, Christine
Davies, Keith
Roberts, Aled
Parrott, Eluned
Morgan, Julie
Skates, Kenneth
Watson, Joyce
Jones, Ann
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Drakeford, Mark
Price, Gwyn R.

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4977: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 23.*
*Amendment 1 to NDM4977: For 23, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Isherwood, Mark

| | |
|---|---|
| Hedges, Mike | Jenkins, Bethan |
| Hutt, Jane | Jones, Alun Ffred |
| Jones, Ann | Jones, Elin |
| Jones, Carwyn | Jones, Ieuan Wyn |
| Lewis, Huw | Millar, Darren |
| Mewies, Sandy | Parrott, Eluned |
| Morgan, Julie | Ramsay, Nick |
| Neagle, Lynne | Roberts, Aled |
| Price, Gwyn R. | Thomas, Rhodri Glyn |
| Rathbone, Jenny | Thomas, Simon |
| Skates, Kenneth | Whittle, Lindsay |
| Thomas, Gwenda | Williams, Kirsty |
| Watson, Joyce | Wood, Leanne |

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4977: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 23.*
*Amendment 2 to NDM4977: For 23, Abstain 0, Against 23.*

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:<br>The following Members voted for: | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:<br>The following Members voted against: |
|---|---|
| Andrews, Leighton | Asghar, Mohammad |
| Chapman, Christine | Black, Peter |
| Cuthbert, Jeff | Burns, Angela |
| Davies, Alun | Davies, Andrew R.T. |
| Davies, Keith | Davies, Byron |
| Drakeford, Mark | Davies, Paul |
| Gregory, Janice | Davies, Suzy |
| Griffiths, John | Finch-Saunders, Janet |
| Griffiths, Lesley | Graham, William |
| Hart, Edwina | Isherwood, Mark |
| Hedges, Mike | Jenkins, Bethan |
| Hutt, Jane | Jones, Alun Ffred |
| Jones, Ann | Jones, Elin |
| Jones, Carwyn | Jones, Ieuan Wyn |
| Lewis, Huw | Millar, Darren |
| Mewies, Sandy | Parrott, Eluned |
| Morgan, Julie | Ramsay, Nick |
| Neagle, Lynne | Roberts, Aled |
| Price, Gwyn R. | Thomas, Rhodri Glyn |
| Rathbone, Jenny | Thomas, Simon |
| Skates, Kenneth | Whittle, Lindsay |
| Thomas, Gwenda | Williams, Kirsty |
| Watson, Joyce | Wood, Leanne |

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4978: O blaid 8, Ymatal 0, Yn erbyn 38.*
*Motion NDM4978: For 8, Abstain 0, Against 38.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4978: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 15.*
*Amendment 1 to NDM4978: For 31, Abstain 0, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick

Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4978: O blaid 5, Ymatal 11, Yn erbyn 30.*
*Amendment 2 to NDM4978: For 5, Abstain 11, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Roberts, Aled
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron

Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

5.30 p.m.

*Gwelliant 3 i NDM4978: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Amendment 3 to NDM4978: For 38, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4978: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4978: For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4978: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Amendment 5 to NDM4978: For 38, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon

Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM4978: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 6 to NDM4978: For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan

Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4978 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi â phryder y cynnydd mewn ffigurau diweithdra, yn enwedig ymysg menywod, pobl ifanc a phobl ag anableddau ac effaith y polisïau y mae Llywodraeth y DU yn eu dilyn ar ddiweithdra.*

*2. Yn nodi bod diweithdra yng Nghymru yn dal yn uwch na holl wledydd eraill y DU.*

*3. Yn nodi bod diweithdra ieuenctid yng Nghymru wedi bod yn uwch na chyfradd y DU ym mhob blwyddyn er 2001 a bod 11.5 y cant o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed a 23.3 y cant o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd fel pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.*

*4. Yn nodi'r datganiad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach sy'n honni y gellid cyflogi pawb sy'n chwilio am swydd petai bob busnes bach a chanolig yn recriwtio un unigolyn arall.*

*5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r gymuned fusnes i greu rhagor o gyfleoedd*

*Motion NDM4978 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes, with alarm, the rise in unemployment figures, especially amongst women, young people and people with disabilities and the effect on unemployment of the policies being pursued by the UK Government.*

*2. Notes that unemployment in Wales remains the highest of all the UK nations.*

*3. Notes that youth unemployment in Wales has exceeded the UK rate in every year since 2001 and that 11.5% of 16 to 18 year olds and 23.2% of 19 to 24 year olds are currently classed as Not in Employment, Education or Training.*

*4. Notes the statement from the Federation of Small Businesses claiming that everyone looking for a job could be employed if every SME recruited one more person.*

*5. Calls on the Welsh Government to work constructively with the UK government and the business community to create more job*

*swyddi.* *opportunities.*

*Cynnig NDM4978 fel y'i diwygiwyd: O blaid 31, Ymatal 4, Yn erbyn 10.*
*Motion NDM4978 as amended: For 31, Abstain 4, Against 10.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM4978 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4978 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's proceedings.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.31 p.m.*
*The meeting ended at 5.31 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)